# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 23/04/2013

Cynnwys Contents


Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Datganiad: Adolygiad o Wasanaethau Newyddenedigol ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr
Statement: A Review of Neonatal Services in Betsi Cadwaladr University Local Health Board

Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ardaloedd Menter
Statement: Update on Enterprise Zones

Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ardrethi Busnes
Statement: Update on Business Rates

Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ofal Heb ei Drefnu
Statement: Update on Unscheduled Care

Datganiad: Ymgysylltu a Datblygiad Ieuenctid
Statement: Youth Engagement and Progression

Gofal Diwedd Oes
End-of-Life Care

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

Dadl Fer: Y Tu Hwnt i Fae Caerdydd—Rôl Newidiol Cyfryngau Lleol a Rhanbarthol Ledled Cymru
Short Debate: Beyond Cardiff Bay—The Changing Role of Local and Regional Media across Wales


*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Cysylltiadau Trafnidiaeth

### Transport Connectivity

13:30 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cysylltiadau trafnidiaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1003(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to improve transport connectivity in west Wales? OAQ(4)1003(FM)*

13:30 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol yn amlinellu nifer o gynlluniau ffyrdd a rheilffyrdd mawr y bwriedir eu cynnal yng ngorllewin Cymru, a fydd yn gwella'r cysylltiadau yn yr ardal honno.

The national transport plan sets out a number of major road and rail schemes planned for west Wales, which will improve connectivity in and around west Wales.

13:31 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae etholwyr wedi cysylltu â mi yn ddiweddar yn mynegi pryder ynglŷn â'r cysylltiadau trafnidiaeth rhwng Abergwaun ac Iwerddon. Mae'r cysylltiadau hyn yn bwysig i'n diwydiant twristiaeth, ac, yn wir, i economi Cymru gyfan. Mae'n debyg nad yw amserlenni trenau yn Iwerddon yn cyfateb i amserau'r fferi o Abergwaun, sy'n ei gwneud yn anodd i bobl deithio. Rwyf wedi ysgrifennu at Lywodraeth Iwerddon yn gofyn iddi adolygu'r sefyllfa. Fodd bynnag, a allech chi, Brif Weinidog, ystyried trafod y mater hwn gyda Llywodraeth Iwerddon, er mwyn sicrhau bod y sefyllfa yn gwella?

Constituents have contacted me recently expressing concern about transport links between Fishguard and Ireland. These links are important for our tourism industry and, indeed, for the Welsh economy in general. It appears that the train timetables in Ireland do not marry up with the ferry times from Fishguard, which makes it difficult for people to travel. I have written to the Irish Government asking it to review the situation. However, could you, First Minister, consider raising this issue with the Irish Government in order to bring about an improvement in the situation?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi codi'r mater hwn eisoes, yn anffurfiol. Y broblem yn Rosslare yw i'r orsaf reilffordd gael ei symud, sawl blwyddyn yn ôl, ymhellach o le mae'r fferi yn cyrraedd. O ran fferi'r bore, mae cysylltiad trên, os y cofiaf, ond nid oes cysylltiad o ran y fferi hwyr yn y nos. Mae hynny wedi bod yn wir ers bron i 20 mlynedd, ond nid yw'n sefyllfa dda o ran pobl sy'n teithio allan o harbwr Rosslare. Fodd bynnag, o ran y trenau ar yr ochr honno i'r môr, nid oes cynlluniau—o ran yr hyn rydym ni wedi ei glywed—i dynnu'r gwasanaeth o harbwr Rosslare.

I have already raised this issue, informally. The problem in Rosslare is that the train station was moved, a number of years ago, further away from where the ferry comes in. If I remember correctly, there is a train connection for the morning ferry but not for the late night ferry. That has been the situation for nigh on 20 years, but it is not good for those people travelling out of Rosslare. However, in terms of trains on that side of the sea, there are no plans—as far as we are aware—to pull that service from Rosslare harbour.

13:32 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae gwaith newydd gael ei gwblhau ar ddyblu traciau rheilffordd pont Llwchwr. Roeddwn yn falch o gael ymweld â'r fan yn ystod y cyfnod adeiladu, i weld drosof fy hun effaith y rhaglen £400 miliwn, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Ar ôl creu'r capasiti ychwanegol hwn, a allwch roi diweddariad ynglŷn â sut y bydd cwmnïau trenau yn cyrraedd eu targed o alluogi gwasanaethau amlach, gyda llai o ohiriadau, rhwng Llanelli ac Abertawe?

Work has just been completed on doubling the railway tracks on the Loughor bridge. I was pleased to visit the site during the construction phase, to see for myself the effect of the £400 million programme funded by the Welsh Government. Now that this additional capacity has been created, can you update us on how train companies will achieve their target of securing more frequent services, with fewer delays, between Llanelli and Swansea?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yr hyn sydd wedi cael ei gytuno yw y bydd chwe thrên yn stopio yn Nhre-gŵyr, i bob cyfeiriad, yn ystod yr wythnos. Bydd un gwasanaeth o Gaerdydd i Abertawe yn cael ei estyn i Lanelli, a hefyd bydd gwell capasiti ar bob gwasanaeth i Ddoc Penfro. Mae hynny wedi cael ei gytuno gan Arriva Trains Wales, heb gost ychwanegol i'r trethdalwr.

What has been agreed is that six trains will stop in Gowerton, in each direction, during the week. One service from Cardiff to Swansea is to be extended to Llanelli, and there will be improved capacity on each service to Pembroke Dock. That has been agreed by Arriva Trains Wales, at no additional cost to the taxpayer.

13:33 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Bydd y gwelliant y cyfeiriodd Keith Davies ato ym mhont Llwchwr yn golygu bod modd cynnig gwell gwasanaeth trenau. A ydych wedi rhoi unrhyw ystyriaeth, fel Llywodraeth, i ddatganoli swyddogaethau Network Rail, megis y sefyllfa yn yr Alban, ac a gredwch y byddai hynny'n arwain at fuddsoddi pellach yng Nghymru?

The improvement to which Keith Davies referred on the Loughor bridge will ensure that an improved service can be offered. Have you, as a Government, given any consideration to devolving the functions of Network Rail, as in Scotland, and do you believe that that would lead to further investment in Wales?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Nac ydwyf. Nid yw'n glir y byddai hynny'n golygu bod mwy o arian ar gael i ni i fuddsoddi, ac felly bod mwy o arian yn cael ei fuddsoddi yn rhwydwaith reilffyrdd Cymru. Rydym wastad yn ystyried hyn, os yw rhywbeth o les i Gymru yn ariannol, felly rydym yn edrych ar gefnogi pethau o'r fath. Fodd bynnag, nid yw'n glir o ran y rheilffyrdd a fyddai hynny'n wir ai peidio.

No. It is not clear that that would mean more money for us to invest, and that more money would be invested as a result in the Welsh railway network. We always give consideration to this issue, if something is of financial benefit to Wales, so we look to support such initiatives. However, it is not clear, in terms of the railways, whether or not that would be the case.

Senedd.tv Fideo Video

### Chwaraeon ar Lawr Gwlad

### Grass-roots Sports

13:34 **William Powell** Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gymryd rhan mewn chwaraeon ar lawr gwlad yng Nghymru? OAQ(4)1013(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on grassroots sports participation across Wales? OAQ(4)1013(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We fully support the development of grass-roots sport across Wales. The programme for government highlights our ambitions to increase participation rates and to ensure that young people have good-quality opportunities to participate in a range of sports.

Rydym yn llwyr gefnogi datblygiad chwaraeon llawr gwlad ledled Cymru. Mae'r rhaglen ar gyfer llywodraethu yn tynnu sylw at ein huchelgais i gynyddu cyfraddau cyfranogiad a sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfleoedd o ansawdd da i gymryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon.

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **William Powell** Bywgraffiad Biography

I thank the First Minister for his answer. Last week, I had the pleasure of hosting an event in the Senedd to mark the launch of a report covering the first 10 years of the McDonald's national grass-roots football partnership, which is spearheaded by Sir Geoff Hurst and the legendary Ian Rush, among others. That event was well attended by Assembly Members, and by your Cabinet colleagues. First Minister, I am sure that you will share my disappointment at the news, in the last 24 hours, of the sad demise of Llanelli Association Football Club. However, in the past decade, we have seen, across Wales, the number of after-school sports clubs, particularly football clubs, increase by over 12,000. Given the increasing success of Wales's professional football teams, which is to be celebrated, and the key role that grass-roots sport plays in sustaining that for the future, what measures is your Government prepared to undertake to ensure the continuity of that success in future years?

Diolchaf i'r Prif Weinidog am ei ateb. Yr wythnos diwethaf, cefais y pleser o gynnal digwyddiad yn y Senedd i ddathlu lansiad adroddiad yn trafod 10 mlynedd cyntaf partneriaeth pêl-droed llawr gwlad cenedlaethol McDonald's, sy'n cael ei arwain gan Syr Geoff Hurst a'r arwr Ian Rush, ymhlith eraill. Daeth nifer dda o Aelodau'r Cynulliad, a'ch cydweithwyr yn y Cabinet, i'r digwyddiad hwnnw. Brif Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn rhannu fy siom o glywed y newyddion, yn y 24 awr ddiwethaf, diwedd trist Clwb Pêl-droed Llanelli. Fodd bynnag, yn ystod y degawd diwethaf, rydym ni wedi gweld cynnydd o dros 12,000 yn nifer y clybiau chwaraeon ar ôl ysgol ledled Cymru, a chlybiau pêl-droed yn arbennig. O ystyried llwyddiant cynyddol timau pêl-droed proffesiynol Cymru, sydd yn rhywbeth i'w ddathlu, a'r swyddogaeth allweddol y mae chwaraeon llawr gwlad yn ei gyflawni o ran cynnal hynny ar gyfer y dyfodol, pa gamau y mae eich Llywodraeth yn barod i'w cymryd i sicrhau parhad y llwyddiant hwnnw yn y blynyddoedd i ddod?

Senedd.tv Fideo Video

13:35 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The schools and physical activity task and finish group has been established to provide advice on how to develop the role of schools in increasing levels of physical activity among children and young people, and it will be making its recommendations this summer. This year, Sport Wales will invest £5.3 million in sport governing bodies across Wales to support grass-roots development. That, of course, covers a wide range of sport. I was pleased to be in Newport last Saturday, where I opened the national football centre at Dragon Park, which will be a fantastic facility to develop high-level football, and to provide access to that high level for youngsters across Wales.

Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen ysgolion a gweithgarwch corfforol wedi ei sefydlu i ddarparu cyngor ar sut i ddatblygu swyddogaeth ysgolion wrth gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc, a bydd yn gwneud ei argymhellion yn ystod yr haf hwn. Eleni, bydd Chwaraeon Cymru yn buddsoddi £5.3 miliwn mewn cyrff llywodraethu chwaraeon ledled Cymru i gefnogi datblygiad llawr gwlad. Mae hynny, wrth gwrs, yn cynnwys amrywiaeth eang o chwaraeon. Roeddwn yn falch o fod yng Nghasnewydd ddydd Sadwrn diwethaf, lle yr agorais y ganolfan bêl-droed genedlaethol ym Mharc y Ddraig, a fydd yn gyfleuster gwych i ddatblygu pêl-droed ar lefel uchel, ac i roi mynediad i'r lefel uchel honno i bobl ifanc o bob cwr o Gymru.

13:36 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

One issue that has arisen recently with regard to schools and people engaging with playing soccer is the availability of land and suitable football pitches. With the growth of demand, local authorities are doing an excellent job. It seems to me that there is an opportunity for a review of the availability of suitable sport pitches, with a view to looking at measures such as the use of public land, the release of land and so on. Does the First Minister consider this is to be an appropriate area for the Welsh Government to look into and to report back in due course?

Un mater sydd wedi codi yn ddiweddar o ran ysgolion a phobl yn chwarae pêl-droed yw'r tir a'r caeau pêl-droed addas sydd ar gael. Mae awdurdodau lleol yn gwneud gwaith ardderchog o ystyried y cynnydd mewn galw. Mae'n ymddangos i mi fod cyfle am adolygiad o'r caeau chwaraeon addas sydd ar gael, gyda'r bwriad o ystyried mesurau fel defnyddio tir cyhoeddus, rhyddhau tir ac yn y blaen. A yw'r Prif Weinidog o'r farn bod hwn yn faes priodol i Lywodraeth Cymru ymchwilio iddo ac i adrodd yn ôl maes o law?

13:36 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yes, indeed. I notice that the Member used the word 'soccer', which often creates a frenzy of indignation, because people have always called it 'football'. In the part of the world that I am from, 'football' inevitably meant 'rugby'. We mean 'association football'; let us be absolutely clear on it. I know that there are difficulties in playing regular matches, particularly when there is bad weather. I can tell the Member that Sport Wales is currently carrying out a mapping exercise on the state of our sports facilities across Wales. That will help to inform those partner organisations in the future as to what resources will need to be invested in order to bring those facilities up to scratch.

Ydw wir. Rwy'n sylwi bod yr Aelod wedi defnyddio'r gair 'soccer' sy'n aml yn creu bwrlwm o ddicter, gan fod pobl wedi ei alw'n 'ffwtbol' erioed. Yn yr ardal yr rwyf i'n dod ohoni, roedd 'ffwtbol' yn golygu 'rygbi' bob amser. Rydym ni'n golygu 'association football'; gadewch i ni fod yn gwbl eglur am hynny. Gwn fod anawsterau mewn chwarae gemau rheolaidd, yn enwedig pan fo'r tywydd yn wael. Gallaf ddweud wrth yr Aelod bod Chwaraeon Cymru yn cynnal ymarfer mapio ar gyflwr ein cyfleusterau chwaraeon ledled Cymru ar hyn o bryd. Bydd hynny yn helpu i hysbysu'r sefydliadau partner hynny yn y dyfodol am ba adnoddau fydd angen buddsoddi ynddynt er mwyn sicrhau bod y cyfleusterau hynny'n bodloni'r safon angenrheidiol.

13:37 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Local amateur sport clubs and leagues in Cardiff are seriously concerned by the Labour-controlled council's decision to impose large increases in fees for sport facilities. These increases will damage grass-roots sport and send out the wrong message at a time when health is high on the agenda and we are trying to build on the Olympic legacy. Will the First Minister join me in condemning these unpopular, unwise and unfair charges on grass-roots sports in Cardiff?

Mae penderfyniad y cyngor a reolir gan Lafur i wneud cynnydd mawr i'r ffioedd ar gyfer cyfleusterau chwaraeon yn peri pryder difrifol i glybiau a chynghreiriau chwaraeon amatur lleol yng Nghaerdydd. Bydd y cynnydd hwn yn niweidio chwaraeon llawr gwlad ac yn anfon y neges anghywir ar adeg pan fo iechyd yn uchel ar yr agenda a'n bod yn ceisio adeiladu ar yr etifeddiaeth Olympaidd. A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi i gondemnio'r costau amhoblogaidd, annoeth ac annheg hyn i chwaraeon llawr gwlad yng Nghaerdydd?

13:38 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

That is a matter for Cardiff council.

Mater i gyngor Caerdydd yw hwnnw.

13:38 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am, and always have been, a rugby fan first and foremost, but I do not think that you need to be a big fan of football to realise that it receives inequitable treatment. In its most recent annual report, the Welsh Rugby Union reportedly gave £27 million to grass-roots Welsh rugby clubs, with significant millions going directly to community rugby. We have heard, First Minister, what you plan to do to improve the grass-roots football game in Wales, but do you plan on meeting with the two Premier League clubs and the Football Association of Wales to see how best your Government and football can work together to improve the game for all and to ensure that the Gareth Bales of the future can stay in Wales?

Rwyf i, ac rwyf wedi bod erioed, yn gefnogwr rygbi yn gyntaf oll, ond nid wyf yn credu bod angen i chi fod yn gefnogwr brwd o bêl-droed i sylweddoli ei bod yn cael triniaeth annheg. Yn ei adroddiad blynyddol diweddaraf, dywedir bod Undeb Rygbi Cymru wedi rhoi £27 miliwn i glybiau rygbi llawr gwlad Cymru, a bod rhai miliynau wedi mynd i rygbi cymunedol yn uniongyrchol. Rydym wedi clywed, Brif Weinidog, yr hyn yr ydych yn bwriadu ei wneud i wella pêl-droed llawr gwlad yng Nghymru, ond a ydych chi'n bwriadu cyfarfod gyda'r ddau glwb Uwch Gynghrair Lloegr a Chymdeithas Bêl-droed Cymru i weld sut y gall eich Llywodraeth a phêl-droed weithio orau gyda'i gilydd i wella'r gêm i bawb ac i sicrhau y gall chwaraewyr fel Gareth Bale y dyfodol aros yng Nghymru?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I do meet with the clubs regularly, as well as with the FAW; I met with it last Saturday. We were able to contribute £400,000 to the building of Dragon Park, which demonstrates the Welsh Government's commitment to the development of football in Wales.

Rwyf yn cwrdd gyda'r clybiau yn rheolaidd, yn ogystal â gyda CBDC; cefais gyfarfod â'r Gymdeithas ddydd Sadwrn diwethaf. Roeddem yn gallu cyfrannu £400,000 at adeiladu Parc y Ddraig, sy'n dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu pêl-droed yng Nghymru.

13:39 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Following David Cameron's rejection of Tanni Grey-Thompson to be the chair of Sport England, despite being recommended for the appointment by the appointing panel, will there be more opportunities for us in Wales to use her in grass-roots sports participation?

Ar ôl i David Cameron wrthod Tanni Grey-Thompson fel cadeirydd Sport England, er iddi gael ei hargymell ar gyfer y penodiad gan y panel penodi, a fydd mwy o gyfle i ni yng Nghymru ei defnyddio ar gyfer cyfranogiad mewn chwaraeon llawr gwlad?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I certainly hope that England's loss is Wales's gain. She does, at present, chair a task and finish group on physical activity in schools, which will report its recommendations to us in May. We would certainly consider the best way to use her wealth of experience in the future.

Rwy'n sicr yn gobeithio y bydd colled Lloegr o fantais i Gymru. Mae'n cadeirio grŵp gorchwyl a gorffen ar weithgarwch corfforol mewn ysgolion ar hyn o bryd, a fydd yn ein hysbysu am ei argymhellion ym mis Mai. Byddem yn sicr yn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio ei chyfoeth o brofiad yn y dyfodol.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:40 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Last week, your flagship housing scheme, NewBuy Cymru, was cancelled by your Government after months of stalling. The day before, your flagship employment scheme, Genesis, was scrapped as well, and you choose to blame the UK Government. Why was your housing scheme, after months of stalling, shelved last week?

Yr wythnos diwethaf, diddymwyd eich cynllun tai blaenllaw, NewBuy Cymru, gan eich Llywodraeth ar ôl misoedd o oedi. Y diwrnod cynt, diddymwyd eich cynllun cyflogaeth blaenllaw, Genesis, hefyd, ac rydych yn dewis rhoi'r bai ar Lywodraeth y DU. Pam y rhoddwyd eich cynllun tai o'r neilltu yr wythnos diwethaf, ar ôl misoedd o oedi?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Just to make the situation clear, as the Minister did in committee, events have overtaken us in terms of the UK Government's scheme. However, as he also made clear in the committee, consideration is now being given to an interim scheme to help those who would have been helped by NewBuy Cymru. Clearly, the scheme could not continue, given that the Home Builders Federation and, indeed, the Council of Mortgage Lenders indicated that they could not now support it, given the existence of the UK scheme.

Er mwyn gwneud y sefyllfa'n eglur, fel y gwnaeth y Gweinidog yn y pwyllgor, mae digwyddiadau wedi ein goddiweddyd o ran cynllun Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, fel y'i gwnaeth yn eglur hefyd yn y pwyllgor, mae ystyriaeth yn cael ei rhoi bellach i gynllun dros dro i helpu'r rhai a fyddai wedi cael eu helpu gan NewBuy Cymru. Yn amlwg, ni allai'r cynllun barhau, o ystyried bod y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi ac, yn wir, y Cyngor Benthycwyr Morgeisi wedi nodi na allent ei gefnogi bellach, o ystyried bodolaeth cynllun y DU.

13:40 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister, but that scheme would have made a difference in a stagnant housing market in which the first-time buyer today is 36 years old. It cannot be the case that the Home Builders Federation did not support the scheme. The managing director of Redrow Wales said,

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog, ond byddai'r cynllun hwnnw wedi gwneud gwahaniaeth mewn marchnad dai farwaidd lle mae'r prynwr tro cyntaf yn 36 mlwydd oed bellach. Ni all fod yn wir nad oedd y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi yn cefnogi'r cynllun. Meddai rheolwr gyfarwyddwr Redrow Cymru,

'We want it on the third of June as promised and I'm sure every developer in Wales will still want to support this scheme.'

Rydym eisiau ei gael ar y trydydd o Fehefin fel yr addawyd ac rwy'n siŵr y bydd pob datblygwr yng Nghymru yn dal yn awyddus i gefnogi'r cynllun hwn.

The Royal Institution of Chartered Surveyors said,

Meddai Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig,

'We believe this scheme would have worked well in conjunction with Help to Buy as the schemes together would have addressed both the new-build market and the second homes market.'

Rydym yn credu y byddai'r cynllun hwn wedi gweithio'n dda ar y cyd â Cymorth i Brynu gan y byddai'r cynlluniau gyda'i gilydd wedi mynd i'r afael â'r farchnad adeiladau newydd a'r farchnad ail gartrefi.'

Is it not the case, First Minister, that you have clearly failed to offer any support to the housing market in Wales? Is it not the case that your Government has failed to deliver for the people of Wales when, in your opening remarks two years ago, you talked about the mantra of delivery for the people of Wales?

Onid yw'n wir, Brif Weinidog, eich bod yn amlwg wedi methu â chynnig unrhyw gymorth i'r farchnad dai yng Nghymru? Onid yw'n wir fod eich Llywodraeth wedi methu â chyflawni ar gyfer pobl Cymru pan, yn eich sylwadau agoriadol ddwy flynedd yn ôl, y soniwyd gennych am y mantra o gyflawni ar gyfer pobl Cymru?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

How can he talk about putting a roof over people's heads when his party introduced the bedroom tax? How can he talk about that? The reality of the situation is quite simply this: the Council of Mortgage Lenders and the Home Builders Federation both said in writing—I have seen the letters—that they could not support the scheme in its present guise, because of the introduction of the UK scheme. No Minister can ignore that, which is why the Minister made clear in committee that we are now looking at whether a different scheme, which would prove more attractive to those two bodies, could be implemented.

Sut all ef siarad am roi to uwch bennau pobl pan gyflwynodd ei blaid y dreth ystafell wely? Sut y gall ef siarad am hynny? Yn syml, gwirionedd y sefyllfa yw hyn: dywedodd y Cyngor Benthycwyr Morgeisi a'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi yn ysgrifenedig—rwyf wedi gweld y llythyrau—na allent gefnogi'r cynllun ar ei ffurf bresennol, oherwydd cyflwyniad cynllun y DU. Ni all yr un Gweinidog anwybyddu hynny, a dyna pam y gwnaeth y Gweinidog hi'n eglur yn y pwyllgor ein bod bellach yn ystyried a ellid gweithredu cynllun gwahanol, a fyddai'n fwy deniadol i'r ddau gorff hynny.

13:42 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I have just quoted the regional director of Redrow Homes. He has quoted colleagues of his who have also shown their disgust. They had the marketing schemes in place for the launch of this scheme. We have also shown what the surveyors have been saying about this scheme. As I have said to you time and again, there is no change in the mantra of your Government from those of previous Assembly Governments and you are failing to deliver for the people of Wales. The Scottish Government, for example, sees no compromise in its scheme and it is happy to run the two schemes in parallel. Why is it the case, First Minister, that, time and again, when you bring policies forward, they fall at the first hurdle? A sum of £36 million shelved last week because of the failure of the Genesis back-to-work programme, and now house builders have to face the same inadequacies from your Government. Is it not quite simply, as the regional director of Redrow Homes said, that it just simply is not good enough?

Brif Weinidog, rwyf newydd ddyfynnu cyfarwyddwr rhanbarthol Redrow Homes. Mae wedi dyfynnu cydweithwyr iddo sydd hefyd wedi dangos eu diflastod. Roedden nhw wedi paratoi'r cynlluniau marchnata ar gyfer lansiad y cynllun hwn. Rydym hefyd wedi dangos yr hyn y mae'r syrfewyr wedi bod yn ei ddweud am y cynllun hwn. Fel rwyf wedi ei ddweud wrthych chi dro ar ôl tro, nid oes unrhyw newid rhwng mantra eich Llywodraeth chi a rhai Llywodraethau blaenorol y Cynulliad ac rydych yn methu â chyflawni ar gyfer pobl Cymru. Nid yw Llywodraeth yr Alban, er enghraifft, yn gweld unrhyw gyfaddawdu i'w chynllun ac mae'n hapus i redeg y ddau gynllun yn gyfochrog. Pam, Brif Weinidog, dro ar ôl tro pan fyddwch yn cyflwyno polisïau, eu bod yn methu ar y cam cyntaf? Diddymwyd swm o £36 miliwn yr wythnos diwethaf oherwydd methiant rhaglen dychwelyd i'r gwaith Genesis, a nawr mae'n rhaid i adeiladwyr tai wynebu'r un diffygion gan eich Llywodraeth. Onid yw hyn, fel y dywedodd cyfarwyddwr rhanbarthol Redrow Homes, yn fater o beidio â bod yn ddigon da?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

If the regional director of Redrow Homes is disagreeing with the Home Builders Federation, he may as well say so, because that is not what the Home Builders Federation said in writing to the Minister. The leader of the opposition is either suggesting that the Home Builders Federation is, in some way, untruthful, or that it is not representing its members. That is a matter for it to deal with, in terms of Redrow, but that is what was put down in writing. We have to have regard to that. That is something that we will consider as we put a new scheme in place.

Os yw cyfarwyddwr rhanbarthol Redrow Homes yn anghytuno â'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi, yna dylai ddweud hynny, oherwydd nid dyna'r hyn a ddywedodd y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi wrth ysgrifennu at y Gweinidog. Mae arweinydd yr wrthblaid naill ai'n awgrymu bod y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi yn dweud celwydd mewn rhyw ffordd, neu nad yw'n cynrychioli ei aelodau. Mae hynny'n fater i'r ffederasiwn ymdrin ag ef, o ran Redrow, ond nid dyna'r hyn a nodwyd yn ysgrifenedig. Mae'n rhaid i ni gymryd sylw o hynny. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn ei ystyried wrth i ni sefydlu cynllun newydd.

**Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

He talks about failure; we all see what happens when his party runs things in London. We all see the mess that has been made of the economy. The real problem with the housing market is that people do not have access to credit, do not have money and cannot buy houses; that is all down to his party.

Mae'n sôn am fethiant; rydym i gyd yn gweld beth sy'n digwydd pan fydd ei blaid yn rhedeg pethau yn Llundain. Rydym i gyd yn gweld y llanastr sydd wedi cael ei wneud o'r economi. Y broblem go iawn gyda'r farchnad dai yw nad oes gan bobl fynediad at gredyd, nad oes ganddynt arian ac na allant brynu tai; ei blaid ef sy'n gyfan gwbl gyfrifol am hynny.

13:44 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

First Minister, the Secretary of State for Wales tells us that there is a recovery taking place in Wales. However, the shadow Secretary of State for Wales says that living standards in Wales have been falling faster than in almost every other part of Europe. Can you tell us who you agree with—your spokesperson in Westminster or the UK Government?

Brif Weinidog, mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn dweud wrthym fod adferiad yn digwydd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr Wrthblaid yn dweud bod safonau byw yng Nghymru wedi bod yn gostwng yn gyflymach nag yn bron i bob rhan arall o Ewrop. A allwch chi ddweud wrthym gyda phwy rydych chi'n cytuno—eich llefarydd yn San Steffan neu Lywodraeth y DU?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am always asked to agree with somebody in Westminster. I do not agree with the Secretary of State, in terms of what he says about the economy. Coming back to the point that was made earlier, one of the biggest tests that the leader of the opposition will face will come when and if his party decides to support the devolution of stamp duty. We could do a tremendous amount with stamp duty to help the housing market; will his party deliver on it? We will wait to see whether he can deliver on something that he supported in Silk or whether his Secretary of State will leave him high and dry. The reality is that we know the difficulties that the economy has faced, certainly since 2008, and the leader of Plaid Cymru will be fully aware of what we have done in order to assist people in that time.

Gofynnir i mi gytuno â rhywun yn San Steffan bob amser. Nid wyf yn cytuno â'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran yr hyn mae'n ei ddweud am yr economi. I ddod yn ôl at y pwynt a wnaed yn gynharach, bydd un o'r profion mwyaf y bydd arweinydd yr wrthblaid yn ei wynebu yn dod pan ac os bydd ei blaid yn penderfynu cefnogi datganoli'r dreth stamp. Gallem wneud llawer iawn gyda'r dreth stamp i helpu'r farchnad dai; a fydd ei blaid yn cyflawni yn hyn o beth? Byddwn yn aros i weld a all ddarparu rhywbeth y gwnaeth ei gefnogi yn Silk neu a fydd ei Ysgrifennydd Gwladol yn ei adael ar y clwt. Y gwir amdani yw ein bod yn gwybod yr anawsterau y mae'r economi wedi eu hwynebu, yn sicr ers 2008, a bydd arweinydd Plaid Cymru yn gwbl ymwybodol o'r hyn yr ydym ni wedi ei wneud i gynorthwyo pobl yn ystod y cyfnod hwnnw.

Senedd.tv Fideo Video

13:45 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

First Minister, I am not very interested in what the leader of the opposition has to say; I am more interested in your answers, as, I am sure, are the people of Wales, and I would be very grateful if you could answer in a straight manner. First Minister, underemployment is a major part of the productivity gap in Wales. Nearly 134,000 people are underemployed, which is an increase of almost 50,000 since before the recession began. These are hard-working people who want to work or who are doing jobs for which they are overqualified. First Minister, our country cannot reach its full potential at all, if our people are not reaching their full potential. A Plaid Cymru Government would work with businesses to assist with childcare. We would fight for research and development jobs, and we would work with small businesses to support them, to create work. What are you doing to tackle this problem of underemployment?

Brif Weinidog, nid oes gen i lawer o ddiddordeb yn yr hyn sydd gan arweinydd yr wrthblaid i'w ddweud; mae gen i fwy o ddiddordeb yn eich atebion chi, fel, rwy'n siŵr, y mae gan bobl Cymru, a byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech ateb mewn ffordd ddidwyll. Brif Weinidog, mae tangyflogaeth yn rhan fawr o'r bwlch cynhyrchiant yng Nghymru. Mae bron i 134,000 o bobl yn cael eu tangyflogi, sy'n gynnydd o bron i 50,000 ers cyn i'r dirwasgiad ddechrau. Mae'r rhain yn bobl sy'n gweithio'n galed sydd eisiau gweithio neu sy'n gwneud swyddi y mae ganddynt ormod o gymwysterau ar eu cyfer. Brif Weinidog, ni all ein gwlad wireddu ei llawn botensial o gwbl, os nad yw ein pobl yn gwireddu eu llawn botensial. Byddai Llywodraeth Plaid Cymru yn gweithio gyda busnesau i helpu gyda gofal plant. Byddem yn ymladd am swyddi ymchwil a datblygu, a byddem yn gweithio gyda busnesau bach i'w cefnogi, i greu gwaith. Beth ydych chi'n ei wneud i fynd i'r afael â'r broblem hon o dangyflogaeth?

Senedd.tv Fideo Video

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

All those things. When we look at the past, I sometimes believe that Plaid Cymru is guilty of some kind of amnesia, given the fact that they were in charge of economic development for four years. That is something that they sometimes conveniently forget. However, she asked for specific examples: I talked, of course, about Jobs Growth Wales. She asked about qualifications: we have the Pathways to Apprenticeships schemes and the apprenticeship matching schemes. In terms of support for businesses, we have Finance Wales, the Wales SME growth fund, loans to SMEs, the digital development fund and a number of other projects in place that are helping people. We saw good news yesterday in the announcement made by Ford. We have helped Airbus in terms of it getting into position so that it had a substantial order from British Airways yesterday, and, of course, we will be supporting Horizon as it places Wylfa B and 600 jobs in Anglesey.

Yr holl bethau hynny. Pan edrychwn ni ar y gorffennol, rwy'n credu weithiau bod Plaid Cymru yn euog o ryw fath o amnesia, o ystyried y ffaith mai nhw oedd yn gyfrifol am ddatblygu economaidd am bedair blynedd. Mae hynny'n rhywbeth y maen nhw weithiau'n ei anghofio'n gyfleus. Fodd bynnag, gofynnodd am enghreifftiau penodol: siaradais, wrth gwrs, am Twf Swyddi Cymru. Gofynnodd am gymwysterau: mae'r cynlluniau Llwybrau at Brentisiaethau gennym a'r cynlluniau paru prentisiaethau. O ran cymorth i fusnesau, mae Cyllid Cymru gennym, cronfa twf BBaChau Cymru, benthyciadau i BBaChau, y gronfa datblygu digidol a nifer o brosiectau eraill wedi'u sefydlu sy'n helpu pobl. Gwelsom newyddion da ddoe yn y cyhoeddiad a wnaed gan Ford. Rydym ni wedi helpu Airbus i gyrraedd sefyllfa fel ei fod wedi cael archeb sylweddol gan British Airways ddoe, ac, wrth gwrs, byddwn yn cefnogi Horizon wrth iddo osod Wylfa B a 600 o swyddi ar Ynys Môn.

Senedd.tv Fideo Video

13:47 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is good to hear, First Minister, that you are supporting so many of Plaid Cymru's ideas. A survey by the Federation of Master Builders today showed that the construction industry in Wales is more positive about the future of the industry here than in any other country in the UK. It is good news, which could well be related to the Welsh Government's announcement in support of Plaid Cymru's campaign to create more jobs in Wales through better use of the public pound. However, the BBC reports that only two of the 22 local authorities in Wales are currently meeting these public procurement standards. First Minister, are you now prepared to fully back Plaid Cymru's procurement proposals and agree to legislate to improve public sector procurement, which could create up to 50,000 jobs?

Mae'n dda clywed, Brif Weinidog, eich bod yn cefnogi cynifer o syniadau Plaid Cymru. Mae arolwg gan Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr heddiw yn dangos bod y diwydiant adeiladu yng Nghymru yn fwy cadarnhaol am ddyfodol y diwydiant yma nag mewn unrhyw wlad arall yn y DU. Mae'n newyddion da, a allai'n hawdd fod yn gysylltiedig â chyhoeddiad Llywodraeth Cymru yn cefnogi ymgyrch Plaid Cymru i greu mwy o swyddi yng Nghymru trwy well defnydd o arian cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r BBC yn adrodd mai dim ond dau o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru sy'n bodloni'r safonau caffael cyhoeddus hyn ar hyn o bryd. Brif Weinidog, a ydych chi'n barod nawr i gefnogi cynigion caffael Plaid Cymru yn llawn a chytuno i ddeddfu i wella caffael yn y sector cyhoeddus, a allai greu hyd at 50,000 o swyddi?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Sometimes, when I listen to Plaid Cymru, it is a bit like those people who turn up at a bar who are always late and always say, 'I'm too late to buy the round'. They are always late arriving, and we see that in what she has just said. None of these ideas are Plaid Cymru ideas. Jobs Growth Wales is not a Plaid Cymru idea. The apprenticeship matching scheme is not a Plaid Cymru idea. The Wales SME growth fund is not a Plaid Cymru idea. The money that has been given to Ford is not a Plaid Cymru idea. However, I am surprised to hear now that, apparently, support for Wylfa B is a Plaid Cymru idea. That is something that is certainly new in this Chamber. If that is the situation now, then I very much welcome it, because we know that it will provide a substantial number of jobs in the north-west, Anglesey and beyond, and we are committed to supporting it. As I have said many times, there are many schemes in place that are helping businesses in Wales, and we have seen those examples, such as Ford yesterday, where more than 500 jobs were preserved as a result of Welsh Government action, working with the company.

Weithiau, pan rwy'n gwrando ar Blaid Cymru, mae'n debyg i'r bobl hynny sydd bob amser yn cyrraedd y dafarn yn hwyr ac yn dweud bob tro, 'Rwy'n rhy hwyr i brynu'r rownd'. Maen nhw'n hwyr yn cyrraedd bob amser, ac rydym yn gweld hynny yn yr hyn y mae hi newydd ei ddweud. Nid oes yr un o'r syniadau hyn yn syniadau Plaid Cymru. Nid syniad Plaid Cymru yw Twf Swyddi Cymru. Nid syniad Plaid Cymru yw'r cynllun paru prentisiaethau. Nid syniad Plaid Cymru yw cronfa twf BBaChau Cymru. Nid syniad Plaid Cymru yw'r arian a roddwyd i Ford. Fodd bynnag, rwy'n synnu i glywed nawr mai syniad Plaid Cymru yw cefnogi Wylfa B, mae'n debyg. Mae hynny'n sicr yn rhywbeth newydd yn y Siambr hon. Os mai dyna'r sefyllfa nawr, yna rwy'n croesawu hynny'n fawr, gan ein bod yn gwybod y bydd yn darparu nifer sylweddol o swyddi yn y gogledd-orllewin, ar Ynys Môn a thu hwnt, ac rydym wedi ymrwymo i'w gefnogi. Fel rwyf wedi dweud sawl gwaith, mae llawer o gynlluniau ar waith sy'n helpu busnesau yng Nghymru, ac rydym wedi gweld yr enghreifftiau hynny, fel Ford ddoe, lle cadwyd mwy na 500 o swyddi o ganlyniad i gamau Llywodraeth Cymru, yn gweithio gyda'r cwmni.

13:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:49 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

First Minister, may I return to the issue of help for first-time buyers? I did not hear a clear answer to any of the previous questions. English first-time buyers had a scheme announced by the Westminster Government in November 2011. Discussions between Welsh Liberal Democrats and your Government on a scheme for Wales started in January 2012, and in May 2012, you announced that help would be available. Twelve months down the line, that scheme has now collapsed. Why has it taken you 12 months as a Government to provide the help that first-time buyers desperately need? Now that you have made reference to an interim scheme, will you please assure us that first-time buyers will not have to wait a further 12 months for action?

Brif Weinidog, a gaf i ddychwelyd at y mater o gymorth i brynwyr tro cyntaf? Ni chlywais ateb eglur i unrhyw un o'r cwestiynau blaenorol. Cyhoeddwyd cynllun i brynwyr tro cyntaf yn Lloegr ym mis Tachwedd 2011. Dechreuodd trafodaethau rhwng Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a'ch Llywodraeth chi ar gynllun ar gyfer Cymru ym mis Ionawr 2012, ac ym mis Mai 2012, cyhoeddwyd gennych y byddai cymorth ar gael. Flwyddyn yn ddiweddarach, mae'r cynllun hwnnw wedi'i chwalu. Pam mae wedi cymryd blwyddyn i chi fel Llywodraeth ddarparu'r cymorth y mae prynwyr tro cyntaf ei angen yn daer? Nawr eich bod wedi cyfeirio at gynllun dros dro, a wnewch chi ein sicrhau, os gwelwch yn dda, na fydd yn rhaid i brynwyr tro cyntaf aros blwyddyn arall am gamau pellach?

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

It is a fair question that the leader of the Welsh Liberal Democrats asks. The reality is that there was a substantial amount of discussion with lenders in Wales, and a substantial amount of work was put in to put a scheme in place. That scheme was scheduled for 3 June. We know that the UK scheme then superseded the original NewBuy scheme, but I can certainly say, as I said earlier on, that we are looking to see what scheme might be put in place that would be workable as far as the Council of Mortgage Lenders and the Home Builders Federation are concerned.

Mae'n gwestiwn teg y mae arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ei ofyn. Y gwirionedd yw y bu llawer iawn o drafodaethau gyda benthycwyr yng Nghymru, a gwnaed llawer iawn o waith i sefydlu cynllun. Roedd y cynllun hwnnw wedi ei drefnu ar gyfer 3 Mehefin. Rydym yn gwybod bod cynllun y DU wedi disodli'r cynllun NewBuy gwreiddiol wedyn, ond gallaf yn bendant ddweud, fel y dywedais yn gynharach, ein bod yn ystyried pa gynllun y gellid ei sefydlu a fyddai'n ymarferol cyn belled ag y mae'r Cyngor Benthycwyr Morgeisi a'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi yn y cwestiwn.

13:50 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

It is obviously crucial that you have a good working relationship with potential house builders. You will be well aware of the disappointment expressed by Redrow about the collapse of the scheme and that the Federation of Master Builders described it as a blow. Are you aware that Taylor Wimpey, on its website today, is still advertising a scheme that your Government scrapped last week? What discussions have you had with those people who will build these vitally needed homes to ensure that we will not see another fiasco with the interim scheme not developing into real help for first-time buyers and for our construction industry?

Mae'n amlwg yn hanfodol bod gennych berthynas waith dda gyda darpar adeiladwyr tai. Byddwch yn ymwybodol o'r siom a fynegwyd gan Redrow am fethiant y cynllun a bod Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr wed ei ddisgrifio fel ergyd. A ydych yn ymwybodol bod Taylor Wimpey, ar ei wefan heddiw, yn dal i hysbysebu cynllun a ddiddymwyd gan eich Llywodraeth yr wythnos diwethaf? Pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael â'r bobl hynny a fydd yn adeiladu'r tai hyn y mae wir eu hangen er mwyn sicrhau na fyddwn yn gweld llanastr arall wrth i'r cynllun dros dro beidio â datblygu'n help gwirioneddol i brynwyr tro cyntaf ac ar gyfer ein diwydiant adeiladu?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

It comes down to questions as to whether the Home Builders Federation has represented the views of its members. I have seen what has been put down in writing; Redrow has said something different and maybe others will do so over the next few days. That is a matter for them to take up with the Home Builders Federation. We have to talk to the industry body. That said, it is useful to know that there are companies who are willing to work towards a new scheme and we will certainly be talking to them about that over the course of the next few weeks.

Mae'n ymwneud yn ei hanfod â chwestiynau ynghylch a yw'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi wedi cynrychioli barn ei aelodau. Rwyf wedi gweld yr hyn a nodwyd ganddo yn ysgrifenedig; Mae Redrow wedi dweud rhywbeth gwahanol ac efallai y bydd eraill yn gwneud hynny dros y diwrnodau nesaf. Mae hynny'n fater iddyn nhw ei drafod gyda'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi. Mae'n rhaid i ni siarad â chorff y diwydiant. Wedi dweud hynny, mae'n ddefnyddiol gwybod bod cwmnïau ar gael sy'n barod i weithio tuag at gynllun newydd a byddwn yn sicr yn siarad â nhw am hynny yn ystod yr wythnosau nesaf.

13:51 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am not quite clear, First Minister, why you have to speak exclusively to the industry body and that body alone, rather than to individual construction companies. So far this afternoon, we have established that it has taken your Government a year to do absolutely nothing and that the scheme has collapsed because another Government has dared to come up with something better. That aside, and given your announcement on an interim scheme today, when will Welsh first-time buyers and the construction industry see a scheme up and working in Wales? A simple date would be a very acceptable answer.

Nid wyf yn gwbl eglur, Brif Weinidog, pam mae'n rhaid i chi siarad dim ond â chorff y diwydiant a'r corff hwnnw yn unig, yn hytrach nag â chwmnïau adeiladu unigol. Hyd yn hyn y prynhawn yma, rydym wedi darganfod ei bod wedi cymryd blwyddyn i'ch Llywodraeth wneud dim byd o gwbl a bod y cynllun wedi dod i ben gan fod Llywodraeth arall wedi meiddio â meddwl am rywbeth gwell. Ac eithrio hynny, ac o ystyried eich cyhoeddiad ar gynllun dros dro heddiw, pryd fydd prynwyr tro cyntaf yng Nghymru a'r diwydiant adeiladu yn gweld cynllun ar waith yng Nghymru? Byddai dyddiad syml yn ateb derbyniol iawn.

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Of course, they will have access to the UK scheme. We will now work with those in the industry in order to make sure that we have a workable scheme going forward as quickly as possible. The one thing that I do have to say is: who on earth do you expect us to talk to if it is not the industry body? It is a reasonable assumption to think that the industry body will represent those who are its members. If that is not the case, that is for the members to take up with the industry body, but I do not think that there can be criticism of that, given the fact that there has to be an organisation with which engagement can take place.

Wrth gwrs, bydd ganddynt fynediad at gynllun y DU. Byddwn yn gweithio gyda'r rhai yn y diwydiant nawr er mwyn gwneud yn siŵr bod gennym gynllun ymarferol a fydd yn symud ymlaen cyn gynted â phosibl. Yr un peth y mae'n rhaid i mi ei ddweud yw: pwy ar y ddaear ydych chi'n disgwyl i ni siarad â nhw os nad corff y diwydiant? Mae'n dybiaeth resymol i feddwl y bydd corff y diwydiant yn cynrychioli'r rhai sy'n aelodau ohono. Os nad yw hynny'n wir, mater i'r aelodau ei godi gyda chorff y diwydiant yw hynny, ond nid wyf yn credu y gellir beirniadu hynny, o ystyried y ffaith bod yn rhaid bod sefydliad y gellir ymgysylltu ag ef.

Senedd.tv
Fideo Video

## Rhaglen Genesis Cymru Wales 2

## Genesis Cymru Wales 2 Programme

13:52 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Prif Weinidog nodi pa wersi sydd wedi'u dysgu yn sgîl methiant rhaglen Genesis Cymru Wales 2? OAQ(4)1005(FM)*

*3. Will the First Minister detail what lessons have been learnt from the failure of the Genesis Cymru Wales 2 programme? OAQ(4)1005(FM)*

Senedd.tv
Fideo Video

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Those lessons are being incorporated as part of the transitional arrangements currently being taken forward with local authorities. Those arrangements will be fully evaluated during the course of this year in order to see better delivery from 2014 onwards.

Mae'r gwersi hynny yn cael eu cynnwys yn rhan o'r trefniadau pontio sy'n cael eu datblygu gydag awdurdodau lleol ar hyn o bryd. Bydd y trefniadau hynny'n cael eu gwerthuso'n llawn yn ystod y flwyddyn hon er mwyn gweld darpariaeth well o 2014 ymlaen.

Senedd.tv
Fideo Video

13:53 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

First Minister, I am sure that you will agree with me that lessons need to be learned. If you look at the statistics regarding the Genesis 2 project, they are quite staggering: only 5% of the original target of helping 20,000 people back into work has been reached. It is not surprising that your Government has pulled the plug on this scheme. How can the people of Wales have confidence in you and the Welsh Government that other schemes that are being run by the Welsh Government, in terms of employment and other areas of policy, are fit for purpose and are not falling at the first hurdle, like Genesis 2?

Brif Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno â mi bod angen dysgu gwersi. Os edrychwch chi ar yr ystadegau yn ymwneud â phrosiect Genesis 2, maen nhw'n eithaf syfrdanol: cyrhaeddwyd dim ond 5% o'r targed gwreiddiol o helpu 20,000 o bobl i ddychwelyd i'r gwaith. Nid yw'n syndod bod eich Llywodraeth wedi rhoi terfyn ar y cynllun hwn. Sut all pobl Cymru fod gael hyder ynoch chi a Llywodraeth Cymru fod cynlluniau eraill sy'n cael eu rhedeg gan Lywodraeth Cymru, o ran cyflogaeth a meysydd polisi eraill, yn addas i'w diben ac nad ydynt yn methu ar y cam cyntaf, fel Genesis 2?

Senedd.tv
Fideo Video

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Job Growth Wales is a roaring success as regards the opportunities offered and the positions filled. That is just one example among many of where this Government is delivering.

Mae Twf Swyddi Cymru yn llwyddiant ysgubol o ran y cyfleoedd a gynigir a'r swyddi a lenwyd. Un enghraifft yn unig ymhlith llawer yw hon o'r ffordd y mae'r Llywodraeth hon yn cyflawni.

Senedd.tv
Fideo Video

13:53 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, a yw'r angen a oedd yn cael ei adnabod yn y lle cyntaf am Genesis 2 yn dal i fod yn ei le? Os yw'r angen yn dal yn ei le, pa gynlluniau sydd gennych ar gyfer rhaglen amgen ac ym mha ffordd y gallwch wneud yn siŵr bod y rhaglen honno yn cael ei chyflawni?

First Minister, is the need identified initially for Genesis 2 sill there? If it is, what plans do you have for an alternative programme and how will you ensure that that programme will deliver?

Senedd.tv
Fideo Video

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Y peth cyntaf yr ydym yn ei wneud yw sicrhau na fydd hyn yn cael effaith negyddol ar y rhai sy'n rhan o'r cynllun ar hyn o bryd. Mae trafodaethau'n cymryd lle gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod hynny'n digwydd ac rydym yn edrych i weld ym mha ffordd y dylai cynllun newydd gael ei ystyried er mwyn helpu'r bobl y dylid eu helpu. Nid wyf yn credu bod unrhyw fath o ddadl ynglŷn â'r grŵp a oedd yn cael help, ond yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn cael y cynllun mwyaf positif a gweithredol er mwyn sicrhau bod yr help hwnnw ar gael yn y ffordd fwyaf effeithiol yn y dyfodol.

The first thing that we are doing is to ensure that those who are part of the scheme at present are not negatively affected. Discussions are taking place with local authorities to ensure that that happens and we are looking at how a new scheme should be considered in order to help the people who should be helped. I do not think that there is any debate regarding the group of people who were receiving help, but what is important is that we get the most positive and practical scheme to ensure that that help is available in the most effective way in future.

Senedd.tv Fideo Video

13:54 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

First Minister, what assessment have you made of the regional variations between the different places in which the scheme is operating? I have been approached by people who felt that, in their local area, it was making a big difference, and others who felt that it was making less of a difference in different places. What lessons can be learned about the difference between different urban and rural locations in the delivery of this scheme?

Brif Weinidog, pa asesiad ydych chi wedi ei wneud o'r amrywiadau rhanbarthol rhwng y gwahanol leoedd lle mae'r cynllun ar waith? Mae pobl wedi cysylltu â mi a oedd yn teimlo ei ford wedi gwneud gwahaniaeth mawr yn eu hardaloedd lleol, ac eraill a oedd yn teimlo ei fod yn gwneud llai o wahaniaeth mewn gwahanol leoedd. Pa wersi y gellir eu dysgu am y gwahaniaeth rhwng gwahanol leoliadau trefol a gwledig wrth ddarparu'r cynllun hwn?

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is important that we examine why. The Member is right: there was a difference in terms of the numbers being assisted through the scheme in different parts of Wales. I have certainly seen that. As part of the discussions with the local authorities, and as part of the thinking on the way forward, that disparity will certainly be examined in order to make sure that it does not happen to the same extent again.

Mae'n bwysig ein bod yn ystyried pam. Mae'r Aelod yn gywir: roedd gwahaniaeth o ran y niferoedd sy'n cael eu cynorthwyo gan y cynllun mewn gwahanol rannau o Gymru. Rwy'n sicr wedi gweld hynny. Yn rhan o'r trafodaethau gyda'r awdurdodau lleol ac yn rhan o'r ystyriaethau ar y ffordd ymlaen, bydd y gwahaniaeth hwnnw'n sicr yn cael ei archwilio er mwyn gwneud yn siŵr nad yw'n digwydd i'r un graddau eto.

Senedd.tv Fideo Video

### Cyfleoedd Swyddi ar gyfer Pobl Ifanc

### Job Opportunities for Young People

13:55 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad ynghylch pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i greu cyfleoedd swyddi ar gyfer pobl ifanc yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)1014(FM)*

*4. Will the First Minister update the Assembly on what work the Welsh Government is doing to create job opportunities for young people in North Wales? OAQ(4)1014(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae diweithdra ymysg pobl ifanc yn parhau i fod yn bryder yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig. Rydym yn cyflawni'r hyn yr ydym am ei wneud yn ein rhaglen lywodraethu, ac rwyf wedi sôn am y cynllun Twf Swyddi Cymru a'r cynlluniau sydd mewn lle er mwyn helpu pobl i gael prentisiaethau.

The level of youth unemployment remains a concern in Wales and across the UK. We are delivering on our programme for government, and I have talked about the Jobs Growth Wales scheme and the schemes that we have in place to assist people to have access to apprenticeships.

Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Yn sgîl y buddsoddiad mewn prentisiaethau a gytunwyd â Phlaid Cymru yn y gyllideb eleni, buaswn yn falch iawn petai chi'n amlinellu pa fath o gyfleoedd yr ydych yn credu y bydd yn dod i bobl ifanc yn sgîl y buddsoddiad hwnnw, ac yn bwysig iawn hefyd, wrth gwrs, pryd yn union y bydd y cyfleoedd hynny ar gael.

In light of the investment in apprenticeships that was agreed with Plaid Cymru in this year's budget, I would be very grateful if you were to outline what kind of opportunities you believe will be available to young people in the light of that investment, and importantly too, of course, when exactly those opportunities will become available.

Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Byddai unrhyw gynlluniau yn rhedeg gyda'r cynllun sydd gennym ar hyn o bryd, ond jyst i roi un enghraifft: ynglŷn â Thwf Swyddi Cymru, mae 1,460 o gyfleoedd wedi cael eu creu yn y gogledd, ac o'r rheiny mae 852 wedi eu llanw. Felly, ynglŷn â'r rhaglen honno, mae hi wedi bod yn llwyddiannus iawn, a'r sialens nawr yw sicrhau bod unrhyw gynlluniau newydd yn adeiladu ar y llwyddiant hwnnw.

Any schemes will run alongside the scheme that we have at present, but just to give an example: in relation to Jobs Growth Wales, 1,460 opportunities have been created in north Wales and, of those, 852 have been filled. So, with regard to that scheme, it has been very successful, and the challenge now is to ensure that any schemes build on that success.

13:57 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The last year for which we have comparable EU figures, which was 2011, shows that although youth unemployment in Wales was far lower than in the borrow, bust and bail-out nations of Greece and Spain, which are close to 50%, it was still higher than the EU average, and the UK average. The latest figures show that it is still some 2.5% higher than in England. Therefore, what consideration is the Welsh Government giving, or has the Welsh Government given, to integrating its own youth job creation and training initiatives with those being provided on a UK basis by the UK Government, in order to get synergy and the best bang for the buck?

Mae'r flwyddyn ddiwethaf y mae gennym ffigurau UE tebyg ar ei chyfer, sef 2011, yn dangos, er bod diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru yn llawer is nag yng ngwledydd benthyca, i'r wal ac achubiaeth Gwlad Groeg a Sbaen, sy'n agos at 50%, roedd yn dal i fod yn uwch na chyfartaledd yr UE, a chyfartaledd y DU. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos ei fod yn dal i fod tua 2.5% yn uwch nag yn Lloegr. Felly, pa ystyriaeth mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi, neu mae Llywodraeth Cymru wed ei rhoi, i integreiddio ei mentrau creu swyddi a hyfforddi pobl ifanc ei hun gyda'r rhai sy'n cael eu darparu ar lefel y DU gan Lywodraeth y DU, er mwyn cael synergedd a'r gwerth gorau am arian?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Member assumes that the UK Government would want to see that synergy and integration. We know that that is not the case with the Secretary of State for Education, who decided that he wanted to have a separate English qualifications system, which is his prerogative. However, that is certainly what he wanted to do.

Mae'r Aelod yn cymryd yn ganiataol y byddai Llywodraeth y DU yn awyddus i weld y synergedd a'r integreiddio hynny. Rydym yn gwybod mai nad dyna'r achos gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, a benderfynodd ei fod eisiau cael system gymwysterau ar wahân yn Lloegr, ac mae ganddo hawl i wneud hynny. Fodd bynnag, dyna'n sicr yr oedd eisiau ei wneud.

What I can say is that, in terms of informing Members of other issues that are being taken forward, during Apprenticeship Week the Deputy Minister for Skills announced spending plans for the additional £40 million that is being invested in the apprenticeship programme in Wales, creating 5,650 additional apprenticeship places, an enhanced wage subsidy of £3,900 over 52 weeks, a one-off payment of £500 for small and microbusinesses to cover the time and cost that they said were a barrier to recruiting apprentices, and of course £3.4 million to support those who want to complete their training through the medium of Welsh. There is a comprehensive package of support in place in terms of apprenticeships and helping young people to get employment, although of course we do not underestimate the scale of the task, given the scale of unemployment among young people.

Yr hyn y gallaf ei ddweud yw, o ran hysbysu'r Aelodau am faterion eraill sy'n cael eu datblygu, bod y Dirprwy Weinidog Sgiliau, yn ystod Wythnos Prentisiaethau, wedi cyhoeddi cynlluniau gwariant ar gyfer y £40 miliwn ychwanegol sy'n cael ei fuddsoddi yn y rhaglen brentisiaethau yng Nghymru, gan greu 5,650 o leoedd prentisiaeth ychwanegol, cymhorthdal cyflog uwch o £3,900 dros 52 wythnos, taliad untro o £500 ar gyfer busnesau bach a microfusnesau i dalu am yr amser a'r gost y nodwyd ganddynt oedd yn rhwystr i recriwtio prentisiaid, ac wrth gwrs £3.4 miliwn i gefnogi'r rhai sydd am gwblhau eu hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae pecyn cynhwysfawr o gymorth ar waith o ran prentisiaethau a helpu pobl ifanc i gael gwaith, er, wrth gwrs, nid ydym yn diystyru maint y dasg, o ystyried maint y diweithdra ymhlith pobl ifanc.

### Swyddfeydd Post

### Post Offices

13:58 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch Swyddfeydd Post yn ystod y chwe mis diwethaf? OAQ(4)1006(FM)*

*5. What discussions has the Welsh Government had with the UK Government regarding Post Offices in the last six months? OAQ(4)1006(FM)*

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have had no discussions with the UK Government on this issue in the last six months.

Nid ydym wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn yn ystod y chwe mis diwethaf.

13:58 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that, First Minister. The main post office in Rhyl is under threat at the moment of being moved from a Crown post office to being a franchise. This is part of the Crown post office's attempt to, as it says, downsize its operations. The Crown post office in Rhyl is vital, not just to the centre of Rhyl, but to people in that area. It is situated in the poorest ward in Wales, where many people have no access to the internet, and a lot of people use the post office. On Friday, I stood with the Communication Workers Union members who walked out as part of their protest at what the Crown post office is trying to do, and I received a lot of support from people who want to see the Crown post office kept open in Rhyl. What is your Government doing, or what can your Government do, to persuade those in the UK Government to listen to the people of Rhyl?

Diolch i chi am hynna, Brif Weinidog. Mae'r brif swyddfa bost yn y Rhyl dan fygythiad ar hyn o bryd o gael ei newid o fod yn swyddfa bost y Goron i fod yn fasnachfraint. Mae hyn yn rhan o ymgais swyddfa bost y Goron i leihau ei weithrediadau, fel y dywed. Mae swyddfa bost y Goron yn y Rhyl yn hanfodol, nid yn unig i ganol y Rhyl, ond i bobl yn yr ardal honno. Mae wedi ei lleoli yn y ward dlotaf yng Nghymru, lle nad oes gan lawer o bobl fynediad at y rhyngrwyd, ac y mae llawer o bobl yn defnyddio'r swyddfa bost. Bûm yn sefyll ddydd Gwener gydag aelodau Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu a gerddodd allan yn rhan o'u protest yn erbyn yr hyn y mae swyddfa bost y Goron yn ceisio ei wneud, a derbyniais lawer o gefnogaeth gan bobl sydd am weld y swyddfa bost y Goron yn cael ei chadw ar agor yn y Rhyl. Beth mae eich Llywodraeth yn ei wneud, neu beth all eich Llywodraeth ei wneud, i berswadio'r bobl yn Llywodraeth y DU i wrando ar bobl y Rhyl?

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is a non-devolved matter, but what I can say to the Member is that we are informed that the location of any franchise office in Rhyl would depend on the retail partner. It would have to be of sufficient size. If a retail partner is not found, the Crown post office will remain as it is. However, I see no argument being put forward in favour of change—I am sure that that concerns not just those who work at the Crown post office in Rhyl, but the people of Rhyl—and, until such an argument is made with some conviction, I believe that things should remain as they are.

Mae'n fater nad yw wedi'i ddatganoli, ond yr hyn y gallaf ei ddweud wrth yr Aelod yw ein bod yn gwybod y byddai lleoliad unrhyw swyddfa fasnachfraint yn y Rhyl yn dibynnu ar y partner manwerthu. Byddai'n rhaid iddi fod yn ddigon mawr. Os na ellir dod o hyd i bartner manwerthu, bydd swyddfa bost y Goron yn aros fel y mae. Fodd bynnag, ni welaf unrhyw ddadl yn cael ei chyflwyno o blaid newid—rwy'n siŵr bod hynny'n pryderu nid yn unig y rhai sy'n gweithio yn swyddfa bost y Goron yn y Rhyl, ond pobl y Rhyl hefyd—a, tan y cyflwynir dadl o'r fath gyda chryn argyhoeddiad , rwy'n credu y dylai pethau aros fel y maen nhw.

14:00 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, what specific actions has your Government taken to ensure that as many public services as possible are delivering through our post office network?

Brif Weinidog, pa gamau penodol mae eich Llywodraeth wedi eu cymryd i sicrhau bod cymaint o wasanaethau cyhoeddus â phosibl yn darparu trwy ein rhwydwaith swyddfeydd post?

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have the post office diversification fund awards, and they have helped greatly over the years. The awards were recently announced on 10 April for the October 2012 round. Some 31 post offices were awarded capital grants worth £383,855. Therefore, what we have done as a Government is to assist post offices with diversification. It can be difficult, because so much business is now conducted online. Rather than trying to turn the clock back, it is important that post offices are able to find new sources of business and thrive as a result.

Mae dyfarniadau'r gronfa arallgyfeirio swyddfeydd post gennym, ac maen nhw wedi o gymorth mawr dros y blynyddoedd. Cyhoeddwyd y dyfarniadau'n ddiweddar ar 10 Ebrill ar gyfer rownd mis Hydref 2012. Dyfarnwyd grantiau cyfalaf gwerth £383,855 i 31 o swyddfeydd post. Felly, yr hyn rydym ni wedi ei wneud fel Llywodraeth yw cynorthwyo swyddfeydd post gydag arallgyfeirio. Gall hyn fod yn anodd, gan fod cymaint o fusnes yn cael ei gyflawni ar-lein bellach. Yn hytrach na cheisio troi'r cloc yn ôl, mae'n bwysig bod swyddfeydd post yn gallu dod o hyd i ffynonellau newydd o fusnes a ffynnu o ganlyniad.

14:01 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In Neath, we have a similar problem to the issue that Ann Jones raised. Some people are saying that, if it was put out to the retail sector, that would be tantamount to marketisation of the post office network. Have you had any discussions with the UK Government with regard to looking at alternative models, such as some sort of workers buy-out? The cashiers could have some sort of invested interest, because, obviously, they are worried about their jobs. Could we look at alternatives in Wales, as opposed to it being a stark 'privatisation or public sector' position?

Mae gennym broblem yng Nghastell-nedd sy'n debyg i'r mater a godwyd gan Ann Jones. Mae rhai pobl yn dweud, pe bai'n cael ei gyflwyno i'r sector manwerthu, y byddai hynny'n gyfystyr â marchnadeiddio'r rhwydwaith swyddfeydd post. A ydych chi wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU o ran edrych ar fodelau eraill, fel rhyw fath o system prynu gan y gweithwyr? Gallai'r arianwyr gael rhyw fath o fudd drwy fuddsoddiad, oherwydd, yn amlwg, maen nhw'n poeni am eu swyddi. A allem ni ystyried dewisiadau eraill yng Nghymru, yn hytrach na'i bod yn sefyllfa 'preifateiddio neu sector cyhoeddus' bendant?

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I think there is merit in that. The only caveat I would add is that this is not a matter that we have control over. However, it is important, where consideration is being given to the change of a business model, that full consideration is given to alternative models that we know are workable from examples that we have seen across Wales, and those models may well include the model that the Member has described.

Rwy'n credu bod rhinwedd yn hynny. Yr unig gafeat y byddwn yn ei ychwanegu yw nad yw hwn yn fater y mae gennym reolaeth drosto. Fodd bynnag, mae'n bwysig, pan fo ystyriaeth yn cael ei roi i newid model busnes, rhoi ystyriaeth lawn i fodelau amgen rydym yn gwybod sy'n ymarferol o enghreifftiau rydym wedi eu gweld ledled Cymru, ac mae'n bosibl iawn y gallai'r modelau hynny gynnwys y model y mae'r Aelod wedi ei ddisgrifio.

14:02 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you may be aware that a number of local authorities in England are working with the Post Office to deliver a wide range of services through local branches. That is a model that is being actively marketed by the Post Office. Has your Government had any engagement with the Post Office on whether this model would be transferable to Wales? If it were, I think it would help to guarantee the future of a large number of post offices, while at the same time enabling more efficient and accessible delivery of local government services.

Brif Weinidog, efallai eich bod yn ymwybodol bod nifer o awdurdodau lleol yn Lloegr yn gweithio gyda Swyddfa'r Post i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau trwy ganghennau lleol. Mae hwnnw'n fodel sy'n cael ei farchnata gan Swyddfa'r Post. A yw eich Llywodraeth wedi cael unrhyw ymgysylltiad â Swyddfa'r Post o ran a ellid trosglwyddo'r model hwn i Gymru? Pe byddai'n bosibl, rwy'n credu y byddai'n helpu i sicrhau dyfodol nifer fawr o swyddfeydd post, gan alluogi darpariaeth fwy effeithlon a hygyrch o wasanaethau llywodraeth leol ar yr un pryd.

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is potentially transferable. It is a matter for local authorities to examine, of course, in terms of how practical such a scheme would be and how they would seek to implement it. However, if there are local authorities in Wales that would consider such a scheme, it is something that we would certainly look to encourage them to take forward.

Mae'n bosibl y gellid ei drosglwyddo. Mae'n fater i awdurdodau lleol ymchwilio iddo, wrth gwrs, o ran pa mor ymarferol y byddai cynllun o'r fath a sut y byddent yn ceisio ei roi ar waith. Fodd bynnag, os oes awdurdodau lleol yng Nghymru a fyddai'n ystyried cynllun o'r fath, mae'n rhywbeth y byddem yn sicr yn ceisio eu hannog i fwrw ymlaen ag ef.

14:03 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could the First Minister confirm the position the Welsh Government is taking regarding the post office network and a potential tie-in with credit unions, and whether those discussions are taking place not only with the UK Government, but directly with the Post Office, especially on having a common IT platform that post offices and credit unions could use?

A allai'r Prif Weinidog gadarnhau safbwynt Llywodraeth Cymru ar y rhwydwaith swyddfeydd post a'r posibilrwydd o gyfuno ag undebau credyd, a pha un a yw'r trafodaethau hynny yn cael eu cynnal, nid yn unig gyda Llywodraeth y DU, ond yn uniongyrchol gyda Swyddfa'r Post, yn enwedig ar gael llwyfan TG cyffredin y gallai swyddfeydd post ac undebau credyd ei ddefnyddio?

14:03 Yes. These are matters that would help to enhance credit unions' sustainability in the future. Some 10 or 15 years ago, we saw a substantial number of branch closures of banks across Wales, and the post offices were able to offer banking services in communities that had lost those services. So, for me, working with the credit unions is a natural next step for post offices, in terms of their own sustainability in communities and their ability to provide fair financial services to those who live in those communities.

Gallaf. Mae'r rhain yn faterion a fyddai'n helpu i wella cynaliadwyedd undebau credyd yn y dyfodol. Tua 10 neu 15 mlynedd yn ôl, gwelsom nifer sylweddol o ganghennau banc yn cau ledled Cymru, ac roedd y swyddfeydd post yn gallu cynnig gwasanaethau bancio mewn cymunedau a oedd wedi colli'r gwasanaethau hynny. Felly, i mi, mae gweithio gyda'r undebau credyd yn gam nesaf naturiol i swyddfeydd post, o ran eu cynaliadwyedd eu hunain mewn cymunedau a'u gallu i ddarparu gwasanaethau ariannol teg i'r rhai sy'n byw yn y cymunedau hynny.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Nawdd Cymdeithasol

## Social Security

14:03 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*6. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael ag awdurdodau lleol ynghylch newidiadau mewn nawdd cymdeithasol? OAQ(4)1008(FM)*

*6. What discussions has the Welsh Government had with local authorities regarding changes to social security? OAQ(4)1008(FM)*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:04 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have had considerable discussion with the Welsh Local Government Association and the local authorities involved on the UK Government's reform of welfare benefits. We will continue to have these discussions to understand the full implications of the reforms and to mitigate, where we can, the impact of those changes on Wales.

Rydym ni wedi cael trafodaethau helaeth gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r awdurdodau lleol dan sylw ar ddiwygiad Llywodraeth y DU o fudd-daliadau lles. Byddwn yn parhau i gael y trafodaethau hyn i ddeall goblygiadau llawn y diwygiadau ac i liniaru, lle y gallwn, effaith y newidiadau hynny ar Gymru.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:04 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister. No doubt you will be aware that some local authorities in other parts of the UK have already said that they intend to adopt a no-evicition policy with regard to those who suffer the consequences of the bedroom tax. Your Government has said a great deal about the bedroom tax in this Chamber and outside. Will you tell us which social landlords in Wales are also going to adopt this no-eviction policy?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Mae'n siŵr y byddwch yn ymwybodol bod rhai awdurdodau lleol mewn rhannau eraill o'r DU wedi dweud eisoes eu bod yn bwriadu mabwysiadu polisi dim troi allan o ran y rhai sy'n dioddef canlyniadau'r dreth ystafell wely. Mae eich Llywodraeth wedi dweud llawer iawn am y dreth ystafell wely yn y Siambr hon a'r tu allan. A wnewch chi ddweud wrthym ba landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru sydd hefyd yn mynd i fabwysiadu'r polisi dim troi allan hwn?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:04 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is a matter for local authorities to decide. I can well understand the thinking behind the no-eviction policy, but it is for each local authority to decide how it wishes to approach this inequitable situation.

Mae hwnnw'n fater i awdurdodau lleol benderfynu arno. Rwy'n deall y meddylfryd y tu ôl i'r polisi dim troi allan yn iawn, ond mater i bob awdurdod lleol yw penderfynu sut y mae'n dymuno mynd i'r afael â'r sefyllfa annheg hon.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:05 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, there are some 91,000 people on the housing list in Wales. The 2011 census shows that 40,000 households are classed as 'overcrowded'. In my own constituency of Aberconwy, I see many families that are absolutely desperate for appropriately-sized accommodation. Your own Minister for housing in London, in the last Government, said that:

Brif Weinidog, mae tua 91,000 o bobl ar y rhestr dai yng Nghymru. Mae cyfrifiad 2011 yn dangos yr ystyrir bod 40,000 o aelwydydd yn 'orlawn'. Yn fy etholaeth i yn Aberconwy, rwy'n gweld llawer o deuluoedd sydd ag angen taer am lety o faint priodol. Yn y Llywodraeth ddiwethaf, dywedodd eich Gweinidog tai eich hun yn Llundain:

'We have reiterated time and again in this Committee the need to ensure that houses that are too large for people's current needs are allocated accordingly.'

Rydym wedi ailadrodd dro ar ôl tro yn y Pwyllgor hwn yr angen i sicrhau bod y tai sy'n rhy fawr ar gyfer anghenion presennol pobl yn cael eu dyrannu'n briodol.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

However, here, we hear constant scaremongering and, only yesterday, I noted that one of your own departments is now using the Labour pejorative and negative spin in classing it as 'the bedroom tax'. The spare room subsidy is the UK Government's proactive initiative to help these families—

Fodd bynnag, yma, rydym yn clywed codi bwganod cyson a, dim ond ddoe, nodais fod un o'ch adrannau eich hun yn defnyddio'r sbin ddifrïol a negyddol y blaid Lafur bellach wrth ei alw'n 'dreth ystafell wely'. Y cymhorthdal ystafell sbâr yw cynllun rhagweithiol Llywodraeth y DU i helpu'r teuluoedd hyn—

14:06 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Are you coming to a question?

Trefn. A ydych chi ar fin gofyn cwestiwn?

14:06 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Ydw.

14:06 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you please get to it?

A wnewch chi ei ofyn os gwelwch yn dda?

14:06 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, instead of carping, whingeing and criticising the UK Government for actually taking proactive steps, what is your Government doing to help these families in need?

Brif Weinidog, yn hytrach na gweld bai, cwyno a beirniadu Llywodraeth y DU am gymryd camau rhagweithiol, beth mae eich Llywodraeth chi yn ei wneud i helpu'r teuluoedd hyn sydd mewn angen?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I am truly astounded by that question. I can only assume that the Member has not had people coming to her surgery, sometimes in tears, who are being affected by the bedroom tax—and we use that term because that is what people call it. We are not going to hide behind bureaucratic jargon; we will call it as it is. To say, on the one hand, that this is a situation where we are whingeing, but, on the other hand, to ask what we are going to do to help these people strikes me as an incredible attitude to take. The reality is that there are many thousands of people in Wales who will find themselves in a situation where they cannot afford to stay in accommodation, cannot afford to put food on the table, and cannot afford the everyday necessities of life purely because of the vindictiveness of her party, while, at the same time, millionaires will get a 5% tax cut. 'We are all in it together', they say, but, to adapt what George Orwell said, we are all in it together, but some people, particularly those at the bottom, are more in it than others.

Mae'r cwestiwn yna wir wedi fy syfrdanu. Gallaf ond tybio nad yw'r Aelod wedi cael pobl yn dod i'w chymhorthfa, weithiau mewn dagrau, sy'n cael eu heffeithio gan y dreth ystafell wely—ac rydym yn defnyddio'r term hwnnw gan mai dyna beth mae pobl yn ei alw. Nid ydym yn mynd i guddio y tu ôl i jargon biwrocrataidd; byddwn yn siarad yn blwmp ac yn blaen. Mae dweud, ar y naill law, fod hyn yn sefyllfa lle'r ydym yn cwyno, ond, ar y llaw arall, gofyn beth rydym ni'n mynd i'w wneud i helpu'r bobl hyn yn fy nharo i fel agwedd anhygoel i'w mabwysiadu. Y gwirionedd yw bod miloedd lawer o bobl yng Nghymru a fydd yn canfod eu hunain mewn sefyllfa lle na allant fforddio i aros mewn llety, na allant fforddio i roi bwyd ar y bwrdd, ac na allant fforddio hanfodion bywyd beunyddiol dim ond oherwydd mileindra ei phlaid hi, tra, ar yr un pryd, y bydd miliwnyddion yn cael gostyngiad o 5% yn eu trethi. 'Rydym i gyd ynddi gyda'n gilydd', maen nhw'n ei ddweud, ond, i addasu'r hyn a ddywedodd George Orwell, rydym i gyd ynddi gyda'n gilydd, ond mae rhai pobl, yn enwedig y rhai ar y gwaelod, ynddi fwy nag eraill.

**Blaenoriaethau Gwariant**

**Spending Priorities**

14:07 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei rôl yn pennu blaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru? OAQ(4)1004(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on his role in determining the spending priorities of the Welsh Government? OAQ(4)1004(FM)*

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I am the head of Government and so I clearly have a key role.

Fi yw pennaeth y Llywodraeth ac felly mae gen i swyddogaeth allweddol, yn amlwg.

14:07 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As a result of the decisions of your Government, which you lead, the NHS is facing the biggest cuts in its history. Betsi Cadwaladr University Local Health Board, which serves my constituency, is having to find savings of £1.5 million per week in this current financial year. How do you expect it to meet that savings target, given that it has already chopped back significant services to the public and its reorganisation plans are not about saving money?

O ganlyniad i benderfyniadau eich Llywodraeth, yr ydych chi yn ei harwain, mae'r GIG yn wynebu'r toriadau mwyaf yn ei hanes. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, sy'n gwasanaethu fy etholaeth i, yn gorfod dod o hyd i arbedion o £1.5 miliwn yr wythnos yn y flwyddyn ariannol gyfredol hon. Sut ydych chi'n disgwyl iddo fodloni'r targed arbedion hwnnw, gan ei fod eisoes wedi cyfyngu gwasanaethau arwyddocaol i'r cyhoedd ac nad yw ei gynlluniau ad-drefnu yn ymwneud ag arbed arian?

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I seem to be astounded a lot this afternoon, but I am astounded yet again. The reality is that we have been upfront in terms of the challenges that we have faced financially, while, for his party in London, it is hidden. It has claimed that it has increased spending on health, but instead it has cut spending on health and been found out by those bodies that monitor Government. That is the reality of the situation. We have sought to protect the health service as best we can, given the scale of the budget cuts that we have received. Yes, it is a challenge, but the reality of the situation is that his party has no alternatives. Instead, it says that you should increase council tax by 20%, cut education spending by 20%, cut services to those who are poorest, and they have constantly refused to come to the Chamber to explain how they would find the money easily to increase spending on the NHS. We would love to know how we could do that. The reality is that we have sought to protect the health service as best we can, given the resources that we have, whereas his party has done its best to pull the wool over people's eyes. Whenever this is pointed out to them, they whinge and moan and try to shout people down. The people of Wales know who is responsible for the problems in Wales, as that party opposite will soon find out in 2015.

Mae'n ymddangos fy mod yn cael fy syfrdanu'n aml y prynhawn yma, ond rwyf wedi fy syfrdanu unwaith eto. Y gwir amdani yw ein bod wedi bod yn agored o ran yr heriau rydym wedi eu hwynebu yn ariannol, tra bod ei blaid ef yn Llundain yn eu cuddio. Mae wedi honni ei fod wedi cynyddu gwariant ar iechyd, ond yn hytrach mae wedi torri gwariant ar iechyd ac mae'r cyrff hynny sy'n monitro Llywodraeth wedi datgelu hynny. Dyna wirionedd y sefyllfa. Rydym wedi ceisio gwarchod y gwasanaeth iechyd hyd eithaf ein gallu, o ystyried maint y toriadau i'r gyllideb rydym ni wedi ei derbyn. Ydy, mae'n her, ond gwirionedd y sefyllfa yw nad oes gan ei blaid unrhyw ddewisiadau eraill. Yn hytrach, mae'n dweud y dylech gynyddu'r dreth gyngor o 20%, torri gwariant ar addysg o 20%, torri gwasanaethau i'r rhai sydd dlotaf, ac maen nhw wedi gwrthod yn gyson i ddod i'r Siambr i egluro sut y byddent yn dod o hyd i'r arian yn hawdd i gynyddu gwariant ar y GIG. Byddem wrth ein boddau cael gwybod sut y gallem wneud hynny. Y gwir amdani yw ein bod wedi ceisio gwarchod y gwasanaeth iechyd hyd eithaf ein gallu, o ystyried yr adnoddau sydd gennym, tra bod ei blaid ef wedi gwneud ei gorau i daflu llwch i lygaid pobl. Pryd bynnag y tynnir ei sylw at y ffaith hon, maen nhw'n cwyno ac yn griddfan ac yn ceisio gweiddi'n uwch na phobl. Mae pobl Cymru yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am y problemau yng Nghymru, fel y bydd y blaid gyferbyn yn darganfod yn fuan yn 2015.

14:09 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, last week, the 1,200-year-old Pontfadog oak, one of Europe's oldest trees and an icon in Wrexham's heritage, collapsed in high winds. Will you look at the priorities of Natural Resources Wales in terms of the protection of heritage trees across our country, examining whether the strengthening of tree preservation Orders and more advice for private owners could help to save some of Wales's most important trees for future generations?

Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf, syrthiodd coeden dderw 1,200 mlwydd oed Pontfadog, un o goed hynaf Ewrop ac eicon yn nhreftadaeth Wrecsam, mewn gwyntoedd cryf. A wnewch chi ystyried blaenoriaethau Adnoddau Naturiol Cymru o ran diogelu coed treftadaeth ar draws ein gwlad, gan archwilio pa un a allai cryfhau Gorchmynion cadwraeth coed a mwy o gyngor i berchnogion preifat helpu i achub rhai o goed pwysicaf Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. I understand that officials are currently considering what mechanisms are available for recording and protecting certain trees, and whether, of course, those mechanisms need to be strengthened. Depending on those conclusions, we will then look at what appropriate changes to legislation may be required. If they are required, they will be brought forward as soon as possible.

Gwnaf. Rwy'n deall bod swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn ystyried pa ddulliau sydd ar gael ar gyfer cofnodi a diogelu coed penodol, ac wrth gwrs, pa un a oes angen cryfhau'r dulliau hynny. Yn dibynnu ar y casgliadau hynny, byddwn yn ystyried wedyn pa newidiadau priodol i ddeddfwriaeth a allai fod eu hangen. Os oes eu hangen, byddant yn cael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl.

14:10 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Roedd eich sylwadau mewn ymateb i Darren Millar yn ddigon teg, er bod arweinydd eich plaid yn San Steffan wedi dweud na fyddai mwy o arian ar gael pe bai eich plaid yn dod i rym yno. Gan ein bod yn edrych ar y sefyllfa yng Nghymru, un o'ch strategaethau pwysicaf yw buddsoddi i arbed, cynllun a fu mewn bodolaeth ers rhai blynyddoedd. Gan gyfeirio at sylwadau Darren Millar ynglŷn â phroblemau yn y gwasanaethau iechyd yn y gogledd, a'r ffaith bod un o'r problemau yw recriwtio, a wnewch chi ystyried o ddifrif defnyddio cyllideb i greu capasiti hyfforddi staff meddygol yn y gogledd er mwyn ceisio ymateb i'r broblem eithriadol hon o recriwtio o fewn Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, a cheisio felly ymateb yn gadarnhaol i sefyllfa anodd?

Your comments in response to Darren Millar were quite fair, but the leader of your party in Westminster has said that there would not be any more funding available if your party were to come into power there. As we are looking at the situation in Wales, one of your most important strategies is invest to save, a scheme that has been in existence for some years. With reference to Darren Millar's comments about problems in the health service in north Wales, and the fact that one of the problems is recruitment, will you give serious consideration to using a budget to create training capacity for medical staff in north Wales in order to try to respond to this incredible problem with recruitment within the Betsi Cadwaladr University Local Health Board, and therefore try to respond positively to a difficult situation?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rwy'n deall y pwynt, ond nid yw mor rhwydd â hynny. Yr hyn sy'n bwysig yw bod lleoedd yn y gogledd sy'n gallu cynnig lleoedd hyfforddi i feddygon, a bod digon o brofiad ar gael iddynt, fel nad ydynt yn meddwl y cânt lai o brofiad os y byddant yn mynd i'r gogledd, ac felly y byddai'n anoddach iddynt gael swyddi yn y dyfodol. Mae'n rhaid osgoi hynny. Mae hynny'n rhan o'r trafodaethau sy'n cymryd lle ar hyn o bryd. Mae'n bwysig sicrhau bod Cymru yn gyfan gwbl yn parhau i gael ei hystyried fel rhywle lle mae'n bosibl cael hyfforddiant cyflawn.

I understand the point, but it is not quite as easy as that. What is important is that there are place in north Wales that can offer training places to doctors, and that there is sufficient experience available to them, so that they do not think that they will get less experience if they go to north Wales, and therefore it will be more difficult for them to get jobs in future. We have to avoid that. That is part of the discussions that are taking place at the moment. It is important to ensure that Wales as a whole continues to be considered a place where it is possible to receive full training.

14:11 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, wrth ichi ystyried eich blaenoriaethau gwariant, a ydych wedi trafod yr awgrym y dylai gwariant yn y sector iechyd gael ei ehangu dros gyfnod yn hytrach na bod trafod a therfyn bob blwyddyn, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd?

First Minister, as you consider your spending priorities, have you discussed the suggestion that expenditure in the health sector should be expanded over a period rather than there being discussion and a deadline each year, as there is at present?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae hynny'n rhywbeth sy'n cael ei ystyried. Os cofiaf yn iawn, mae'n rhaid newid deddfwriaeth er mwyn i hynny ddigwydd, ond rwy'n deall y pwynt. Fel y dywedais, mae'n rhywbeth sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd.

That is something that is being considered. If I remember correctly, legislation needs to be changed in order for that to happen, but I understand the point. As I said, it is something that is being considered at present.

## Prifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt

## Oxford and Cambridge Universities

14:12 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â'r lleihad yn nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n cael eu derbyn i brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt? OAQ(4)1009(FM)*

*8. Will the First Minister outline Welsh Government policies to address the declining number of Welsh students accepted to Oxford and Cambridge universities? OAQ(4)1009(FM)*

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. We recently appointed Paul Murphy as our Oxbridge ambassador. He will be working with us to review all of the available evidence and data. We have asked him to identify what already works and how can we build and improve on that for the future.

Gwnaf. Penodwyd Paul Murphy fel ein llysgennad Rhydgrawnt yn ddiweddar. Bydd yn gweithio gyda ni i adolygu'r holl dystiolaeth a data sydd ar gael. Rydym wedi gofyn iddo nodi'r hyn sy'n gweithio eisoes a sut y gallwn adeiladu a gwella ar hynny ar gyfer y dyfodol.

14:12 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the First Minister for his reply. I noted with great interest Paul Murphy's comments that there seems to be a lack of ambition among teachers, that the Welsh baccalaureate may well be a barrier, that the provision for talented students is lacking, that some students are often only coached to C grade at AS and A level, that fewer teachers in Wales have been to Oxford and Cambridge compared with 40 years ago, that there is less knowledge about getting pupils into those colleges, and that students from poor areas in south Wales are five times less likely to apply to Oxford and Cambridge than students from more affluent English counties. It is a very relevant comment. How is the First Minister hoping to take this forward?

Diolchaf i'r Prif Weinidog am ei ateb. Sylwais â diddordeb mawr ar sylwadau Paul Murphy ei bod yn ymddangos bod diffyg uchelgais ymhlith athrawon, ei bod yn bosibl y gallai bagloriaeth Cymru fod yn rhwystr, bod y ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr dawnus yn brin, bod rhai myfyrwyr yn aml yn cael eu haddysgu i radd C yn ar gyfer Safon UG ac Uwch, bod llai o athrawon yng Nghymru wedi bod i Rydychen a Chaergrawnt o'i gymharu â 40 mlynedd yn ôl, bod llai o wybodaeth am gael disgyblion i mewn i'r colegau hynny, a bod myfyrwyr o ardaloedd tlawd yn ne Cymru bum gwaith yn llai tebygol o wneud cais i Rydychen a Chaergrawnt na myfyrwyr o siroedd mwy cefnog Lloegr. Maen nhw'n sylwadau perthnasol iawn. Sut mae'r Prif Weinidog yn gobeithio bwrw ymlaen â hyn?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It shows that Paul Murphy is doing his job. It is important that we know exactly what the situation is and that we hear it is as it really is. It is of immense help to Welsh students that they would not have to pay an enormous amount of money in fees if they went to Oxford or Cambridge. That, no doubt, is very helpful in encouraging people to go to those universities. We await Paul Murphy's conclusions in order to implement them and overcome the idea that has persisted for many years that somehow Oxford and Cambridge are not for comprehensive school students. I came from a sixth form of 120 pupils, and two people went to Cambridge, as it happens. They were very clever—that is why they went there. I am not sure whether that situation persists and whether such people even consider Oxford and Cambridge as a place that is right for them. It is important, of course, that we understand that Oxford and Cambridge are not the best at everything, and that there are other universities that are better than those in many areas. Nevertheless, where it is appropriate that we have our bright students going to Oxford and Cambridge, we want to remove any barriers to doing that and to provide them with every encouragement.

Mae'n dangos bod Paul Murphy yn gwneud ei waith. Mae'n bwysig ein bod yn gwybod yn union beth yw'r sefyllfa ac rydym ni'n ei chlywed hi fel y mae mewn gwirionedd. Mae o gymorth aruthrol i fyfyrwyr Cymru na fyddai'n rhaid iddynt dalu swm enfawr o arian mewn ffioedd pe byddent yn mynd i Rydychen neu Gaergrawnt. Nid oes amheuaeth bod hynny'n ddefnyddiol iawn o ran annog pobl i fynd i'r prifysgolion hynny. Rydym yn aros am gasgliadau Paul Murphy er mwyn eu rhoi ar waith a goresgyn y syniad sydd wedi parhau am flynyddoedd lawer nad yw Rhydychen a Chaergrawnt ar gyfer myfyrwyr ysgol gyfun rhywsut. Fe ddes i o chweched dosbarth ac ynddo 120 o ddisgyblion, ac aeth dau o bobl i Gaergrawnt, fel mae'n digwydd. Roedden nhw'n glyfar iawn— dyna pam aethon nhw yno. Nid wyf yn siŵr a yw'r sefyllfa honno'n parhau ac a yw pobl o'r fath hyd yn oed yn ystyried Rhydychen a Chaergrawnt fel lle sy'n addas iddyn nhw. Mae'n bwysig, wrth gwrs, ein bod yn deall nad Rhydychen a Chaergrawnt yw'r gorau ym mhopeth, a bod prifysgolion eraill sy'n well na'r rheini mewn llawer o feysydd. Serch hynny, pan ei bod yn briodol i'n myfyrwyr disglair fynd i Rydychen a Chaergrawnt, rydym eisiau cael gwared ar unrhyw rwystrau iddynt wneud hynny a rhoi pob anogaeth iddyn nhw.

14:14 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, with the recent changes to the way in which careers services will be delivered in Wales, what role can the wider careers family can play in raising aspiration and encouraging more Welsh young people to apply? In particular, with the shift towards online resources and advice, how can we ensure that the possibility of applying is raised with young people in the first place?

Brif Weinidog, yn dilyn y newidiadau diweddar i'r ffordd y bydd gwasanaethau gyrfaoedd yn cael eu darparu yng Nghymru, pa swyddogaeth all y teulu gyrfaoedd ehangach ei chyflawni i godi dyheadau ac annog mwy o bobl ifanc yng Nghymru i ymgeisio? Yn benodol, gyda'r symudiad tuag at adnoddau a chyngor ar-lein, sut allwn ni sicrhau bod y posibilrwydd o ymgeisio yn cael ei godi gyda phobl ifanc yn y lle cyntaf?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

To give one example of where this can be taken forward by the careers family, as the terminology has it, the independent report 'Future Ambitions: Developing Careers Service in Wales' includes a recommendation that a strategic careers services forum should be established to help to provide strategic focus for the family of careers service providers across Wales. As part of that, they will need to ensure that aspiration is raised in terms of the ability of students to feel that they can go to Oxford or Cambridge, where they have the ability to do so.

I roi un enghraifft o ble y gall y teulu gyrfaoedd, fel y mae'r derminoleg yn ei alw, symud hyn ymlaen, mae'r adroddiad annibynnol 'Uchelgeisiau i'r Dyfodol: Datblygu Gwasanaethau Gyrfaoedd yng Nghymru' yn cynnwys argymhelliad y dylid sefydlu fforwm gwasanaethau gyrfaoedd strategol i helpu i ddarparu canolbwynt strategol ar gyfer y teulu o ddarparwyr gwasanaethau gyrfaoedd ledled Cymru. Yn rhan o hynny, bydd angen iddyn nhw sicrhau bod y dyhead hwnnw'n cael ei godi o ran gallu myfyrwyr i deimlo y gallant fynd i Rydychen neu Gaergrawnt, pan fydd y gallu ganddyn nhw i wneud hynny.

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

First Minister, I want to see Welsh students go to the best university that best meets their needs in the best way that we can. However, are you sure that you have got your priorities right here? You are bigging up the Bullingdon Club and punting on a river while your Government has pulled money from the Erasmus scheme that funded students to study internationally in Europe. Are you doing the right thing to support our students to go to the very best places, which are beyond Oxbridge and include Europe, North America and the far east?

Brif Weinidog, rwyf eisiau gweld myfyrwyr o Gymru yn mynd i'r brifysgol orau sy'n diwallu eu hanghenion orau yn y ffordd orau y gallwn. Fodd bynnag, a ydych chi'n siŵr eich bod wedi cael eich blaenoriaethau'n iawn yma? Rydych chi'n hyrwyddo'r Bullingdon Club a phyntio ar afon tra bod eich Llywodraeth wedi tynnu arian o'r cynllun Erasmus a oedd yn ariannu myfyrwyr i astudio yn rhyngwladol yn Ewrop. A ydych chi'n gwneud y peth iawn i gefnogi ein myfyrwyr i fynd i'r mannau gorau oll, sydd y tu hwnt i Rydgrawnt ac sy'n cynnwys Ewrop, Gogledd America a'r dwyrain pell?

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

He and I will, I suspect, have a similar view on the best university to go to. [Laughter.] I do not think that he has helped his argument in terms of Oxford and Cambridge. We are trying to convince our young people that, where they have the ability, they can get to Oxford and Cambridge and it is a place in which they can aspire to do well. His comments simply reinforce prejudices of a situation that does exist in some of the colleges in Oxford and Cambridge; we know that. However, it would not be fair to say that that is typical of either of those universities. I am afraid that the Member helps to perpetuate a prejudice that is not in the best interests of our students.

Rwy'n amau bod ganddo ef a minnau farn debyg ar y brifysgol orau i fynd iddi. [Chwerthin.] Nid wyf yn credu ei fod wedi helpu ei ddadl o ran Rhydychen a Chaergrawnt. Rydym yn ceisio argyhoeddi ein pobl ifanc, pan fydd y gallu ganddynt, y gallan nhw fynd i Rydychen a Chaergrawnt a'u bod yn lleoedd lle y gallant amcanu at wneud yn dda. Y cwbl mae ei sylwadau yn ei wneud yw atgyfnerthu rhagfarnau am sefyllfa sydd yn bodoli mewn rhai o'r colegau yn Rhydychen a Chaergrawnt; rydym yn gwybod hynny. Fodd bynnag, ni fyddai'n deg dweud bod hynny'n nodweddiadol o'r naill na'r llall o'r prifysgolion hynny. Rwy'n ofni bod yr Aelod yn helpu i barhau rhagfarn nad yw er lles gorau ein myfyrwyr.

Senedd.tv Fideo Video

## Cydraddoldeb i Fenywod

## Equality for Women

14:16 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo cydraddoldeb i fenywod? OAQ(4)1007(FM)*

*9. Will the First Minister make a statement on how the Welsh Government is advancing equality for women? OAQ(4)1007(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Our programme for government commits us to identify steps to deliver a more representative pool of decision makers and in order to ensure that a greater number of women are appointed across public sector boards in Wales. Our wish to secure the tools for greater gender equality is reflected in our representations to the Silk commission.

Mae ein rhaglen lywodraethu yn ein hymrwymo i nodi camau i ddarparu cronfa fwy cynrychioliadol o'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac i sicrhau bod mwy o fenywod yn cael eu penodi ar draws byrddau sector cyhoeddus yng Nghymru. Adlewyrchir ein dymuniad i sicrhau'r dulliau ar gyfer mwy o gydraddoldeb rhwng y rhywiau yn ein sylwadau i gomisiwn Silk.

Senedd.tv Fideo Video

14:17 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The continued presence of the 'page 3' feature in 'The Sun' newspaper undermines the good work that we are doing here in Wales in terms of advancing equality for Women. It undermines our efforts to ensure that girls grow up with healthy self-esteem and that boys grow up to respect women and girls. Will you join me, First Minister, in lending your support to the 'No More Page 3' campaign and to call upon the editor of 'The Sun' to drop the feature?

Mae presenoldeb parhaus y nodwedd 'page 3' ym mhapur newydd 'The Sun' yn tanseilio'r gwaith da rydym ni'n ei wneud yma yng Nghymru o ran cynyddu cydraddoldeb i Fenywod. Mae'n tanseilio ein hymdrechion i sicrhau bod merched yn tyfu'n oedolion gyda hunan-barch iach a bod bechgyn yn tyfu'n oedolion i barchu menywod a merched. A wnewch chi ymuno â mi, Brif Weinidog, i roi eich cefnogaeth i ymgyrch 'No More Page 3' ac i alw ar olygydd 'The Sun' i gael gwared arno?

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, I would. It is inappropriate in this day and age that a daily, family newspaper carries a photograph like that on page 3. It belongs to a different era and does not belong in this day and age.

Gwnaf, mi wnaf. Mae'n anaddas yn yr oes sydd ohoni fod papur newydd dyddiol i'r teulu yn dangos llun fel yna ar dudalen 3. Mae'n perthyn i oes wahanol ac nid yw'n perthyn yn yr oes sydd ohoni heddiw.

14:17 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn croesawu gwaith Llywodraeth y Deyrnas Unedig wrth gymryd camau i fynd i'r afael ag un rhwystr i fenywod sy'n gweithio, drwy roi hyd at £1,200 tuag at gost gofal plant. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhieni trwy'r ddarpariaeth gofal plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, ond pa gamau newydd ydych yn eu hystyried i helpu menywod sy'n byw mewn ardaloedd eraill o Gymru?

First Minister, I am sure that you would welcome the work of the UK Government in taking steps to address a barrier to women in the workplace, by providing up to £1,200 towards the cost of childcare. The Welsh Government supports parents through the provision of childcare in Flying Start areas, but what new steps are you considering to assist women who live in other areas of Wales?

14:18 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Rydym wedi anelu ein cymorth at bobl sydd fwyaf mewn angen. Wrth gofio'r sefyllfa ariannol sydd gyda ni ar hyn o bryd, rydym yn credu bod helpu pobl i gael gofal plant yn yr ardal honno yw'r ffordd fwyaf effeithiol. Wedi dweud hynny, un o'r cynlluniau rydym wedi'u cyhoeddi yw'r cynllun cydraddoldeb strategol, ac yn y ddogfen honno, nodir y camau rydym yn eu cymryd i helpu pobl gyda gofal plant ym mhob rhan o Gymru.

We have targeted our support towards people who are in greatest need. Bearing in mind our current financial situation, we believe that helping people with childcare in that area is the most effective way. Having said that, one of the plans that we have announced is the strategic equality plan, and the steps that we are taking to assist people with childcare in all parts of Wales are noted in that document.

14:19 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

An Organisation for Economic Co-operation and Development report last year highlighted the fact that the number of female entrepreneurs has now flatlined. What action has your Government taken to promote opportunities for women who plan to be our wealth creators?

Amlygodd adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd y llynedd y ffaith fod nifer yr entrepreneuriaid benywaidd wedi aros yn ei hunfan bellach. Pa gamau mae eich Llywodraeth wedi eu cymryd i hybu cyfleoedd i fenywod sy'n bwriadu bod yn grewyr cyfoeth?

14:19

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

It is right to say, and it sounds patronising to put it like this—it is not meant that way—but women need to be encouraged into non-traditional roles and leadership positions. That much stands to reason. I will give one example of how that is done in terms of positions of leadership. We have funded the Women Making a Difference project and Women Connect First. The aim of the first organisation is to increase the number of women who have the skills, ability, confidence and mindset to become leaders in their communities and decision makers at all levels of public and political life in Wales. Doing that also helps to ensure that more women have the confidence to become entrepreneurs and to remain entrepreneurs. There are plenty of examples of where that has happened, but we still know, given the figures that we have in front of us, that there is still a job of work to be done to ensure greater parity between the sexes in terms of entrepreneurship and, indeed, in terms of promotion in political life.

Mae'n iawn i ddweud, ac mae'n swnio'n nawddoglyd—ni olygir iddo fod felly—ond mae angen i fenywod gael eu hannog i swyddi nad ydynt yn draddodiadol ar eu cyfer, a sefyllfaoedd o arweinyddiaeth. Mae hynny'n sefyll i reswm. Hoffwn roi un enghraifft o sut y mae hynny'n cael ei wneud o ran sefyllfaoedd o arweinyddiaeth. Rydym wedi ariannu'r prosiect Women Making a Difference a Women Connect First. Nod y sefydliad cyntaf yw cynyddu nifer y menywod sydd â'r sgiliau, y gallu, yr hyder a'r meddylfryd i fod yn arweinyddion yn eu cymunedau ac yn unigolion sy'n gwneud penderfyniadau ar bob lefel o fywyd cyhoeddus a gwleidyddol yng Nghymru. Mae gwneud hynny hefyd yn helpu i sicrhau bod yr hyder gan fwy o fenywod i fod yn entrepreneuriaid a pharhau i fod yn entrepreneuriaid. Ceir digon o enghreifftiau i ddangos bod hynny wedi digwydd, ond rydym yn dal yn gwybod, o ystyried y ffigurau sydd gennym o'n blaenau, bod gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau mwy o gydraddoldeb rhwng y rhywiau o ran entrepreneuriaeth ac , yn wir, o ran dyrchafiad mewn bywyd gwleidyddol.

### Blaenoriaethau ar gyfer Gwasnaethau Gofal Iechyd

### Priorities for Healthcare Services

14:20

## Lynne Neagle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd yn Nhorfaen? OAQ(4)1010(FM)*

*10. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for healthcare services in Torfaen? OAQ(4)1010(FM)*

14:20

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes. They are set out in our programme for government and in 'Together for Health'.

Gwnaf. Maen nhw wedi eu nodi yn ein rhaglen ar gyfer llywodraethu ac yn 'Law yn Llaw at Iechyd'.

14:20

## Lynne Neagle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, it is very sad that, in World Immunisation Week, when UNICEF highlights how far global efforts have come in eradicating preventable disease, Wales finds itself in the midst of the worst measles outbreak that we have seen for many years. I know that the NHS is working flat out to tackle the outbreak and that over 2,000 children and young people in Gwent have been vaccinated over the last two weekends. How does the Welsh Government intend to build on this work, so that if we can take anything positive from this terrible outbreak, it will be that all parts of Wales have the 95% immunisation rate necessary to eradicate measles?

Brif Weinidog, mae'n drist iawn bod Cymru yn canfod ei hun, yn ystod Wythnos Imiwneiddio'r Byd, pan fo UNICEF yn amlygu pa mor bell y mae ymdrechion byd-eang wedi dod i ddileu afiechydon ataliadwy, yng nghanol yr achos gwaethaf o'r frech goch rydym ni wedi ei weld ers blynyddoedd lawer. Gwn fod y GIG yn gweithio hyd eithaf ei allu i fynd i'r afael â'r argyfwng a bod dros 2,000 o blant a phobl ifanc yng Ngwent wedi eu brechu yn ystod y ddau benwythnos diwethaf. Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu adeiladu ar y gwaith hwn, ac os oes unrhyw beth cadarnhaol y gallwn ni ei gymryd o'r argyfwng ofnadwy hwn, mai hynny fydd bod pob rhan o Gymru'n cyrraedd y gyfradd imiwneiddio o 95% sy'n angenrheidiol i gael gwared ar y frech goch?

14:21 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

This is, of course, not how we would choose it to happen, but the message has been understood by parents. Sadly, we know that there was a significant difference in the uptake in Swansea compared with other parts of Wales. I would reiterate the encouragement that I have given in the past to people to have their children immunised with both doses of MMR—my children were; I have no problem with saying that. The difficulty is that for a number of people of my generation, measles was something that you had; it was almost accepted. That is no longer the case. We know that measles can potentially be very serious, and if there is a vaccine available that is effective against a disease that could be serious, why not give it to your children? It is important that people do not just have the one jab, but both jabs to ensure the maximum level of immunisation.

Nid dyma sut, wrth gwrs, y byddem yn dewis iddo ddigwydd, ond mae'r neges wedi cael ei deall gan rieni. Yn anffodus, rydym yn gwybod y bu gwahaniaeth sylweddol yn y nifer a dderbyniodd y brechiadau yn Abertawe o'i chymharu â rhannau eraill o Gymru. Byddwn yn ailadrodd yr anogaeth rwyf wedi ei rhoi yn y gorffennol i bobl imiwneiddio eu plant gyda'r ddau ddos o MMR—dyna ddigwyddodd gyda fy mhlant i; nid oes gennyf unrhyw broblem yn dweud hynny. Y drafferth yw bod y frech goch yn rhywbeth yr oedd nifer o bobl yn ei gael yn fy nghenhedlaeth i; roedd yn cael ei dderbyn bron. Nid dyna'r achos bellach. Rydym yn gwybod y gall y frech goch fod yn ddifrifol iawn, ac os oes brechlyn ar gael sy'n effeithiol yn erbyn clefyd a allai fod yn ddifrifol, pam peidio â'i roi i'ch plant? Mae'n bwysig nad un pigiad yn unig y mae pobl yn ei gael, ond y ddau bigiad, er mwyn sicrhau'r lefel uchaf bosibl o imiwneiddiad.

14:21 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A year ago, the benefit of achieving herd immunity for measles was known, but not considered urgent. Will the First Minister undertake that this is now a priority?

Flwyddyn yn ôl, roedd y fantais o sicrhau imiwnedd haid ar gyfer y frech goch yn hysbys, ond ni ystyriwyd ei fod yn fater brys. A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau bod hyn yn flaenoriaeth bellach?

14:22 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It was always urgent. The problem is that we still face the residual belief among some parents that the MMR vaccine was, in some way, a contributory factor towards autism. That was heavily promoted by some elements of the media —not just in Wales, but across the UK; in Fleet Street as well—whereby reporting was not based on full scientific research, shall we say? The media's coverage of the issue led to a situation where people truly believed that there was this link, and many parents thought, 'Why take the risk?' because these diseases, as the parents saw them, were not particularly dangerous. We know that that is not the case; we know that they can be dangerous and that a safe vaccine exists. So, it is important that the substantial increase in immunisation that we have seen over the past few weeks, for reasons that we would not have sought, continues into the future. We are working on that.

Roedd yn fater brys bob amser. Y broblem yw ein bod yn dal i wynebu'r gred weddilliol ymhlith rhai rhieni fod y brechlyn MMR yn ffactor sy'n cyfrannu, mewn rhyw ffordd, at awtistiaeth. Cafodd hynny ei hyrwyddo'n frwd gan rai elfennau o'r cyfryngau—nid yn unig yng Nghymru, ond ledled y DU; yn Fleet Street hefyd—lle nad oedd adroddiadau yn seiliedig ar waith ymchwil gwyddonol llawn, gadewch i ni ddweud. Arweiniodd sylw'r cyfryngau i'r mater at sefyllfa lle'r oedd pobl wir yn credu bod cysylltiad, a meddyliodd llawer o rieni, 'Pam cymryd y risg?' gan nad oedd y clefydau hyn, yn nhyb y rhieni, yn arbennig o beryglus. Rydym yn gwybod nad yw hynny'n wir; rydym yn gwybod y gallant fod yn beryglus a bod brechlyn diogel yn bodoli. Felly, mae'n bwysig bod y cynnydd sylweddol mewn imiwneiddio yr ydym wedi ei weld yn ystod yr wythnosau diwethaf, am resymau na fyddem wedi bod eisiau eu gweld, yn parhau i'r dyfodol. Rydym yn gweithio ar hynny.

14:23 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, we know that Torfaen has one of the highest incidences of heart diseases in Wales. Indeed, in certain villages, it is extremely high, and I would be interested to know why that is the case. We know that the Aneurin Bevan Local Health Board and Public Health Wales are working to reduce the number of people in Torfaen who suffer from heart disease. How do we intend to measure the effectiveness of efforts to prevent heart disease and not just treat it?

Brif Weinidog, rydym yn gwybod bod gan Dorfaen un o'r cyfraddau uchaf o glefydau'r galon yng Nghymru. Yn wir, mewn rhai pentrefi, mae'n hynod o uchel, a byddai gennyf ddiddordeb mewn cael gwybod pam mae hynny'n wir. Rydym yn gwybod bod Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i leihau nifer y bobl yn Nhorfaen sy'n dioddef o glefyd y galon. Sut ydym ni'n bwriadu mesur effeithiolrwydd ymdrechion i atal clefyd y galon ac nid dim ond ei drin?

14:23 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The easiest way of doing it is to look at the figures of those people who present with symptoms of heart disease in the first place, whether that is coronary heart disease, heart failure, or whether it is cardiovascular disease. It is important to analyse those figures, as we will be doing, to see a drop in the people who present with those symptoms in order to measure the effect of preventative measures. So, it is possible to measure the prevention of something in terms of heart disease, in a way that is not often possible in other areas of public life.

Y ffordd hawddaf o wneud hyn yw edrych ar ffigurau'r bobl hynny sy'n dangos symptomau o glefyd y galon yn y lle cyntaf, boed hynny'n glefyd coronaidd y galon, methiant y galon, neu'n glefyd cardiofasgwlaidd. Mae'n bwysig dadansoddi'r ffigurau hynny, fel y byddwn yn ei wneud, i weld gostyngiad yn y bobl sy'n dangos y symptomau hynny er mwyn mesur effaith mesurau ataliol. Felly, mae'n bosibl mesur ataliad rhywbeth o ran clefyd y galon, mewn ffordd nad yw'n aml yn bosibl mewn agweddau eraill ar fywyd cyhoeddus.

14:24

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have several changes to make to this week's business. The First Minister will make a statement shortly on a review of neonatal services in Betsi Cadwaladr University Health Board. Later this afternoon, the Minister for Health and Social Services will make a statement update on unscheduled care, and to accommodate this additional business, the statement on the abolition of the Agricultural Wages Board associated bodies has been postponed and will take place next week. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers, which are available to Members electronically.

Mae gen i nifer o newidiadau i'w gwneud i fusnes yr wythnos hon. Bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad yn fuan ar adolygiad o wasanaethau newyddenedigol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Yn ddiweddarach y prynhawn yma, bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad diweddaru ar ofal heb ei drefnu, ac i wneud lle i'r busnes ychwanegol hwn, mae'r datganiad ar ddiddymu cyrff cysylltiedig y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol wedi ei ohirio ac fe'i cynhelir yr wythnos nesaf. Dangosir y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ar gael ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.

14:24 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the leader of the house for her statement this afternoon and ask whether she could ask the Minister for Economy, Science and Transport to bring forward her statement on the M4 relief road. The leader of the house will know that I asked for this statement at the end of the last Assembly term. Since that time, there have been increasing difficulties on that road. Yesterday, there were 10-mile tailbacks in each direction. I believe that the Chancellor of the Exchequer will make a firm commitment to fund this road. Can we please have from the Minister a statement detailing the proposed route and schedule of construction as soon as possible?

Diolchaf i arweinydd y tŷ am ei datganiad y prynhawn yma a gofynnaf a allai ofyn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i gyflwyno ei datganiad ar ffordd liniaru'r M4. Bydd arweinydd y tŷ yn gwybod fy mod wedi gofyn am y datganiad hwn ar ddiwedd tymor diwethaf y Cynulliad. Ers hynny, cafwyd anawsterau cynyddol ar y ffordd honno. Ddoe, roedd tagfeydd o 10 milltir yn y ddau gyfeiriad. Credaf y bydd y Canghellor y Trysorlys yn gwneud ymrwymiad cadarn i ariannu'r ffordd hon. A allwn ni gael datganiad gan y Gweinidog os gwelwch yn dda yn rhoi manylion y llwybr arfaethedig ac amserlen y gwaith adeiladu cyn gynted â phosibl?

14:25 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister is currently considering all matters in relation to this and will make a statement before the summer recess.

Mae'r Gweinidog yn ystyried yr holl faterion yn ymwneud â hyn ar hyn o bryd, a bydd yn gwneud datganiad cyn toriad yr haf.

14:25 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, last week, the National Society for the Prevention of Cruelty to Children published its report 'How safe are our children?', which shows that the number of children in need due to abuse and neglect has risen to almost 9,500 in Wales and that the number of children on the child protection register has increased by almost 50%. The report also points out that abuse and neglect are complex, hidden and multifaceted and, as such, need a holistic approach. However, I am also getting anecdotal evidence of issues such as a lack of communication between health professionals and the fact that, unfortunately, there continues to be a high turnover of social workers across many local authorities in Wales, which I am sure that you would agree does not help those vulnerable children. Could we have a statement on what the Welsh Government is doing to tackle the issue of child neglect?

Weinidog, yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant ei adroddiad 'How safe are our children?', sy'n dangos bod nifer y plant mewn angen o ganlyniad i gam-drin ac esgeulustod wedi codi i bron i 9,500 yng Nghymru a bod nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant wedi cynyddu o bron i 50%. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod cam-drin ac esgeulustod yn gymhleth, yn gudd ac yn amlochrog ac, o ystyried hynny, bod angen dull cyfannol ar eu cyfer. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn derbyn tystiolaeth anecdotaidd o faterion fel diffyg cyfathrebu rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol a'r ffaith bod, yn anffodus, trosiant uchel o weithwyr cymdeithasol ar draws llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru o hyd, ac rwy'n siŵr y byddech yn cytuno nad yw hynny'n helpu'r plant hynny sy'n agored i niwed. A allem ni gael datganiad ar yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â'r mater o esgeuluso plant?

14:26 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You have raised an important point, Christine, and, as you said, it is a complex issue. The matter that you raised about the sharing of information between professionals is important to protect the most vulnerable in our society. I will raise it with the Minister and bring a statement forward.

Rydych chi wedi codi pwynt pwysig, Christine, ac, fel y dywedasoch, mae'n fater cymhleth. Mae'r mater a godwyd gennych ynglŷn â rhannu gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol yn bwysig i amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Byddaf yn ei godi gyda'r Gweinidog ac yn cyflwyno datganiad.

14:26 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I am sure that you will want to join me in paying our respects to the family of Gareth Colfer-Williams, who died last Thursday after being diagnosed with measles. I want to raise two aspects of the issue today. The first is that, although his family says that he was covered from head to foot in a rash, Public Health Wales says that it received no notification that he had measles from Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board, so there is confusion about that. Secondly, I have been told that although he went to see a general practitioner, the GP refused to come out to see him in his car. I believe that the Welsh Government has a manifesto commitment to encourage GP flexibility. If that is the case, with the measles epidemic as it is, I would like to see the Welsh Government use that flexibility wisely. So, I wonder whether we could have a debate in Government time with an update as to the measles situation in my region, because I do not want people questioning us, as politicians, in five years' time for not doing enough at this time to scrutinise the Government. There is a duty on us to have a debate in the National Assembly for Wales.

Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn dymuno ymuno â mi i roi ein cydymdeimlad i deulu Gareth Colfer-Williams, a fu farw ddydd Iau diwethaf ar ôl cael diagnosis o'r frech goch. Hoffwn godi dwy agwedd ar y mater heddiw. Y cyntaf yw, er bod ei deulu yn dweud ei fod wedi ei orchuddio gyda'r frech o'i gorun i'w sawdl, dywed Iechyd Cyhoeddus Cymru na dderbyniodd unrhyw hysbysiad ei fod yn dioddef o'r frech goch gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, felly ceir dryswch ynglŷn â hynny. Yn ail, dywedwyd wrthyf, er iddo fynd i weld meddyg teulu, fod y meddyg teulu wedi gwrthod dod allan i'w weld yn ei gar. Rwy'n credu bod gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad maniffesto i annog hyblygrwydd meddygon teulu. Os yw hynny'n wir, gydag epidemig y frech goch fel y mae, hoffwn weld Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r hyblygrwydd hwnnw'n ddoeth. Felly, rwy'n meddwl tybed a allem ni gael trafodaeth yn amser y Llywodraeth gyda diweddariad ar y sefyllfa o ran y frech goch yn fy rhanbarth i, oherwydd nid wyf am i bobl ein cwestiynu ni, fel gwleidyddion, ymhen pum mlynedd am beidio â gwneud digon ar yr adeg hon i graffu ar y Llywodraeth. Mae dyletswydd arnom i gael trafodaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

14:27 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We certainly pass on our sincere condolences to the family of Gareth. I am aware of the issues that you raised about Public Health Wales and ABMU giving conflicting accounts. You are absolutely right; it is a priority for the Welsh Government to increase the access to general practitioners. I know that the Minister for Health and Social Services is taking that forward and I am that he will bear your comments in mind.

Rydym yn sicr yn rhoi ein cydymdeimlad diffuant i deulu Gareth. Rwy'n ymwybodol o'r materion a godwyd gennych ynglŷn ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn rhoi gwybodaeth sy'n gwrthdaro. Rydych yn llygad eich lle; mae'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru gynyddu'r mynediad at feddygon teulu. Gwn fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwrw ymlaen â hynny ac rwy'n siŵr y bydd yn rhoi ystyriaeth i'ch sylwadau.

14:28 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I am seeking a statement from the Minister for health in response to concerns regarding a private healthcare company that is targeting the Swansea and South Wales West region through its website so as to sell the single measles vaccine. I am particularly concerned at the appearance of the telephone number for enquiries on the site for Swansea residents and that the site promotes the now-discredited link between the MMR jab and autism. The single measles vaccine is not licensed for use in the UK; it can only be administered here on prescription. The website advertises a £50 fee for registration and prescription, followed by a £110 fee for the single measles vaccine and £110 fee for the rubella vaccine. Although a single mumps vaccine is also advertised as being available for £120, the site concedes that that is not yet the case. The Children's Immunisation Centre Ltd says on its website that it is registered by the Care Quality Commission and that that body licenses it to provide services. The Care Quality Commission only has jurisdiction in England and on its website says that its role is

Weinidog, rwy'n gofyn am ddatganiad gan y Gweinidog iechyd mewn ymateb i bryderon am gwmni gofal iechyd preifat sy'n targedu ardal Abertawe a Gorllewin De Cymru trwy ei wefan er mwyn gwerthu'r brechlyn sengl ar gyfer y frech goch. Rwy'n arbennig o bryderus am ymddangosiad y rhif ffôn ar gyfer ymholiadau ar y wefan ar gyfer trigolion Abertawe a bod y wefan yn hyrwyddo'r cysylltiad rhwng y brechiad MMR ac awtistiaeth sydd wedi'i ddifrïo bellach. Nid yw'r brechlyn sengl ar gyfer y frech goch wedi ei drwyddedu i gael ei ddefnyddio yn y DU; ceir ei ddarparu yma dim ond ar bresgripsiwn. Mae'r wefan yn hysbysebu ffi o £50 am gofrestru a phresgripsiwn, ac yna ffi o £110 ar gyfer y brechlyn sengl ar gyfer y frech goch a ffi o £110 ffi ar gyfer y brechlyn rwbela. Er yr hysbysebir bod brechlyn sengl ar gyfer clwy'r pennau ar gael hefyd am £120, mae'r wefan yn cyfaddef nad yw hynny'n wir eto. Mae'r Children's Immunisation Centre Cyf yn dweud ar ei wefan ei fod wedi ei gofrestru gan y Comisiwn Ansawdd Gofal a bod y corff hwnnw yn ei drwyddedu i ddarparu gwasanaethau. Dim ond yn Lloegr y mae gan y Comisiwn Ansawdd Gofal awdurdod ac mae'n dweud ar ei wefan mai ei swyddogaeth yw:

'to check whether hospitals, care homes and care services are meeting national standards'.

gwirio a yw ysbytai, cartrefi gofal a gwasanaethau gofal yn bodloni safonau cenedlaethol.

It does not claim to be able to license medicines or other medical services or to approve services. I understand that there are other companies doing a similar thing. I would be grateful if the Minister could indicate in his statement who is regulating this company's activities in Wales and how it is able to market an unlicensed vaccine in this way.

Nid yw'n honni ei fod yn gallu trwyddedu meddyginiaethau na gwasanaethau meddygol eraill na chymeradwyo gwasanaethau. Rwy'n deall bod cwmnïau eraill yn gwneud rhywbeth tebyg. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog nodi yn ei ddatganiad pwy sy'n rheoleiddio gweithgareddau'r cwmni hwn yng Nghymru a sut mae'n gallu marchnata brechlyn didrwydded yn y modd hwn.

14:29 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am aware of the activities of the Children's Immunisation Centre Ltd. Health Inspectorate Wales has investigated the company; however, as you said, it is not registrable under its regulatory framework. It is registered with England's equivalent—the Care Quality Commission. It appears that the Welsh Government can do nothing to prevent companies offering these services in Wales, but we are looking at this closely. I should reiterate that the Welsh Government does not support the delivery of a single measles vaccine, on the grounds that it does not confer protection from mumps and rubella. Therefore, we do not support the use of that single vaccination.

Rwy'n ymwybodol o weithgareddau'r Children's Immunisation Centre Cyf. Mae Arolygiaeth Iechyd Cymru wedi ymchwilio i'r cwmni; ond, fel y nodwyd gennych, nid yw'n gofrestradwy dan ei fframwaith rheoleiddio. Mae wedi ei gofrestru gyda chorff cyfatebol Lloegr—y Comisiwn Ansawdd Gofal. Mae'n ymddangos na all Llywodraeth Cymru wneud unrhyw beth i atal cwmnïau sy'n cynnig y gwasanaethau hyn yng Nghymru, ond rydym yn edrych ar hyn yn ofalus. Dylwn ailadrodd hefyd nad yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyflwyno brechlyn sengl ar gyfer y frech goch, ar y sail nad yw'n amddiffyniad rhag clwy'r pennau a rwbela. Felly, nid ydym yn cefnogi'r defnydd o'r brechlyn sengl.

14:30 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

We have had extensive problems in north Wales with the collection of fallen stock, as a result of the severe weather conditions. In particular, constituents are finding that the National Fallen Stock Company is unable, with its usual collector—Clutton Agricultural Limited—to collect fallen stock. Several constituents have contacted me about stock that has been on their farmyard for several weeks. In addition, they are facing increased costs of over £1 a kilo for the collection of dead stock, which is putting them under considerable financial pressure. I know that the Minister for Natural Resources and Food has had meetings with the chief veterinary officer, Dr Christianne Glossop. So, I would be grateful if you could indicate when a statement is coming forward. It would be useful to have an official statement from the Minister, which can then be passed on to the National Fallen Stock Company, with whom I am already in correspondence.

Rydym wedi cael problemau helaeth yng ngogledd Cymru gyda chasglu stoc trig, o ganlyniad i'r tywydd garw. Yn benodol, mae etholwyr yn canfod nad yw'r Cwmni Stoc Trig Cenedlaethol, gyda'i gasglwr arferol—Clutton Agricultural Cyf—yn gallu casglu stoc trig. Mae nifer o etholwyr wedi cysylltu â mi am stoc sydd wedi bod ar y buarth ers sawl wythnos. Hefyd, maen nhw'n wynebu costau cynyddol o dros £1 y cilogram am gasglu stoc marw, sy'n eu rhoi dan bwysau ariannol sylweddol. Gwn fod y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd wedi cael cyfarfodydd gyda'r prif swyddog milfeddygol, Dr Christianne Glossop. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech nodi pryd y bydd datganiad yn cael ei gyflwyno. Byddai'n ddefnyddiol cael datganiad swyddogol gan y Gweinidog, y gellir ei drosglwyddo wedyn i'r Cwmni Stoc Trig Cenedlaethol, yr wyf eisoes mewn gohebiaeth ag ef.

Senedd.tv Fideo Video

14:31 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

The Minister for Natural Resources and Food has made several statements over the past few weeks and will be making another statement this afternoon.

Mae'r Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd wedi gwneud sawl datganiad yn ystod yr wythnosau diwethaf a bydd yn gwneud datganiad arall y prynhawn yma.

Senedd.tv Fideo Video

14:31 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Could we have a Government statement—no, not a statement but, even better, a debate in Government time on workers' rights? We are approaching 1 May, and spring is in the air; we could all join together and sing 'The Internationale', or we could if I could sing. However, there is an important issue at stake with workers' rights. There is an attempt in Westminster at present to get workers to sell their rights for shares in companies—in fact, to sell their birthright, which has been fought for over hundreds of years in Wales, from the trade union movement onwards. We do not know how the Conservatives in the Assembly view that legislation, although some of their colleagues in the House of Lords voted against it last night. This is not the way that we want to go in Wales, surely. We will also see greater demand for our advice services if this happens, as people will be seeking independent advice as to how their rights are affected by this legislation. It would be good to mark International Workers' Day with a debate in Government time on workers' rights, when we could look at a range of issues, from the Agricultural Wages Board to the commodification of rights, and put them in their proper place, as central to our vision of democracy in Wales.

A allem ni gael datganiad gan y Llywodraeth—na, nid datganiad, ond, hyd yn oed yn well, trafodaeth yn amser y Llywodraeth ar hawliau gweithwyr? Rydym yn agosáu at 1 Mai, ac mae'r gwanwyn wedi dod; gallai pob un ohonom ymuno â'n gilydd a chanu 'The Internationale', neu gallem wneud hynny pe byddwn i'n gallu canu. Fodd bynnag, mae mater pwysig yn y fantol o ran hawliau gweithwyr. Mae ymgais yn San Steffan ar hyn o bryd i gael gweithwyr i werthu eu hawliau i gyfranddaliadau mewn cwmnïau—i werthu eu hawl genedigol yn wir, y brwydrwyd drostynt am gannoedd o flynyddoedd yng Nghymru, o fudiad yr undebau llafur ymlaen. Nid ydym yn gwybod barn y Ceidwadwyr yn y Cynulliad ar y ddeddfwriaeth honno, er bod rhai o'u cydweithwyr yn Nhŷ'r Arglwyddi wedi pleidleisio yn ei herbyn neithiwr. Nid dyma'r ffordd rydym am ei dilyn yng Nghymru, yn sicr. Byddwn hefyd yn gweld mwy o alw am ein gwasanaethau cynghori os bydd hyn yn digwydd, gan y bydd pobl yn chwilio am gyngor annibynnol ar sut yr effeithir ar eu hawliau gan y ddeddfwriaeth hon. Byddai'n dda dathlu 'Diwrnod Rhyngwladol y Gweithwyr' gyda thrafodaeth yn amser y Llywodraeth ar hawliau gweithwyr, pryd y gallem ni ystyried amrywiaeth o faterion, o'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol i droi hawliau yn nwyddau, a'u rhoi yn eu lle priodol, sef yn ganolog i'n gweledigaeth o ddemocratiaeth yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:33 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

We have to look at this issue across departments, across the Welsh Government, because this legislation will certainly have an impact. We will bring forward our different statements and announcements in due course.

Mae'n rhaid i ni edrych ar y mater hwn ar draws adrannau, ar draws Llywodraeth Cymru, gan y bydd y ddeddfwriaeth hon yn sicr yn cael effaith. Byddwn yn cyflwyno ein gwahanol ddatganiadau a chyhoeddiadau maes o law.

Senedd.tv Fideo Video

14:33 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, is it possible to have a statement from the Minister for Health and Social Services on what obligations he places on health boards in dealing with concerns from clinicians and workers in the health boards? The Royal College of Nursing has today released the results of a survey, which indicate that nearly half of all nurses feel too intimidated to raise concerns with the health board when they see something on the ward. This builds on the issue that I raised with the First Minister last week about the duty of candour. I would very much hope that the Minister would see fit to bring forward a statement to support clinicians and health workers when they have concerns, and when they feel that they are inhibited in raising those concerns with management.

Weinidog, a yw'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ba rwymedigaethau y mae'n eu gosod ar fyrddau iechyd wrth ymdrin â phryderon gan glinigwyr a gweithwyr yn y byrddau iechyd? Mae Coleg Brenhinol y Nyrsys wedi rhyddhau canlyniadau arolwg heddiw, sy'n dangos bod bron i hanner yr holl nyrsys yn teimlo'n rhy ofnus i godi pryderon gyda'r bwrdd iechyd pan fyddant yn gweld rhywbeth ar y ward. Mae hyn yn adeiladu ar y mater a godais gyda'r Prif Weinidog yr wythnos diwethaf am y ddyletswydd o onestrwydd. Byddwn yn gobeithio'n fawr y bydd y Gweinidog yn gweld yn dda i gyflwyno datganiad i gefnogi clinigwyr a gweithwyr iechyd pan fydd ganddynt bryderon, a phan fyddant yn teimlo eu bod yn cael eu rhwystro rhag codi'r pryderon hynny gyda rheolwyr.

14:33 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is important that health staff do not feel inhibited. When I was the Minister for Health and Social Services, this is something that I encouraged, and I know that the current Minister for health will encourage that transparency among healthcare workers and NHS staff across the board. Therefore, I am sure that the Minister will be discussing this with the chairs and the chief executives of the health boards.

Mae'n bwysig nadd yw staff iechyd yn teimlo eu bod yn cael eu rhwystro. Pan roeddwn i'n Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mae hyn yn rhywbeth roeddwn i'n ei annog, a gwn y bydd y Gweinidog iechyd presennol yn annog y tryloywder hwnnw ymhlith gweithwyr gofal iechyd ac aelodau staff y GIG ar draws y bwrdd. Felly, rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn trafod hyn gyda chadeiryddion a phrif weithredwyr y byrddau iechyd.

14:34 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wish to call for two statements. First, in relation to the funeral industry, the Minister will be familiar with the organisation Together Creating Communities in Wrexham, which held its spring public assembly last Friday, when some of your colleagues were also in attendance. One of its campaigns highlights concerns that the funeral industry is not regulated, as well as the need to make trade association mandatory. When it presented last year to the Assembly's cross-party group on funerals and bereavement, which I chair, it detailed the experiences of funeral directors who had failed to deliver the level of service that was expected of them, and contrasted that with the codes of practice available from the National Association of Funeral Directors and the National Society of Allied and Independent Funeral Directors. We seek leadership from the Welsh Government, and a statement on this, in response to the call for public sector bodies to provide advice to the bereaved in Wales to ensure that they only recommend funeral directors that adhere to a code of practice, which could be actively promoted and whose literature can be provided for use in public sector premises.

Hoffwn alw am ddau ddatganiad. Yn gyntaf, o ran y diwydiant angladdau, bydd y Gweinidog yn gyfarwydd â'r sefydliad Trefnu Cymunedol Cymru yn Wrecsam, a gynhaliodd ei gynulliad cyhoeddus y gwanwyn ddydd Gwener diwethaf, pan roedd rhai o'ch cydweithwyr hefyd yn bresennol. Mae un o'i ymgyrchoedd yn tynnu sylw at bryderon nad yw'r diwydiant angladdau wedi ei reoleiddio, yn ogystal â'r angen i wneud cymdeithas fasnach yn orfodol. Pan wnaeth gyflwyniad i grŵp trawsbleidiol y Cynulliad ar angladdau a phrofedigaeth y llynedd, yr wyf fi'n ei gadeirio, rhoddodd fanylion am brofiadau o drefnwyr angladdau a oedd wedi methu â darparu'r lefel o wasanaeth a ddisgwylir ganddynt, a chyferbynnwyd hynny â'r codau ymarfer sydd ar gael gan Gymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau a Chymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau Perthynol ac Annibynnol. Rydym yn gofyn am arweiniad gan Lywodraeth Cymru, a datganiad ar hyn, mewn ymateb i'r alwad i gyrff sector cyhoeddus ddarparu cyngor i'r rhai sydd wedi dioddef profedigaeth yng Nghymru er mwyn sicrhau eu bod yn argymell dim ond trefnwyr angladdau sy'n cydymffurfio â chod ymarfer, y gellid eu hyrwyddo'n ymarferol ac y gellid darparu eu taflenni gwybodaeth i'w defnyddio yn safleoedd y sector cyhoeddus.

Secondly and finally, I call for a statement on a matter raised earlier. I wish to raise it in a context that will become clear, which is NewBuy Cymru. We know that the new Minister for housing has stated that the carpet was pulled away by the UK Government's announcement on the Help to Buy mortgage guarantee scheme, and that Welsh Government partners—the Home Builders Federation and the Council of Mortgage Lenders—supported his decision on the grounds that there would be less financial risk to him. We heard reference earlier to quotes from Redrow, but the Home Builders Federation has told me that house builders are still very much behind the scheme and that they were discussing that with the Welsh Government and hoping to clarify it in the next few days, and, at that stage, they were planning to meet the Minister on Monday. The Minister has invited party spokespersons for housing to meet his officials tomorrow, but this merits a statement to the full Assembly, particularly in light of the statement by the Home Builders Federation that it did not support that decision.

Yn ail, ac yn olaf, galwaf am ddatganiad ar fater a godwyd yn gynharach. Hoffwn ei godi mewn cyd-destun a fydd yn dod yn eglur, sef NewBuy Cymru. Rydym yn gwybod bod y Gweinidog tai newydd wedi datgan bod cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar gynllun gwarantu morgeisi Cymorth i Brynu wedi rhoi terfyn arno, a bod partneriaid Llywodraeth Cymru—y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi a Chyngor y Benthycwyr Morgeisi— wedi cefnogi ei benderfyniad ar y sail y byddai llai o risg ariannol iddo ef. Clywsom gyfeirio yn gynharach at ddyfyniadau gan Redrow, ond mae'r Ffederasiwn Adeiladwyr Tai wedi dweud wrthyf fod adeiladwyr tai yn dal i gefnogi'r cynllun yn frwd a'u bod yn trafod hynny gyda Llywodraeth Cymru ac yn gobeithio ei wneud yn eglur yn ystod y diwrnodau nesaf, a, bryd hynny, eu bod yn bwriadu cwrdd â'r Gweinidog ddydd Llun. Mae'r Gweinidog wedi gwahodd llefarwyr tai y pleidiau i gwrdd â'i swyddogion yfory, ond mae hyn yn haeddu datganiad i'r Cynulliad llawn, yn enwedig yng ngoleuni'r datganiad gan y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai nad oedd yn cefnogi'r penderfyniad hwnnw.

14:36

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In relation to the first statement you asked for on the regulation of funerals, that falls within my portfolio. I have asked my officials to look at that and I will bring something forward in due course. In relation to NewBuy, you will have heard the First Minister's answer—I was not sure whether it was to you or to other Members—but the Welsh Government is committed to working with lenders and house builders to increase the supply of housing and the supply of homes. The Minister has made it very clear to committee that he remained in discussion on this matter with the lenders and house builders, and his written statement made it very clear that he was continuing to work with stakeholders.

O ran y datganiad cyntaf y gofynasoch amdano am reoleiddio angladdau, mae hynny'n rhan o'm portffolio i. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion edrych ar hyn, a byddaf yn cyflwyno rhywbeth maes o law. O ran NewBuy, byddwch wedi clywed ateb y Prif Weinidog—nid wyf yn siŵr a oedd i chi neu i Aelodau eraill—ond mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda benthycwyr ac adeiladwyr tai i gynyddu'r cyflenwad o dai a'r cyflenwad o gartrefi. Mae'r Gweinidog wedi ei gwneud yn eglur iawn i'r pwyllgor ei fod yn dal i drafod y mater hwn gyda'r benthycwyr a'r adeiladwyr tai, ac roedd ei ddatganiad ysgrifenedig yn ei gwneud yn eglur iawn ei fod yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid.

14:37

# Datganiad: Adolygiad o Wasanaethau Newyddenedigol ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

# Statement: A Review of Neonatal Services in Betsi Cadwaladr University Local Health Board

Senedd.tv Fideo Video

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There can be few more important obligations than providing high-quality care to the most poorly newborn babies. Technological advances now mean that tiny premature babies who would inevitably have died even 10 years ago, are now alive and thriving. To give every child born the best chance of life means that in Wales we must offer the highest standards of neonatal care. Health boards deliver care to professionally recommended standards. That, of course, if important. Achieving these standards for the small proportion of babies requiring the very highest and most complex levels of care, both now and in the future, is vitally important. On 28 March, I informed you of my intention to set in place arrangements to seek further independent advice on whether there is a model where we can be fully self-sufficient in the delivery of specialised neonatal services in the north of Wales in the future. I want to update Members on the arrangements I have put in place in order to gain this advice.

Nid oes fawr o rwymedigaethau pwysicach na darparu gofal o ansawdd uchel i'r babanod newydd-anedig mwyaf sâl. Mae datblygiadau technolegol yn awr yn golygu bod babanod bach cynamserol, a fyddai'n anochel wedi marw hyd yn oed 10 mlynedd yn ôl, bellach yn fyw ac yn ffynnu. Er mwyn rhoi'r cyfle gorau i bob plentyn a enir gael byw, rhaid i ni yng Nghymru gynnig gofal newyddenedigol o'r safonau uchaf. Mae byrddau iechyd yn darparu gofal i safonau a argymhellir yn broffesiynol. Mae hynny, wrth gwrs, yn bwysig. Mae'n hanfodol bwysig cyflawni'r safonau hyn ar gyfer y gyfran fach o fabanod sydd ag angen gofal o'r lefelau uchaf a mwyaf cymhleth, yn awr ac yn y dyfodol. Ar 28 Mawrth, rhoddais wybod i chi am fy mwriad i sefydlu trefniadau i geisio rhagor o gyngor annibynnol ynghylch a oes model lle y gallwn fod yn gwbl hunan-gynhaliol ym maes gwasanaethau newyddenedigol arbenigol yng ngogledd Cymru yn y dyfodol. Rwyf am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y trefniadau yr wyf wedi eu sefydlu er mwyn cael y cyngor hwn.

I am pleased to announce that the Royal College of Paediatrics and Child Health has agreed to undertake a review over the next four months. This review will give consideration to the current and proposed arrangements for neonatal care, focusing specifically on intensive care provision, and it will consider models for providing a sustainable and compliant neonatal intensive care unit within north Wales. The royal college will provide an authoritative, independent and experienced multidisciplinary team to undertake this review. It has significant experience in neonatal services reorganisation. In particular, the British Association of Perinatal Medicine, which is the standard setting body, is associated with the royal college.

Rwyf yn falch o gyhoeddi bod y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant wedi cytuno i gynnal adolygiad yn ystod y pedwar mis nesaf. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried y trefniadau presennol ac arfaethedig ar gyfer gofal newyddenedigol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarpariaeth gofal dwys. Bydd yn ystyried modelau ar gyfer darparu uned gofal dwys newyddenedigol sy'n gynaliadwy ac yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol yng ngogledd Cymru. Bydd y coleg brenhinol yn darparu tîm amlddisgyblaethol awdurdodol, annibynnol a phrofiadol i gynnal yr adolygiad hwn. Mae ganddo brofiad sylweddol mewn ad-drefnu gwasanaethau newyddenedigol. Yn benodol, mae Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain, sef y corff sy'n gosod y safonau, yn gysylltiedig â'r coleg brenhinol.

In conducting the review, the royal college will operate in an open and transparent way. The review team will meet with clinicians, health professionals, health board managers and expert groups. The terms of reference will also require the review team to meet and consider the views of patient representative groups, including BLISS and the community health council. I have also asked the royal college to meet with North Wales Assembly Members as a collective group to ensure that all views are heard.

Wrth gynnal yr adolygiad, bydd y coleg brenhinol yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw. Bydd y tîm adolygu'n cyfarfod â chlinigwyr, gweithwyr iechyd proffesiynol, rheolwyr byrddau iechyd a grwpiau o arbenigwyr. Bydd y cylch gorchwyl hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r tîm adolygu gwrdd â grwpiau sy'n cynrychioli cleifion, gan gynnwys BLISS a'r cyngor iechyd cymuned, ac ystyried eu barn. Rwyf hefyd wedi gofyn i'r coleg brenhinol gwrdd ag Aelodau'r Cynulliad ar gyfer Gogledd Cymru fel grŵp ar y cyd, i sicrhau bod barn pawb yn cael ei glywed.

As I said in my original statement, the review will consider broader issues than medical standards. The review will also include consideration of interdependencies, including the impact of any model on other acute services and how best to meet patient need given the geography of the north. Workforce and training will also form part of the assessment of any model as well as an assessment of compliance with national guidance and standards.

Fel y dywedais yn fy natganiad gwreiddiol, bydd yr adolygiad yn ystyried materion ehangach na safonau meddygol. Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried rhyng-ddibyniaethau, gan gynnwys effaith unrhyw fodel ar wasanaethau acíwt eraill a'r ffordd orau i ddiwallu anghenion cleifion o ystyried daearyddiaeth y gogledd. Ystyrir y gweithlu a hyfforddiant hefyd wrth asesu unrhyw fodel, yn ogystal â chydymffurfiad â chanllawiau a safonau cenedlaethol.

The royal college has already started the review and will report in September. The timescale allows the findings of this review to inform any consultation on acute services being undertaken by Betsi Cadwaladr University Local Health Board over the summer. I will report on the outcomes of the review back to Members.

Mae'r coleg brenhinol eisoes wedi cychwyn yr adolygiad a bydd yn cyflwyno adroddiad ym mis Medi. Mae'r amserlen yn golygu y gall canfyddiadau'r adolygiad hwn gyfrannu at unrhyw ymgynghoriad ar wasanaethau acíwt a gynhelir gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ystod yr haf. Byddaf yn hysbysu'r Aelodau am ganlyniadau'r adolygiad.

As I said in my previous statement, this review should not be seen as in any way a criticism of the decisions taken by the health board. This review is independent of the decisions taken by the board and will focus on future activity. We all know that service change must happen and that it involves difficult choices, but we must focus on ensuring that safe, sustainable services are in place.

Fel y dywedais yn fy natganiad blaenorol, ni ddylid ystyried yr adolygiad hwn fel beirniadaeth ar benderfyniadau'r bwrdd iechyd mewn unrhyw fodd. Mae'r adolygiad hwn yn annibynnol ar y penderfyniadau a wneir gan y bwrdd, a bydd yn canolbwyntio ar weithgarwch yn y dyfodol. Rydym i gyd yn gwybod bod yn rhaid i wasanaethau newid a bod hynny'n golygu dewisiadau anodd, ond rhaid i ni ganolbwyntio ar sicrhau bod gwasanaethau diogel a chynaliadwy ar waith.

14:40 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for your statement, First Minister. As you are aware, many thousands of people in north Wales are very concerned about the future of baby care in the region and are utterly opposed to the proposals that the Betsi Cadwaladr University Local Health Board brought forward in its consultation process last year. I think that many people in north Wales will be disappointed by what you have said. They are clearly looking for a firm decision from you as soon as possible, an end to the uncertainty, and an assurance that services will continue to be delivered in north Wales. That said, I am pleased that we now have a timetable by which you will be working and that the royal college will be reporting within. It will at least give some assurance, particularly to those members of staff who are working in the service, that you are listening to the concerns that have been expressed by them, by the public, by the clinicians within the health board's own clinical reference group, along with the British Medical Association, the Royal College of Nursing and the Royal College of Midwives.

Diolch i chi am eich datganiad, Brif Weinidog. Fel y gwyddoch, mae miloedd lawer o bobl yng ngogledd Cymru yn bryderus iawn am ddyfodol gofal babanod yn y rhanbarth, ac yn gwrthwynebu'n llwyr y cynigion a gyflwynwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ei broses ymgynghori y llynedd. Credaf y bydd llawer o bobl yng ngogledd Cymru yn cael eu siomi gan yr hyn yr ydych wedi'i ddweud. Maent yn amlwg yn dymuno cael penderfyniad pendant gennych cyn gynted ag y bo modd, diwedd ar yr ansicrwydd, a sicrwydd y bydd y gwasanaethau yn parhau i gael eu darparu yn y gogledd. Wedi dweud hynny, rwyf yn falch bod gennym amserlen bellach y byddwch chi'n gweithio tuag ati ac y bydd y coleg brenhinol yn cyflwyno adroddiad oddi mewn iddi. Bydd yn rhoi rhywfaint o sicrwydd o leiaf, yn enwedig i'r aelodau staff hynny sy'n gweithio yn y gwasanaeth, eich bod yn gwrando ar y pryderon a fynegwyd ganddynt hwy, gan y cyhoedd, gan glinigwyr grŵp cyfeirio clinigol y bwrdd iechyd ei hun, ynghyd â Chymdeithas Feddygol Prydain, y Coleg Nyrsio Brenhinol a Choleg Brenhinol y Bydwragedd.

I wish to ask three specific questions. The first is on the timescale after the report has been published by the royal college. It is important that the timescale for your final decision is announced promptly and as soon as possible after the report is published. Can you give an indication of the timescale that you will work to following the publication of the royal college report?

Hoffwn ofyn tri chwestiwn penodol. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r amserlen ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi gan y coleg brenhinol. Mae'n bwysig bod yr amserlen ar gyfer eich penderfyniad terfynol yn cael ei chyhoeddi'n brydlon a chyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi. A allwch roi syniad o'r amserlen y byddwch yn ei dilyn ar ôl cyhoeddi adroddiad y coleg brenhinol?

Secondly, you referred to many stakeholders, including Assembly Members, who will be brought to the table to contribute to this piece of work. I very much welcome that, but you did not refer to the staff that are delivering the service. Can you confirm that you would welcome their input into the work that the royal college is doing?

Yn ail, rydych wedi cyfeirio at lawer o randdeiliaid, gan gynnwys Aelodau Cynulliad, a fydd yn dod at y bwrdd i gyfrannu at y darn hwn o waith. Croesawaf hynny'n fawr iawn, ond ni wnaethoch gyfeirio at y staff sy'n darparu'r gwasanaeth. A allwch gadarnhau y byddech yn croesawu eu cyfraniad hwy at y gwaith y mae'r coleg brenhinol yn ei wneud?

Thirdly, what consideration will be given to the previous work that has been done on this subject over the years, which includes the 'Designed for North Wales' programme, during which a report was produced and which was clear that the evidence supported the retention of a service in north Wales at a single site in terms of the continued delivery of a level 3 neonatal service?

Yn drydydd, pa ystyriaeth fydd yn cael ei rhoi i'r gwaith blaenorol a wnaed ar y mater hwn dros y blynyddoedd, gan gynnwys y rhaglen 'Cynllun Gogledd Cymru'? Paratowyd adroddiad yn ystod y rhaglen hon a oedd yn nodi'n eglur bod y dystiolaeth yn cefnogi'r syniad o gadw gwasanaeth yng ngogledd Cymru ar un safle er mwyn parhau i ddarparu gwasanaeth newyddenedigol lefel 3.

I welcome your statement. I am pleased that it moves us forward. As I have said, I am disappointed that it does not give that firm commitment that I and other people may have been looking for, but I hope that you will be able to respond to the specific questions that I have placed. Diolch yn fawr.

Rwyf yn croesawu eich datganiad. Rwyf yn falch ei fod yn ein symud ymlaen. Fel y dywedais, rwyf yn siomedig nad yw'n rhoi'r ymrwymiad cadarn y byddwn i a phobl eraill wedi dymuno ei gael, ond rwyf yn gobeithio y byddwch yn gallu ymateb i'r cwestiynau penodol yr wyf wedi'u rhoi. Diolch yn fawr.

14:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

In terms of the first question, it is important that the timescale is long enough to give full consideration to the issue in terms of the review, but short enough in order for there not to be uncertainty for an unacceptable length of time. The Member asked when the decision would be taken. I cannot give an absolute timescale but I understand that the decision needs to be taken promptly. However, I do need to give it full consideration. Certainly, in order for there to be as much certainty as possible, it has to be understood. Clearly, it will have to be this year, but it is important that the decision is taken as quickly as possible.

O ran y cwestiwn cyntaf, mae'n bwysig i'r amserlen fod yn ddigon hir i roi ystyriaeth lawn i'r mater yn yr adolygiad, ond yn ddigon byr fel nad oes ansicrwydd am gyfnod annerbyniol o amser. Gofynnodd yr Aelod pryd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud. Ni allaf roi amserlen bendant, ond rwyf yn deall bod angen gwneud y penderfyniad yn brydlon. Fodd bynnag, mae angen i mi roi ystyriaeth lawn i'r mater. Yn bendant, er mwyn cael cymaint o sicrwydd ag y bo modd, mae'n rhaid deall y mater. Yn amlwg, bydd yn rhaid gwneud y penderfyniad eleni, ond mae'n bwysig gwneud hynny cyn gynted ag y bo modd.

The views of staff are important. As I mentioned in my statement, clinicians and health professionals will be fully consulted, and the views of the staff delivering the service are key in terms of the formulation of the review.

Mae barn y staff yn bwysig. Fel y soniais yn fy natganiad, byddwn yn ymgynghori'n llawn â chlinigwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol, ac mae barn y staff sy'n darparu'r gwasanaeth yn allweddol wrth lunio'r adolygiad.

In terms of any review that took place previously, I will expect this review to take into account all relevant information, with a view to examining the service in the future. I am quite happy to say to Members that the objective would be to find a way to have a self-sufficient neonatal service in the north. That is the objective. However, it is important to ensure that that objective can be met in order to understand what needs to be done so that it can be met. That can only be done through full consultation with the medical profession and members of the public, but also by having a body, such as the royal college, to conduct the review. We now await the outcome of that review.

O ran unrhyw adolygiad a gynhaliwyd o'r blaen, byddaf yn disgwyl i'r adolygiad hwn roi ystyriaeth i'r holl wybodaeth berthnasol, gyda'r bwriad o edrych ar y gwasanaeth yn y dyfodol. Rwyf yn eithaf hapus i ddweud wrth yr Aelodau mai'r amcan fydd dod o hyd i ffordd o gael gwasanaeth newyddenedigol hunangynhaliol yn y gogledd. Dyna'r nod. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau y gellir cyflawni'r amcan hwnnw er mwyn deall yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn ei gyflawni. Ni ellir ond gwneud hynny drwy ymgynghori'n llawn â'r proffesiwn meddygol ac aelodau o'r cyhoedd, ond hefyd drwy gael un corff, megis y coleg brenhinol, i gynnal yr adolygiad. Rydym yn awr yn aros am ganlyniad yr adolygiad hwnnw.

14:45 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome your statement today, First Minister. I also thank you for taking this issue on, as First Minister.

Rwyf yn croesawu eich datganiad heddiw, Brif Weinidog. Diolch i chi hefyd am ymgymryd â'r mater hwn, fel Prif Weinidog.

As Darren said, this issue has caused great concern across north Wales, and my postbag has been quite heavy as a result. This is at a time when people have been wondering what is going to happen to them—often expectant mums, wondering where they are going to end up having their babies. I am sure that you will put a lot of minds at rest. Unlike Darren Millar, I am prepared to wait four months for the reference group to look at this. I wish to seek assurances from the Government that it will listen to the staff—Darren made a point about the staff, and he was right—and that we will start with a clean sheet of paper and, as you mentioned to Darren in your last response, we will be looking to maintain, or at least to have, level 3 neonatal services in north Wales. If that is the premise from which we are starting, how do we intend to ensure that this is communicated to everyone across north Wales, so that we do not have people thinking that these services are under threat and that we are going to have to keep looking over the border? We are a grown-up nation and we can deliver our own health services.

Fel y dywedodd Darren, mae'r mater hwn wedi achosi pryder mawr ar draws gogledd Cymru, ac mae fy sach bost wedi bod yn eithaf trwm o ganlyniad. Mae hyn ar adeg pan mae pobl wedi bod yn pendroni beth sy'n mynd i ddigwydd iddynt—mamau beichiog yn aml, yn pendroni ble byddant yn mynd i gael eu babanod. Rwyf yn siŵr y byddwch yn tawelu meddyliau llawer o bobl. Yn wahanol i Darren Millar, rwyf yn barod i aros am bedwar mis i'r grŵp cyfeirio edrych ar hyn. Rwyf yn dymuno gofyn am sicrwydd gan y Llywodraeth y bydd yn gwrando ar y staff—gwnaeth Darren bwynt am y staff, ac roedd yn iawn—ac y byddwn yn dechrau gyda dalen lân o bapur ac mai ein bwriad, fel y dywedoch wrth Darren yn eich ymateb diwethaf, fydd cynnal, neu o leiaf cael, gwasanaethau newyddenedigol lefel 3 yn y gogledd. Os mai dyna ein man cychwyn, sut rydym yn bwriadu sicrhau y caiff hyn ei gyfleu i bawb ar draws gogledd Cymru, fel nad yw pobl yn meddwl bod y gwasanaethau hyn o dan fygythiad ac y bydd yn rhaid i ni barhau i edrych dros y ffin? Rydym yn genedl aeddfed a gallwn ddarparu ein gwasanaethau iechyd eu hunain.

14:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

It will be important, as part of the review process, to gain the views of as many people as is possible, including all of those who are directly involved in the delivery of the service and those who are involved by being service consumers, if I can put it that way. I have mentioned what the intention is. I cannot pretend that this will be easy. However, understanding what the challenges would be is the first part of the process. There would clearly need to be planning to put in place more consultants, and one centre that would deal with the most serious cases, as well as other neonatal cases. That is important. I also thought that it was important today, on the heels of the original announcement, to put in place a timescale as quickly as possible, in order to provide those living in the area with the assurance that this is being taken forward properly. That is hopefully something that is being done today.

Bydd yn bwysig, fel rhan o'r broses adolygu, i gael barn cymaint o bobl ag sy'n bosibl, gan gynnwys pob un o'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu'r gwasanaeth a'r rhai sy'n cymryd rhan drwy ddefnyddio'r gwasanaeth, os caf ei roi felly. Rwyf wedi sôn beth yw'r bwriad. Ni allaf esgus y bydd hyn yn hawdd. Fodd bynnag, rhan gyntaf y broses yw deall beth fyddai'r heriau. Mae'n amlwg y byddai angen inni gynllunio i benodi mwy o ymgynghorwyr, ac un ganolfan a fyddai'n ymdrin â'r achosion mwyaf difrifol, yn ogystal ag achosion newyddenedigol eraill. Mae hynny'n bwysig. Roeddwn hefyd yn meddwl ei bod yn bwysig heddiw, yn sgil y cyhoeddiad gwreiddiol, sefydlu amserlen cyn gynted ag y bo modd, er mwyn rhoi'r sicrwydd i'r rhai sy'n byw yn yr ardal yr ymdrinnir yn briodol â hyn. Gobeithio bod hynny'n rhywbeth sy'n cael ei wneud heddiw.

14:47 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidog, rwy'n croesawu'r datganiad a wnaed gennych heddiw. Yr hyn a glywais yn y datganiad hwnnw oedd sŵn y rhwyfau yn taro'r dŵr. Credaf nad yw hyn yn ddim byd llai na chyfaddefiad nad symud yw'r ateb cywir. Serch hynny, y cwestiwn rwyf i a nifer o bobl eraill yn ei ofyn heddiw yw: ble rydych chi wedi bod tan hyn? Mae dwy flynedd wedi mynd heibio ers cychwyn yr ymgynghoriad hwn. Os oedd y cyfeiriad yr oedd y bwrdd iechyd yn symud iddo yn destun pryder ichi, pam na wnaethoch fynegi eich safbwynt yn glir cyn hyn, gan arbed lot o waith ac achosion o ddyblygu gwaith ac yn y blaen? Mae bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr wedi cyfaddef ei fod yn mynd yn erbyn llawer o'r cyngor clinigol a roddwyd iddo—roedd wedi cydnabod hynny yn y ddogfen ymgynghorol a gyhoeddwyd ganddo—gyda Choleg Brenhinol y Nyrsys, Coleg Brenhinol y Bydwragedd a Chymdeithas Feddygol Prydain yn rhybuddio y byddai symud y gwasanaeth hwn i Ysbyty Arrowe Park yn achosi problemau. A wnaethoch chi ystyried rhoi stop ar y penderfyniad i symud y gwasanaeth hyd nes bod y grŵp annibynnol yn adrodd yn ôl ar y mater hwn? Bydd gennym yn awr gontractau wedi'u harwyddo, hyfforddiant yn mynd rhagddo yn Lerpwl, a doctoriaid a fydd efallai'n gwrthod dod i ogledd Cymru i orffen eu hyfforddiant. Bydd yn anodd iawn adfer ac adennill y gwasanaeth hwn unwaith y bydd wedi'i golli.

First Minister, I welcome the statement that you have made today. What I heard there was the sound of the oars hitting the water. I do not think that this is anything short of an admission that moving these services is the wrong solution. However, the question that I am asking today, along with many other people, is: where have you been until now? It has been two years since this consultation started. If the direction in which the health board was moving was a concern to you, why did you not make your views clear before now, saving a great deal of work and the duplication of work and so on? Betsi Cadwaladr health board has admitted that it acted contrary to much of the clinical advice that it received—it acknowledged that in the consultation document that it issued—with the Royal College of Nursing, the Royal College of Midwives and the British Medical Association warning that moving this service to Arrowe Park Hospital would cause problems. Did you consider stopping this decision to move services until the independent group had reported back on this issue? We will now have signed contracts, training taking place in Liverpool, and doctors, perhaps, refusing to come to north Wales to complete their training. It will be very difficult to restore that service once it has been lost.

Rwy'n deall hefyd bod cwyn ffurfiol wedi'i gwneud yn erbyn bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr am dorri adran 183 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Darllenaf natur y gŵyn honno:

I understand that a formal complaint has been made against the Betsi Cadwaladr health board for contravening section 183 of the National Health Service (Wales) Act 2006. I will read the nature of that complaint:

'As part of the consultation into Healthcare is Changing, it was proposed that only part of level 3 neonatal intensive care would be transferred from the Maelor and Ysbyty Glan Clwyd. That part was to be the 36 or so babies that were born before 27 weeks. I now understand that the health board have quietly extended the original proposal to now transfer ALL intensive care babies from Wrexham to either Glan Clwyd or Arrowe Park; this would mean an additional 100 babies would have to be transferred from north Wales if they were to go to Arrowe Park. There has been no consultation over such proposals with service users or the community health council, and neither has anyone seen the revised business case.'

Fel rhan o'r ymgynghoriad Mae Gofal Iechyd yn Newid, cynigiwyd mai dim ond rhan o ofal dwys newyddenedigol lefel 3 fyddai'n cael ei drosglwyddo o Ysbyty Maelor ac Ysbyty Glan Clwyd. Y rhan honno fyddai'r 36 o fabanod, neu rywbeth tebyg, a gafodd eu geni cyn 27 wythnos. Deallaf yn awr fod y bwrdd iechyd wedi ymestyn y cynnig gwreiddiol yn dawel i drosglwyddo POB baban gofal dwys o Wrecsam i naill ai Glan Clwyd neu Arrowe Park; byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid trosglwyddo 100 o fabanod ychwanegol o ogledd Cymru os ydynt yn mynd i Arrowe Park. Ni fu unrhyw ymgynghori ynghylch cynigion o'r fath gyda defnyddwyr y gwasanaeth na'r cyngor iechyd cymuned, ac nid oes neb wedi gweld yr achos busnes diwygiedig.

Yn y bôn, mae'r sefyllfa hon yn codi cwestiwn sylfaenol ynglŷn â rôl y cyngor iechyd cymuned. A ydych yn hyderus bod y rôl honno wedi bod yn ddigon ystyrlon wrth i benderfyniadau sylweddol fel hyn gael eu cymryd heb gyfeirio'r mater at y cyngor? O dan y cynlluniau newydd a gyflwynwyd yn ystod y dyddiau diwethaf, bydd nifer y cotiau gofal dwys yn disgyn i bump yn y gogledd, ac mae staff wedi bod yn cysylltu â mi gan ofni y bydd gofal dwys i gyd yn symud i Arrowe Park oherwydd prinder cotiau a diffyg arbenigedd. Beth fydd goblygiadau hyn i'r bwriad i symud 500 o fabanod y gogledd a enir yng Nghaer ar y funud yn ôl i Gymru? Roedd hynny'n bolisi y llynedd a oedd yn mynd i arbed £2 filiwn y flwyddyn. Wrth gwrs, nid oes modd eu denu yn ôl yn awr heb yr arbenigedd na'r cotiau.

Essentially, this raises a fundamental question about the role of the community health council. Are you confident that that role provides adequate consideration as significant decisions like this are made without being referred to the council? Under the new proposals brought forward over the last few days, the number of intensive care cots will fall to five across north Wales, and staff have been contacting me with concerns that intensive care will all move to Arrowe Park because of a shortage of cots and expertise. What will be the implications of that to the intention to move 500 babies currently born in Chester back to Wales? That was a policy from last year that was supposed to save £2 million per annum. Of course, without the expertise or the cots, they cannot now be attracted back.

Yn olaf, Brif Weinidog, efallai y gallwch ddweud wrthyf a fydd gwasanaeth ambiwlans Cymru yn medru delio â'r gwaith ychwanegol hwn o symud babanod gofal dwys o Wrecsam i Ysbyty Glan Clwyd ac yntau yn amlwg yn methu ag ymdrin â'r pwysau gwaith presennol.

Finally, First Minister, perhaps you could tell me whether the Welsh ambulance service will be able to deal with this additional burden of moving intensive care babies from Wrexham to Glan Clwyd Hospital, when clearly it cannot deal with the current workload.

14:50

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae dau beth sy'n wahanol. Rwy'n deall yr hyn mae'r Aelod yn ei ddweud ynglŷn ag unrhyw gynllun newydd sy'n dod o'r bwrdd iechyd. Rhywbeth i'r bwrdd yw cysylltu â'r cyngor iechyd cymuned ac â'r cyhoedd. Ar y mater hwn, fodd bynnag, gofynnodd beth yn union rydym wedi bod yn ei wneud yn ystod y broses. Mae'n rhaid cael proses; nid oes pwynt cael proses ac yna i'r Gweinidog ymyrryd yn gynnar. Nid oes pwynt i broses mewn sefyllfa felly. Mae amser yn dod lle mae cyfle i Weinidog ystyried cynlluniau a gwneud penderfyniad, a daeth yr amser i mi gymryd y penderfyniad hwnnw. Pe bai Gweinidogion yn rhan o'r broses, ni fyddai'n broses annibynnol nac yn broses iawn. Wrth gwrs, mae amser i Weinidogion gymryd rhan. Mae'r sefyllfa yr un peth gyda'r system gynllunio—nid yw Gweinidogion yn rhan o'r system honno ar y dechrau; maent yn dod i mewn iddi os yw pobl am iddynt edrych ar gynllun er mwyn gwneud y penderfyniad. Felly, mae proses gyfreithiol i'w dilyn yma.

There are two things that are different. I understand what the Member says in relation to any new scheme that comes from the health board. Links with the community health council and with the public are issues for the board. On this issue, however, he asked exactly what we have been doing during the process. There must be a process; there is no point having a process and then for the Minister to make an early intervention. There is no point to the process in a situation like that. There comes a time when Ministers can consider schemes and make decisions, and the time has come for me to make that decision. If Ministers were to play a part in the process, it would not be an independent and appropriate process. Of course, there is a right time for Ministers to participate. It is the same as with the planning system—Ministers play no part in that system at the beginning; they play a part if people want them to look at proposals in order to make a decision. Therefore, there is a legal process to follow here.

O ran y cyngor iechyd cymuned, nid oes tystiolaeth gennyf o wendid yn y cyngor iechyd ei hun. Rwy'n deall, wrth gwrs, fod y cynlluniau yn bwnc llosg—roeddwn yn gallu gweld hynny—ond roeddwn yn credu ei bod yn bwysig ystyried y sefyllfa o ran babanod i sicrhau ein bod yn gallu ystyried a fyddai'n bosibl creu'r arbenigedd i gael gwasanaeth yn y gogledd yn y dyfodol. Un peth nad wyf yn barod i'w ddweud yw y dylai pethau aros fel ag y maent os yw safon y gwasanaeth yn is na'r hyn y dylai pobl allu ei ddisgwyl. Felly, os oes babanod y byddai'r gwasanaeth iddynt yn well yn Arrowe Park, nid wyf yn mynd i stopio hynny—nid wyf yn credu bod hynny'n beth call i'w wneud. Ond, yn y tymor hir, rydym am sicrhau bod y dystiolaeth a'r ffordd ar gael i wneud hyn er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn gyfan gwbl yng Nghymru.

Turning to the community health council, I have no evidence of weakness within the health council itself. I understand, of course, that the proposals are controversial—I could see that—but I believed that it was important to consider the situation for babies in order to give consideration to whether we could, in future, build the expertise to have a service in north Wales. One thing that I am not prepared to say is that things should remain as they are if the quality of the service is worse than what people should be able to expect. Therefore, if there are babies who would receive a better service at Arrowe Park, I am not going to prevent that—I do not think that that would be sensible. However, in the long term, we want to ensure that the evidence and the means are available to do this, in order to ensure that the service is wholly sustainable in Wales.

14:53 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, I, too, thank you for the statement; at least we have some clarity now regarding who will undertake the review and the timescales for it. I think, however, that there is a need for any independent assessment to include a review of the data upon which Betsi Cadwaladr's initial proposals were made. In evidence to the Children and Young People Committee, it was quite clear that projections for level 2 and level 3 provision were based on figures for south Wales only, on the basis that Betsi Cadwaladr had not been collating information with regard to its own figures, although I understand that it is now doing so. At the time, the all-Wales network questioned how robust some of the projections were, going forward, on the basis that there was a pattern of increasing births in north Wales against reductions elsewhere; yet, the level 2 and level 3 projections did not seem to reflect that particular issue.

Brif Weinidog, rwyf innau hefyd yn diolch ichi am y datganiad; o leiaf mae gennym rywfaint o eglurder yn awr ynglŷn â phwy fydd yn cynnal yr adolygiad a'r amserlen ar ei gyfer. Credaf, fodd bynnag, fod angen i unrhyw asesiad annibynnol gynnwys adolygiad o'r data y seiliwyd cynigion cychwynnol Betsi Cadwaladr arnynt. Roedd yn eithaf amlwg mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc bod yr amcanestyniadau ar gyfer darpariaeth lefel 2 a lefel 3 yn seiliedig ar ffigurau ar gyfer de Cymru yn unig, ar y sail nad yw Betsi Cadwaladr wedi bod yn casglu gwybodaeth ynglŷn â'i ffigurau ei hun, er fy mod yn deall y gwneir hynny erbyn hyn. Ar y pryd, roedd rhwydwaith Cymru gyfan yn cwestiynu pa mor gadarn oedd rhai o'r amcanestyniadau, wrth symud ymlaen, ar y sail y gwelwyd patrwm o gynnydd yn nifer y genedigaethau yn y gogledd a gostyngiad mewn mannau eraill; ac eto, nid oedd amcanestyniadau lefel 2 a lefel 3 i'w gweld yn adlewyrchu'r mater penodol hwnnw.

I think that the most important aspect of your statement today is the need for this further review to be open and transparent. Clearly, the view in north Wales is that Betsi Cadwaladr and the CHC's own deliberations have not been open and transparent. I would support what Llyr Huws Gruffydd has said, in that Betsi Cadwaladr's proposals made it clear that it was talking only about level 3 provisions, and its consultation document stated

Credaf mai'r agwedd bwysicaf ar eich datganiad heddiw yw'r angen i'r adolygiad ychwanegol hwn fod yn agored ac yn dryloyw. Yn amlwg, y farn yn y gogledd yw na fu trafodaethau Betsi Cadwaladr a'r Cyngor Iechyd Cymuned ei hun yn agored ac yn dryloyw. Byddwn yn cefnogi'r hyn a ddywedodd Llyr Huws Gruffydd, bod cynigion Betsi Cadwaladr yn nodi'n eglur mai dim ond am ddarpariaethau lefel 3 yr oedd yn sôn, a bod y ddogfen ymgynghori'n nodi

'that all three hospitals will continue to provide initial stabilisation and short-term intensive care, special care baby units and high dependency units'.

'Bydd bob un o'r tri ysbyty yn parhau i ddarparu gofal i sefydlogi cyflwr a gofal dwys byr dymor yn ogystal ag unedau gofal arbennig babanod ac unedau dibyniaeth fawr'.

It is intriguing, therefore, that at a meeting of Wrexham council last week, one of the senior executives from Betsi Cadwaladr indicated that it was considering the removal of level 2 provision from Wrexham, as outlined by Llyr. Also, it would appear from 'Daily Post' reports that, later that day, there were staff meetings at which that particular proposal was conveyed to staff. There are clearly questions being asked about whether changes are still being allowed to progress by stealth. It would be helpful, if we have this four-month window, for you to make it clear that you would expect no decisions to be taken with regard to the removal of level 2 facilities from Wrexham pending the outcome of this review, although I accept, as you say, that the purpose of the review is limited to the provision of level 3 facilities. Proposals put forward by Betsi Cadwaladr include the repatriation of services from Chester, which would be dependent on the retention of high-dependency units at Wrexham.

Mae'n ddiddorol, felly, bod un o uwch swyddogion gweithredol Betsi Cadwaladr mewn cyfarfod o gyngor Wrecsam yr wythnos diwethaf, wedi awgrymu bod y bwrdd yn ystyried cael gwared ar ddarpariaeth lefel 2 o Wrecsam, fel yr amlinellwyd gan Llyr. Hefyd, mae'n ymddangos yn ôl adroddiadau yn y 'Daily Post', y cynhaliwyd cyfarfodydd staff yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw lle y cafodd y cynnig penodol hwnnw ei gyfleu i'r staff. Mae cwestiynau'n amlwg yn cael eu holi ynghylch a ganiateir i newidiadau gael eu cyflwyno'n llechwraidd. Os oes gennym gyfnod o bedwar mis, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn ei gwneud yn glir na fyddech yn disgwyl i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud ynglŷn â chael gwared ar gyfleusterau lefel 2 o Wrecsam nes i ganlyniad yr adolygiad hwn gael ei gyhoeddi, er fy mod yn derbyn, fel y dywedwch, mai pwrpas yr adolygiad yw ystyried cyfleusterau lefel 3 yn unig. Mae'r cynigion a gyflwynwyd gan Betsi Cadwaladr yn cynnwys dod â gwasanaethau'n ôl o Gaer, a byddai hynny'n dibynnu ar gadw unedau dibyniaeth fawr yn Wrecsam.

Finally, can I ask that you make it clear whether the deliberations that the review board will have with the community health council will be with the community health council executive or the full membership? The response from the community health council, which I have seen today, states that there have been ongoing discussions between the health board and community health council executives in north Wales regarding the reconfiguration of operational services. It has announced that there will be a further meeting this week to discuss the situation with regard to Wrexham. Therefore, I think that there are community health council representatives who are very despondent with regard to the lack of openness and transparency as far as their own executives are concerned. It would be helpful if you made it clear that the review will include all community health council members.

Yn olaf, a allaf ofyn i chi ei gwneud yn glir a fydd y bwrdd adolygu yn cynnal ei drafodaethau gyda gweithrediaeth y cyngor iechyd cymuned ynteu gyda'r aelodaeth lawn? Gwelais yr ymateb gan y cyngor iechyd cymuned heddiw, ac mae'n nodi y bu trafodaethau parhaus rhwng y bwrdd iechyd a swyddogion gweithredol y cyngor iechyd cymuned yng ngogledd Cymru ynghylch ad-drefnu gwasanaethau gweithredol. Mae wedi cyhoeddi y cynhelir cyfarfod arall yr wythnos hon i drafod y sefyllfa ynglŷn â Wrecsam. Felly, credaf y ceir rhai o gynrychiolwyr y cyngor iechyd cymuned sy'n ddigalon iawn nad yw eu swyddogion gweithredol eu hunain yn gweithio mewn modd agored a thryloyw. Byddai'n ddefnyddiol pe baech yn nodi'n eglur y bydd yr adolygiad yn cynnwys holl aelodau'r cyngor iechyd cymuned.

14:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I would expect the review to be as wide as possible. The case that the Member makes for it to be wide in terms of the community health council is strong. In terms of keeping services exactly as they are, I am aware of the proposals to which both Members have referred. Even though they are to do with neonatal care they are not related to the issue that is before us today, so I have to be careful to separate one from the other, if the Member will forgive me. In terms of keeping services exactly as they are, there are external factors that affect that, namely the Wales Deanery and its training requirements. If the deanery decides that training places are no longer going to be available in a particular service, that affects the service. That is not within the control of the board.

Byddwn yn disgwyl i'r adolygiad fod mor eang ag y bo modd. Mae'r achos a gyflwynir gan yr Aelod bod angen iddo fod yn eang o ran y cyngor iechyd cymuned yn un cryf. O ran cadw gwasanaethau yn union fel ag y maent, rwyf yn ymwybodol o'r cynigion y mae'r ddau Aelod wedi cyfeirio atynt. Er eu bod yn ymwneud â gofal newyddenedigol, nid ydynt yn ymwneud â'r mater sydd ger ein bron heddiw, felly mae'n rhaid i mi fod yn ofalus i wahanu'r naill oddi wrth y llall, os bydd yr Aelod yn maddau i mi. O ran cadw gwasanaethau yn union fel ag y maent, ceir ffactorau allanol sy'n effeithio ar hynny, sef Deoniaeth Cymru a'i gofynion hyfforddiant. Os bydd y ddeoniaeth yn penderfynu na fydd lleoedd hyfforddiant ar gael mwyach mewn gwasanaeth penodol, mae hynny'n effeithio ar y gwasanaeth. Nid oes modd i'r bwrdd reoli hynny.

In terms of the process going forward, there are three questions, if I were to crystallise the situation for the review. First, in terms of setting up a sustainable unit in north Wales—a level 3 unit, at least—can it be done? Secondly, if so, how can it be done? The final question is: what effect would there be on other neonatal units in north Wales? In order to create a specialised unit, cases may need to be taken from other neonatal units elsewhere in Wales. We do not know that, but it is, nevertheless, a factor of which Members should be aware. It may be something that the review would take into account. As I have said, the intention is to try to find a way, if possible, of ensuring that we can have—it is not called level 3 anymore —a neonatal intensive care unit service in Wales that is sustainable in the future. That is the intention. The question is: can there be a way of doing it and, if so, how can it be done?

Ceir tri chwestiwn ynglŷn â'r broses wrth symud ymlaen, pe bawn yn crisialu'r sefyllfa ar gyfer yr adolygiad. Yn gyntaf, a oes modd sefydlu uned gynaliadwy yn y gogledd—uned lefel 3, o leiaf? Yn ail, os felly, sut y gellir gwneud hynny? Y cwestiwn olaf yw: pa effaith fyddai hynny'n ei chael ar unedau newyddenedigol eraill yng ngogledd Cymru? Er mwyn creu uned arbenigol, efallai y bydd angen cymryd achosion o unedau newyddenedigol mewn mannau eraill yng Nghymru. Nid ydym yn gwybod hynny, ond mae'n ffactor y dylai Aelodau fod yn ymwybodol ohono, serch hynny. Gallai fod yn rhywbeth y byddai'r adolygiad yn ei ystyried. Fel y dywedais, y bwriad yw ceisio dod o hyd i ffordd, os yn bosibl, o sicrhau y gallwn gael gwasanaeth uned gofal dwys newyddenedigol—nid yw'n cael ei alw'n lefel 3 bellach—yng Nghymru sy'n gynaliadwy yn y dyfodol. Dyna'r bwriad. Y cwestiwn yw: a oes modd o wneud hynny ac, os felly, sut?

14:58 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I too welcome your statement. With regard to the comments that you have made regarding the deanery, what the deanery indicated—this was made clear during the Betsi Cadwaladr consultation process—was that, if the level 3 neonatal care went out of north Wales, it would affect the way that the deanery viewed Glan Clwyd Hospital in particular, which has a very good neonatal record. Its statistics show that it is performing better in the neonatal area than many other places in north Wales, despite the fact that it is not compliant with the requirements of the British Association of Perinatal Medicine at the moment. Of course, Arrowe Park Hospital is not BAPM-compliant either.

Brif Weinidog, rwyf innau hefyd yn croesawu eich datganiad. O ran y sylwadau yr ydych wedi'u gwneud ynglŷn â'r ddeoniaeth, yr hyn a awgrymodd y ddeoniaeth—gwnaed hyn yn glir yn ystod ymgynghoriad Betsi Cadwaladr—oedd y ceir effaith ar y ffordd y mae'n gweld Ysbyty Glan Clwyd yn benodol, sydd â record dda iawn yn y maes newyddenedigol, pe byddai gofal newyddenedigol lefel 3 yn mynd allan o ogledd Cymru. Mae ystadegau Ysbyty Glan Clwyd yn dangos ei fod yn gwneud yn well yn y maes newyddenedigol na llawer o leoedd eraill yng ngogledd Cymru, er nad yw'n cydymffurfio â gofynion Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain ar hyn o bryd. Wrth gwrs, nid yw Ysbyty Arrowe Park yn cydymffurfio â'r gofynion hynny ychwaith.

One of the huge complaints from north Wales about the consultation process was that people simply did not know that it was going on. They were not told about it and were not given information by the health board. I wrote to the health board to complain that people were not told that the consultation was going on and so were not able to feed into the process. I very much welcome the comments that you have made about Bliss and the community health council, and I echo the concerns of Aled Roberts about the way that the community health council approached it, with an executive decision and not a decision of all its members. Will there be any opportunities for people to feed in who have had experience of having very young babies who have been very ill, and the problems associated with that? Those include mothers being split from their babies, difficulties over bonding, and all sorts of things. Will there be an opportunity for them to feed into the process, given that they feel that they were not given a chance during the Betsi process?

Un o'r cwynion mawr yng ngogledd Cymru am y broses ymgynghori oedd nad oedd pobl yn gwybod ei bod yn digwydd. Nid oeddent wedi cael gwybod am y peth ac ni roddodd y bwrdd iechyd wybodaeth iddynt. Ysgrifennais at y bwrdd iechyd i gwyno nad oedd pobl yn gwybod am yr ymgynghoriad ac felly nad oeddent yn gallu cyfrannu at y broses. Croesawaf y sylwadau yr ydych wedi'u gwneud am Bliss a'r cyngor iechyd cymuned yn fawr iawn, ac rwyf yn adleisio pryderon Aled Roberts ynglŷn â'r ffordd yr ymdrinniodd y cyngor iechyd cymuned â'r mater, gyda phenderfyniad gweithredol yn hytrach na phenderfyniad gan ei holl aelodau. A fydd unrhyw gyfleoedd i gyfrannu ar gyfer pobl sydd wedi cael profiad o fod â babanod ifanc iawn a sâl iawn, a'r problemau sy'n gysylltiedig â hynny? Mae'r rhain yn cynnwys mamau a gafodd eu gwahanu oddi wrth eu babanod, anawsterau'n bondio, a phob math o bethau. A fydd cyfle iddynt gyfrannu at y broses, o ystyried eu bod yn teimlo na chawsant gyfle yn ystod proses Betsi?

Secondly, I echo what Llyr and Aled Roberts said about there being at no stage any mention of level 2 neonatal care being moved from either of the two units. I attended at least seven of the health board's public meetings, and at every point assurances were given about the special care baby units and the level 2 units to people who were present. I would therefore be very concerned that their responses would have been based on those assurances. If there is this move over to Arrowe Park Hospital, how will that affect the deanery now? Will you ask Betsi to put its level 3 plans on hold until the report and the decision have been made? Clearly, the implications of that in terms of the deanery and the status of the hospital will impact now, if that care moves.

Yn ail, ategaf yr hyn a ddywedodd Llyr ac Aled Roberts ynglŷn â'r ffaith na fu sôn ar unrhyw adeg am symud gofal newyddenedigol lefel 2 o'r naill na'r llall o'r ddwy uned. Mynychais o leiaf saith o gyfarfodydd cyhoeddus y bwrdd iechyd, ac ar bob pwynt rhoddwyd sicrwydd ynglŷn â'r unedau gofal arbennig i fabanod a'r unedau lefel 2 i bobl a oedd yn bresennol. Byddwn yn pryderu'n fawr, felly, y byddai eu hymatebion wedi bod yn seiliedig ar y sicrwydd hwnnw. Os digwydd y symud hwn i Ysbyty Arrowe Park, sut y bydd hynny'n effeithio ar y ddeoniaeth nawr? A wnewch chi ofyn i Betsi ohirio'r cynlluniau ynglŷn â lefel 3 nes i'r adroddiad gael ei gyhoeddi a'r penderfyniad gael ei wneud? Yn amlwg, bydd y goblygiadau o ran y ddeoniaeth a statws yr ysbyty yn cael effaith nawr, os bydd y gofal hwnnw'n symud.

15:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I will give thought to that final point. I can see the point that is being made there on the basis that any change in neonatal provision may have an effect on the review, even though it is not part of the review, if I can put it that way. I hope that the review itself will become well-known. I will ensure that terms of reference are publicly available so that people understand what those terms of reference actually are.

Byddaf yn rhoi ystyriaeth i'r pwynt olaf hwnnw. Gallaf weld y pwynt sy'n cael ei wneud, yn yr ystyr y gallai unrhyw newid yn y ddarpariaeth newyddenedigol gael effaith ar yr adolygiad, er nad yw'n rhan o'r adolygiad, os caf ei roi felly. Rwyf yn gobeithio y bydd pobl yn dod i wybod am yr adolygiad ei hun. Byddaf yn sicrhau bod y cylch gorchwyl ar gael i'r cyhoedd fel bod pobl yn deall beth yn union yw'r cylch gorchwyl hwnnw.

In terms of what such a centre might look like in the future, we know that there would be a need to recruit more consultants. We know that there would be a need to ensure that there were sufficient numbers of training places and a sufficient throughput of cases. One of the issues that sometimes affects medics is that some hospitals are seen as offering better training opportunities than others, and they all want to go there because they think it means a better chance of a job further down the line. What we need to ensure is that that is not seen as the situation in the north of Wales, either now or indeed in the future.

O ran sut le allai canolfan o'r fath fod yn y dyfodol, rydym yn gwybod y byddai angen recriwtio mwy o ymgynghorwyr. Rydym yn gwybod y byddai angen sicrhau bod digon o leoedd hyfforddi ar gael a digon o achosion yn mynd trwy'r ganolfan. Un o'r materion sy'n effeithio ar feddygon o bryd i'w gilydd yw yr ystyrir bod rhai ysbytai yn cynnig gwell cyfleoedd hyfforddi nag eraill. Maent i gyd felly yn awyddus i fynd yno oherwydd eu bod yn credu y byddai ganddynt well cyfle am swydd yn ddiweddarach. Yr hyn mae angen i ni ei sicrhau yw nad dyna sut yr ystyrir y sefyllfa yn y gogledd, naill ai yn awr nac yn wir yn y dyfodol.

In terms of the next steps, the other point that is being made here is that it is important that the decision is taken promptly, because otherwise there is a danger of seeing a loss of staff if there is too much of a delay. I appreciate that, and that will not help. If it is found that there is a way of creating a sustainable service in the future, we want those staff to stay rather than feel that they have to look elsewhere. I appreciate that, and I hope that Members will bear with me when I say that there needs to be time to consider fully the recommendations of the review. On the fullest understanding, the decision has to be taken as promptly as possible once those considerations are taken into account.

O ran y camau nesaf, y pwynt arall sy'n cael ei wneud yma yw ei bod yn bwysig i'r penderfyniad gael ei wneud yn brydlon, oherwydd bod perygl fel arall o golli staff os oes gormod o oedi. Rwyf yn gwerthfawrogi hynny, ac ni fydd yn helpu. Os gwelir bod modd o greu gwasanaeth cynaliadwy yn y dyfodol, rydym am i'r staff hynny aros yn hytrach na theimlo bod yn rhaid iddynt chwilio mewn mannau eraill. Rwyf yn sylweddoli hynny, ac yn gobeithio y bydd yr Aelodau'n amyneddgar â mi pan fyddaf yn dweud bod angen amser i ystyried argymhellion yr adolygiad yn llawn. Ar sail y ddealltwriaeth fwyaf trylwyr, rhaid gwneud y penderfyniad cyn gynted â phosibl ar ôl i'r materion hynny gael eu hystyried.

15:03

## Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch am y datganiad. Pan benodwyd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol newydd, ysgrifennais lythyr atoch ac at y Gweinidog yn gofyn i chi adolygu ac yn rhoi rhesymau pam y dylech wneud hynny. Felly, dylwn fod yn ddiolchgar am y datganiad hwn heddiw. Yr hyn sy'n rhyfeddu llawer o bobl yw bod Gweinidog iechyd y Llywodraeth hon wedi gofyn i fyrddau iechyd wneud adolygiad o'u gwasanaethau ac wedi rhoi canllawiau iddynt, wedyn, gwnaeth y byrddau hynny benderfyniad a chafodd hwnnw ei gefnogi gan y cyngor iechyd yn y gogledd, ac eto yr ydych chi fel Prif Weinidog wedi camu i mewn a dweud eich bod yn anhapus gyda'r penderfyniad ac y byddwch yn ei adolygu.

Thank you for the statement. When the new Minister for Health and Social Services was appointed, I wrote to you and to the new Minister asking you to review the situation and giving reasons why you should do so. Therefore, I should be grateful for this statement today. What surprises very many people is that the Government's Minister for health asked the health boards to carry out a review of their services and provided them with guidelines, then, those boards took a decision and that was supported by the health council in north Wales, and yet you, as First Minister, have stepped in and said that you are unhappy with the decision and that you are to review it.

Mae dau gwestiwn gennyf. Y cyntaf yw: beth yw'r rhesymau drosoch chi yn mynd yn groes, hyd y gwelaf i, i benderfyniad y bwrdd a'r cyngor iechyd? Beth a oedd yn eich poeni yn benodol ynglŷn â'r penderfyniad hwn a wnaeth ichi gymryd y cam anarferol iawn o ymyrryd mor gyhoeddus ynddo?

I have two questions. The first is: what are your reasons for you contravening, as far as I can see, the decision taken by the board and the health council? What specifically concerned you about this decision that led to you taking this highly unusual step of intervening so publicly?

Yr ail beth yw un o'r pwyntiau yr wyf wedi eu codi sawl gwaith yn y Cynulliad, sef y niferoedd o blant y mae bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr yn dweud y bydd angen iddynt fynd i Arrowe Park. Rwy'n credu mai 38 yr oedd y bwrdd yn amcangyfrif, ond nid yw hwnnw yn debyg i unrhyw ffigur arall yng ngweddill Cymru o'r plant sydd angen gofal lefel 3. Y ddadl a roddwyd gan fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr oedd nad oedd yn gallu cael staff cymwys i edrych ar ôl y math hwnnw o fabanod gyda'r gofal penodol hwnnw. Eto, os dim ond nifer fach iawn fyddai'n mynd i Arrowe Park, mae'n rhaid bod gofal arbenigol ar ôl yng ngogledd Cymru yn rhywle, ond pwy fydd yn rhoi hwnnw, os nad yw'n gallu cael y staff? Felly, mae rhywbeth sylfaenol ar goll yn y dadansoddiad. Rwy'n credu bod Llyr Huws Gruffydd wedi cyfeirio at hyn yn y ffigurau yr oedd yn cyfeirio atynt. Felly, wrth edrych ar y penderfyniad hwn, ydych chi wedi edrych yn fanwl ar y ffigurau hynny ac wedi dod i benderfyniad nad oeddent yn ddibynadwy?

The second issue is a point that I have raised on a number of occasions in the Assembly, that is, the number of children that Betsi Cadwaladr health board said would need to go to Arrowe Park. I think that the board estimated around 38, but that does not correspond to any figure in the rest of Wales in terms of the children who need level 3 care. The argument made by Betsi Cadwaladr health board was that it could not attract qualified staff to care for those kinds of babies who needed that specific care. Again, if only a very small number were to go to Arrowe Park, then surely there must be some specialist care available in north Wales somewhere, but who will be providing that if the board cannot attract the staff? Therefore, there is something fundamentally wrong with the analysis. I think that Llyr Huws Gruffydd referred to this in the figures that he quoted. So, in looking at this decision, have you looked in detail at those figures and come to the conclusion that they were not reliable?

15:05

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

O ran y ffigur, mae hynny'n rhywbeth i'r adolygiad ei hun ei ystyried, fel rhan o'r dystiolaeth a gaiff ei chasglu. Ar y pwynt cyntaf, sef pam cafodd y penderfyniad hwn ei wneud, wrth gofio'r broses a gafodd ei chreu yn y gorffennol, mae'r ateb yn rhwydd i'w roi: roedd pryder gennyf i ynglŷn â'r ffaith y byddem yn dibynnu ar Arrowe Park, sydd, wrth gwrs, y tu fas i Gymru, am rywbeth a oedd ar gael o'r blaen yng Nghymru. Weithiau, bydd hynny'n digwydd, ond yr ofn yw nad oes gennym reolaeth o gwbl dros Arrowe Park. Nid oes sicrwydd ynglŷn â dyfodol Arrowe Park. O ganlyniad, roeddwn o'r farn bod dyletswydd arnaf i ystyried a oedd ffordd i greu canolfan yng Nghymru a allai roi'r gwasanaeth hwn, gan roi mwy o sicrwydd i bobl y gogledd ac i ni fel Llywodraeth.

In terms of the figure, that is something for the review itself to consider, as part of the evidence that it will be gathering. On the first point, and why this decision was made, bearing in mind the process that was created in the past, the answer is easy to give: I had a concern in relation to the fact that we would be dependent on Arrowe Park, which, of course, is outside Wales, for care that was previously available in Wales. Sometimes, that will happen, but the concern is that we do not have any control at all over Arrowe Park. There is no certainty in relation to the future of Arrowe Park. As a result, I thought that there was a duty on me to consider whether there is a way of creating a centre in Wales that could offer this service, which would give greater certainty to the people of north Wales and to us as a Government.

15:06

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I speak as a father who, 15 and 18 years ago, saw my two youngest children live because of the excellent service at Wrexham Maelor Hospital—both were born by emergency caesarean. However, I will endorse two points made, and I will put questions to you accordingly.

Siaradaf fel tad a welodd fy nau blentyn ieuengaf, 15 a 18 mlynedd yn ôl, yn byw oherwydd y gwasanaeth ardderchog yn Ysbyty Maelor Wrecsam—cafodd y ddau eu geni trwy doriad cesaraidd brys. Fodd bynnag, byddaf yn cefnogi dau bwynt a wnaed, a byddaf yn gofyn cwestiynau i chi yn unol â hynny.

You state that the review by the Royal College of Paediatrics and Child Health will consider the views of patient representative groups. Endorsing the comments of my colleague, Antoinette Sandbach, can we ensure that those include parents whose children have been born in the unit and units potentially affected over recent times, and who have direct personal experience and observations? I will quote one constituent—and one only—who wrote in February to say:

Rydych yn dweud y bydd adolygiad y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant yn ystyried barn grwpiau sy'n cynrychioli cleifion. Gan ategu sylwadau fy nghydweithiwr, Antoinette Sandbach, a allwn ni sicrhau bod y rheiny'n cynnwys rhieni y mae eu plant wedi cael eu geni yn y cyfnod diweddar yn yr uned ac mewn unedau a allai gael eu heffeithio, ac sydd â phrofiad ac arsylwadau personol, uniongyrchol? Dyfynnaf un etholwr—ac un yn unig—a ysgrifennodd ym mis Chwefror i ddweud:

'I had a baby in SCBU at Glan Clwyd, born at 25 weeks, weighing just 1 lb 10 oz. I myself was in hospital for five weeks after a mass was found in my womb, and I had two operations and a hysterectomy. If my baby had died during those first five weeks in Arrowe Park, she would have died alone.'

Cefais i fabi yn SCBU yng Nglan Clwyd, a anwyd ar ôl 25 wythnos, yn pwyso dim ond 1 lb 10 owns. Roeddwn i fy hun yn yr ysbyty am bum wythnos oherwydd bod màs yn fy nghroth. Cefais ddwy lawdriniaeth a hysterectomi. Pe byddai fy mabi wedi marw yn ystod y pum wythnos gyntaf yn Arrowe Park, byddai wedi marw ar ei phen ei hun.

My second point very much endorses the point made by Alun Ffred Jones. Previously, regarding the figure of around 36 or 38 babies requiring referral to intensive care units in the original health board document, figures obtained by the charity Cuddles, which also needs to be consulted with Bliss, revealed that 138 babies were admitted to Glan Clwyd Hospital's neonatal special care baby unit in the first 10 months of last year alone. Many of those will require intensive care at some point, but in future the expertise could be lost.

Mae fy ail bwynt yn cefnogi'n fawr iawn y pwynt a wnaed gan Alun Ffred Jones. Yn flaenorol, gan ystyried y ffigwr o tua 36 neu 38 o fabanod y mae angen eu hatgyfeirio i unedau gofal dwys, datgelodd ffigurau yn nogfen wreiddiol y bwrdd iechyd—ffigurau a gafwyd gan yr elusen Cuddles, y mae hefyd angen i ni ymgynghori â hwy yn ogystal â Bliss—fod 138 o fabanod wedi eu derbyn i uned gofal arbennig Ysbyty Glan Clwyd i fabanod newydd-anedig yn 10 mis cyntaf y flwyddyn ddiwethaf yn unig. Bydd ar lawer o'r rhain angen gofal dwys ar ryw adeg, ond gellid colli'r arbenigedd yn y dyfodol.

The constituent that I referred to earlier said that while she was in the hospital, she had seen eight babies on ventilators for more than 48 hours. Therefore, the figure of 36 looked more like 136, and these older babies will not be able to stay at Glan Clwyd because the doctors and resources will not be there to look after them. Those facts are essential, and we need to drill down and challenge the figures originally provided.

Dywedodd yr etholwr y cyfeiriais ati'n gynharach ei bod wedi gweld wyth o fabanod ar beiriannau anadlu am fwy na 48 awr, tra'i bod yn yr ysbyty. Felly, mae'r ffigwr o 36 yn edrych yn fwy fel 136, ac ni fydd y babanod hŷn hyn yn gallu aros yn Ysbyty Glan Clwyd oherwydd na fydd y meddygon a'r adnoddau yno i ofalu amdanynt. Mae'r ffeithiau hynny'n hanfodol, ac mae angen i ni edrych yn fanwl a herio'r ffigurau a ddarparwyd yn wreiddiol.

15:08

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is difficult to give an exhaustive list of who might be asked for views over the course of the next four months. However, the intention is that the consultation will be as wide as possible. It is for the review to examine the numbers of babies who would be treated in Arrowe Park and to test the robustness of those figures. It will examine whether those figures are correct. Those are the figures that have been made publicly available by the health board. The review will examine that.

Mae'n anodd rhoi rhestr gynhwysfawr o bwy y gellid gofyn iddynt am eu barn yn ystod y pedwar mis nesaf. Fodd bynnag, y bwriad yw i'r ymgynghoriad fod mor eang ag y bo modd. Mater i'r adolygiad yw edrych faint o fabanod a fyddai'n cael eu trin yn Arrowe Park a phrofi cadernid y ffigurau hynny. Bydd yn archwilio a yw ffigurau hynny'n gywir. Dyna'r ffigurau a ddarparwyd i'r cyhoedd gan y bwrdd iechyd. Bydd yr adolygiad yn edrych ar hynny.

15:09

# Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ardaloedd Menter

# Statement: Update on Enterprise Zones

Senedd.tv Fideo Video

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

When I made my oral statement on enterprise zones in January, I said that I would provide a further update in April. In each enterprise zone we are focusing on capacity-building activities.

Pan wnes i fy natganiad llafar am ardaloedd menter ym mis Ionawr, dywedais y byddwn yn rhoi diweddariad pellach ym mis Ebrill. Ym mhob ardal fenter rydym yn canolbwyntio ar weithgareddau meithrin gallu.

In Anglesey, a number of energy and maritime proposals are being developed. These support the Energy Island programme. Work has also been commissioned to develop master plans across the strategic sites. We are working with Bangor and Aberystwyth universities to develop a business case for the Menai science park. This will help to maximise the benefit to Wales of the major energy projects planned for the zone.

Ar Ynys Môn, mae nifer o gynigion morol ac ynni'n cael eu datblygu. Mae'r rhain yn cefnogi'r rhaglen Ynys Ynni. Mae gwaith hefyd wedi ei gomisiynu i ddatblygu uwchgynlluniau ar draws y safleoedd strategol. Rydym yn gweithio gyda phrifysgolion Bangor ac Aberystwyth i ddatblygu achos busnes ar gyfer parc gwyddoniaeth Menai. Bydd hyn yn helpu i greu cymaint â phosibl o fudd i Gymru o'r prosiectau ynni mawr a gynlluniwyd ar gyfer yr ardal.

In Cardiff central, we have completed the acquisition, as you know, of site E04, Callaghan Square. We are now looking at the delivery of new office development on a site that is capable of accommodating 7,000 employees. A full assessment of development viability, costs and alternative delivery solutions is required and I am seeking specialist advice in these areas. This will ensure the aspirations of the board and the needs of the private sector are matched in terms of the quality of property infrastructure. The financial and professional services sector team is working with businesses interested in investing in the zone. We are currently assessing further sites to ensure that we maximise the potential of quality investment. We are also seeing evidence of growing interest in and around the zone, with recent job announcements and a pipeline of potential investment inquiries from the sector.

Yng nghanol Caerdydd, rydym wedi cwblhau caffaeliad, fel y gwyddoch, safle E04, Sgwâr Callaghan. Rydym nawr yn edrych ar gyflenwi datblygiad swyddfeydd newydd ar safle sydd â lle i hyd at 7,000 o weithwyr. Mae angen asesiad llawn o hyfywedd datblygu, costau a datrysiadau cyflenwi eraill ac rwyf yn ceisio cyngor arbenigol yn y meysydd hyn. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cyd-fynd â dyheadau'r bwrdd ac anghenion y sector preifat o ran ansawdd seilwaith eiddo. Mae'r tîm sector ariannol a gwasanaethau proffesiynol yn cydweithio â busnesau sydd â diddordeb mewn buddsoddi yn yr ardal. Ar hyn o bryd rydym yn asesu safleoedd eraill i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o botensial buddsoddiadau o ansawdd. Rydym hefyd yn gweld tystiolaeth o ddiddordeb cynyddol yn yr ardal ac o'i chwmpas, gyda chyhoeddiadau swyddi diweddar a phiblinell o ymholiadau am fuddsoddiadau posibl gan y sector.

In Deeside, I have approved funding of £25,000 for a feasibility study for a north Wales advanced manufacturing and skills park. We are also working with the site owners of the Northern Gateway site in terms of identifying and delivering key infrastructure to ensure that this site is investment-ready.

Yng Nglannau Dyfrdwy, rwyf wedi cymeradwyo cyllid o £25,000 i astudiaeth dichonoldeb ar barc sgiliau a gweithgynhyrchu uwch i'r gogledd. Rydym hefyd yn cydweithio â pherchnogion safle Porth y Gogledd i nodi a darparu seilwaith allweddol i sicrhau bod y safle hwn yn barod am fuddsoddiad.

In Ebbw Vale, the board has set up a working group to assess skills needs and to advise how best to use the existing skills base in the area. In addition, I have approved a programme of works to make the Rhyd y Blew site investment-ready. This includes mains services and electrical infrastructure work and represents an investment of over £2 million. I am encouraged that we already have some inquiries. I expect this early level of interest to build as we undertake specific marketing of the site. We are working with the board and the local authority to develop a programme of works for other sites in the zone. This will be prioritised in the coming months and will establish the capital works required to ensure that these sites are investment-ready.

Yng Nglynebwy, mae'r bwrdd wedi sefydlu gweithgor i asesu anghenion sgiliau ac i gynghori o ran y ffordd orau i ddefnyddio'r sylfaen sgiliau bresennol yn yr ardal. Rwyf hefyd wedi cymeradwyo rhaglen o waith i baratoi safle Rhyd y Blew am fuddsoddiad. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau prif gyflenwad a gwaith seilwaith trydanol ac yn cynrychioli buddsoddiad o dros £2 filiwn. Mae'n galonogol imi ein bod eisoes wedi cael rhai ymholiadau. Rwyf yn disgwyl y bydd lefel gynnar y diddordeb hwn yn cynyddu wrth i ni ymgymryd â marchnata'r safle'n benodol. Rydym yn cydweithio â'r bwrdd a'r awdurdod lleol i ddatblygu rhaglen o waith ar gyfer safleoedd eraill yn yr ardal. Bydd hyn yn cael blaenoriaeth yn y misoedd nesaf a bydd yn sefydlu'r gwaith cyfalaf sydd ei angen i sicrhau bod y safleoedd hyn yn barod am fuddsoddiad.

In the Haven Waterway, I have approved the commissioning of a report to maximise new employment opportunities on the Waterston site. The report will identify recommendations to deliver the site to the market and attract inward investment and growth. This will be completed by the end of this month. I will discuss its findings with the enterprise zone board and it will enable us to undertake targeted marketing of the site. We have also been working closely with local businesses to keep them engaged with the opportunities. Last month, I met local businesses and the board has also been very active in promoting the opportunities and potential of the zone. Some of the benefits of this have been realised in the strong interest from a number of businesses, particularly in the energy, environment and tourism sectors.

Yn Nyfrffordd Aberdaugleddau, rwyf wedi cymeradwyo comisiynu adroddiad i wneud y mwyaf o gyfleoedd cyflogaeth newydd ar safle Waterston. Bydd yr adroddiad yn nodi argymhellion i gyflwyno'r safle i'r farchnad a denu mewnfuddsoddiad a thwf. Caiff hyn ei gwblhau erbyn diwedd y mis hwn. Byddaf yn trafod y canfyddiadau â bwrdd yr ardal fenter a bydd hynny'n ein galluogi i farchnata'r safle mewn modd a fydd wedi'i dargedu. Rydym hefyd wedi bod yn cydweithio'n agos â busnesau lleol i barhau i'w cynnwys yn y cyfleoedd. Y mis diwethaf, cyfarfûm â busnesau lleol ac mae'r bwrdd hefyd wedi bod yn weithgar iawn wrth hyrwyddo cyfleoedd a photensial y parth. Mae rhai o fanteision hyn wedi eu gwireddu yn y diddordeb cryf gan nifer o fusnesau, yn enwedig yn sectorau ynni, yr amgylchedd a thwristiaeth.

In Snowdonia, I have approved the commissioning of a strategic options assessment for the Trawsfynydd site. This work will establish independent recommendations to move the site forward. I expect this to be completed during the summer recess. I have also approved work to create a master plan for the Llanbedr airfield site. I visited Llanbedr airfield last month and saw for myself the potential of the site. The master plan will enable us to give even greater confidence to businesses wishing to invest there. The Snowdonia board, under the chairmanship of John Idris Jones, demonstrates how the boards are collaborating and maximising opportunities. John, in his dual role as chair of the Snowdonia board and member of the Anglesey board, recently presented on behalf of both zones to the Nuclear Industry Association. John made the positive case for the Anglesey and Snowdonia enterprise zones. I am hopeful this work will lead to further inquiries.

Yn Eryri, rwyf wedi cymeradwyo comisiynu asesiad o opsiynau strategol ar gyfer safle Trawsfynydd. Bydd y gwaith hwn yn sefydlu argymhellion annibynnol i symud y safle yn ei flaen. Rwyf yn disgwyl y caiff hyn ei gwblhau yn ystod toriad yr haf. Rwyf hefyd wedi cymeradwyo gwaith i greu uwchgynllun ar gyfer safle maes awyr Llanbedr. Ymwelais â maes awyr Llanbedr y mis diwethaf, a gwelais botensial y safle drosof fy hun. Bydd y cynllun meistr yn ein galluogi i roi mwy fyth o hyder i fusnesau sy'n dymuno buddsoddi yno. Mae bwrdd Eryri, dan gadeiryddiaeth John Idris Jones, yn dangos sut y mae'r byrddau'n cydweithio ac yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd. Yn ddiweddar rhoddodd John, sy'n gadeirydd bwrdd Eryri ac yn aelod o fwrdd Ynys Môn, gyflwyniad ar ran y ddwy ardal i Gymdeithas y Diwydiant Niwclear. Gwnaeth John yr achos cadarnhaol o blaid ardaloedd menter Ynys Môn ac Eryri. Rwyf yn obeithiol y bydd y gwaith hwn yn arwain at ymholiadau pellach.

The St Athan-Cardiff Airport zone continues to experience considerable commercial interest. We have received around 25 investment inquiries, mostly from aerospace small and medium-sized enterprises. We are also helping to facilitate the growth of existing businesses. Earlier this month, we had the good news that British Airways Maintenance Cardiff, with the support of the Welsh Government and Skills Growth Wales, exceeded its job-creation expectations. This year, it expects to create a minimum of 61 jobs, 15 of which will be apprenticeships. I have also approved the creation of a master plan for the aerospace business park. I expect this to be completed by the end of 2013. It will include the military enclave and the site for 14 Signal Regiment to move into by the end of the decade.

Mae ardal Maes Awyr Sain Tathan-Caerdydd yn parhau i fod yn destun diddordeb masnachol sylweddol. Rydym wedi derbyn tua 25 o ymholiadau buddsoddi, yn bennaf gan fusnesau awyrofod bach a chanolig. Rydym hefyd yn helpu i hwyluso twf busnesau sy'n bodoli eisoes. Yn gynharach y mis hwn, cawsom y newyddion da bod British Airways Maintenance Cardiff, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru a Sgiliau Twf Cymru, wedi rhagori ar eu disgwyliadau creu swyddi. Eleni, maent yn disgwyl creu o leiaf 61 o swyddi, a 15 ohonynt yn brentisiaethau. Rwyf hefyd wedi cymeradwyo creu uwchgynllun ar gyfer y parc busnes awyrofod. Rwyf yn disgwyl y caiff hyn ei gwblhau erbyn diwedd 2013. Bydd yn cynnwys y gilfach filwrol a'r safle i Gatrawd 14 Signal i symud i mewn iddo erbyn diwedd y degawd.

Cardiff Aviation has successfully settled into St Athan. We are discussing a number of associated and exciting projects around pilot training and aircraft conversion. Discussions are also progressing with the Ministry of Defence to agree a joint plan to move the airfield to seven-day operations and full instrument landing system operation, utilising a private sector airfield operator. The acquisition of Cardiff Airport also provides us with a tremendous opportunity to strengthen the zone further. In my visit to the airport last week, I took the opportunity to discuss the enterprise zone with the new management team. We will work closely with the management team to ensure that the airport delivers its potential as a key international gateway, particularly on inward investment and on positioning Wales as a country that is internationally accessible to business.

Mae Cardiff Aviation wedi ymgartrefu yn llwyddiannus yn Sain Tathan. Rydym yn trafod nifer o brosiectau cysylltiedig a chyffrous sy'n ymwneud â hyfforddi peilotiaid a thrawsnewid awyrennau. Mae trafodaethau hefyd yn mynd rhagddynt gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i gytuno ar gynllun ar y cyd i symud y maes awyr i weithrediadau saith diwrnod a gweithredu system glanio ag offerynnau llawn, gan ddefnyddio gweithredwr maes awyr sector preifat. Mae caffael Maes Awyr Caerdydd hefyd yn rhoi cyfle gwych i ni gryfhau'r ardal ymhellach. Yn fy ymweliad â'r maes awyr yr wythnos diwethaf, manteisiais ar y cyfle i drafod yr ardal fenter gyda'r tîm rheoli newydd. Byddwn yn cydweithio'n agos â'r tîm rheoli i sicrhau bod y maes awyr yn gwireddu ei botensial fel porth rhyngwladol allweddol, yn enwedig o ran mewnfuddsoddiad a lleoli Cymru fel gwlad sy'n rhyngwladol hygyrch i fusnesau.

We continue to actively market our enterprise zones as places in which to do business. We recently launched a comprehensive new Enterprise Zones Wales website. To complement that work, a sustained campaign is being implemented to drive traffic to the new site and to generate inquiries.

Rydym yn parhau i fynd ati i farchnata ein hardaloedd menter fel mannau i gynnal busnes ynddynt. Yn ddiweddar, lansiwyd gwefan newydd gynhwysfawr Ardaloedd Menter Cymru gennym. I ategu'r gwaith hwnnw, mae ymgyrch barhaus yn cael ei chynnal i yrru traffig i'r safle newydd ac i gynhyrchu ymholiadau.

In addition, we have also launched business rates support in our enterprise zones. Sixty one applications for business rates support were received. Of these, 39 applications were approved, offering support of more than £750,000 to businesses currently employing over 1,200 people. This will be a significant boost for SMEs wishing to grow in the enterprise zones. I will be opening the scheme for this financial year on 5 May, with a longer application window, as Members have previously indicated that they wish to see, and a bigger budget of over £4 million.

Rydym hefyd wedi lansio cymorth ardrethi busnes yn ein hardaloedd menter. Cafwyd chwe deg un o geisiadau am gymorth ardrethi busnes. O'r rhain, cymeradwywyd 39 o geisiadau, gan gynnig cymorth o fwy na £750,000 i fusnesau sydd ar hyn o bryd yn cyflogi dros 1,200 o bobl. Bydd hyn yn hwb sylweddol i fusnesau bach a chanolig sy'n dymuno tyfu yn yr ardaloedd menter. Byddaf yn agor cynllun y flwyddyn ariannol hon ar 5 Mai, gyda ffenestr hwy i wneud ceisiadau, fel y mae Aelodau eisoes wedi dweud yr hoffent ei weld, a chyllideb fwy o dros £4 miliwn.

Over the past 12 months, we have focused on getting the enterprise zones established, with a competitive offering of financial and other incentives. In that time, I have met regularly with the chairs of each of the zones, and each zone has had the opportunity to consider its individual priorities. It is also clear they have opportunities and challenges in common. We are now working to bring these individual and shared priorities together. Requirements identified by the boards on property, transport and energy-related activities are being assessed, and my officials in transport have already begun work with the boards on these activities.

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar sefydlu'r ardaloedd menter, gyda chynnig cystadleuol o gymhellion ariannol ac eraill. Yn y cyfnod hwnnw, rwyf wedi cyfarfod yn rheolaidd â chadeiryddion pob un o'r ardaloedd, ac mae pob ardal wedi cael cyfle i ystyried ei blaenoriaethau unigol. Mae hefyd yn amlwg bod ganddynt rai cyfleoedd a heriau yn gyffredin. Rydym bellach yn gweithio i ddod â'r blaenoriaethau unigol a'r blaenoriaethau ar y cyd hyn at ei gilydd. Mae gofynion a nodwyd gan y byrddau o ran eiddo, trafnidiaeth a gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ynni yn cael eu hasesu, ac mae fy swyddogion ym maes trafnidiaeth eisoes wedi dechrau gweithio gyda'r byrddau ar y gweithgareddau hyn.

To continue to drive change and to maintain momentum, I have asked the enterprise zone chairs to meet regularly to discuss common approaches, to share best practice and to advise me on the next stages of implementation. I have also asked them to consider the Welsh brand for our enterprise zones and to build on our wider marketing efforts.

Er mwyn parhau i sbarduno newid a chynnal momentwm, rwyf wedi gofyn i gadeiryddion yr ardaloedd menter gyfarfod yn rheolaidd i drafod dulliau cyffredin, i rannu arfer gorau ac i roi cyngor i mi am y camau gweithredu nesaf. Rwyf hefyd wedi gofyn iddynt ystyried brand Cymreig ein hardaloedd menter ac adeiladu ar ein hymdrechion marchnata ehangach.

I will continue to keep Assembly Members informed of progress.

Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad am eu hynt.

15:16

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I remind Members that this is an opportunity to ask the Minister questions. I have a long list of speakers and I hope to get through them all.

Diolch. Atgoffaf yr Aelodau fod hwn yn gyfle i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog. Mae gennyf restr hir o siaradwyr ac rwyf yn gobeithio rhoi cyfle i bob un ohonynt.

15:17

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will be brief, Deputy Presiding Officer; sorry, Presiding Officer, I should say.

Byddaf yn fyr, Ddirprwy Lywydd; mae'n ddrwg gennyf, Lywydd, dylwn ddweud.

15:17

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You were very nearly very brief then. [Laughter.]

Bu bron i chi fod yn gryno iawn nawr. [Chwerthin.]

15:17

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I apologise, Presiding Officer. Thank you, Minister, for your statement on enterprise zones, because you did promise an update. Actually, it was more of a statement on master plans; the number of master plans that you seem to have up and running at any moment is really quite impressive. Hopefully, the master plans will deliver.

Ymddiheuraf, Lywydd. Diolch, Weinidog, am eich datganiad ar ardaloedd menter, oherwydd roeddech wedi addo rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf. A dweud y gwir, roedd yn fwy o ddatganiad am uwchgynlluniau; mae nifer yr uwchgynlluniau yr ymddengys eu bod ar y gweill gennych ar unrhyw un adeg yn eithaf trawiadol wir. Gobeithio y bydd yr uwchgynlluniau'n llwyddo.

Turning to your comments, there is clearly no one-size-fits-all policy in terms of enterprise zones, and you are juggling lots of different balls at the same time, if I can put it that way. How are you ensuring that, while the enterprise zone policy is varied, you are keeping an eye on enterprise zones in the north, south and west at the same time, so that none of these will fall behind in terms of the progress that you hope to make?

I droi at eich sylwadau, mae'n amlwg nad oes un polisi sy'n addas i bawb o ran ardaloedd menter, ac rydych yn cadw llawer o wahanol beli yn yr awyr ar yr un pryd, os caf ddefnyddio'r ymadrodd hwnnw. Sut yr ydych yn sicrhau, er bod y polisi ardaloedd menter yn amrywio, eich bod yn cadw llygad ar ardaloedd menter yn y gogledd, y de a'r gorllewin ar yr un pryd, fel na fydd yr un o'r rhain ar ei hôl hi o ran y cynnydd yr ydych yn gobeithio ei wneud?

You mentioned the growing interest in the Cardiff financial zone. Can you clarify what interest has been received? Do you believe that the interest is sustainable, and is not just a flash in the pan in terms of businesses showing an interest at this stage that will not be there in the long-term?

Soniasoch am y diddordeb cynyddol yn ardal ariannol Caerdydd. A allwch chi egluro pa ddiddordeb a gafwyd? A ydych chi'n credu bod y diddordeb yn gynaliadwy, ac nid yn rhywbeth tymor byr yn unig o ran y diddordeb a ddangosir gan fusnesau ar hyn o bryd ond na fydd yno yn y tymor hir?

Cardiff Airport figured in your opening comments, and the acquisition of Cardiff Airport is not an entirely uncontroversial decision, at least in some quarters of the Chamber, as I am sure that you will be aware. I think that we both agree that the airport has had an abysmal record over recent years in terms of attracting inward investment to Wales. In addition, the freight figures for the airport have been down by 90% over recent years, so something is going wrong there. The decision to purchase the airport has been taken and announced, but I am sure that you would agree that that in itself is not enough. There has to be a plan and a very focused strategy behind that to make sure that the airport does indeed deliver. You made a connection between the airport purchase and management and the enterprise zones. How are you ensuring that the new airport management team is fully aware of the type of support that enterprise zones require? Unlike other areas, enterprise zones require a very specific type of support, and we do not want support provided that is not completely tailor-made to those zones.

Soniasoch am Faes Awyr Caerdydd yn eich sylwadau agoriadol, ac nid yw caffael Maes Awyr Caerdydd yn benderfyniad hollol annadleuol, o leiaf mewn rhai rhannau o'r Siambr; rwyf yn siŵr y byddwch yn ymwybodol o hynny. Credaf fod y ddau ohonom yn cytuno bod hanes y maes awyr dros y blynyddoedd diwethaf o ran denu mewnfuddsoddiad i Gymru yn druenus. Hefyd, mae ffigurau cludo nwyddau'r maes awyr wedi gostwng 90% dros y blynyddoedd diwethaf, felly mae rhywbeth o'i le yno. Mae'r penderfyniad i brynu'r maes awyr wedi'i wneud a'i gyhoeddi, ond rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno nad yw hynny'n ddigon ynddo'i hun. Rhaid cael cynllun a strategaeth â ffocws cryf y tu ôl i hynny i wneud yn siŵr bod y maes awyr yn cyflawni mewn gwirionedd. Gwnaethoch gysylltiad rhwng prynu a rheoli'r maes awyr a'r ardaloedd menter. Sut yr ydych chi'n sicrhau bod tîm rheoli newydd y maes awyr yn gwbl ymwybodol o'r math o gymorth sydd ei angen ar ardaloedd menter? Yn wahanol i ardaloedd eraill, mae angen math penodol iawn o gefnogaeth ar ardaloedd menter, ac nid ydym eisiau darparu cymorth nad yw wedi'i deilwra'n arbennig i'r ardaloedd hynny.

Business rate support was mentioned. I welcome that; it is clearly a vital piece of the jigsaw. You said that the scheme would open on 15 May. How long an application window are you proposing for that scheme? You said that it will be a longer application window this time, but there was not any clarity on exactly how long companies will have to get involved in that.

Crybwyllwyd cymorth ardrethi busnes. Rwyf yn croesawu hynny; mae'n amlwg yn ddarn hanfodol o'r jig-so. Dywedasoch y byddai'r cynllun yn dechrau ar 15 Mai. Pa mor hir yr ydych yn cynnig y bydd ffenestr ymgeisio'r cynllun hwnnw? Dywedasoch y bydd yn ffenestr ymgeisio hwy y tro hwn, ond nid oedd unrhyw eglurder o ran faint o amser yn union y bydd gan gwmnïau i gymryd rhan yn hynny.

On the issue of the website, I am pleased that it seems to be up and running. How are you going to monitor the number of applications through the website? I think that we would all agree that, in this day and age, websites are a crucial part of marketing policies and, in terms of marketing the enterprise zones on the world stage, that is more important than ever.

O ran y wefan, rwyf yn falch ei bod yn ymddangos ei bod yn weithredol. Sut yr ydych chi'n mynd i fonitro nifer y ceisiadau drwy'r wefan? Rwyf yn meddwl y byddem i gyd yn cytuno, yn yr oes sydd ohoni, bod gwefannau'n rhan hanfodol o bolisïau marchnata ac, o ran marchnata'r ardaloedd menter ar y llwyfan byd-eang, mae hynny'n bwysicach nag erioed.

Finally, you have asked that the chairs of the enterprise zones meet regularly. I would have hoped that that would happen in any case, but you are probably right to make sure that there is some mechanism for that. What specific advice and guidance are you giving them to make sure that best practice is shared? If something is going wrong in one zone, it is very important not just that that is conveyed, but that it is conveyed as quickly as possible.

Yn olaf, rydych wedi gofyn am i gadeiryddion yr ardaloedd menter gyfarfod yn rheolaidd. Byddwn wedi gobeithio y byddai hynny'n digwydd beth bynnag, ond mae'n siŵr y byddai'n dda sicrhau rhyw fath o fecanwaith ar gyfer hynny. Pa gyngor ac arweiniad penodol yr ydych yn eu rhoi iddynt i sicrhau bod arfer gorau yn cael ei rannu? Os oes rhywbeth yn mynd o'i le mewn un ardal, mae'n bwysig iawn nid yn unig eu bod yn cyfleu hynny, ond eu bod yn cyfleu hynny cyn gynted ag y bo modd.

15:20 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for his comments on this, because the party opposite has been particularly supportive of the concept of enterprise zones and their importance in delivering for the economy. You are absolutely right when you say that one size does not fit all. They are varied and they are at various stages of development. If you look at Snowdonia and compare it to where we are in terms of St Athan, you will see that, in St Athan, we had a good start in terms of what we had on the site already and the facilities, whereas, in Snowdonia, we have to deal with issues of a closing industry, very much as in Ynys Môn.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau am hyn, oherwydd mae'r blaid gyferbyn wedi bod yn arbennig o gefnogol i gysyniad ardaloedd menter a'u pwysigrwydd o ran cyflawni ar gyfer yr economi. Rydych yn llygad eich lle pan ddywedwch nad yw'r un peth yn addas i bawb. Maent yn amrywio ac maent ar wahanol gamau datblygiad. Os edrychwch ar Eryri a'i chymharu â lle'r ydym arni o ran Sain Tathan, fe welwch ein bod, yn Sain Tathan, wedi cael dechrau da o ran yr hyn a oedd gennym ar y safle eisoes a'r cyfleusterau, ond, yn Eryri, ein bod wedi gorfod ymdrin â materion diwydiant yn cau, yn debyg iawn i Ynys Môn.

In terms of the Cardiff financial zone, we do think that it is sustainable and we have had interest. Obviously, I cannot go into the commercial details, but only yesterday morning I met an inward investor who is interesting in locating in the Cardiff zone. We had discussions about what we might be able to offer, what we can do in terms of training personnel and staff and what we could offer in terms of the property. It is key that we are having a lot of interest in that particular zone.

O ran ardal ariannol Caerdydd, rydym yn credu ei bod yn gynaliadwy ac rydym wedi cael diddordeb. Yn amlwg, ni allaf sôn am y manylion masnachol, ond dim ond bore ddoe cyfarfûm â mewnfuddsoddwr â diddordeb mewn lleoli yn ardal Caerdydd. Cawsom drafodaethau am yr hyn y gallem ei gynnig, yr hyn y gallwn ei wneud o ran personél hyfforddi a staff a'r hyn y gallem ei gynnig o ran yr eiddo. Mae'r ffaith ein bod yn cael llawer o ddiddordeb yn yr ardal arbennig honno yn allweddol.

In terms of the airport, I appreciate that we are not all singing from the same hymn sheet. I have every confidence in Lord Rowe-Beddoe in chairing the board and that, when he announces the board, he will ensure that there is a business plan that reflects its role and function and its alignment to the enterprise zone. I was discussing with Professor Garel Rhys, the chair of the enterprise zone board, only this morning how it is important for those links to occur between him and the airport board. It is very important that it recognises that it has a job in the enterprise zone. The points about freight are well made.

O ran y maes awyr, rwyf yn deall nad ydym i gyd yn canu o'r un llyfr emynau. Mae gennyf bob hyder yn yr Arglwydd Rowe-Beddoe i gadeirio'r bwrdd ac y bydd, wrth gyhoeddi'r bwrdd, yn sicrhau y ceir cynllun busnes sy'n adlewyrchu ei swyddogaeth ac yn cyd-fynd â'r ardal fenter. Bûm yn trafod gyda'r Athro Garel Rhys, cadeirydd bwrdd yr ardal fenter, dim ond y bore yma pa mor bwysig ydyw bod y cysylltiadau hynny'n digwydd rhyngddo ef a bwrdd y maes awyr. Mae'n bwysig iawn bod y bwrdd yn cydnabod bod ganddo waith i'w wneud yn yr ardal fenter. Mae'r pwyntiau am gludo nwyddau wedi'u gwneud yn dda.

In terms of the business rates scheme, Members have said to me before that they thought that it was too short a timescale. So, I am looking for a longer timescale. I will probably look at about eight weeks, which I think would be a fair reflection of having to deal with it. I think the marketing will help, but I take note of what you said. The chairs have met, but it is important now that they get into a structure of meetings and learning lessons from each other, and of me being able to take advice from them about what they think have been their successes and failures, focusing on best practice.

O ran y cynllun ardrethi busnes, mae Aelodau wedi dweud wrthyf o'r blaen eu bod yn credu bod yr amserlen yn rhy fyr. Felly, rwyf yn edrych am amserlen hwy. Mae'n siŵr y byddaf yn edrych ar tua wyth wythnos; credaf y byddai hynny'n adlewyrchiad teg o orfod ymdrin â'r peth. Rwy'n credu y bydd y marchnata'n helpu, ond cymeraf sylw o'r hyn a ddywedasoch. Mae'r cadeiryddion wedi cyfarfod, ond mae'n bwysig bellach eu bod yn sefydlu strwythur o gyfarfodydd a dysgu gwersi oddi wrth ei gilydd, a fy mod innau'n gallu cymryd cyngor ganddynt am y llwyddiannau a'r methiannau y credant eu bod wedi'u cael, gan ganolbwyntio ar arfer gorau.

15:22 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you for your statement today and the work that you have done in taking forward the future of enterprise zones in Wales. You have been heavily involved in the options for taking forward the north-east Wales economy around Wrexham and there is a great deal of overlapping interest between that agenda and the work that you are doing in terms of financial incentives for both enterprise zones and city regions. In north-east Wales, a city region model was not taken forward, but we have the very welcome commitment that you made to enhance the current Mersey Dee Alliance and use that as a locally tailored forum with which to develop and drive the economy. Given the uniqueness of the approach taken forward in north-east Wales, whichever final governance and operating structure for the MDA is taken forward, it is important that it has not only the freedoms and flexibilities required to fulfil the region's economic ambitions, but can compete with other regions in Wales in terms of what it can offer local companies in terms of local business rates, broadband and other such advantages. Minister, will you ensure that the work that you are doing on enterprise zones, and the work that you are doing with Professor Brian Morgan in implementing the work of his business rates review, overlaps with the work being done in north-east Wales and that any arrangement or competitive advantages being considered for enterprise zones in Wales are also considered for the work that you are doing with the wider Mersey Dee Alliance region?

Weinidog, diolch am eich datganiad heddiw ac am y gwaith yr ydych wedi'i wneud wrth fwrw ymlaen â dyfodol ardaloedd menter yng Nghymru. Rydych wedi ymwneud yn helaeth â'r opsiynau ar gyfer bwrw ymlaen ag economi'r gogledd-ddwyrain o amgylch Wrecsam ac mae llawer iawn o ddiddordeb sy'n gorgyffwrdd rhwng yr agenda honno a'r gwaith yr ydych yn ei wneud o ran cymhellion ariannol i ardaloedd menter ac i ddinas-ranbarthau. Yn y gogledd-ddwyrain, ni symudwyd ymlaen â model dinas-ranbarthau, ond mae gennym yr ymrwymiad a wnaethoch, ac yr ydym yn ei groesawu'n fawr, i wella'r Gynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy bresennol a'i ddefnyddio fel fforwm wedi'i deilwra'n lleol i ddatblygu a sbarduno'r economi. O ystyried natur unigryw y dull a ddefnyddiwyd yn y gogledd-ddwyrain, pa bynnag strwythur llywodraethu a gweithredu a ddewisir ar gyfer y Gynghrair yn y dyfodol, mae'n bwysig, yn ogystal â chael y rhyddid a'r hyblygrwydd sydd eu hangen i gyflawni uchelgeisiau economaidd y rhanbarth, eu bod hefyd yn gallu cystadlu â rhanbarthau eraill yng Nghymru o ran yr hyn y gallant ei gynnig i gwmnïau lleol o ran trethi busnes lleol, band eang a manteision eraill o'r fath. Weinidog, a wnewch chi sicrhau bod y gwaith yr ydych yn ei wneud ar ardaloedd menter, a'r gwaith yr ydych yn ei wneud gyda'r Athro Brian Morgan wrth weithredu gwaith ei adolygiad ardrethi busnes, yn gorgyffwrdd â'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y gogledd-ddwyrain a bod unrhyw drefniant neu fanteision cystadleuol sy'n cael eu hystyried ar gyfer ardaloedd menter yng Nghymru hefyd yn cael eu hystyried ar gyfer y gwaith yr ydych yn ei wneud gyda rhanbarth ehangach Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy?

15:24 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The points that the Member have raised are very important. There is a co-ordination of the enterprise zones and what we are doing with the city region concept in a slightly different way in north Wales. It is also important to realise that, in Wales, we did not make any distinction on such things as business rates support, as done in England. The Welsh business rate offer was available across all enterprise zones. Enterprise zones in England that have enhanced capital allowances do not also have discounted business rates. We have tried to ensure equity of purpose across the piece. In Wales, we have a set of eligibility criteria on this. I think this is clearer and more transparent, which indicates the approach that we want to take across the whole policy agenda.

Mae'r Aelod wedi codi pwyntiau pwysig iawn. Ceir cydgysylltiad rhwng yr ardaloedd menter a'r hyn yr ydym yn ei wneud gyda'r cysyniad dinas-ranbarthau mewn ffordd ychydig yn wahanol yn y gogledd. Mae hefyd yn bwysig sylweddoli nad ydym, yng Nghymru, wedi gwneud unrhyw wahaniaeth o ran pethau megis cymorth trethi busnes, fel y gwnaethpwyd yn Lloegr. Roedd cynnig ardrethi busnes Cymru ar gael ar draws yr holl ardaloedd menter. Nid yw ardaloedd menter yn Lloegr, sydd â lwfansau cyfalaf uwch, yn cael ardrethi busnes gostyngol yn ogystal. Rydym wedi ceisio sicrhau tegwch o ran diben rhwng pob man. Yng Nghymru, mae gennym set o feini prawf cymhwyster ar hyn. Rwy'n credu bod hyn yn gliriach ac yn fwy tryloyw, sy'n dangos y dull yr ydym yn dymuno ei ddefnyddio ar draws yr agenda bolisi yn gyffredinol.

15:25 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am y datganiad fel adroddiad o'r cynnydd yn y maes hwn, er nad yw'r cynnydd hwnnw wedi bod yn un cyflym iawn, hyd y gwelaf. Hoffwn wneud un pwynt cyffredinol. Fel gyda'r datganiad gan y Prif Weinidog yn gynharach, mae'r datganiad hwn ar gael yn Saesneg yn unig, a nid yw hynny'n ddigon da ar gyfer y rhai ohonom sydd yn defnyddio'r Gymraeg yn y Siambr hon. Fodd bynnag, i droi at gynnwys eich datganiad, o ran y parc gwyddoniaeth—parc gwyddoniaeth Menai, fel y mae'n cael ei alw—rwyf wedi cael cyfle i drafod hyn gyda'r is-ganghellor, John Hughes, ac y mae ef yn llawn brwdfrydedd, ond y cwestiwn sydd gennyf yw: a oes gennych ryw fath o amserlen sydd wedi ei gytuno ar gyfer datblygiad y parc gwyddoniaeth?

Thank you for the statement, which is a report of progress in this area, although that progress has not been particularly swift, as far as I can see. I would like to make one general point. As was the case with the statement earlier by the First Minister, this statement is available in English only, and that is not good enough for those of us who choose to use the Welsh language in this Chamber. However, to turn to the content of your statement, in terms of the science park—the Menai science park, as it is called—I have had an opportunity to discuss this with the vice-chancellor, John Hughes, and he is extremely enthusiastic, but the question I have is: do you have some sort of timetable agreed for the development of the science park?

Rwyf yn nodi eich bod wedi comisiynu adroddiad dichonoldeb ar gyfer ardal fenter Glannau Dyfrdwy. Rwyf yn ei weld yn beth rhyfedd eich bod chi'n comisiynu hynny mor hwyr yn y dydd, o gofio bod gryn dipyn o drafod wedi bod ar honno ers peth amser. Efallai y byddwch yn gallu fy ngoleuo ynglŷn â statws yr adroddiad dichonoldeb hwnnw.

I note that you have commissioned a feasibility report for the Deeside enterprise zone development. I see it as being rather odd that you should commission that so late in the day, bearing in mind that there has been quite a bit of discussion about that issue for quite some time. Perhaps you could enlighten me as to the status of that feasibility study.

O ran maes awyr Llanbedr, sydd wedi ei atodi i'r ardal yn Nhrawsfynydd, a ydych wedi cael unrhyw ymholiadau yn mynegi diddordeb yn y maes hwnnw gan unrhyw gwmni datblygu ynni haul? Fe wnes i gyfarfod, fel llawer o rai eraill, gwmnïau a oedd â diddordeb yn y maes, ac fe wnes i cyfeirio nhw atoch. Rwyf yn gwybod am gwmni arall, o'r Almaen, sydd yn chwilio am safleoedd yn y de-orllewin ac yn y gogledd-orllewin. Nid yw'n rhyfeddod, efallai, mai'r ardal sydd yn gweld y cynnydd mwyaf amlwg yw ardal Sain Tathan-Maes Awyr Caerdydd, oherwydd ei bod hi'n llawer haws denu diddordeb ar hyd corridor yr M4. Fodd bynnag, mae'r datblygiadau hynny yn addawol iawn. Rwyf yn edrych ymlaen hefyd at weld y cynllun gweithredu a fydd yn dod maes o law ynglŷn â datblygiad Maes Awyr Caerdydd. Mae hynny'n ddatblygiad cyffrous iawn, ac yn un sydd yn fawr ei angen, fel sydd wedi ei nodi eisoes.

In terms of the Llanbedr airfield, which is included as an addendum to the Trawsfynydd site, have you had any enquiries stating an interest in that area from any solar energy development companies? I met, as did many others, companies that are interested in this area, and I did refer them to you. I know of another company, from Germany, that is seeking sites both in south-west and north-west Wales. It comes as no surprise, perhaps, that the area that is seeing the most obvious progress is the St Athan-Cardiff Airport zone, because it is far easier to attract interest along the M4 corridor. However, those developments are certainly very promising. I also look forward to seeing the action plan that will be delivered in due course regarding the development of Cardiff Airport. That is a very exciting development, and one that is certainly much needed, as has already been noted.

Yn olaf, rydych yn dweud eich bod wedi cael 61 cais am gefnogaeth gydag ardrethi busnes gan gwmnïau sydd yn gweithredu o fewn yr ardaloedd hyn, a'ch bod wedi gwrthod nifer ohonynt. Byddai diddordeb gennyf i wybod pa fath o gwmnïau sydd wedi cael y math hwn o gefnogaeth, a pha fath o gwmnïau sydd wedi cael eu gwrthod, er mwyn i ni gael gweld sut yn union y mae'r polisi yn cael ei weithredu ar lawr gwlad. Nid wyf eisiau gwybod pwy yw'r cwmnïau, ond y math o gwmniau sydd, yn eich tyb chi, yn haeddu cefnogaeth a'r math nad ydynt yn ei haeddu.

Finally, you state that you had 61 bids for support with business rates from companies working within these zones, and that you have rejected a number of them. I would be interested to know what sort of companies have been given this kind of support, and what sort of companies have been rejected, so that we can see exactly how this policy is being implemented on the ground. I do not want to know the names of the companies, but the kind of companies that you believe deserve support and the kind that do not.

15:28 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

In terms of the 61 bids and the bids that were rejected, it was probably because they did not fulfil the criteria. What I will do, if the Member is happy and the Chamber is happy to receive it, is issue a document indicating the general areas where bids have been received. That might be helpful for the future.

O ran y 61 o geisiadau a'r ceisiadau a wrthodwyd, mae'n debyg mai'r rheswm am hynny oedd nad oeddent yn bodloni'r meini prawf. Yr hyn a wnaf, os yw'r Aelod yn hapus ac os yw'r Siambr yn hapus i'w derbyn, yw cyhoeddi dogfen i nodi'r meysydd cyffredinol lle'r ydym wedi cael ceisiadau. Gallai hynny fod yn ddefnyddiol ar gyfer y dyfodol.

In terms of what is happening with Cardiff Airport, I have already agreed that I will provide an update, but I thank the Member very much for his comments on that. In terms of the specific issue of solar energy, I will ensure that I get the information for Members so that they know what type of enquiries we have had in that particular area. With regard to the Menai science park, everything has been signed off, in that there is a worker to work with them, they can look at sites and they are actually getting on with the development. I understand that there has been good progress in that area. In terms of Llanbedr airfield, we have had interest across the piece and I have been very pleased by how Llanbedr has taken off as a centre of interest.

O ran yr hyn sy'n digwydd gyda Maes Awyr Caerdydd, rwyf eisoes wedi cytuno y byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf, ond rwyf yn ddiolchgar iawn i'r Aelod am ei sylwadau am hynny. O ran mater penodol ynni solar, byddaf yn sicrhau fy mod yn rhoi'r wybodaeth i Aelodau er mwyn iddynt wybod pa fath o ymholiadau a gawsom yn y maes penodol hwnnw. O ran parc gwyddoniaeth Menai, mae popeth wedi ei gadarnhau, o ran bod gweithiwr ar gael i weithio gyda hwy, gallant edrych ar safleoedd ac maent yn bwrw ymlaen â'r datblygiad. Deallaf y bu cynnydd da yn yr ardal honno. O ran maes awyr Llanbedr, yr ydym wedi cael diddordeb o bob maes ac rwyf wedi bod yn falch iawn o lwyddiant Llanbedr fel canolfan diddordeb.

In terms of Deeside enterprise zone and the announcement about what I am undertaking, I can only sign off paperwork when that paperwork comes to me and boards write to me and request that I do so. I have now made it quite clear to chairs of boards that, if they do feel that there is any lagging behind and that they are not making sufficient progress, they should e mail me directly on some of these issues. So, I am content that we are proceeding at the speed at which we have been asked to proceed, but, in some areas, I would like things to go a tad more quickly.

O ran ardal fenter Glannau Dyfrdwy a'r cyhoeddiad am yr hyn yr wyf yn ei wneud, ni allaf gymeradwyo gwaith papur cyn imi gael y gwaith papur hwnnw wedi i fyrddau ysgrifennu ataf a gofyn i mi wneud hynny. Rwyf bellach wedi ei gwneud yn gwbl glir i gadeiryddion byrddau, os ydynt yn teimlo eu bod ar ei hôl hi o gwbl ac nad ydynt yn gwneud digon o gynnydd, y dylent anfon e-bost ataf yn uniongyrchol am rai o'r materion hyn. Felly, rwyf yn fodlon ein bod yn bwrw ymlaen ar y cyflymder y gofynnwyd i ni fwrw ymlaen arno, ond, mewn rhai ardaloedd, hoffwn i bethau symud ychydig yn gyflymach.

15:29

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Weinidog, am eich datganiad.

Thank you, Minister, for your statement.

I wish to echo Alun Ffred's comments, in that we thank you for the regularity of these updates, but it sometimes seems difficult to see the gradual incremental progress. It is tempting to think that there is another reason for that. Some 20 months since their launch, it is not clear to me whether a single brick has been laid in any of our enterprise zones. Furthermore, in terms of job creation, while we welcome the announcements of private sector jobs, it is not clear how many jobs have been created to date, and how that is being monitored by the Welsh Government. We need to see what interventions in terms of enterprise zones are creating jobs, and what other interventions there are as well, so that we can focus our attention on the things that are having the most impact.

Hoffwn ategu sylwadau Alun Ffred, sef ein bod yn diolch i chi am gysondeb y diweddariadau hyn, ond ei bod weithiau'n anodd gweld y cynnydd graddol fesul cam. Mae'n demtasiwn meddwl bod rheswm arall am hynny. Tuag 20 mis ar ôl eu lansio, nid yw'n glir i mi pa un a oes yr un fricsen wedi'i gosod yn unrhyw un o'n hardaloedd menter. Ar ben hynny, o ran creu swyddi, er ein bod yn croesawu'r swyddi yn y sector preifat a gyhoeddwyd, nid yw'n glir faint o swyddi sydd wedi eu creu hyd yn hyn, na sut y mae Llywodraeth Cymru'n monitro hynny. Mae angen inni weld pa ymyriadau o ran ardaloedd menter sy'n creu swyddi, a pha ymyriadau eraill sy'n bodoli hefyd, fel y gallwn ganolbwyntio ein sylw ar y pethau sy'n cael yr effaith fwyaf.

On more specific questions, with regard to the Menai science park, I wish both the universities that are involved in that well. However, can you explain why a business case is being developed to justify a science park, after a decision has already been announced to create one? It seems to be a slightly illogical process.

O ran cwestiynau mwy penodol, o ran parc gwyddoniaeth Menai, dymunaf y gorau i'r ddwy brifysgol sy'n cymryd rhan ynddo. Fodd bynnag, a allwch chi egluro pam mae achos busnes yn cael ei ddatblygu i gyfiawnhau parc gwyddoniaeth, pan fo penderfyniad eisoes wedi'i gyhoeddi i greu un? Mae'n ymddangos bod y broses ychydig yn afresymegol.

Moving on to some of the issues in Ebbw Vale, you talk about undertaking specific marketing for the site, now that it is ready to move forward. I am rather disappointed that that marketing process is beginning now. Can you explain when that site was identified, how long there was between the identification of that site initially and the marketing, and what issues there were in the interim that prevented the marketing from going forward a little earlier?

I symud ymlaen at rai o'r materion yng Nglynebwy, rydych yn sôn am ymgymryd â marchnata penodol ar gyfer y safle, gan ei fod nawr yn barod i symud ymlaen. Rwyf braidd yn siomedig mai nawr mae'r broses farchnata yn dechrau. A allwch chi egluro pryd y cafodd y safle ei nodi, pa mor hir oedd y cyfnod rhwng nodi'r safle hwnnw i ddechrau a'r gwaith marchnata, a pha faterion a gododd yn y cyfamser i atal y marchnata rhag digwydd ychydig yn gynharach?

Moving on to the St Athan-Cardiff Airport enterprise zone, one of the critical issues that might be important is the potential use of the Red Dragon hangar on that site. That has the potential to be a major base for a significant investor. Can you confirm from what date you believe that it will be available for that use? I understand that there are negotiations ongoing in terms of when the release of that might be from other users. Similarly, in terms of those negotiations, what progress have you made with issues regarding access to the aerodrome and the runways at St Athan, so that there is 24-hour access so that investors can get planes to the facilities?

I symud ymlaen at ardal fenter Maes Awyr Caerdydd-Sain Tathan, un o'r materion allweddol a allai fod yn bwysig yw'r posibilrwydd o ddefnyddio hangar y Ddraig Goch ar y safle hwnnw. Gallai'r safle fod yn ganolfan o bwys i fuddsoddwr mawr. A allwch chi gadarnhau o ba ddyddiad y credwch y bydd ar gael ar gyfer y defnydd hwnnw? Rwyf ar ddeall bod trafodaethau'n parhau o ran pa bryd y caiff ei ryddhau gan ddefnyddwyr eraill. Yn yr un modd, o ran y trafodaethau hynny, pa gynnydd yr ydych wedi'i wneud gyda materion yn ymwneud â mynediad at y maes glanio a'r rhedfeydd yn Sain Tathan, fel y ceir mynediad 24 awr er mwyn i awyrennau buddsoddwyr allu cyrraedd y cyfleusterau?

We welcome the jobs and the apprenticeships in my community in Rhoose. The developments at the British Airways Maintenance Centre are also very welcome, and I hope to see those grow further. However, one key issue for young people accessing apprenticeships is transport, and transport to Cardiff Airport is still not what it might be. Could you make a statement on bringing forward the direct link bus route that was in the national transport plan?

Rydym yn croesawu'r swyddi a'r prentisiaethau yn fy nghymuned yn y Rhŵs. Mae croeso mawr i'r datblygiadau yng Nghanolfan Cynnal a Chadw British Airways hefyd, ac rwyf yn gobeithio eu gweld yn tyfu ymhellach. Fodd bynnag, un mater allweddol i bobl ifanc sy'n llwyddo i gael prentisiaethau yw cludiant, ac nid yw cludiant i Faes Awyr Caerdydd cystal ag y gallai fod. A allech chi wneud datganiad am gyflwyno'r llwybr bws cyswllt uniongyrchol a oedd yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol?

You talk about some of the specific marketing activities that have been undertaken. We want to see that the enterprise zones are marketed and are successful. The website is a reactive form of marketing. What proactive, outgoing sources of marketing have you undertaken? Finally, in terms of zone boards, I believe that there is a concern over the democratic deficit here, and that quangos, having been thrown on the bonfire once, have been reborn. What control do you have as a Minister over those boards? Do they produce annual reports for you? What targets have you set them to inform the direction of their work? Finally, how are they held to account, if they are not providing you with what you expect to see?

Rydych yn sôn am rai o'r gweithgareddau marchnata penodol sydd wedi eu gwneud. Rydym yn awyddus i weld yr ardaloedd menter yn cael eu marchnata ac yn llwyddo. Mae'r wefan yn fath adweithiol o farchnata. Pa ffynonellau marchnata rhagweithiol, tuag allan yr ydych wedi'u defnyddio? Yn olaf, o ran byrddau ardaloedd, rwyf yn credu bod pryder am y diffyg democrataidd yma, a bod y cwangos, ar ôl cael eu taflu ar y goelcerth unwaith, wedi eu haileni. Pa reolaeth sydd gennych fel Gweinidog dros y byrddau hynny? A ydynt yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol ichi? Pa dargedau yr ydych wedi eu rhoi iddynt i roi sail i gyfeiriad eu gwaith? Yn olaf, sut y cânt eu dal i gyfrif, os nad ydynt yn darparu'r hyn yr ydych yn disgwyl ei weld?

15:33

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

During the establishment of the enterprise zone boards, I worked on the basis that I would ask for help and assistance from the private sector. I would also ask key people to chair the boards, who would then look at the membership that they required. I can report that it is a case of so far, so good, in terms of what they have been able to do. This is a partnership with the private sector in terms of how we deliver on the boards, and the boards mainly consist of private members. I know what I want from them, and what I have seen so far is a lot of hard work, at no cost to us, and they have really started to develop and to take a lot of time out. I do not intend to interfere in what I believe is an excellent arrangement with them, in terms of what they are doing.

Wrth sefydlu byrddau'r ardaloedd menter, bûm yn gweithio ar y sail y byddwn yn gofyn am help a chymorth gan y sector preifat. Byddwn hefyd yn gofyn i bobl allweddol i gadeirio'r byrddau, a fyddai wedyn yn edrych ar yr aelodaeth yr oedd ei hangen arnynt. Gallaf ddweud bod pethau wedi mynd yn dda, hyd yn hyn, o ran yr hyn y maent wedi gallu ei wneud. Mae hon yn bartneriaeth â'r sector preifat o ran sut yr ydym yn cyflawni ar y byrddau, ac aelodau preifat sydd ar y byrddau yn bennaf. Rwyf yn gwybod beth yr hoffwn ei gael ganddynt, a hyd yn hyn rwyf wedi gweld llawer o waith caled, heb ddim cost i ni, ac maent wedi dechrau datblygu mewn gwirionedd a chymryd llawer o amser. Nid wyf yn bwriadu ymyrryd â rhywbeth y credaf ei fod yn drefniant rhagorol gyda hwy, o ran yr hyn y maent yn ei wneud.

You allude to some of the problems on the enterprise zone sites. Some of the sites that we have looked at are not easy —they are not something nice, where you can just put something on, they actually need some infrastructure put in. Some of the hard work that the chairs and the boards have been doing, particularly in Ebbw Vale, includes looking at what is required to make them fit for purpose in terms of marketing.

Rydych yn cyfeirio at rai o'r problemau ar safleoedd yr ardaloedd menter. Nid yw rhai o'r safleoedd yr ydym wedi edrych arnynt yn hawdd—nid ydynt yn rhywbeth deniadol, lle mae'n hawdd rhoi rhywbeth arnynt; mae angen rhoi rhywfaint o seilwaith yno mewn gwirionedd. Mae rhywfaint o'r gwaith caled y mae'r cadeiryddion a'r byrddau wedi bod yn ei wneud, yn enwedig yng Nglynebwy, yn cynnwys edrych ar yr hyn sydd ei angen i'w gwneud yn addas i'w diben o ran marchnata.

On the wider aspects of marketing, I believe that it is important to have a website. However, we have been marketing these enterprise zones every time that we have a query about investment, when people ask, 'We would like to go somewhere. This is what we want—what is the distance to travel?' We do that as a part of the norm of any offer. We look at what we have available in terms of our estate and the local government estate, and in terms of what is on the enterprise zones. That is a common part of what we are undertaking.

O ran agweddau ehangach ar farchnata, rwyf yn credu ei bod yn bwysig cael gwefan. Fodd bynnag, rydym wedi bod yn marchnata'r parthau menter hyn bob tro y cawn ymholiad am fuddsoddi, pan fydd pobl yn gofyn, 'Rydym yn awyddus i fynd i rywle. Dyma'r hyn sydd ei eisiau arnom —beth yw'r pellter i'w deithio?' Rydym yn gwneud hynny fel rhan arferol o unrhyw gynnig. Rydym yn edrych ar yr hyn sydd ar gael o ran ein stad a stad y llywodraeth leol, ac o ran yr hyn sydd yn yr ardaloedd menter. Mae hynny'n rhan gyffredin o'r hyn yr ydym yn ei wneud.

On St Athan, we are negotiating through issues with the Ministry of Defence. I do not intend to go into our negotiation position, or that of the Ministry of Defence, but I assure you that the negotiations are very constructive. However, I acknowledge as a Minister that I have to be respectful of the MOD's needs in these difficult times, as well as the requirements and needs of the Welsh Government.

O ran Sain Tathan, rydym yn trafod materion gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Nid wyf yn bwriadu rhoi manylion am ein safbwynt trafod, nac am safbwynt y Weinyddiaeth Amddiffyn, ond gallaf eich sicrhau bod y trafodaethau yn adeiladol iawn. Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod fel Gweinidog bod rhaid imi barchu anghenion y Weinyddiaeth Amddiffyn yn y cyfnod anodd hwn, yn ogystal â gofynion ac anghenion Llywodraeth Cymru.

In terms of swift progress, I can understand what you say about reports and that you may prefer to have something more detailed in terms of comparisons with other sites. What we have done in terms of policy interventions include business rate support, enhanced capital allowances, the simplification of planning, skills support, superfast broadband and transport infrastructures; it is all out there. In terms of what we have undertaken, we have ensured that everything is fit for purpose in everything that we do, and that is recognised by the people discussing the issues with us. If Members require a slightly different reporting mechanism, I am more than happy to discuss it with any of the opposition spokespeople.

O ran cynnydd cyflym, gallaf ddeall yr hyn a ddywedwch am adroddiadau ac y gallai fod yn well gennych gael rhywbeth mwy manwl o ran cymariaethau â safleoedd eraill. Mae'r hyn yr ydym wedi ei wneud o ran ymyriadau polisi yn cynnwys cymorth ardrethi busnes, lwfansau cyfalaf uwch, symleiddio cynllunio, cymorth sgiliau, band eang cyflym iawn a seilweithiau trafnidiaeth; mae hynny i gyd ar gael. O ran yr hyn yr ydym wedi ei wneud, rydym wedi sicrhau bod popeth yn addas i'w ddiben ym mhob dim a wnawn, ac mae'r bobl sy'n trafod y materion gyda ni'n cydnabod hynny. Os oes angen dull adrodd ychydig yn wahanol ar Aelodau, rwyf yn fwy na pharod i drafod hynny ag unrhyw un o lefarwyr y gwrthbleidiau.

15:35

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. We have had a speaker from each of the parties, so I now ask the remaining speakers to stick to questions.

Diolch. Rydym wedi cael siaradwr o bob un o'r pleidiau, felly gofynnaf nawr i'r siaradwyr eraill gadw at gwestiynau.

15:36

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You are aware of the case of an advanced manufacturer on the Deeside industrial park that is seeking to secure newer investment from its parent company to build a new production facility next to the current site. I believe that there are issues around boundaries in the enterprise zone. I wonder whether you could deal with that. The second issue I wish to ask you about is what lessons in relation to the science park will you learn from the technium that was built in Anglesey and the sale of that technium? Perhaps you can give us more details about the sale of the technium, the lessons learnt by the Welsh Government in relation to that and the links with the Menai science enterprise zone.

Rydych yn ymwybodol o achos un gwneuthurwr uwch ar barc diwydiannol Glannau Dyfrdwy sy'n ceisio sicrhau buddsoddiad newydd gan ei riant gwmni i adeiladu cyfleuster cynhyrchu newydd y drws nesaf i'r safle presennol. Rwyf yn credu y ceir materion yn ymwneud â ffiniau yn yr ardal fenter. Tybed a allech chi roi sylw i hynny. Yr ail fater yr hoffwn ofyn ichi amdano yw pa wersi am y parc gwyddoniaeth y byddwch yn eu dysgu o'r technium a adeiladwyd yn Ynys Môn a gwerthu'r technium hwnnw? Efallai y gallwch roi mwy o fanylion i ni am werthiant y technium, y gwersi a ddysgodd Llywodraeth Cymru o hynny a'r cysylltiadau ag ardal fenter wyddoniaeth Menai.

15:36

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not like passing the buck and I am not going to pass it. We have obviously learnt significant lessons from the technium experience. In terms of the Menai science park, we regard that as an exceptionally exciting project that is fitting in to the needs and requirements of industry. I realise now that I should have addressed the issue that was raised by Eluned Parrott on the Menai science park. We knew that we wanted to do it, but we are now talking about the detail in terms of how it will be structured with the university.

Nid wyf yn hoff o daflu'r baich ac nid wyf yn mynd i'w daflu. Rydym yn amlwg wedi dysgu gwersi pwysig o'r profiad technium. O ran parc gwyddoniaeth Menai, rydym yn credu ei fod yn brosiect eithriadol o gyffrous sy'n cyd-fynd ag anghenion a gofynion diwydiant. Rwyf yn sylweddoli erbyn hyn y dylwn fod wedi rhoi sylw i'r mater a gododd Eluned Parrott am barc gwyddoniaeth Menai. Roeddem yn gwybod ein bod yn awyddus i wneud hynny, ond rydym bellach yn siarad am fanylion o ran sut y caiff ei strwythuro gyda'r brifysgol.

In terms of the issues around Deeside, I am always absolutely fascinated by them. Deeside was asked if it wanted to look at its boundaries and we agreed that we would look at them. All this information is a two-way process and it is also incumbent upon the board to put the information forward to us. As far as I am aware, all issues in Deeside around where enhanced capital allowances et cetera are available have been sorted.

O ran y materion yn ymwneud â Glannau Dyfrdwy, maent yn fy nghyfareddu'n llwyr bob amser. Gofynnwyd i Lannau Dyfrdwy a oeddent am edrych ar eu ffiniau ac fe wnaethom ni gytuno y byddem yn edrych arnynt. Mae'r holl wybodaeth hon yn broses ddwy ffordd, ac mae hefyd yn ddyletswydd ar y bwrdd i anfon y wybodaeth ymlaen atom ni. Cyn belled ag yr wyf yn deall, mae'r holl faterion yng Nglannau Dyfrdwy sy'n ymwneud â ble y mae lwfansau cyfalaf uwch ac ati ar gael wedi cael eu datrys.

15:37 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I welcome today's update and I thank you particularly for agreeing to meet the businesses on the Honeyborough industrial park in the Haven enterprise zone last month. As you say, there was significant interest by a cross-sector of businesses. I welcome the business rate support, and I welcome your intention to maximise new employment opportunities. I know that those businesses welcomed them as well. To truly realise the full potential of the zone, it is critical that future viability is realised. I know that that is your intention, Minister, and that is what makes this approach hugely significantly different. Will you continue to work with Jeff Cuthbert, the Deputy Minister for Skills and Technology, and increase the training opportunities that will help ensure the continuation of current and future workforces and leave a lasting legacy?

Weinidog, rwyf yn croesawu diweddariad heddiw a diolch yn arbennig ichi am gytuno i gwrdd â'r busnesau ym mharc diwydiannol Honeyborough yn ardal fenter y Ddau Gleddau y mis diwethaf. Fel y dywedwch, roedd diddordeb sylweddol gan amrywiaeth o fusnesau. Rwyf yn croesawu'r cymorth ardrethi busnes, ac rwyf yn croesawu eich bwriad i wneud y mwyaf o gyfleoedd cyflogaeth newydd. Gwn fod y busnesau hynny wedi eu croesawu hefyd. I wireddu potensial llawn yr ardal fenter yn wirioneddol, mae'n hanfodol sicrhau y bydd yn hyfyw yn y dyfodol. Rwyf yn gwybod mai dyna yw eich bwriad, Weinidog, a dyna sy'n gwneud y dull hwn mor arbennig o wahanol. A fyddwch yn parhau i gydweithio â Jeff Cuthbert, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, ac yn cynyddu'r cyfleoedd hyfforddiant a fydd yn helpu i sicrhau parhad gweithluoedd y presennol a'r dyfodol ac yn gadael etifeddiaeth barhaol?

15:38 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that. I certainly enjoyed my visit with you and my discussions with the businesses concerned. In terms of the enterprise zones, the skills training offer is absolutely essential in assisting companies, and Jeff and I will certainly continue our close working relationship, especially as he is now my Deputy Minister as well.

Diolch am hynna. Yn sicr, mwynheais fy ymweliad gyda chi a fy nhrafodaethau â'r busnesau dan sylw. O ran yr ardaloedd menter, mae'r cynnig hyfforddiant sgiliau yn gwbl hanfodol o ran cynorthwyo cwmnïau, a bydd Jeff a minnau'n sicr yn parhau â'n perthynas waith agos, yn enwedig gan mai ef yw fy Nirprwy Weinidog hefyd erbyn hyn.

15:39 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you for your statement this afternoon. I am grateful for the regular updates, but I do not feel any further forward in understanding exactly what the outcomes are for the two enterprise zones that have been identified in the South Wales Central area. I would be grateful if you could give consideration to greater detail, such as jobs created specifically. Equally, how much capital has the Welsh Government put into those areas, specifically because they are enterprise zones? Can we see exactly what difference the enterprise zone concept is making, both to St Athan and to Cardiff, particularly in terms of the financial services? Bristol is on our doorstep; it has an enterprise zone itself, and has identified financial services as one of the key investors into the city. It is therefore vital that we understand whether the concept is delivering for Cardiff and that we do not look back in five or six years' time—as we have with the technium programme—and say that there were grand titles, but that little was achieved in the delivery of the programme.

Weinidog, diolch am eich datganiad y prynhawn yma. Rwyf yn ddiolchgar am y diweddariadau rheolaidd, ond nid wyf yn teimlo fy mod wedi gwneud dim mwy o gynnydd o ran deall yn union beth yw'r canlyniadau ar gyfer y ddwy ardal fenter sydd wedi eu nodi yn ardal Canol De Cymru. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried rhoi mwy o fanylion, megis swyddi a grëwyd yn benodol. Yn yr un modd, faint o gyfalaf y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i'r ardaloedd hynny, yn benodol oherwydd eu bod yn ardaloedd menter? A gawn ni weld yn union pa wahaniaeth y mae cysyniad ardaloedd menter yn ei wneud, i Sain Tathan ac i Gaerdydd, yn enwedig o ran y gwasanaethau ariannol? Mae Bryste ar garreg ein drws; mae ganddi ei hardal fenter ei hun, ac mae wedi nodi mai gwasanaethau ariannol yw un o'r buddsoddwyr allweddol i mewn i'r ddinas. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn deall a yw'r cysyniad yn cyflawni ar gyfer Caerdydd ac nad ydym yn edrych yn ôl mewn pump neu chwe blynedd—fel y gwnaethom gyda'r rhaglen technium—ac yn sôn am deitlau mawreddog, ond na chafodd llawer ei gyflawni wrth gyflwyno'r rhaglen.

15:40 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very happy to look at an alternative mechanism of reporting to Members, as outlined by the leader of the opposition. I will advise Members in due course about what further information I can make available.

Rwyf yn hapus iawn i edrych ar ddull amgen o adrodd i Aelodau, fel yr amlinellodd arweinydd yr wrthblaid. Byddaf yn cynghori Aelodau maes o law ynghylch pa wybodaeth bellach y gallaf ei rhannu.

15:40 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you for your statement updating us today. My question is in relation to the supporting infrastructure of your enterprise zones in Wales, and accessibility to transport networks for businesses. I have raised this in previous statements to you, as former Minister responsible for business and enterprise, and the former Minister responsible for transport. On a broad note, I welcome the fact that you now cover these two areas, as Minister for Economy, Science and Transport.

Weinidog, diolch am eich datganiad i'n diweddaru ni heddiw. Mae fy nghwestiwn yn ymwneud â seilwaith cefnogi eich ardaloedd menter yng Nghymru, ac â hygyrchedd rhwydweithiau trafnidiaeth ar gyfer busnesau. Rwyf wedi codi hyn mewn datganiadau blaenorol i chi, fel cyn Weinidog â chyfrifoldeb am fusnes a menter, a'r cyn Weinidog â chyfrifoldeb am drafnidiaeth. Ar nodyn cyffredinol, rwyf yn croesawu'r ffaith eich bod yn awr yn ymdrin â'r ddau faes hyn, fel Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

You say that requirements identified by the boards and property transport are being assessed by officials, who have already begun work with boards. Can you provide the Chamber with specific details about what transport infrastructure you have planned to support enterprise zones across Wales? I know that Eluned Parrott asked you this earlier, but I am not sure whether you addressed it—do you intend to update the national transport plan to recognise the importance of enterprise zones and improving strategic transport access to and from them? At the moment, it seems rather piecemeal.

Rydych yn dweud bod gofynion a nodwyd gan y byrddau a thrafnidiaeth eiddo yn cael eu hasesu gan swyddogion, sydd eisoes wedi dechrau gweithio gyda byrddau. A allwch chi roi manylion penodol i'r Siambr am y seilwaith trafnidiaeth yr ydych wedi ei gynllunio i gefnogi ardaloedd menter ledled Cymru? Gwn fod Eluned Parrott wedi gofyn hyn ichi eisoes, ond nid wyf yn siŵr a wnaethoch ateb y cwestiwn—a ydych chi'n bwriadu diweddaru'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol i gydnabod pwysigrwydd ardaloedd menter a gwella mynediad trafnidiaeth strategol atynt ac oddi wrthynt? Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos yn eithaf tameidiog.

15:41 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am currently reviewing all the issues around the national transport plan, including budget issues and others. I intend to make enterprise zones and economic development quite important in the delivery of transport, which is the point that the Member made. I will be making a statement on this to the Chamber in future.

Rwyf wrthi'n adolygu'r holl faterion yn ymwneud â'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol, gan gynnwys materion cyllidebol ac eraill. Rwyf yn bwriadu gwneud ardaloedd menter a datblygu economaidd yn eithaf pwysig o ran cyflenwi trafnidiaeth, sef y pwynt a wnaeth yr Aelod. Byddaf yn gwneud datganiad am hyn i'r Siambr yn y dyfodol.

15:42

## Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ardrethi Busnes

## Statement: Update on Business Rates

Senedd.tv Fideo Video

**Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

When I made the statement to the Chamber on 5 March, I promised to provide a further update on the recommendations of the Morgan report to Members after the Easter recess.

Pan wnes i'r datganiad i'r Siambr ar 5 Mawrth, addewais roi'r wybodaeth ddiweddaraf am argymhellion adroddiad Morgan i Aelodau ar ôl toriad y Pasg.

Today marks six months since I published the business rates review. A number of recommendations have already been achieved and good progress made on others. In questions to me, Members have consistently raised the review on business rates relief for charities and supporting town centres. I will focus on these this afternoon and cover a number of other developments that have taken place, or are under way.

Heddiw, mae'n chwe mis ers imi gyhoeddi'r adolygiad o ardrethi busnes. Mae nifer o argymhellion eisoes wedi eu cyflawni ac mae cynnydd da wedi'i wneud ar eraill. Yn ystod y cwestiynau imi, mae Aelodau wedi sôn yn gyson am yr adolygiad o'r rhyddhad ardrethi busnes i elusennau a chefnogi canol trefi. Rwyf am ganolbwyntio ar y rhain y prynhawn yma a sôn am nifer o ddatblygiadau eraill sydd wedi digwydd, neu sydd ar y gweill.

Professor Morgan has now reported back to me on business rates relief for charities. I was pleased that opposition spokespeople had the opportunity, if they so wished, this morning to have a briefing from Professor Morgan. He has recommended that relief is reduced in certain circumstances and that we introduce a scheme to bring empty property back into use. He has made a number of other recommendations on this issue too.

Mae'r Athro Morgan bellach wedi adrodd yn ôl imi ar ryddhad ardrethi busnes i elusennau. Rwyf yn falch fod llefarwyr y gwrthbleidiau wedi cael cyfle i gael briff y bore yma gan yr Athro Morgan, os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Mae wedi argymell gostwng y rhyddhad dan rai amgylchiadau a'n bod yn cyflwyno cynllun i ailddechrau defnyddio eiddo gwag. Mae wedi gwneud nifer o argymhellion eraill ar y mater hwn hefyd.

I am making his independent report publicly available in its entirety today and I will immediately launch a short and focused consultation. I will ask charities, businesses and other stakeholders to tell me what they think about the recommendations. I will write to other Governments around the UK to share these recommendations. I will also come back to Members before the summer recess, and set out our intentions as we go forward.

Byddaf yn sicrhau bod ei adroddiad annibynnol yn ei gyfanrwydd ar gael i'r cyhoedd heddiw, a byddaf yn lansio ymgynghoriad byr a phenodol ar unwaith. Byddaf yn gofyn i elusennau, busnesau a rhanddeiliaid eraill ddweud wrthyf beth yw eu barn am yr argymhellion. Byddaf yn ysgrifennu at Lywodraethau eraill ledled y DU i rannu'r argymhellion hyn. Byddaf hefyd yn dod yn ôl at Aelodau cyn toriad yr haf, ac yn amlinellu ein bwriadau wrth inni symud ymlaen.

I do not want to pre-empt the findings of that consultation, so I will not make any comments on the specifics of the report at this stage. However, I am encouraging businesses, charities and others with an interest to take the opportunity to make known their views.

Nid wyf am achub y blaen ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad hwnnw, felly ni wnaf unrhyw sylwadau am fanylion yr adroddiad ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rwyf yn annog busnesau, elusennau a phobl eraill sydd â diddordeb i fanteisio ar y cyfle i fynegi eu barn.

In terms of town centres, we have now finalised the detail of our approach to fund the start-up costs for business improvement districts. We are producing literature to advertise this work and will hold seminars across Wales. A lot of interest has been generated already.

O ran canol trefi, rydym bellach wedi cwblhau manylion ein dull o ariannu costau cychwyn ardaloedd gwella busnes. Rydym yn cynhyrchu llenyddiaeth i hysbysebu'r gwaith hwn a byddwn yn cynnal seminarau ledled Cymru. Mae llawer o ddiddordeb wedi'i ennyn eisoes.

In a previous statement to Members, I said that officials would look into the costs of a scheme to support businesses negatively affected by the postponement of revaluation from 2015 to 2017. I made it clear that this would need to be carefully targeted to have impact. Therefore, I sought further advice from the task and finish group, which has offered some initial advice that I should consider principally supporting small retailers in town centres. I would be interested to hear Members' views on this. I have also said that officials are costing up the potential for a scheme to encourage long-term empty properties to be brought back into use. I will be considering a scheme that is right for Wales.

Mewn datganiad blaenorol i'r Aelodau, dywedais y byddai swyddogion yn edrych ar gostau cynllun i gefnogi busnesau yr effeithiodd gohirio'r ailbrisio o 2015 i 2017 yn negyddol arnynt. Nodais yn glir y byddai angen targedu hyn yn ofalus er mwyn cael effaith. Felly, ceisiais gyngor pellach gan y grŵp gorchwyl a gorffen, sydd wedi cynnig rhywfaint o gyngor cychwynnol y dylwn ystyried cefnogi'n bennaf adwerthwyr bach yng nghanol trefi. Byddai gennyf ddiddordeb clywed barn yr Aelodau am hyn. Rwyf hefyd wedi dweud bod swyddogion yn prisio potensial cynllun i annog ailddechrau defnyddio eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir. Byddaf yn ystyried cynllun sy'n briodol i Gymru.

Officials have recently provided me with costs for a scheme that is equivalent to the Fresh Start scheme recently launched in Scotland. However, the task and finish group has submitted additional advice that it has included in its report on business rates relief for charities, which suggests that this scheme should go further and target town centres and not-for-profit organisations that provide solid benefits to the local community. I want to make sure that we target our resources at the right areas, and we need to give further thought to how the recommendations can be practically implemented and how any potential abuse of the scheme can be prevented. I want to make the right decision, and when I have had an opportunity to fully consider the costs, I will take action swiftly to implement the scheme.

Yn ddiweddar, mae swyddogion wedi rhoi costau imi ar gyfer cynllun sy'n cyfateb i'r cynllun Fresh Start a lansiwyd yn ddiweddar yn yr Alban. Fodd bynnag, mae'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi cyflwyno cyngor ychwanegol a'i gynnwys yn eu hadroddiad ar ryddhad ardrethi busnes i elusennau, sy'n awgrymu y dylai'r cynllun hwn fynd ymhellach a thargedu canol trefi a mudiadau di-elw sy'n dod â manteision cadarn i'r gymuned leol. Rwyf am sicrhau ein bod yn targedu ein hadnoddau yn y meysydd cywir, ac mae angen inni roi rhagor o ystyriaeth i sut y gellir rhoi'r argymhellion ar waith yn ymarferol a sut i atal unrhyw gamddefnyddio posibl ar y cynllun. Rwyf am wneud y penderfyniad cywir, ac wedi imi gael cyfle i ystyried y costau'n llawn, byddaf yn cymryd camau cyflym i roi'r cynllun ar waith.

The task and finish group also recommended that the Valuation Office Agency produces revised guidance on material changes in circumstances, meaning physical changes to a property that may have an impact on the rateable value of that property. This guidance has been drafted, and I expect it to be published imminently. This will provide more clarity for businesses.

Argymhellodd y grŵp gorchwyl a gorffen hefyd fod Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn cynhyrchu canllawiau diwygiedig ar newidiadau materol i amgylchiadau, sy'n golygu newidiadau ffisegol i eiddo a allai effeithio ar werth ardrethol yr eiddo hwnnw. Mae'r canllawiau hyn wedi'u drafftio, ac rwyf yn disgwyl y cânt eu cyhoeddi'n fuan. Bydd hyn yn rhoi mwy o eglurder i fusnesau.

To turn to some other key recommendations, the Silk commission supported the recommendation on the devolution of business rates, and we now await the decision of the UK Government in this regard. If the UK Government moves towards the full devolution of business rates, we will agree to explore models of local retention and whether these could work in Wales. Due to the current nature of the pooling of business rates at Westminster, there is little incentive to explore such a model under the current system. I announced an extension to the small business rate relief scheme in Wales until March 2014. Given the economic climate, I will once again press the UK Government to continue the existing arrangements beyond that date.

A throi at rai argymhellion allweddol eraill, cefnogodd comisiwn Silk yr argymhelliad i ddatganoli ardrethi busnes, ac rydym nawr yn aros am benderfyniad Llywodraeth y DU yn hyn o beth. Os bydd Llywodraeth y DU yn symud tuag at ddatganoli ardrethi busnes yn llawn, byddwn yn cytuno i archwilio modelau cadw lleol ac a allent weithio yng Nghymru. Oherwydd y ffordd y caiff ardrethi busnes eu cronni ar hyn o bryd yn San Steffan, nid oes llawer o gymhelliant i archwilio model o'r fath dan y system bresennol. Cyhoeddais estyniad i'r cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yng Nghymru tan fis Mawrth 2014. Ac ystyried yr hinsawdd economaidd, byddaf unwaith eto yn pwyso ar Lywodraeth y DU i barhau â'r trefniadau presennol y tu hwnt i'r dyddiad hwnnw.

I am aware that the empty property rates are a source of frustration for business. The Minister for Finance and I have raised this with the UK Government to seek a number of changes to improve the current regime. There has been some movement. The autumn statement announced that a longer period of exemption would be available for new development, which was a recommendation of the Welsh business rates review. I reiterate my intention to replicate that. The task and finish group has suggested that we can go further and extend this. My officials have already developed the main details of the scheme and calculated the costs of implementing relief along similar lines to England. I have now asked my officials to examine the operational and technical issues, prior to the implementation of the scheme. I will update Members in due course.

Rwyf yn ymwybodol fod yr ardrethi eiddo gwag yn peri rhwystredigaeth i fusnesau. Mae'r Gweinidog Cyllid a minnau wedi codi hyn gyda Llywodraeth y DU i geisio nifer o newidiadau i wella'r drefn bresennol. Bu rhywfaint o symud. Cyhoeddwyd yn natganiad yr hydref y byddai cyfnod eithrio hwy ar gael ar gyfer datblygiadau newydd; roedd hynny'n un o argymhellion yr adolygiad o ardrethi busnes yng Nghymru. Ailadroddaf fy mwriad i ddyblygu hynny. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi awgrymu y gallwn fynd ymhellach ac ymestyn hyn. Mae fy swyddogion eisoes wedi datblygu prif fanylion y cynllun ac wedi cyfrifo costau gweithredu rhyddhad yn yr un modd â Lloegr. Rwyf bellach wedi gofyn i'm swyddogion archwilio'r materion gweithredol a thechnegol, cyn gweithredu'r cynllun. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau maes o law.

The task and finish group expressed some concern about the distribution of hardship relief by local authorities. For our part, we have ensured that information about this relief and guidance are available on the website. As for local authorities, they must bear a quarter of the cost of this and ensure that the relief is in the interests of local council tax payers. Members will need to consider whether increased expenditure on this relief deserves sufficient priority. In any case, legislation passed in Westminster allows local authorities to offer relief in a wider and more flexible way at their own cost. Whatever the approach, local authorities are best placed to decide on whether a business is eligible for this relief based on their local knowledge. Based on that, I have asked officials to arrange a focused discussion at the Welsh local taxation practitioners group, which brings together the 22 local authorities. By encouraging those who work locally in the system, I hope that we will ensure a more consistent approach across Wales.

Mynegodd y grŵp gorchwyl a gorffen rywfaint o bryder am ddosbarthiad rhyddhad caledi gan awdurdodau lleol. O'n rhan ni, rydym wedi sicrhau bod gwybodaeth am y rhyddhad hwn a chanllawiau ar gael ar y wefan. Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ysgwyddo chwarter cost hyn a sicrhau bod y rhyddhad er budd i'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor leol. Bydd angen i'r Aelodau ystyried a yw cynyddu gwariant ar y rhyddhad hwn yn haeddu blaenoriaeth ddigonol. Beth bynnag, mae deddfwriaeth a basiwyd yn San Steffan yn caniatáu i awdurdodau lleol gynnig rhyddhad mewn ffordd ehangach a mwy hyblyg ar gost iddynt eu hunain. Beth bynnag fo'r dull, awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu a yw busnes yn gymwys i gael y rhyddhad hwn yn seiliedig ar eu gwybodaeth leol. Yn seiliedig ar hynny, rwyf wedi gofyn i swyddogion drefnu trafodaeth â ffocws yn grŵp ymarferwyr trethiant lleol Cymru, sy'n dwyn ynghyd y 22 o awdurdodau lleol. Drwy annog y rheiny sy'n gweithio'n lleol yn y system, rwyf yn gobeithio y byddwn yn sicrhau dull mwy cyson ledled Cymru.

Consistency in business rates is an issue that has been raised with me on many occasions. I informed Members that I would take the opportunity of the postponement of revaluation to explore the anomalies that businesses perceive. When undertaking its original review, the task and finish group received a number of representations regarding the ratings system, and this work will give it the opportunity to re-examine these. This may include how increases in business rates and rateable values are decided upon. For example, Alun Ffred Jones AM has raised issues around some tourism and holiday properties experiencing large increases in their rateable values. A number of Members have made comments about the revaluation process, and I have asked the group to look into those issues as well. The task and finish group is exploring these issues and I expect it to report back following the summer recess. That will enable me to feed these concerns and issues into the UK Government.

Mae cysondeb o ran ardrethi busnes yn fater sydd wedi'i godi gyda mi ar sawl achlysur. Rhoddais wybod i'r Aelodau y byddwn yn manteisio ar y cyfle i ohirio ailbrisio i archwilio'r anghysondebau y mae busnesau yn eu dirnad. Wrth gynnal ei adolygiad gwreiddiol, cafodd y grŵp gorchwyl a gorffen nifer o sylwadau am y system raddio, a bydd y gwaith hwn yn rhoi cyfle iddo i ailedrych ar y rhain. Gallai hyn gynnwys y ffordd y pennir unrhyw gynnydd mewn ardrethi busnes a gwerthoedd ardrethol. Er enghraifft, mae Alun Ffred Jones AC wedi nodi bod sawl eiddo twristiaeth a gwyliau yn gweld cynnydd mawr yn eu gwerthoedd ardrethol. Mae nifer o Aelodau wedi gwneud sylwadau am y broses ailbrisio, ac rwyf wedi gofyn i'r grŵp edrych ar y materion hynny hefyd. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen yn ystyried y materion hyn ac rwyf yn disgwyl iddynt adrodd yn ôl ar ôl toriad yr haf. Bydd hynny'n fy ngalluogi i rannu'r pryderon a'r materion hyn â Llywodraeth y DU.

I want to end by affirming my position clearly. The task and finish group has provided excellent advice and guidance on business rates. We have been able to act on much of this immediately, and other issues will continue to seek our attention in the longer term. It has also reminded us that business rates are not the panacea that some portray and that our work on this needs to be integrated with other initiatives and cross-Government objectives. We will continue to move forward on this policy agenda. At the same time, we need to recognise the benefits and drawbacks of changing business rates policy. We need to fully consider issues of cost and effectiveness. Thanks to the work of the business rates task and finish group and our subsequent action, this policy area has a higher profile and more consideration than before, which I welcome and hope that Members do as well.

Hoffwn orffen drwy gadarnhau fy safbwynt yn glir. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi rhoi cyngor ac arweiniad rhagorol ar ardrethi busnes. Rydym wedi gallu gweithredu ar lawer o hyn ar unwaith, a bydd materion eraill yn parhau i ddenu ein sylw'n fwy hirdymor. Mae hefyd wedi ein hatgoffa nad yw ardrethi busnes yn ateb i bob problem, fel y bydd rhai'n ei awgrymu, a bod angen integreiddio ein gwaith ar hyn â mentrau ac amcanion traws-Lywodraeth eraill. Byddwn yn parhau i symud ymlaen â'r agenda bolisi hon. Ar yr un pryd, mae angen inni gydnabod manteision ac anfanteision newid y polisi ardrethi busnes. Mae angen inni ystyried materion cost ac effeithiolrwydd yn llawn. Diolch i waith y grŵp gorchwyl a gorffen ar ardrethi busnes a'n camau gweithredu yn sgil hynny, mae proffil uwch i'r maes polisi hwn a rhoddir mwy o ystyriaeth iddo nag o'r blaen, ac rwyf yn croesawu hynny ac yn gobeithio bod yr Aelodau hefyd yn ei groesawu.

15:49

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the Minister's statement today and the work and report that have been provided to the Minister by Professor Brian Morgan and his almost infinite task and finish group. As he said recently, there has been a lot more task than finish with the group, and we look forward to the ultimate recommendations beyond the draft recommendations. However, I thank him for all the hard work that he has been putting into this area of business support.

Rwyf yn croesawu datganiad y Gweinidog heddiw a'r gwaith a'r adroddiad a ddarparwyd i'r Gweinidog gan yr Athro Brian Morgan a'i grŵp gorchwyl a gorffen sydd bron yn ddiddiwedd. Fel y dywedodd yn ddiweddar, mae'r grŵp wedi gweld llawer mwy o orchwyl na gorffen, ac rydym yn edrych ymlaen at weld yr argymhellion terfynol y tu hwnt i'r argymhellion drafft. Fodd bynnag, carwn ddiolch iddo am yr holl waith caled y mae wedi ei wneud yn y maes cymorth busnes hwn.

This is generally a positive report, and the opposition welcomes that. I am pleased that we have some concrete recommendations that we can work with to try to improve Welsh high streets. We know the concerns that have existed about those over recent years. Like me, probably all Assembly Members here have been lobbied by representatives of the charity sector. High-street outlets are an important way for a whole range of charities—from local to national ones—to raise money and their profile. This is a difficult area. I can see both sides of it. I understand the issues that the Minister is trying to deal with but, nonetheless, we need fairness for the charity sector. If it has had a certain regime in place over a number of years, changes to that will inevitably be controversial. Therefore, I urge the Minister to work as closely as she can with the charity sector to try to resolve these issues, while also making the situation fairer for other businesses that are struggling.

Mae hwn yn adroddiad cadarnhaol ar y cyfan, ac mae'r wrthblaid yn croesawu hynny. Rwyf yn falch fod gennym rai argymhellion pendant y gallwn weithio gyda hwy i geisio gwella'r stryd fawr yng Nghymru. Rydym yn gwybod am y pryderon a fu am hynny dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'n debyg fod holl Aelodau'r Cynulliad yma, fel finnau, wedi cael eu lobïo gan gynrychiolwyr y sector elusennol. Mae siopau stryd fawr yn ffordd bwysig i ystod eang o elusennau—o rai lleol i rai cenedlaethol—godi arian a chodi eu proffil. Mae hwn yn faes anodd. Gallaf weld y ddwy ochr. Rwyf yn deall y materion y mae'r Gweinidog yn ceisio ymdrin â hwy ond, er hynny, mae angen tegwch i'r sector elusennol. Os oes trefn benodol wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd, mae'n anochel y bydd newidiadau i hynny'n beth dadleuol. Felly, rwyf yn annog y Gweinidog i weithio mor agos ag y gall â'r sector elusennol i geisio datrys y materion hyn, a gwneud y sefyllfa'n decach hefyd i fusnesau eraill sy'n cael trafferth.

Turning to some of the other recommendations, I welcome the plans to encourage occupation of empty properties in town centres by allowing the 50% rate relief for two years. I am also glad that social enterprises will have longer if the local authority thinks appropriate. Following on from the meeting that Eluned Parrott and I had this morning with Professor Morgan—and thank you for making that meeting possible—I think that I am right in saying that that is currently the situation anyway; local authorities do have discretion if they want to give that longer period of rate relief, but they have not done so in the past. I suppose that the obvious question there is: what actually will change? How will the Minister make sure that they are aware that they can offer that extra discretionary rate relief, and that they actually do it if they think that it is appropriate? Do you plan to place any limit on the amount of time, over the first two years, that councils will be able to extend this for? As I said, local authorities already have discretion. So, I would be interested to know whether you see it as being completely up to the local authorities, because perhaps, as you said, they do know best.

A throi at rai o'r argymhellion eraill, croesawaf y cynlluniau i annog meddiannu eiddo gwag yng nghanol trefi drwy ganiatáu rhyddhad ardrethi o 50% am ddwy flynedd. Rwyf hefyd yn falch y bydd mentrau cymdeithasol yn cael mwy o amser os yw'r awdurdod lleol yn credu bod hynny'n briodol. Yn sgil y cyfarfod a gafodd Eluned Parrott a minnau y bore yma gyda'r Athro Morgan—a diolch ichi am wneud y cyfarfod hwnnw'n bosibl—rwyf yn meddwl fy mod yn iawn wrth ddweud mai dyna'r sefyllfa ar hyn o bryd beth bynnag; mae disgresiwn gan awdurdodau lleol os ydynt yn dymuno rhoi'r cyfnod hwy o ryddhad ardrethi, ond nid ydynt wedi gwneud hynny yn y gorffennol. Mae'n debyg mai'r cwestiwn amlwg yw: beth fydd yn newid mewn gwirionedd? Sut y bydd y Gweinidog yn gwneud yn siŵr eu bod yn gwybod eu bod yn cael cynnig y rhyddhad ardrethi dewisol ychwanegol, a'u bod yn mynd ati i wneud hynny os ydynt yn credu bod hynny'n briodol? A ydych yn bwriadu gosod unrhyw derfyn ar ba mor hir, yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, y bydd cynghorau yn gallu ymestyn hyn? Fel y dywedais, mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn eisoes. Felly, byddai gennyf ddiddordeb cael gwybod a ydych yn credu mai rhywbeth i'r awdurdodau lleol yn unig yw hynny, oherwydd, fel y dywedasoch, efallai mai nhw sy'n gwybod orau.

I am encouraged to see that Professor Morgan wants to encourage the charity sector to fully participate in local organisations that aim to rejuvenate and develop our high streets. Their voices are valuable as other businesses operating in our town centres.

Mae'n galonogol gweld bod yr Athro Morgan am annog y sector elusennol i gymryd rhan lawn mewn sefydliadau lleol sy'n bwriadu adfywio a datblygu'r stryd fawr. Mae eu lleisiau'r un mor werthfawr â lleisiau busnesau eraill sy'n gweithredu yng nghanol ein trefi.

Finally, Minister, could you provide clarification on the recommendations regarding zoning? I have read the report a couple of times now and I am still not entirely clear about the issue with zoning. It states that further consideration will be given to enabling the aims of zoning to be realised. How do you plan to take this forward, and what sort of time frame are you putting on it? There are complexities with zoning, so I would like to hear some more about that.

Yn olaf, Weinidog, a allech egluro'r argymhellion o ran parthau? Rwyf bellach wedi darllen yr adroddiad fwy nag unwaith ac nid wyf yn hollol glir o hyd ynghylch parthau. Mae'n datgan y rhoddir ystyriaeth bellach i alluogi amcanion parthau i gael eu gwireddu. Sut ydych chi'n bwriadu bwrw ymlaen â hyn, a pha fath o amserlen ydych chi'n ei defnyddio? Mae cymhlethdodau gyda pharthau, felly hoffwn glywed mwy am hynny.

Finally, charity shops come in a variety of sizes. When we talk about the size of a charity shop, can we have an answer as to exactly what we are talking about? I know that I have raised this issue with you privately before the meeting, Minister, but it has been an ongoing issue. Is a 'large charity shop' actually large in terms of premises, or is it a large charity shop that operates nationally and might actually have a small premises in a town centre? I think that Professor Morgan has tried to elaborate on what he actually meant in his initial comments, but it would be helpful to the charity sector to understand exactly what is meant by 'a large charity'.

Yn olaf, mae siopau elusen yn dod mewn amryw o feintiau. Wrth siarad am faint siop elusen, a allwn gael ateb am yn union yr hyn yr ydym yn sôn amdano? Gwn fy mod wedi codi'r mater hwn gyda chi yn breifat cyn y cyfarfod, Weinidog, ond mae wedi bod yn broblem barhaus. A yw 'siop elusen fawr' yn golygu safle mawr, ynteu a yw'n siop elusen fawr sy'n gweithredu'n genedlaethol ac efallai mewn gwirionedd wedi'i lleoli mewn adeilad bach yng nghanol tref? Credaf fod yr Athro Morgan wedi ceisio ymhelaethu ar yr hyn yr oedd mewn gwirionedd yn ei olygu yn ei sylwadau cychwynnol, ond byddai o gymorth i'r sector elusennol i ddeall yn union yr hyn a olygir wrth 'elusen fawr'.

15:53 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for those comments. This has been a difficult area. When I embarked on a review of business rates, I did not quite realise how many areas Professor Morgan would actually go into. It has been a useful dialogue. I think that it has increased everyone in the Chamber's individual understanding of business rates, the implications of business rates and some of the issues that we need to look at. I want a genuine dialogue on some of the recommendations about charity, and it is important that we clarify at the end of the consultation the sizes and the points that you raise. It is alluded to in the report, but you are saying that, in the end, we must have something substantial in terms of how we deal with those issues.

Diolch ichi am y sylwadau hynny. Mae hwn wedi bod yn faes anodd. Pan gychwynnais yr adolygiad o ardrethi busnes, nid oeddwn yn llwyr sylweddoli ar faint o feysydd y byddai'r Athro Morgan yn edrych mewn gwirionedd. Mae wedi bod yn drafodaeth ddefnyddiol. Credaf ei bod wedi helpu pawb yn y Siambr i ddeall ardrethi busnes yn well, goblygiadau ardrethi busnes a rhai o'r materion y mae angen inni edrych arnynt. Hoffwn gael deialog wirioneddol am rai o'r argymhellion ynghylch elusennau, ac mae'n bwysig ein bod yn egluro ar ddiwedd yr ymgynghoriad y meintiau a'r pwyntiau a godwch. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at hynny, ond rydych yn dweud bod yn rhaid inni, yn y pen draw, gael rhywbeth sylweddol o ran y ffordd yr ydym yn ymdrin â'r materion hynny.

In terms of charity, I was very much taken by your point about fairness and how we deal with it. The outcome, I think, once we have had the consultation, is to have a fair and equitable response to these issues.

O ran elusen, roeddwn yn hoff iawn o'ch pwynt am degwch a'r ffordd yr ydym yn ymdrin ag ef. Y canlyniad, rwyf yn meddwl, unwaith y byddwn wedi cael yr ymgynghoriad, yw cael ymateb teg a chyfiawn i'r materion hyn.

Empty property rates are unpopular and are regarded as a burden. We are continuing our dialogue with the Secretary of State for Business, Innovation and Skills on some of the issues around empty property rates, which are important, and we are examining new developments in empty properties and the type of scheme that we will have in place. Therefore, this is ongoing work as far as we are concerned. I have been looking at costings in some areas, but I am not satisfied as to where the endgame is for some of this, so I will be giving some further consideration to those issues.

Mae ardrethi eiddo gwag yn amhoblogaidd ac yn cael eu hystyried yn faich. Rydym yn parhau â'n trafodaethau â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau ynghylch rhai o'r materion sy'n ymwneud ag ardrethi eiddo gwag, sy'n bwysig, ac rydym yn edrych ar ddatblygiadau newydd mewn eiddo gwag a'r math o gynllun a fydd ar waith gennym. Felly, mae'r gwaith hwn yn parhau o'n safbwynt ni. Rwyf wedi bod yn edrych ar brisiadau mewn rhai ardaloedd, ond nid wyf yn fodlon o ran ble mae pen y daith ar gyfer rhywfaint o hyn, felly byddaf yn rhoi ychydig mwy o ystyriaeth i'r materion hynny.

You make very valid points regarding the high street. I know that Members are concerned about what helps on the high street. This is not just about charity shops; it is about businesses, and this will therefore be key to the ongoing discussions that we are having. In many ways, a 30-minute statement does not do justice to all of the work that Professor Morgan has done on this, in terms of the report that he has undertaken. However, I believe that we are slowly feeling our way forward in looking at all of the issues about bringing long-term empty properties back into use, dealing with charity shops and the role of business rates.

Rydych yn gwneud pwynt dilys iawn am y stryd fawr. Gwn fod Aelodau'n bryderus am yr hyn sy'n helpu ar y stryd fawr. Nid mater o siopau elusen yn unig yw hyn; mae'n fater o fusnesau, a bydd hyn felly yn allweddol i'r trafodaethau parhaus yr ydym yn eu cael. Mewn llawer ffordd, nid yw datganiad 30 munud yn gwneud cyfiawnder â'r holl waith y mae'r Athro Morgan wedi ei wneud ar hyn, o ran yr adroddiad y mae wedi'i lunio. Fodd bynnag, credaf ein bod yn dod o hyd i'r ffordd ymlaen yn araf bach, o ran edrych ar yr holl faterion sy'n ymwneud ag ailddechrau defnyddio eiddo gwag hirdymor, ymdrin â siopau elusen a swyddogaeth ardrethi busnes.

15:55

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome the statement by the Minister. I have two questions and one thought. How do you distinguish between a traditional charity shop, based on donated used goods and staffed by volunteers—the kind of charity shop that most of us have known and supported—and the kind of charity shop that has full-time staff and sells new goods, and which is indistinguishable from any other retailer? Also, a problem in my constituency relates to shops paying combined rent and rates, rather than paying these separately. Any rate support or relief that is given makes the landlord better off but does not help the retailer one iota. Is there anything that can be done that will ensure either that the rate relief is passed on, or that the situation at least becomes transparent, so that the retailer can see that it is the rent that is costing them money, not the rates? I have had constituents on zero rates who have been told by their landlords that the reason for an increase is that the rates have gone up, and their rent and rates have gone up accordingly, when there have not been any rates to pay. My final point relates to a potential problem, namely that any cuts that are made in rates may well be seen by landlords as a sign that retailers can afford to pay more, and that they will increase rents accordingly.

Rwyf yn croesawu'r datganiad gan y Gweinidog. Mae gennyf ddau gwestiwn ac un syniad. Sut ydych chi'n gwahaniaethu rhwng siop elusen draddodiadol, yn seiliedig ar nwyddau ail-law a roddir a staffio gan wirfoddolwyr—y math o siop elusen y mae'r rhan fwyaf ohonom wedi'i hadnabod a'i chefnogi—a'r math o siop elusen a chanddi staff llawn-amser sy'n gwerthu nwyddau newydd, ac sydd fawr gwahanol i unrhyw adwerthwr arall? Hefyd, ceir problem yn fy etholaeth i o ran siopau'n talu rhent ac ardrethi gyda'i gilydd, yn hytrach na'u talu ar wahân. Mae unrhyw gymorth neu ryddhad ardrethi a roddir yn gwella sefyllfa'r landlord, ond nid yw'n helpu'r adwerthwr o gwbl. A oes unrhyw beth y gellir ei wneud a fydd yn sicrhau naill ai fod y rhyddhad ardrethi yn cael ei drosglwyddo, neu fod y sefyllfa o leiaf yn dod yn dryloyw, fel y gall yr adwerthwr weld mai'r rhent sy'n costio arian, nid yr ardrethi? Rwyf wedi gweld etholwyr ar ardrethi sero sydd wedi cael gwybod gan eu landlordiaid mai'r rheswm am y cynnydd yw bod yr ardrethi wedi codi, a bod eu rhent a'u hardrethi wedi mynd i fyny yn unol â hynny, pan na fu unrhyw ardrethi i'w talu. Mae fy mhwynt olaf yn ymwneud â phroblem bosibl, sef y gallai landlordiaid ystyried unrhyw doriadau a wneir i ardrethi fel arwydd y gall adwerthwyr fforddio talu mwy, ac y byddant yn cynyddu rhenti yn unol â hynny.

15:57

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for those comments. The point that you made is one that has been made to me, in relation to new goods and the size of shops. This is something that is going to have to be tackled, and I hope that this will come out in the consultation process. It is a point that is very well made, and I am not sure about the answer to the question either. This is an issue that covers the length and breadth of the country, in terms of other retailers indicating to me that this is the case. It is very important to note that the issue that you raised regarding rent and rates has not previously been raised with me, and is not an issue that Professor Morgan has considered. I do not know whether other Members have experience of the points that you raised. If they do, I would be grateful if I could hear about it, so that I could refer the matter to Professor Morgan.

Diolch am y sylwadau hynny. Mae'r pwynt a wnaethoch yn un sydd wedi ei wneud i mi, mewn perthynas â nwyddau newydd a maint siopau. Mae hyn yn rhywbeth sydd yn mynd i orfod cael sylw, ac rwyf yn gobeithio y daw hyn i'r amlwg yn y broses ymgynghori. Mae'n bwynt sy'n cael ei wneud yn dda iawn, ac nid wyf yn siŵr beth yw'r ateb i'r cwestiwn ychwaith. Mae hwn yn fater sy'n berthnasol i bob cwr o'r wlad; mae adwerthwyr eraill wedi dweud wrthyf fod hyn yn wir. Mae'n bwysig iawn nodi nad oedd y mater a godwyd gennych ynglŷn â rhent ac ardrethi wedi cael ei godi o'r blaen gyda mi, ac nad yw'n fater y mae'r Athro Morgan wedi ei ystyried. Nid wyf yn gwybod a oes gan Aelodau eraill brofiad o'r pwyntiau a godwyd gennych. Os oes ganddynt, byddwn yn ddiolchgar pe cawn glywed am hynny, er mwyn imi allu cyfeirio'r mater at yr Athro Morgan.

15:58

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I should begin with an apology for missing the briefing this morning. That was an oversight on my part, or on the part of someone else in the office. [Laughter.] He will not be there tomorrow. [Laughter.] In any case, thank you for the update, Minister. There are several unresolved issues, but I would agree with your concluding remarks that business rates are not the answer to all ills, though they are an important part of the equation for several smaller businesses.

Dylwn ddechrau drwy ymddiheuro am fethu'r briff y bore yma. Diofalwch ar fy rhan i oedd hynny, neu ar ran rhywun arall yn y swyddfa. [Chwerthin.] Ni fydd yno yfory. [Chwerthin.] Beth bynnag, diolch am y wybodaeth ddiweddaraf, Weinidog. Mae nifer o faterion heb eu datrys, ond byddwn yn cytuno â'ch sylwadau i gloi nad ardrethi busnes yw'r ateb i bob problem, er eu bod yn rhan bwysig o'r hafaliad i lawer o fusnesau llai.

We have all been lobbied hard on the issue of charity shops, and I will have to study the recommendations before I can ask any meaningful questions. The issue is a thorny one, to say the least. In terms of town centres, you state that you should consider principally supporting small retailers in town centres. What, exactly, would that entail? More detail would be greatly appreciated. One problem, of course, is that not all small businesses in a town centre would necessarily be ones that we would want to support. For example, a pay-day lender would not be something that we would want to encourage in a town centre. However, can you distinguish between businesses? I do not know. I very much welcome the proposal to bring empty properties back into use, and the recommendation that the Valuation Office Agency provides revised guidance on material change in circumstances. This sounds promising, and we look forward to receiving the details.

Rydym i gyd wedi'n lobïo'n galed ynghylch siopau elusen, a bydd yn rhaid imi astudio'r argymhellion cyn y gallaf ofyn unrhyw gwestiynau ystyrlon. Mae'r mater yn un dyrys, a dweud y lleiaf. O ran canol trefi, rydych yn dweud y dylech ystyried cefnogi'n bennaf adwerthwyr bach yng nghanol trefi. Beth yn union fyddai hynny'n ei olygu? Byddai'n dda iawn gennyf gael mwy o fanylion. Un broblem, wrth gwrs, yw na fyddai'r holl fusnesau bach yng nghanol tref o reidrwydd yn rhai yr hoffem eu cefnogi. Er enghraifft, ni fyddai benthyciwr diwrnod cyflog yn rhywbeth y byddem am ei annog yng nghanol tref. Fodd bynnag, a allwch wahaniaethu rhwng busnesau? Nid wyf yn gwybod. Rwyf yn croesawu'n fawr y cynnig i ailddechrau defnyddio eiddo gwag, a'r argymhelliad bod Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn darparu canllawiau diwygiedig ar newid materol i amgylchiadau. Mae hyn yn swnio'n addawol, ac rydym yn edrych ymlaen at gael y manylion.

You referred to the Silk commission and the devolution of business rates. You stated that you await the decision of the UK Government. What have you and your officials been doing proactively to ensure that action is taken on this issue? I understand that it is out of your hands, but can you tell us exactly what you have been doing in order to make this a reality?

Cyfeiriasoch at gomisiwn Silk ac at ddatganoli ardrethi busnes. Dywedasoch eich bod yn aros am benderfyniad Llywodraeth y DU. Beth ydych chi a'ch swyddogion wedi bod yn ei wneud yn rhagweithiol i sicrhau bod camau yn cael eu cymryd ar y mater hwn? Rwyf yn deall ei fod allan o'ch dwylo, ond a allwch ddweud wrthym yn union beth yr ydych wedi bod yn ei wneud i wireddu hyn?

You then referred to an issue that I have raised with you, about how business rateable values are decided, and this is a very complex issue. Can you give us an indication of how you are thinking in terms of moving to a system that is based on profit rather than a notional value of the premises? This is a very important issue, as I said, especially in the tourism industry, and no doubt in some other industries as well. Certainly, I look forward to the task and finish group's recommendations on this issue.

Yna cyfeiriasoch at fater yr wyf wedi'i godi gyda chi, ynghylch sut y penderfynir ar werthoedd ardrethol busnes, ac mae hwn yn fater cymhleth iawn. A allwch roi syniad inni o'r hyn yr ydych yn ei feddwl o ran symud at system sy'n seiliedig ar elw yn hytrach nag ar werth tybiannol yr eiddo? Mae hwn yn fater pwysig iawn, fel y dywedais, yn enwedig yn y diwydiant twristiaeth, ac mewn rhai diwydiannau eraill hefyd mae'n siŵr. Yn sicr, rwyf yn edrych ymlaen at argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen ar y mater hwn.

16:01

## Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much indeed. We have taken a number of steps to support town centres. We have the business improvement district—there is the new guidance that is coming from the Valuation Office Agency. I am also looking at the issue of bringing long-term vacant properties back into use by offering business rates relief, as I think that this will help, but I take your point about the types of businesses; I think that that is going to be quite an interesting issue to deal with. I am also considering supporting businesses that will be negatively affected by the decision to postpone revaluation, which I think could impact on some in town centres. Also, I am looking to match and improve on the announcement made by the UK and Scottish Governments on the terms for the period of grace of 18 months, to see what further work I can do on that. As well as town centres, I am looking to support city centres. I have the Newport project, which I think will give us some useful lessons. So, there are quite a lot of things going on in that particular area.

Diolch yn fawr iawn ichi. Rydym wedi cymryd nifer o gamau i gefnogi canol trefi. Mae gennym yr ardal gwella busnes—ac mae canllawiau newydd yn dod gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Rwyf hefyd yn edrych ar ailddechrau defnyddio eiddo gwag hirdymor drwy gynnig rhyddhad ardrethi busnes, oherwydd credaf y bydd hyn yn helpu, ond rwyf yn derbyn eich pwynt am y mathau o fusnesau; credaf y bydd hwnnw'n fater eithaf diddorol i ymdrin ag ef. Rwyf hefyd yn ystyried cefnogi busnesau y bydd y penderfyniad i ohirio ailbrisio'n cael effaith anffafriol arnynt; credaf y gallai hynny ddigwydd i rai yng nghanol trefi. Rwyf hefyd yn bwriadu cyhoeddi cyfnod gras o'r un hyd â'r cyfnod 18 mis a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban, ac yn hwy na hynny, i weld pa waith pellach y gallaf ei wneud ar hynny. Yn ogystal â chanol trefi, rwyf yn bwriadu cefnogi canol dinasoedd. Mae gennyf brosiect Casnewydd; credaf y bydd hwnnw'n rhoi rhai gwersi defnyddiol inni. Felly, mae cryn dipyn yn digwydd yn y maes penodol hwnnw.

I am pleased by your comments on the VOA guidance on material changes to circumstances, because I think that we have to be a lot more proactive in giving out information to individuals on the issues of business rates.

Rwyf yn falch o glywed eich sylwadau am ganllawiau Asiantaeth y Swyddfa Brisio am newidiadau materol i amgylchiadau, oherwydd credaf fod yn rhaid inni fod yn llawer mwy rhagweithiol wrth roi gwybodaeth i unigolion am faterion ardrethi busnes.

In terms of the devolution of business rates, when I published the Welsh Government's response to the business rates review, we set out the position very clearly, namely that the Silk commission should examine this issue. I wrote to Paul Silk at that time, providing a copy of the report, and I was pleased to see the Silk commission draw heavily on the work of my task and finish group. I would also say that the Welsh Government’s position on Silk is quite clear, and I think that the speech of the Chief Secretary to the Treasury in Cardiff in April was quite clear on some of these issues as well.

O ran datganoli ardrethi busnes, pan gyhoeddais ymateb Llywodraeth Cymru i’r adolygiad o ardrethi busnes, nodasom y sefyllfa’n glir iawn, sef y dylai comisiwn Silk edrych ar y mater hwn. Ysgrifennais at Paul Silk ar y pryd, gan ddarparu copi o’r adroddiad, ac roeddwn yn falch o weld comisiwn Silk yn galw’n helaeth ar waith fy ngrŵp gorchwyl a gorffen. Byddwn hefyd yn dweud bod safbwynt Llywodraeth Cymru ar Silk yn eithaf clir, a chredaf fod araith Prif Ysgrifennydd y Trysorlys yng Nghaerdydd ym mis Ebrill yn eithaf clir ar rai o’r materion hyn hefyd.

The point that you have raised with me before about the impact on tourism is well made. I will have more detail when Brian has deliberated further on the matter, and I will be happy to share that with Members, either here or in briefings to party spokespeople. I am afraid that the party spokespeople will have a lot more work to do on how we would like to take forward the challenge on business rates.

Mae’r pwynt yr ydych wedi’i godi gyda mi o’r blaen am yr effaith ar dwristiaeth wedi’i wneud yn dda. Caf fwy o fanylion pan fydd Brian wedi ystyried y mater ymhellach, a byddaf yn fwy na bodlon rhannu hynny ag Aelodau, naill ai yma neu mewn sesiynau briffio i lefarwyr y pleidiau. Mae arnaf ofn y bydd gan lefarwyr y pleidiau lawer mwy o waith i’w wneud ar sut yr hoffem fwrw ymlaen â’r her ar ardrethi busnes.

16:03

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I, too, thank the Minister, and I thank Professor Brian Morgan for the report—and for the lively dialogue that we enjoyed at the briefing meeting this morning, Minister.

Rwyf innau, hefyd, yn diolch i’r Gweinidog, ac yn diolch i’r Athro Brian Morgan am yr adroddiad—ac am y ddeialog fywiog y gwnaethom ei mwynhau yn y cyfarfod briffio y bore yma, Weinidog.

There is one point of principle to make, perhaps, before I talk about some of the recommendations. It is to do with the focus of the report on working with the charity sector in supporting town centres. The issue of market distortion is a very important one in our town centres. So, can you explain to us why you chose to look at the issue of charity retail before you chose to look more deeply at the issue of the role of supermarkets as competitors to local high streets? In terms of market distortion, the power of the supermarkets is also a very important issue.

Mae un pwynt o egwyddor i’w wneud, efallai, cyn imi siarad am rai o’r argymhellion. Mae’n ymwneud â ffocws yr adroddiad ar gydweithio â’r sector elusennol wrth gefnogi canol trefi. Mae ystumio’r farchnad yn fater pwysig iawn yng nghanol ein trefi. Felly, a allwch esbonio inni pam y bu i chi ddewis edrych ar adwerthu elusennol cyn dewis edrych yn ddyfnach ar swyddogaeth archfarchnadoedd fel cystadleuwyr i strydoedd mawr lleol? O ran ystumio’r farchnad, mae grym yr archfarchnadoedd yn fater pwysig iawn hefyd.

Looking at the report provided by Professor Morgan, I noticed that some issues about zoning and placing limits on the number of charity shops in particular areas are, to a certain extent, deferred, because the complexity makes them very difficult to deliver. I think that that is understandable. I very much welcome the idea of asking the Charity Retail Association’s members to become more involved in their local high streets through active engagement with business improvement districts, through active engagement with, perhaps, local traders’ associations, and by asking the retail association itself to monitor the sale of new goods in charity shops, and the impact that that has on local high streets. Using the sector, rather than imposing that from a governmental or local authority perspective, is an efficient way of doing it, but it also means that the sector itself feels engaged in the process, which has great value.

Wrth edrych ar yr adroddiad a ddarparwyd gan yr Athro Morgan, sylwais fod rhai materion ynghylch parthau a gosod cyfyngiadau ar nifer y siopau elusen mewn ardaloedd penodol, i ryw raddau, wedi’u gohirio, gan fod y cymhlethdod yn ei gwneud yn anodd iawn eu cyflawni. Rwyf yn meddwl fod hynny’n ddealladwy. Rwyf yn croesawu’n fawr y syniad o ofyn i aelodau’r Gymdeithas Adwerthu Elusennol wneud mwy yn eu stryd fawr leol drwy ymgysylltu’n weithgar ag ardaloedd gwella busnes, drwy ymgysylltu’n weithgar, efallai, â chymdeithasau masnachwyr lleol, a thrwy ofyn i’r gymdeithas adwerthu ei hun fonitro gwerthu nwyddau newydd mewn siopau elusen, ac effaith hynny ar y stryd fawr leol. Mae defnyddio’r sector, yn hytrach na mynnu hynny o safbwynt y llywodraeth neu’r awdurdod lleol, yn ffordd effeithlon o wneud hyn, ond mae hefyd yn golygu bod y sector ei hun yn teimlo ei fod yn rhan o’r broses, sy’n beth gwerth chweil.

In terms of recommendations 4 and 5 of the new report, looking at bringing empty properties back into use, I very much welcome this. The Minister will know that I have written to her on a number of occasions about empty properties. I also want to see business rate relief being extended to a wider range of social enterprises that are of great value to our communities. I thank Professor Morgan for taking that on board. One thing that it does not address is the issue of businesses that have fallen into hardship because they are failing businesses but still have to meet the obligations of paying their rent and rates. What progress can be made there?

O ran argymhellion 4 a 5 yr adroddiad newydd, sy'n edrych ar ailddechrau defnyddio eiddo gwag, rwyf yn croesawu hyn yn fawr iawn. Bydd y Gweinidog yn gwybod fy mod wedi ysgrifennu ati ar nifer o achlysuron am eiddo gwag. Hoffwn hefyd weld ymestyn rhyddhad ardrethi busnes i ystod ehangach o fentrau cymdeithasol sydd o werth i'n cymunedau. Rwyf yn diolch i'r Athro Morgan am ystyried hynny. Un peth nad yw'n rhoi sylw iddo yw busnesau sy'n wynebu caledi oherwydd eu bod yn fusnesau sy'n methu ond sy'n dal i orfod bodloni rhwymedigaethau talu eu rhent ac ardrethi. Pa gynnydd y gellir ei wneud yn hynny o beth?

On the new regime and the staggering of rate relief for charity shops—from full rate relief of 80% on the first £12,000 of rateable value, 50% for the next £24,000 of rateable value and no rate relief above that—it has the potential to generate a surplus in the system, though probably not a very big one. One of the other proposals was the idea of rate relief for bringing new properties into use. Have you made any assessment of whether that is likely to be cost neutral?

O ran y drefn newydd a gwasgaru rhyddhad ardrethi i siopau elusen—o ryddhad ardrethi llawn o 80% ar £12,000 cyntaf y gwerth ardrethol, 50% ar gyfer £24,000 nesaf y gwerth ardrethol a dim rhyddhad ardrethi uwchlaw hynny—fe allai gynhyrchu gwarged yn y system, ond nid un mawr iawn yn ôl pob tebyg. Un o'r cynigion eraill oedd rhyddhad ardrethi am ddechrau defnyddio eiddo newydd. A ydych wedi gwneud unrhyw asesiad i weld a yw'n debygol y bydd hynny'n niwtral o ran cost?

16:06

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your comments. I will not comment on everything that has gone out for consultation on the charitable stuff, because I think that that would be unfair. I must have a clear mind about what I will be recommending to the Assembly when the consultation comes back, which I will be taking forward.

Diolch am eich sylwadau. Nid wyf am wneud sylw ar bob mater elusennol sydd wedi mynd allan ar gyfer ymgynghori, oherwydd credaf y byddai hynny'n annheg. Mae'n rhaid imi fod yn glir am yr hyn y byddaf yn ei argymell i'r Cynulliad pan ddaw'r ymgynghoriad yn ei ôl, a byddaf yn bwrw ymlaen â hynny.

Turning to some of your particular points, one thing that I will comment on is people's involvement in some of the processes that have been alluded to in Brian's report—the monitoring of new goods and so on. That is all quite important. I very much welcomed the engagement that Professor Morgan had in bringing businesses and charities together. That was key in some areas.

A throi at rai o'ch pwyntiau penodol, un peth y gwnaf sylw amdano yw cyfranogiad pobl yn rhai o'r prosesau sydd wedi cael eu crybwyll yn adroddiad Brian—monitro nwyddau newydd ac yn y blaen. Mae hynny i gyd yn eithaf pwysig. Rwyf yn croesawu'n fawr yr ymrwymiad a wnaeth yr Athro Morgan i ddod â busnesau ac elusennau at ei gilydd. Roedd hynny'n allweddol mewn rhai meysydd.

I am also looking forward to see what is going to come in on zoning. It is quite a complex issue but it is worthy of discussion in the wider consultation.Obviously, in terms of how we are going to deal with some of the issues that arise, you are quite right to allude to supermarkets, and whether there is a distortion on trade. I think that Professor Brian Morgan's original report looked specifically at town centres and the issues around out-of-town developments. I do not want to stray into another Minister's portfolio, but planning policy has an important role to play here. Over recent years, the Welsh Government has tightened national planning policy, and local authorities need to look at some of these issues. However, I do not think that planning policy is the only issue. Our recently published document, 'Vibrant and Viable Places', is also applicable when we look at these areas, as is what we do with regard to local growth zones. There are also some other issues, such as the specific issue of car parking—there are a lot of issues around this. This is something that we might well return to when we see the outcome of some of these further discussions.

Rwyf hefyd yn edrych ymlaen at weld beth a ddaw i mewn o ran parthau. Mae'n fater eithaf cymhleth ond mae'n werth ei drafod yn yr ymgynghoriad ehangach. Yn amlwg, o ran sut yr ydym yn mynd i ymdrin â rhai o'r materion sy'n codi, rydych yn llygad eich lle wrth gyfeirio at archfarchnadoedd, ac a oes ystumio ar fasnach. Credaf fod adroddiad gwreiddiol yr Athro Brian Morgan yn edrych yn benodol ar ganol trefi a materion sy'n ymwneud â datblygiadau y tu allan i'r dref. Nid wyf am grwydro i bortffolio Gweinidog arall, ond mae gan bolisi cynllunio ran bwysig i'w chwarae yma. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi tynhau polisi cynllunio cenedlaethol, ac mae angen i awdurdodau lleol edrych ar rai o'r materion hyn. Fodd bynnag, nid wyf yn credu mai polisi cynllunio yw'r unig fater dan sylw. Mae ein dogfen a gyhoeddwyd yn ddiweddar, 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid', hefyd yn berthnasol pan fyddwn yn edrych ar y meysydd hyn, ynghyd â'r hyn yr ydym yn ei wneud o ran parthau twf lleol. Mae yna hefyd rai materion eraill, megis mater penodol parcio ceir—mae llawer o faterion yn ymwneud â hyn. Mae'n bosibl iawn y byddwn yn dychwelyd i drafod hyn ar ôl gweld canlyniad rhai o'r trafodaethau pellach hyn.

In terms of the financial issues, I will look at the outcome in relation to the points that you made on that, and do an appropriate analysis. I will come back to the Chamber with more information on this once I have done the consultation exercise on charities and when I have some more worked-up proposals in some other areas.

O ran y materion ariannol, byddaf yn edrych ar y canlyniad o ran y pwyntiau a wnaethoch ar hynny, ac yn cynnal dadansoddiad priodol. Dof yn fy ôl i'r Siambr â mwy o wybodaeth am hyn ar ôl imi gynnal yr ymgynghoriad ar elusennau a phan fydd gennyf gynigion mwy terfynol mewn rhai meysydd eraill.

16:09 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I welcome your statement today and your focus on trying to do something with town centres, in a way that is different and that will, hopefully, be sustainable into the future. I welcome the work that you intend to do around rate relief for charities, but I would like some clarity: are we talking about rate relief for charity shops particularly on high streets, or are we including rate relief for charities that exist beyond the high street? A bit of clarity around that would be quite useful for some people in my area.

Weinidog, rwyf yn croesawu eich datganiad heddiw a'ch ffocws ar geisio gwneud rhywbeth gyda chanol trefi, mewn ffordd sy'n wahanol ac a fydd, gobeithio, yn gynaliadwy yn y dyfodol. Croesawaf y gwaith yr ydych yn bwriadu ei wneud ynghylch rhyddhad ardrethi i elusennau, ond hoffwn gael rhywfaint o eglurder: a ydym yn sôn am ryddhad ardrethi i siopau elusen yn enwedig ar y stryd fawr, ynteu a ydym yn cynnwys rhyddhad ardrethi i elusennau sy'n bodoli y tu hwnt i'r stryd fawr? Byddai ychydig o eglurder ynghylch hynny'n eithaf defnyddiol i rai pobl yn fy ardal i.

I also welcome that you are looking at any possible negative impact that might have been created by the postponement of the revaluation from 2015 to 2017. I have received an awful lot of enquiries about that. I am glad, Minister, that you are looking at how you can re-use the empty shops that are blighting, quite frankly, our high streets and, often, having a negative impact. Haverfordwest has this week announced the closure of one of the largest independent retail shops on its high street, and that is very disconcerting. I am sure that the people of Pembrokeshire and those local businesses will welcome an opportunity to discuss what that shop can now be used for, should it be the case that somebody does not immediately take it over.

Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith eich bod yn edrych ar unrhyw effaith anffafriol bosibl a allai fod wedi ei chreu drwy ohirio'r ailbrisio o 2015 i 2017. Rwyf wedi cael llawer iawn o ymholiadau am hynny. Rwyf yn falch, Weinidog, eich bod yn edrych ar sut y gallwch ailddefnyddio'r siopau gwag sydd, a dweud y gwir, yn difetha ein strydoedd mawr ac yn aml yn cael effaith negyddol. Yr wythnos yma, cyhoeddodd Hwlffordd y bydd un o'r siopau adwerthu annibynnol mwyaf ar ei stryd fawr yn cau, ac mae hynny'n peri pryder mawr. Rwyf yn siŵr y bydd pobl Sir Benfro a'r busnesau lleol hynny'n croesawu cyfle i drafod sut y gellir defnyddio'r siop yn awr, os na fydd rhywun yn dechrau ei defnyddio ar unwaith.

16:11 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

These empty shops are a big issue in terms of being a blight on some of our smaller towns and retail outlets. It is something that absolutely has to be tackled. People running businesses in those areas must be despondent to see neighbouring shops empty, with nothing going on, and gradually getting more untidy. This is one of the key areas that has come out where we have to do more. As part of doing more, we have to look at their use, as well. That is very important. When the taskforce started its work, it was looking at the importance, probably, of encouraging social enterprises, credit unions and others to use these facilities, and that is why it is so important that we look at whether we can extend relief beyond one or two years to help those particular organisations. They might start to invigorate some of the areas that you have alluded to.

Mae'r siopau gwag yn broblem fawr o ran difetha rhai o'n trefi llai a'n canolfannau adwerthu. Mae'n fater y mae'n rhaid inni roi sylw iddo. Rhaid bod pobl sy'n rhedeg busnesau yn yr ardaloedd hynny'n ddigalon o weld siopau cyfagos yn wag, heb ddim byd yn digwydd ynddynt, ac yn raddol yn mynd yn fwy anniben. Mae hwn yn un o'r meysydd allweddol sydd wedi dod i'r amlwg lle mae'n rhaid inni wneud mwy. Fel rhan o wneud mwy, rhaid inni hefyd edrych ar sut i'w defnyddio. Mae hynny'n bwysig iawn. Pan ddechreuodd y tasglu ei waith, mae'n debyg ei fod yn edrych ar bwysigrwydd annog mentrau cymdeithasol, undebau credyd ac eraill i ddefnyddio'r cyfleusterau hyn, a dyna pam mae mor bwysig ein bod yn edrych i weld a allwn ymestyn y rhyddhad y tu hwnt i un neu ddwy flynedd i helpu'r sefydliadau penodol hynny. Efallai y bydd hynny'n dechrau bywiogi rhai o'r ardaloedd yr ydych wedi cyfeirio atynt.

Sometimes, everything is focused too much on the charities review issues around this. There are wider issues here. I do not want to influence the consultation or pre-empt the responses, but I would say to the Member that it would be helpful for Members to undertake the wider distribution of this report, to generate a lot of consultation responses.

Weithiau, mae popeth yn canolbwyntio gormod ar faterion yn ymwneud â'r adolygiad o elusennau. Mae materion ehangach yma. Nid wyf am ddylanwadu ar yr ymgynghoriad nac achub y blaen ar yr ymatebion, ond byddwn yn dweud wrth yr Aelod y byddai'n ddefnyddiol i'r Aelodau fynd ati i ddosbarthu'r adroddiad hwn yn ehangach, i ennyn llawer o ymatebion i'r ymgynghoriad.

16:12 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I just have two short questions, both related to charity shops. Will you ensure that consideration is given not only to the impact on the high street generally, but the impact on the charity retail sector itself? It is saying that its shops raise some £12 million a year in Wales for good causes, and a range of services and community projects. For example, British Heart Foundation is currently investing over £1 million a year in research grants for Cardiff University, and training over 14,000 people a year in life-saving skills. Marie Curie Cancer Care funds over 130 nurses in Wales, caring for more than 2,250 people with terminal illness. There are many other examples. There is also an impact where, sometimes, the charities will be investing up to £30,000 in their high street units, improving the presentation of otherwise empty units, and perhaps that could be used to enhance rather than be a drag on the community.

Dim ond dau gwestiwn byr sydd gennyf, a'r ddau yn gysylltiedig â siopau elusen. A wnewch chi sicrhau nad dim ond yr effaith ar y stryd fawr yn gyffredinol y byddwch yn ei hystyried, ond yr effaith ar y sector adwerthu elusennol ei hun? Maent yn dweud bod eu siopau'n codi tua £12 miliwn y flwyddyn yng Nghymru i achosion da, ac i ystod o wasanaethau a phrosiectau cymunedol. Er enghraifft, mae Sefydliad Prydeinig y Galon ar hyn o bryd yn buddsoddi dros £1 filiwn y flwyddyn mewn grantiau ymchwil i Brifysgol Caerdydd, a hyfforddi dros 14,000 o bobl y flwyddyn mewn sgiliau achub bywyd. Mae Gofal Canser Marie Curie yn ariannu dros 130 o nyrsys yng Nghymru, sy'n gofalu am dros 2,250 o bobl sydd â salwch terfynol. Mae nifer o enghreifftiau eraill. Ceir effaith hefyd lle bydd yr elusennau, weithiau, yn buddsoddi hyd at £30,000 yn eu hunedau stryd fawr eu hunain, gan wella golwg yr unedau a fyddai fel arall yn wag, ac efallai y gellid defnyddio hynny i wella'r gymuned yn hytrach na bod yn fwrn arni.

Finally, to ensure that proper evidence is provided in relation to new goods, the charity sector says that over 90% of goods are donated; income from new goods is only 8% on average, and the sale of new goods is in decline. As you indicated, the majority are either branded goods, like Christmas cards, or items directly related to the services that they provide, like hearing aids and walking sticks.

Yn olaf, er mwyn sicrhau bod tystiolaeth briodol yn cael ei darparu o ran nwyddau newydd, mae'r sector elusennol yn dweud bod dros 90% o nwyddau yn cael eu rhoi; dim ond 8% o incwm ar gyfartaledd a ddaw o nwyddau newydd, ac mae gwerthu nwyddau newydd yn gwanhau. Fel y dywedasoch, mae'r mwyafrif ohonynt naill ai'n nwyddau brand, fel cardiau Nadolig, neu'n eitemau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gwasanaethau y maent yn eu darparu, fel cymhorthion clyw a ffyn cerdded.

16:13 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member very much for his comments, which I will take as part of his views in terms of the consultation, because we will take everything into account in this consultation process. I might have opened a hornet's nest and given it a poke, but I want to see a resolution on this that tries to satisfy all parties and everyone concerned. We will take this work forward in a positive manner and take all contributions on board.

Diolch yn fawr iawn i'r Aelod am ei sylwadau; byddaf yn eu hystyried fel rhan o'i farn o safbwynt yr ymgynghoriad, gan y byddwn yn ystyried popeth yn y broses ymgynghori hon. Efallai fy mod wedi agor nyth cacwn yn hyn o beth ac wedi rhoi proc iddi, ond hoffwn weld penderfyniad ar hyn sy'n ceisio bodloni pob plaid a phawb dan sylw. Byddwn yn symud ymlaen â'r gwaith hwn mewn modd cadarnhaol ac yn ystyried pob cyfraniad.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 4.14 p.m.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.19 p.m.*

16:14 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have listened carefully to the discussion around this statement and I think that many town centres are struggling—particularly those where an out-of-town retail park offers free parking, whereas town centres often cannot do so. You have yourself mentioned the planning system, which can be an issue around developing town centres. I wonder whether you might take this into consideration in terms of how you deal with your business rates and business rate relief, but you have also alluded to other factors, and I think that that is quite right. Therefore, what are you doing as the Minister for Economy, Science and Transport to work with your other colleagues, such as the Minister for Housing and Regeneration and the Minister for Communities and Tackling Poverty, so that we can get all the strategies together that will assist us to revitalise those town centres?

Rwyf wedi gwrando'n astud ar y drafodaeth ar y datganiad hwn ac rwyf yn meddwl bod llawer o ganol trefi'n ei chael yn anodd—yn enwedig y rhai lle mae parc adwerthu y tu allan i'r dref yn cynnig parcio am ddim, rhywbeth na all canol trefi yn aml ei gynnig. Rydych chi eich hun wedi sôn am y system gynllunio, a all fod yn broblem o ran datblygu canol trefi. Tybed a allech ystyried hyn o ran y ffordd yr ydych yn ymdrin â'ch ardrethi busnes a'ch rhyddhad ardrethi busnes, ond rydych hefyd wedi cyfeirio at ffactorau eraill, ac rwyf yn meddwl bod hynny'n briodol. Felly, beth ydych chi'n ei wneud fel Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i gydweithio â'ch cyd-weithwyr eraill, megis y Gweinidog Tai ac Adfywio a'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, fel y gallwn gasglu'r holl strategaethau at ei gilydd a fydd yn ein cynorthwyo i adfywio canol ein trefi?

16:15

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I assure you that town centres are a priority for the Welsh Government across the piece, in terms of Government intervention. I am involved for my economic development portfolio, but the Ministers present have heard what you have said on these issues, and the issues that you raise are quite key. We have to look at what help and assistance we can give to these town centres so that they can be re-invigorated.

Gallaf eich sicrhau bod canol trefi yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru yn gyffredinol, o ran ymyrraeth y Llywodraeth. Rwyf yn cymryd rhan oherwydd fy mhortffolio datblygu economaidd, ond mae'r Gweinidogion sy'n bresennol wedi clywed yr hyn yr ydych wedi'i ddweud am y materion hyn, ac mae'r materion yr ydych yn eu codi yn rhai eithaf allweddol. Mae'n rhaid inni edrych ar ba help a chymorth y gallwn eu rhoi i ganol trefi er mwyn eu hailfywiogi.

On this note, we understand the needs of local government in terms of what money they want to get in from car parking and so on, but some days it is a case of throwing the baby out with the bath water.

Ar y nodyn hwn, rydym yn deall anghenion llywodraeth leol o ran faint o arian yr hoffent ei gael o barcio ceir ac yn y blaen, ond weithiau mae'n fater o daflu'r llo a chadw'r brych.

16:16

# Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ofal Heb ei Drefnu

# Statement: Update on Unscheduled Care

Senedd.tv Fideo Video

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

I make this statement in response to the sustained pressures felt in unscheduled care services in Wales over recent months, services that offer advice, diagnosis and treatment to many thousands of people each and every week. Staff who provide these services respond to individual circumstances, ranging from minor injuries to life-threatening trauma or illness. There are very few people in Wales who have not, at some time, benefited from the care and commitment they provide.

Rwyf yn gwneud y datganiad hwn mewn ymateb i'r pwysau parhaus a deimlwyd ar wasanaethau gofal heb ei drefnu yng Nghymru dros y misoedd diwethaf, gwasanaethau sy'n cynnig cyngor, diagnosis a thriniaeth i filoedd o bobl bob wythnos. Mae staff sy'n darparu'r gwasanaethau hyn yn ymateb i amgylchiadau unigol, yn amrywio o fân anafiadau i drawma neu salwch sy'n bygwth bywyd. Prin iawn yw'r bobl yng Nghymru nad ydynt, ar ryw adeg, wedi elwa ar y gofal a'r ymrwymiad a ddarperir ganddynt.

Over the past six months, the demand for these services has risen sharply in a pattern shaped by an increase in the number of acutely ill older patients attending accident and emergency departments. Such patients often have very complex needs. All parts of the United Kingdom are experiencing these pressures, but Wales has the highest proportion of people aged over 85, and that number is increasing at the fastest rate.

Dros y chwe mis diwethaf, mae'r galw am y gwasanaethau hyn wedi cynyddu'n sydyn ar batrwm sy'n deillio o gynnydd yn nifer y cleifion hŷn difrifol wael sy'n mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae gan gleifion o'r fath yn aml anghenion cymhleth iawn. Mae pob rhan o'r Deyrnas Unedig yn teimlo'r pwysau hyn, ond yng Nghymru y mae'r gyfran uchaf o bobl dros 85 oed, ac yma y mae'r gyfradd yn cynyddu gyflymaf.

Today I set out a series of immediate actions to alleviate pressures and to improve the position for the future. Since becoming the Minister for Health and Social Services, I have required every health board chief executive to produce a statement, signed jointly with the Welsh Ambulance Services NHS Trust, to set out and implement actions to reduce ambulance handover times at A&E departments. These plans have already been received and will be enacted immediately.

Heddiw, rwyf yn nodi cyfres o gamau i'w cymryd ar unwaith i liniaru'r pwysau ac i wella'r sefyllfa at y dyfodol. Ers dod yn Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, rwyf wedi gofyn i brif weithredwyr pob un o'r byrddau iechyd gynhyrchu datganiad, wedi ei lofnodi ar y cyd gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, i nodi a rhoi ar waith gamau i leihau amseroedd trosglwyddo ambiwlansys mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Mae'r cynlluniau hyn eisoes wedi eu derbyn a chânt eu rhoi ei waith ar unwaith.

Their actions must be consistent with the all- Wales action plan for unscheduled care that is being developed between the NHS chief executives and the Welsh Government. To turn plans into action, however, requires the commitment of a far wider group. I am pleased to report that the British Medical Association, the Royal College of Nursing, the Association of Directors of Social Services and the College of Emergency Medicine have all now agreed to become actively engaged in supporting rapid implementation. Each local health board must come forward, within the next six weeks, with a statement of that wider plan's local implementation, going beyond hospital and ambulance services to encompass provision in the community, including out-of-hours GP services.

Rhaid i'w gweithredoedd fod yn gyson â chynllun gweithredu Cymru gyfan ar gyfer gofal heb ei drefnu sy'n cael ei ddatblygu rhwng prif weithredwyr y GIG a Llywodraeth Cymru. Er mwyn rhoi'r cynlluniau ar waith, fodd bynnag, mae'n rhaid wrth ymrwymiad gan grŵp ehangach o lawer. Rwyf yn falch o adrodd bod Cymdeithas Feddygol Prydain, Coleg Brenhinol y Nyrsys, Cymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Coleg Meddygaeth Frys i gyd wedi cytuno i gymryd rhan weithredol mewn cefnogi gweithredu cyflym. Rhaid i bob bwrdd iechyd lleol, o fewn y chwe wythnos nesaf, ddarparu datganiad ynghylch y ffordd y caiff y cynllun ehangach hwnnw ei roi ar waith yn lleol, a mynd y tu hwnt i wasanaethau ysbytai ac ambiwlansys i gynnwys darpariaeth yn y gymuned, gan gynnwys gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau arferol.

There are immediate steps that also have to be taken to tackle enduring difficulties at the health and social care interface. A common theme in all my recent visits to A&E departments has been that pressures at the front door of the hospital are made much more difficult when beds are occupied, in significant numbers, by patients who remain there after they are ready for discharge. This is bad for patients and for the NHS. It is critical that timely discharge arrangements are in place to ensure that more beds are freed up to manage planned admissions and emergency pressures.

Mae camau y mae'n rhaid eu cymryd ar unwaith hefyd i fynd i'r afael ag anawsterau sy'n parhau â'r rhyngwyneb iechyd a gofal cymdeithasol. Un thema gyffredin yn fy holl ymweliadau diweddar ag adrannau damweiniau ac achosion brys yw bod pwysau wrth ddrws ffrynt yr ysbyty yn waeth o lawer pan fydd gwelyau'n cael eu defnyddio, mewn niferoedd sylweddol, gan gleifion sy'n aros yno pan fyddant yn barod i'w rhyddhau. Mae hyn yn wael i gleifion ac i'r GIG. Mae'n hanfodol rhoi trefniadau rhyddhau amserol ar waith i sicrhau bod mwy o welyau ar gael i reoli derbyniadau wedi'u cynllunio a phwysau brys.

There are three immediate steps that I will take in this area. Together with the Minister for local government and the Deputy Minister for Social Services, I will meet relevant local health boards and councils to discuss with them directly what they are doing here and now to accelerate social care assessments and discharges in their areas.

Mae tri cham y byddaf yn eu cymryd ar unwaith yn y maes hwn. Ynghyd â'r Gweinidog llywodraeth leol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, byddaf yn cwrdd â byrddau a chynghorau iechyd lleol perthnasol i drafod gyda hwy yn uniongyrchol yr hyn y maent yn ei wneud ar hyn o bryd i gyflymu asesiadau gofal cymdeithasol a phrosesau rhyddhau yn eu hardaloedd.

Secondly, I will act to reduce the number of delayed discharges caused by the operation of patient choice. We already have extant statutory guidance in place that requires that the patient be transferred to appropriate interim accommodation, if necessary, pending the availability of a placement in the home of their choice. I want to see that guidance implemented fully and consistently. Otherwise, the exercise of one person's choice can too often be a denial of another's choice to necessary treatment. Of course, anyone must have the right to pursue the long-term care arrangements that are best for them. However, that does not, and cannot, amount to a right to occupy an acute hospital bed while those arrangements are being realised.

Yn ail, byddaf yn cymryd camau i leihau nifer yr achosion o oedi wrth ryddhau pobl o'r ysbyty oherwydd dewis y claf. Mae gennym eisoes ganllawiau statudol ar glawr sy'n ei gwneud yn ofynnol bod cleifion yn cael eu trosglwyddo i lety dros dro priodol, os oes angen, hyd nes y bydd lle ar gael mewn cartref o'u dewis. Rwyf am weld y canllawiau hynny'n cael eu rhoi ar waith yn llawn ac yn gyson. Fel arall, gall rhoi dewis i un person beri'n rhy aml nad oes gan rywun arall ddewis o ran triniaeth angenrheidiol. Wrth gwrs, dylai fod gan bawb hawl i arfer y trefniadau gofal tymor hir sydd orau iddynt hwy. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu, ac ni all olygu, fod ganddynt hawl i aros mewn gwely acíwt yn yr ysbyty tra bo'r trefniadau hynny'n cael rhoi ar waith.

Finally, I will take action to change the policy that applies when the NHS and social services cannot agree financial responsibilities between them. In such circumstances, the patient should be transferred to a suitable out-of-hospital setting. They should not, and in future will not, remain in hospital until the financial issue is resolved.

Yn olaf, byddaf yn cymryd camau i newid y polisi sy'n berthnasol pan na all y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol gytuno ar gyfrifoldebau ariannol rhyngddynt. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r claf gael ei drosglwyddo i leoliad addas y tu allan i'r ysbyty. Ni ddylai aros yn yr ysbyty hyd nes bod materion ariannol yn cael eu datrys, ac yn y dyfodol, ni fydd hynny'n digwydd.

I want to bring a new sense of national purpose and urgency to the whole unscheduled care agenda. I can announce today that we will appoint a new national clinical lead for unscheduled care. It is crucial that our work has strong, authoritative and national clinical leadership, and that will now happen. It is vital as well that action on the ground is pursued with the full authority of the Minister. I therefore also intend to invest a small number of local health board chairs with national leadership roles. Dr Chris Jones, the chair of Cwm Taf Local Health Board, has already led important strands in work to improve unscheduled care. I have now asked him to take on a national role in bringing together the actions required to ensure uniform implementation across Wales. As a ministerial appointment, he will act with my authority to make this a fully national approach.

Rwyf am ddod ag ymdeimlad newydd o bwrpas a brys cenedlaethol i holl agenda gofal heb ei drefnu. Gallaf gyhoeddi heddiw y byddwn yn penodi arweinydd clinigol cenedlaethol newydd ar gyfer gofal heb ei drefnu. Mae’n hollbwysig fod arweiniad clinigol cryf, awdurdodol a chenedlaethol i’n gwaith, a bydd hynny bellach yn digwydd. Mae’n hanfodol yn ogystal fod gweithredu ar lawr gwlad yn digwydd gydag awdurdod llawn y Gweinidog. Felly, rwyf hefyd yn bwriadu rhoi i nifer fach o gadeiryddion byrddau iechyd lleol rolau arwain cenedlaethol. Mae Dr Chris Jones, cadeirydd Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf, eisoes wedi arwain elfennau pwysig o’r gwaith i wella gofal heb ei drefnu. Rwyf bellach wedi gofyn iddo ymgymryd â rôl genedlaethol i ddwyn ynghyd y camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau y caiff hyn ei roi ar waith yn yr un ffordd ym mhob rhan o Gymru. Gan fod hwn yn benodiad gweinidogol, bydd yn gweithredu gyda fy awdurdod i i wneud hwn yn ddull cwbl genedlaethol.

Members will be aware from today’s business statement that the Government intends to bring forward a debate on the McClelland review of the ambulance service on 7 May. Responding rapidly to that review is part of a further set of actions that will go alongside the immediate measures set out today. Further elements will include the results of work already commissioned on future bed numbers needed in the Welsh NHS and work carried out by the chief nursing officer on staffing levels in acute medical and surgical wards.

Bydd yr Aelodau’n ymwybodol o’r datganiad busnes heddiw fod y Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno dadl ar adolygiad McClelland o’r gwasanaeth ambiwlans ar 7 Mai. Mae ymateb yn gyflym i’r adolygiad hwnnw yn rhan o gyfres arall eto o gamau a fydd yn mynd law yn llaw â’r mesurau a nodwyd heddiw sydd i’w rhoi ar waith ar unwaith. Bydd elfennau pellach yn cynnwys canlyniadau gwaith a gomisiynwyd eisoes ar nifer y gwelyau y bydd eu hangen yn y dyfodol yn y GIG yng Nghymru a gwaith a wnaed gan y prif swyddog nyrsio ar lefelau staffio mewn wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt.

Further medium-term steps will also be taken to address the consistent finding that too many people are attending our accident and emergency departments unnecessarily. The way in which we introduce an NHS 111 system in Wales will be vital to achieving this. I want to see our plans accelerated, so that people can be confident that the different parts of the unscheduled care system work together to provide the response they need, in the most clinically suitable way.

Bydd camau tymor canol pellach hefyd yn cael eu cymryd i fynd i’r afael â’r canfyddiad cyson fod gormod o bobl yn mynd i’n hadrannau damweiniau ac achosion brys yn ddiangen. Bydd y ffordd y byddwn yn cyflwyno system GIG 111 yng Nghymru yn hanfodol er mwyn gwneud hyn. Rwyf am weld ein cynlluniau’n cyflymu, fel y gall pobl fod yn hyderus fod gwahanol rannau’r system gofal heb ei drefnu yn gweithio gyda’i gilydd i ddarparu’r ymateb sydd ei angen arnynt, yn y modd mwyaf addas o safbwynt clinigol.

Finally, and in the longer term, I believe that we need a new national conversation about the way in which our care services best meet the needs of an ageing population. When an older person is drawn into the NHS, they are treated according to an enduringly medical model of care, when their needs are likely to go far wider. We need a broader discussion, involving patients, families, the groups that represent them and staff who provide care for them about the best way to design and deliver such services in the future. A recent House of Lords select committee report, ‘Ready for Ageing?’, provides an important start to such a debate. In order to help shape such a discussion here in Wales, I have asked Baroness Ilora Finlay, a member of that committee of the House of Lords and a distinguished Welsh clinician in her own right, to bring together a small group of people to advise me of the best way to take such a conversation forward.

Yn olaf, ac yn y tymor hwy, credaf fod arnom angen trafodaeth genedlaethol newydd am y ffordd y mae ein gwasanaethau gofal yn bodloni orau anghenion poblogaeth sy’n heneiddio. Pan fydd pobl hŷn yn cael eu tynnu i mewn i’r GIG, maent yn cael eu trin yn unol â model o ofal sy’n feddygol ei naws, pan fydd eu hanghenion yn debygol o fod yn ehangach o lawer. Mae arnom angen trafodaeth ehangach, yn cynnwys cleifion, teuluoedd, y grwpiau sy’n eu cynrychioli a’r staff sy’n darparu gofal iddynt, am y ffordd orau o gynllunio a darparu gwasanaethau o’r fath yn y dyfodol. Mae adroddiad diweddar gan un o bwyllgorau dethol Tŷ’r Arglwyddi, ‘Ready for Ageing?’, yn fan cychwyn pwysig i ddadl o’r fath. Er mwyn helpu i lywio trafodaeth o’r fath yma yng Nghymru, rwyf wedi gofyn i’r Farwnes Ilora Finlay, aelod o’r pwyllgor hwnnw yn Nhŷ’r Arglwyddi a chlinigydd Cymreig nodedig yn ei rhinwedd ei hun, ddod â grŵp bach o bobl at ei gilydd i roi cyngor imi am y ffordd orau o fwrw ymlaen â sgwrs o’r fath.

This statement sets out my determination to improve our unscheduled care service for those who use it and for those who work in it. It represents the start, not the finish, of a programme that I hope to report upon regularly to the Assembly.

Mae’r datganiad hwn yn dangos fy mod yn benderfynol o wella ein gwasanaeth gofal heb ei drefnu ar gyfer y rhai sy’n ei ddefnyddio ac ar gyfer y rhai sy’n gweithio ynddo. Dechrau yw hwn, nid diwedd, ar raglen yr wyf yn gobeithio adrodd arni’n rheolaidd i’r Cynulliad.

16:24 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister, for your statement. I do, indeed, welcome it and I welcome particularly the new sense of urgency around the need for action to address the crisis in our unscheduled care in Wales. It is a shame that it took a letter from the College of Emergency Medicine, declaring our emergency care to be at the point of meltdown, for this statement to be brought forward. Having said that, I recognise that some of the actions in your statement today ought to have a positive impact on outcomes for patients and, indeed, help to reduce the pressures, both financial and staffing pressures, within NHS emergency care.

Diolch am eich datganiad, Weinidog. Rwyf yn ei groesawu, yn wir, ac rwyf yn croesawu'n arbennig yr ymdeimlad newydd o frys ynghylch yr angen i weithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng ym maes gofal heb ei drefnu yng Nghymru. Mae'n drueni fod yn rhaid wrth lythyr gan y Coleg Meddygaeth Frys, yn datgan bod ein gofal brys mewn sefyllfa drychinebus, cyn cael y datganiad hwn. Wedi dweud hynny, rwyf yn cydnabod y dylai rhai o'r camau gweithredu yn eich datganiad heddiw gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau i gleifion ac, yn wir, helpu i leihau'r pwysau, yn bwysau ariannol ac yn bwysau staffio, o fewn gofal brys y GIG.

You made lots of references in your statement to older people. It is important that we get the message across that older people should not be considered to be a burden on our NHS, or on society as a whole. It is sometimes all too easy for all of us in this Chamber to say that the problems in our NHS are as a result of older people. Clearly, that is not the case. I know that that is not what you were saying, Minister, but it is important that we all get that message across.

Soniasoch gryn dipyn yn eich datganiad am bobl hŷn. Mae'n bwysig ein bod yn trosglwyddo'r neges na ddylid ystyried bod pobl hŷn yn faich ar ein GIG, nac ar gymdeithas yn gyffredinol. Weithiau, mae'n rhy hawdd i bob un ohonom yn y Siambr hon ddweud mai oherwydd pobl hŷn y mae gennym broblemau yn ein GIG. Yn amlwg, nid yw hynny'n wir. Gwn nad dyna yr oeddech yn ei ddweud, Weinidog, ond mae'n bwysig ein bod i gyd yn trosglwyddo'r neges honno.

It is also interesting that Cardiff and Vale University Local Health Board is one of those health boards where the demographics are actually getting younger, but it still faces some of the greatest problems of all the health boards in Wales in terms of its emergency care. So, this is not just a phenomenon of an ageing society—there are other reasons behind it. Through the work that you have commissioned Baroness Ilora Finlay to do and the other actions that you have alluded to, I hope that we will be able to identify some of those problems and deal with them.

Mae hefyd yn ddiddorol fod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn un o'r byrddau iechyd hynny lle mae'r ddemograffeg mewn gwirionedd yn mynd yn iau, ond mae'n dal i wynebu rhai o'r problemau mwyaf o blith holl fyrddau iechyd Cymru o ran ei ofal brys. Felly, nid ffenomen yn ymwneud â chymdeithas sy'n heneiddio yn unig yw hon—mae rhesymau eraill y tu ôl i hyn. Drwy'r gwaith yr ydych wedi comisiynu'r Farwnes Ilora Finlay i'w wneud a'r camau eraill yr ydych wedi cyfeirio atynt, rwyf yn gobeithio y byddwn yn gallu nodi rhai o'r problemau hynny a delio â hwy.

I very much welcome the appointment of a new national clinical lead on unscheduled care. I look forward to that appointment being made. I also welcome your announcement that Dr Chris Jones will take the lead on this as far as LHB chief executives are concerned.

Rwyf yn croesawu'n fawr y penodiad o arweinydd clinigol cenedlaethol newydd ar ofal heb ei drefnu. Edrychaf ymlaen at weld y penodiad hwnnw'n cael ei wneud. Rwyf hefyd yn croesawu eich cyhoeddiad y bydd Dr Chris Jones yn arwain ar hyn o ran prif weithredwyr byrddau iechyd lleol.

I have a number of questions, Minister, as you would expect. You suggested that LHBs will publish their own plans within the next six weeks on how to respond to this problem of unscheduled care. Will those plans be available for scrutiny within the Assembly? Perhaps you could tell us whether that will be the case. I appreciate that some of these decisions are immediate. What action do you intend to take if these immediate steps do not work?

Mae gennyf nifer o gwestiynau, Weinidog, fel y byddech yn ei ddisgwyl. Roeddech yn awgrymu y bydd byrddau iechyd lleol yn cyhoeddi eu cynlluniau eu hunain o fewn y chwe wythnos nesaf ynghylch sut i ymateb i'r broblem hon o ofal heb ei drefnu. A fydd y cynlluniau hynny ar gael i ni gael craffu arnynt yn y Cynulliad? Efallai y gallech ddweud wrthym ai dyna fydd yn digwydd. Sylweddolaf fod rhai o'r penderfyniadau hyn yn rhai i'w rhoi ar waith ar unwaith. Pa gamau ydych chi'n bwriadu eu cymryd os na fydd y camau hynny'n gweithio?

You also mentioned effectively curtailing choice, potentially, about where people might be placed, in a residential or care home setting, if they leave a hospital bed. While I appreciate that there is a need to vacate beds that are unnecessarily occupied, how does that chime with previous statements that you have made as Chair of the Health and Social Care Committee, when you suggested that people should not go into care homes directly from hospital? Can you tell us a little more about your thinking on that?

Soniasoch hefyd am leihau dewis, o bosibl, i bob pwrpas o ran lle y gallai pobl gael eu rhoi, mewn cartref preswyl neu gartref gofal, os byddant yn gadael gwely mewn ysbyty. Er fy mod yn sylweddoli bod angen i bobl adael gwelyau sy'n cael eu defnyddio'n ddiangen, sut mae hynny'n cyd-daro â datganiadau blaenorol gennych fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, pan awgrymasoch na ddylai pobl fynd i mewn i gartrefi gofal yn syth o'r ysbyty? A allwch chi ddweud ychydig mwy wrthym am eich ffordd o feddwl ynghylch hynny?

Perhaps you could also give us a timeline by which you expect an NHS 111 system to be implemented in Wales. I also ask that you publish the terms of reference for Baroness Finlay's work and the group that you have asked her to establish, including some timescales for its work to be completed.

Efallai y gallech hefyd roi llinell amser inni ar gyfer rhoi system GIG 111 ar waith yng Nghymru. Gofynnaf hefyd ichi gyhoeddi'r cylch gorchwyl ar gyfer gwaith y Farwnes Finlay a'r grŵp yr ydych wedi gofyn iddi ei sefydlu, gan gynnwys rhai amserlenni ar gyfer cwblhau ei waith.

16:27 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you to Darren Millar for his general support for the actions to be taken, and for his specific endorsement of a number of them.

Diolch i Darren Millar am ei gefnogaeth gyffredinol i'r camau sydd i'w cymryd, ac am ei gefnogaeth benodol i nifer ohonynt.

I will begin by reinforcing a point that he made earlier in his contribution: nothing in what I have said today should be taken in any way as implying a view that older people are somehow a burden on the national health service, or that they are somehow to blame for pressures in the service itself; absolutely not. What I am keen to do is to make sure that older people get the best care that is right for them. The question that I am asking Baroness Finlay to help us to explore is whether the current way in which older people arrive through unscheduled care services and the way that they are responded to in the NHS is right for them. That is the key to it, and that is the type of conservation that I want to try to open up.

Rwyf am ddechrau drwy ategu pwynt a wnaeth yn gynharach yn ei gyfraniad: ni ddylid ystyried bod unrhyw beth yn yr hyn yr wyf wedi'i ddweud heddiw mewn unrhyw ffordd yn awgrymu bod pobl hŷn rywsut yn faich ar y gwasanaeth iechyd gwladol, neu eu bod rywsut ar fai am bwysau yn y gwasanaeth ei hun; dim o gwbl. Yr hyn yr wyf yn awyddus i'w wneud yw gwneud yn siŵr bod pobl hŷn yn cael y gofal gorau sy'n iawn iddynt hwy. Y cwestiwn yr wyf yn gofyn i'r Farwnes Finlay ein helpu i'w archwilio yw a yw'r ffordd y mae pobl hŷn yn cyrraedd ar hyn o bryd drwy wasanaethau gofal heb ei drefnu a'r ffordd yr ymatebir iddynt yn y GIG yn iawn ar eu cyfer. Dyna sy'n allweddol yn hyn o beth, a dyna'r math o sgwrs yr wyf am geisio'i dechrau.

Turning to some of the more specific questions that you raised, in terms of choice, we are very often talking about people who are not making a first decision about whether to go into residential care. I fully sign up to the recommendation that the health committee made that no-one should go directly from a hospital bed to residential care, and that there should always be an opportunity for reablement in such cases. However, there are undoubtedly a significant number of people occupying hospital beds who are fit to be discharged, but who wait in hospital while the particular destination that they would choose to go to becomes available. I am simply saying that, of course, they must pursue their right to go where they would like to be, but, in the interim, the place to wait for that to become available cannot be routinely in an acute hospital bed, because that bed is needed for somebody else who may be urgently needing treatment. The knock-on effect of choice, in the way that it can operate, can be that choice for one person is a denial of someone else's choice.

A throi at rai o'r cwestiynau mwy penodol a godwyd gennych, o ran dewis, rydym yn sôn yn aml iawn am bobl nad ydynt yn gwneud penderfyniad cyntaf ynghylch p'un a ydynt am fynd i ofal preswyl. Rwyf yn derbyn yn llwyr yr argymhelliad a wnaeth y pwyllgor iechyd na ddylai unrhyw un fynd yn uniongyrchol o wely mewn ysbyty i ofal preswyl, ac y dylai bob amser fod cyfle i ailalluogi mewn achosion o'r fath. Fodd bynnag, mae'n sicr fod nifer sylweddol o bobl mewn gwelyau ysbyty a allai gael eu rhyddhau, ond sy'n aros yn yr ysbyty hyd nes y bydd y man penodol y byddent yn dewis mynd iddo ar gael. Dweud yr wyf fod yn rhaid iddynt, wrth gwrs, fynnu eu hawl i fynd i ble y byddent yn hoffi bod, ond, yn y cyfamser, nid mewn gwely ysbyty acíwt y dylent fod yn aros i'r lle hwnnw fod ar gael, gan fod angen y gwely hwnnw i rywun arall a allai fod angen triniaeth frys. Effaith dewis yn y pen draw, yn y ffordd y gall weithredu, yw y gall dewis un person beri nad oes dewis gan rywun arall.

In relation to the 111 service, there is a target time within which it will become available in Wales, which is towards 2015. I think that there are some important lessons for us to learn from the experiments that have been carried out in England on this. Some of them have some substantial successes, but some of them turn out to be operating 111 in a way that has some unintended and unanticipated consequences, and are not doing what needs to be done. So, I am keen to build in some time to make sure that we fully learn from the process there.

Mewn perthynas â'r gwasanaeth 111, mae amser targed ar gyfer pryd y bydd ar gael yng Nghymru, sef tua 2015. Credaf fod rhai gwersi pwysig inni eu dysgu o'r arbrofion sydd wedi cael eu cynnal yn Lloegr ar hyn. Mae rhai ohonynt wedi cael llwyddiannau sylweddol, ond mae rhai ohonynt yn gweithredu 111 mewn modd sydd wedi esgor ar rai canlyniadau anfwriadol ac annisgwyl, ac nad ydynt yn gwneud yr hyn y mae angen ei wneud. Felly, rwyf yn awyddus i greu rhywfaint o amser i wneud yn siŵr ein bod yn dysgu'n iawn o'r broses yno.

As regards the terms of reference for the work that Baroness Finlay will carry out, I will willingly share the remit that we will ask her to discharge on our behalf.

O ran cylch gorchwyl y gwaith y bydd y Farwnes Finlay'n ei wneud, byddaf yn fwy na pharod rhannu'r cylch gwaith y byddwn yn gofyn iddi ei gyflawni ar ein rhan.

16:31 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Minister for his statement this afternoon and the acknowledgement that things cannot continue as they are. I do not disagree with the Minister's analysis of the problems facing unscheduled care, although the statement today raises more questions than it provides answers. First, you say that plans have already been submitted to you that have been agreed between the health boards and the Welsh ambulance trust. Will you make that statement available for scrutiny? You say that those plans are to focus on ensuring that there is a reduction in ambulance handover times. We saw last week the shockingly bad figures with regard to the amount of time ambulances are waiting outside our A&E departments. Could you tell the Chamber what success will look like and what figures you are working to in terms of a reduction in handover times? You listed a number of bodies that are now actively engaged in the process; the Implication is that they have not been actively engaged previously. What analysis have you carried out of the barriers that have prevented a consensus among all these bodies on tackling these particular difficulties?

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma a'r gydnabyddiaeth na all pethau barhau fel y maent. Nid wyf yn anghytuno â dadansoddiad y Gweinidog o'r problemau sy'n wynebu gofal heb ei drefnu, er bod y datganiad heddiw yn codi mwy o gwestiynau nag o atebion. Yn gyntaf, rydych yn dweud bod cynlluniau eisoes wedi'u cyflwyno ichi sydd wedi eu cytuno rhwng y byrddau iechyd ag ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru. A wnewch chi sicrhau y bydd y datganiad hwnnw ar gael ar gyfer craffu? Rydych yn dweud y bwriedir i'r cynlluniau hynny ganolbwyntio ar sicrhau bod amseroedd trosglwyddo ambiwlansys yn gostwng. Gwelsom yr wythnos diwethaf y ffigurau brawychus o wael o ran faint o amser y mae ambiwlansys yn aros y tu allan i'n hadrannau damweiniau ac achosion brys. A wnewch chi ddweud wrth y Siambr pa olwg fydd ar lwyddiant ac ar sail pa ffigurau yr ydych yn gweithio o ran gostwng amseroedd trosglwyddo? Rhestrwyd nifer o gyrff gennych sydd bellach yn cymryd rhan weithredol yn y broses; yr awgrym yw na fuont yn cymryd rhan weithredol o'r blaen. Pa ddadansoddiad ydych chi wedi'i wneud o'r rhwystrau sydd wedi atal consensws ymhlith yr holl gyrff hyn ar fynd i'r afael â'r anawsterau penodol hyn?

Like Darren Millar, I welcome the opportunity to have a look at the local implementation plans when they are submitted within the next six weeks by the health boards. The Minister says that these situations have arisen because of the number of elderly people in our society, but that is not a new demographic. That situation, with regard to an older-than-average population and the fact that the number of older people is increasingly more rapidly in Wales than anywhere else, is not new, yet the pressures that we have seen in unscheduled care have been unprecedented over the last year, I would say. What analysis has the Welsh Government carried out as to why, all of a sudden, there is a particular spike in demand for services? An older population did not just happen overnight. This is something that has existed within the Welsh NHS for a number of years. I would like to understand the Government's own understanding of why those pressures are suddenly so great now.

Fel Darren Millar, rwyf yn croesawu'r cyfle i gael golwg ar y cynlluniau gweithredu lleol pan fyddant yn cael eu cyflwyno o fewn y chwe wythnos nesaf gan y byrddau iechyd. Dywed y Gweinidog fod y sefyllfaoedd hyn wedi codi oherwydd nifer y bobl oedrannus yn ein cymdeithas, ond nid yw hynny'n ddemograffig newydd. Nid yw'r sefyllfa honno, o ran poblogaeth hŷn na'r cyfartaledd a'r ffaith bod nifer y bobl hŷn yn cynyddu'n gynt yng Nghymru nag yn unrhyw le arall, yn newydd, ond mae'r pwysau yr ydym wedi'u gweld mewn gofal heb ei drefnu dros y flwyddyn ddiwethaf yn ddigynsail, yn fy marn i. Pa ddadansoddiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ynglŷn â pham, yn sydyn, y mae cynnydd penodol yn y galw am wasanaethau? Ni chawsom boblogaeth hŷn dros nos. Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi bodoli yn y GIG yng Nghymru ers nifer o flynyddoedd. Hoffwn ddeall dealltwriaeth y Llywodraeth ei hun o'r rheswm pam mae'r pwysau hynny yn sydyn mor fawr.

There is a great deal of emphasis in your statement, Minister, on delayed transfers of care. You say that you and your ministerial colleagues will meet with local government. Could you tell us when that meeting will be and what you expect the outcomes from that meeting to be? I assume that you will want to hear from local government about the barriers that are preventing it from placing people out of hospital. I can make a pretty good stab at what they are going to tell you. Firstly, resources. Authorities are operating a one-in, one-out policy for people whom they are having to fund themselves. Secondly, there are issues around the capacity within social care to provide those services. If I am right and those are the issues that they raise with you, what plans does the Government have to address those concerns?

Mae llawer o bwyslais yn eich datganiad, Weinidog, ar oedi wrth drosglwyddo gofal. Rydych yn dweud y byddwch chi a'ch cyd-Weinidogion yn cwrdd â llywodraeth leol. A allwch ddweud wrthym pryd y cynhelir y cyfarfod hwnnw a beth yr ydych yn disgwyl i ganlyniadau'r cyfarfod hwnnw fod? Tybiaf y byddwch am glywed oddi wrth lywodraeth leol am y rhwystrau sy'n ei hatal rhag lleoli pobl allan o'r ysbyty. Gallaf ddyfalu'n eithaf da yr hyn y byddant yn ei ddweud wrthych. Yn gyntaf, adnoddau. Mae awdurdodau'n gweithredu polisi un i mewn, un allan ar gyfer pobl y maent yn gorfod eu hariannu eu hunain. Yn ail, mae materion yn ymwneud â chapasiti gofal cymdeithasol i ddarparu'r gwasanaethau hynny. Os wyf yn iawn mai dyna'r materion y maent yn eu codi gyda chi, pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r pryderon hynny?

You then talk about guidance that will ensure that people cannot delay their transfer by reason of choice. How many people are currently occupying Welsh NHS beds as a result of exercising personal choice? What proportion of delayed transfers of care are we looking at with regard to that particular category of patient? Given that statutory guidance is already in existence, why, in your analysis, is that guidance not being followed? You do not say that you are going to change the guidance—it is already there—but you are going to make people follow it. Why have local authorities not previously followed the statutory guidance published by the Welsh Government, and what makes you think that they will do so now?

Soniwch wedyn am ganllawiau a fydd yn sicrhau na all pobl ohirio cael eu trosglwyddo oherwydd dewis. Faint o bobl sydd ar hyn o bryd yn defnyddio gwelyau'r GIG yng Nghymru am eu bod yn arfer dewis personol? Pa gyfran o oedi wrth drosglwyddo gofal sydd gennym mewn golwg o ran y categori penodol hwnnw o gleifion? O ystyried bod canllawiau statudol eisoes yn bodoli, pam nad yw'r canllawiau hynny, yn ôl eich dadansoddiad chi, yn cael eu dilyn? Nid ydych yn dweud eich bod yn mynd i newid y canllawiau—maent eisoes yno—ond rydych yn mynd i wneud i bobl eu dilyn. Pam nad yw'r awdurdodau lleol eisoes wedi bod yn dilyn y canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a beth sy'n gwneud ichi feddwl y byddant yn gwneud hynny'n awr?

The other question, with regard to issues of choice, is: what analysis have you done of the capacity in individual parts of Wales? Sometimes the choice is not between particular homes in a locality; it is about being able to secure a place in a home in your locality. In rural areas, this might result in elderly patients being transferred to residential care very many miles from their families and communities, which can only be bad in terms of their ability to recuperate and to get back on their feet. What safeguards will you put in place for constituents such as mine, for instance, who could find themselves placed 30 or 40 miles away from their home communities if that is the only place where there is a residential care bed available for them?

Y cwestiwn arall, o safbwynt dewis, yw: pa ddadansoddiad ydych chi wedi'i wneud o'r capasiti mewn gwahanol rannau o Gymru? Weithiau, nid yw'n ddewis rhwng cartrefi penodol mewn ardal benodol; mae'n ymwneud â gallu sicrhau lle mewn cartref yn eich ardal. Mewn ardaloedd gwledig, gallai hyn beri bod cleifion oedrannus yn cael eu trosglwyddo i ofal preswyl filltiroedd lawer oddi wrth eu teuluoedd a'u cymunedau, sy'n ddrwg o beth o ran eu gallu i wella ac i gryfhau. Pa fesurau diogelu fyddwch chi'n eu rhoi ar waith i etholwyr megis fy rhai i, er enghraifft, a allai gael eu lleoli 30 neu 40 milltir i ffwrdd o'u cymunedau cartref os dim ond yno y mae gwely gofal preswyl ar gael iddynt?

Your third element in attacking delayed transfers of care is a change of policy regarding arguments over funding responsibility. Again, I would ask you how many patients are currently in a Welsh NHS bed and have not been moved because of delays due to arguments over who funds care. How will your change of policy be achieved? When those patients are taken out of NHS beds and put into residential care, while the arguments as to who pays continue, who will pay the fees?

Eich trydedd elfen ar gyfer mynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal yw newid polisi o ran dadleuon dros gyfrifoldeb ariannu. Unwaith eto, gofynnaf ichi faint o gleifion sydd ar hyn o bryd mewn gwelyau GIG yng Nghymru ac nad ydynt wedi cael eu symud am fod oedi oherwydd dadleuon dros bwy sy'n ariannu'r gofal. Sut y bydd eich newid polisi yn cael ei gyflawni? Pan fydd y cleifion hynny'n cael eu symud allan o welyau'r GIG a'u rhoi mewn gofal preswyl, tra bo'r dadleuon ynglŷn â phwy sy'n talu'n parhau, pwy fydd yn talu'r ffioedd?

I welcome the news on the clinical lead. Could you tell the Assembly whether that is a full-time role within the Welsh Government? One of the least edifying sights that I have ever seen in the Health and Social Services Committee is the clinical lead for a particular specialty being hung out to dry by officials for not driving through change in that particular specialty, even though that person was a consultant with a full list of patients and a full list of clinics to look after. So, will this be a full-time role within Government?

Rwyf yn croesawu'r newyddion am yr arweinydd clinigol. A allwch ddweud wrth y Cynulliad a yw honno'n rôl lawn amser o fewn Llywodraeth Cymru? Un o'r golygfeydd lleiaf buddiol a welais erioed yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol oedd arweinydd clinigol ar gyfer arbenigedd penodol yn cael ei gystwyo gan swyddogion am beidio â bwrw ymlaen â newid yn yr arbenigedd penodol hwnnw, er bod yr arweinydd clinigol hwnnw'n ymgynghorydd â rhestr lawn o gleifion a rhestr lawn o glinigau i ofalu amdanynt. Felly, a fydd hon yn rôl lawn amser o fewn y Llywodraeth?

16:37

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. You have had six minutes now; you are not going to help me if you run to his length of questioning. [Laughter.]

Trefn. Rydych wedi cael chwe munud erbyn hyn; nid ydych yn mynd i fy helpu os ydych yn cymryd cymaint o amser â hyn i ofyn cwestiynau. [Chwerthin.]

16:37

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finally, could the Minister say how closures of minor injury departments, closures of community hospitals and dropping the number of acute beds in district general hospitals will help the situation, because that is exactly what health boards are planning to do?

Yn olaf, a wnaiff y Gweinidog ddweud sut y bydd cau adrannau mân anafiadau, cau ysbytai cymuned a lleihau nifer y gwelyau acíwt mewn ysbytai cyffredinol dosbarth yn helpu'r sefyllfa, oherwydd dyna'n union beth mae'r byrddau iechyd yn bwriadu ei wneud?

16:37 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for those many questions. I will do my best to address as many of them as I can as quickly as I can.

Diolch am y nifer fawr o gwestiynau hynny. Byddaf yn gwneud fy ngorau i fynd i'r afael â chynifer ohonynt ag y gallaf mor gyflym ag y gallaf.

I will see what I can do to make sure that the contents of the immediate plans that have already been received by the Welsh Government are shared with Assembly Members. They outline a whole series of actions in all health boards to be taken immediately and I understand the need for people to be able to see what those are.

Gwnaf fy ngorau i sicrhau bod cynnwys y cynlluniau uniongyrchol sydd eisoes wedi dod i law Llywodraeth Cymru yn cael eu rhannu gydag Aelodau'r Cynulliad. Maent yn amlinellu cyfres o gamau ym mhob bwrdd iechyd i'w cymryd ar unwaith ac rwyf yn deall yr angen i bobl allu gweld beth yw'r camau hynny.

In relation to ambulance times and what I would think of as success, as you know, there is a debate to be held on 7 May in relation to the McClelland review, which says some interesting things in relation to how we measure success. I will want to give a longer consideration of them rather than simply responding off the cuff to you today. On that, we will have a new engagement from a range of organisations—the British Medical Association, the Royal College of Nursing and so on. There has been nothing to prevent their engagement to date, but I have asked them to reinvigorate it and to put greater energy and urgency into their participation in it. They have agreed to do that and I am grateful to them for that indication.

O ran amseroedd ambiwlans a'r hyn y byddwn yn ei ystyried yn llwyddiant, fel y gwyddoch, mae dadl i'w chynnal ar 7 Mai ar adolygiad McClelland, sy'n dweud rhai pethau diddorol o ran y ffordd y byddwn yn mesur llwyddiant. Byddaf am roi ystyriaeth fanylach i'r pethau hynny yn hytrach nag ymateb yn fyrfyfyr ichi heddiw. Ar hynny, bydd ystod o sefydliadau—Cymdeithas Feddygol Prydain, Coleg Brenhinol y Nyrsys ac yn y blaen—yn ymgysylltu â hyn. Ni fu dim i'w hatal rhag ymgysylltu hyd yma, ond rwyf wedi gofyn iddynt ymgysylltu o'r newydd a chymryd rhan yn hyn â mwy o egni a brys. Maent wedi cytuno i wneud hynny, ac rwyf yn ddiolchgar iddynt am hynny.

What do we know about delayed transfers of care figures? One thing that we know is that four local authorities out of 22 account for 44% of all delayed transfers of care, and more than 50% of all days that people are kept in hospital when they do not need to be. This suggests to me that there is some room for improving the performance of some local authorities in comparison with others.

Beth ydym ni'n ei wybod am y ffigurau oedi wrth drosglwyddo gofal? Un peth y gwyddom yw bod pedwar awdurdod lleol allan o 22 yn cyfrif am 44% o'r holl achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, a mwy na 50% o'r holl ddiwrnodau y mae pobl yn cael eu cadw yn yr ysbyty pan nad oes angen iddynt fod yno. Mae hyn yn awgrymu i mi fod rhywfaint o le i wella perfformiad rhai awdurdodau lleol o'u cymharu ag eraill.

When local authorities come in to talk to me, the Deputy Minister and the Minister for local government, I will not be asking them to tell me about their problems; I will be asking them to tell me the solutions that they intend to contribute to make a difference in this area. That is what I mean this afternoon by a new sense of urgency in putting this problem right. I do not want them to come and tell me how difficult life is. I want to hear from them what incremental steps they are able to contribute to make sure that existing hospital beds, which ought to be used for people waiting for treatment, are made available for them. None of the three issues that I mentioned in relation to social services matters will, by themselves, solve the problem, but, incrementally, one on top of the other, they will.

Pan fydd awdurdodau lleol yn dod i mewn i siarad â mi, y Dirprwy Weinidog a'r Gweinidog llywodraeth leol, ni fyddaf yn gofyn iddynt ddweud wrthyf am eu problemau; byddaf yn gofyn iddynt ddweud wrthyf pa atebion y maent yn bwriadu eu cyfrannu i wneud gwahaniaeth yn y maes hwn. Dyna'r hyn yr wyf yn ei olygu y prynhawn yma pan soniaf am ymdeimlad newydd o frys i unioni'r broblem hon. Nid wyf am iddynt ddod a dweud wrthyf pa mor anodd yw bywyd. Rwyf am glywed ganddynt pa gamau cynyddol y gallant eu cyfrannu i wneud yn siŵr fod gwelyau mewn ysbytai ar hyn o bryd, a ddylai gael eu defnyddio ar gyfer pobl sy'n aros am driniaeth, ar gael iddynt. Ni fydd yr un o'r tri mater y soniais amdanynt yng nghyswllt y gwasanaethau cymdeithasol, ar eu pen eu hunain, yn datrys y broblem, ond, yn raddol, un ar ôl y llall, fe wnânt hynny.

On the number of acute hospital beds occupied today by patients waiting for discharge, there are 275 altogether in the acute hospital sector. Fifty-seven are occupied by people who are exercising choice, and just under 20 are occupied by people waiting for financial disputes to be resolved. There is extant guidance. I do not want the guidance be changed, I am simply asking for the guidance to be implemented uniformly, consistently, and with a sense of purpose, across Wales. That will not result in all those people quickly moving from where they are now to where they might otherwise be, but it will begin to reduce that number and, cumulatively, those things will make a difference.

O ran nifer y gwelyau ysbyty acíwt a ddefnyddir heddiw gan gleifion yn aros i gael eu rhyddhau, mae cyfanswm o 275 yn y sector ysbytai acíwt. Mae pum deg saith yn cael eu defnyddio gan bobl sy'n arfer dewis, ac ychydig o dan 20 yn cael eu defnyddio gan bobl sy'n aros i anghydfod ariannol gael ei ddatrys. Mae canllawiau ar gael. Nid wyf am newid y canllawiau. Y cwbl yr wyf yn ei ofyn yw i'r canllawiau gael eu rhoi ar waith yn yr un modd ym mhobman, yn gyson, a chydag ymdeimlad o bwrpas, ar draws Cymru. Ni fydd hynny'n golygu bod yr holl bobl hynny'n symud yn gyflym o ble maent yn awr i ble y gallent fod fel arall, ond bydd yn dechrau lleihau'r nifer hwnnw, a gyda'i gilydd, bydd y pethau hyn yn gwneud gwahaniaeth.

Finally, as to the clinical lead, for me, the really important thing is to get the right person, rather than being too worried about exactly how much of their time they will spend on this. Part of their credibility in the service in driving this agenda is likely to come from their continuing clinical work. They will be the person doing the job as well as taking a national lead on it, and I will discuss with whoever is appointed the exact division of their time between those two responsibilities.

Yn olaf, o ran yr arweinydd clinigol, i mi, y peth gwirioneddol bwysig yw cael y person iawn, yn hytrach na phoeni gormod am yn union faint o amser y bydd yn ei dreulio ar hyn. Mae'n debyg y bydd ei hygrededd yn y gwasanaeth wrth yrru'r agenda hon yn ei blaen yn deillio'n rhannol o'i waith clinigol a fydd yn parhau. Bydd y person hwn yn gwneud y gwaith ac yn rhoi arweiniad cenedlaethol arno, a byddaf yn trafod â'r sawl a benodir yn union sut y bydd yn rhannu ei amser rhwng y ddau gyfrifoldeb.

16:41

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for the statement, Minister, although I believe, as do my colleagues, that this is something that you as a Government should already be doing in the health service. It is timely, however, because I was at a public meeting last night about plans to close a hospital in my region, in Gellinudd. One thing that struck me was that people are taking it as a given now that there will be long waiting times and lines of ambulances at Morriston A&E. It is reported in the local paper and people send me pictures of those ambulances. The chief executive of ABMU even said last night, 'Please do not underestimate the size of this crisis across Wales. It is a major, major issue.'

Diolch ichi am y datganiad, Weinidog, er fy mod yn credu, fel y mae fy nghyd-Aelodau, fod hyn yn rhywbeth y dylech chi fel Llywodraeth eisoes fod yn ei wneud yn y gwasanaeth iechyd. Mae'n amserol, fodd bynnag, oherwydd roeddwn mewn cyfarfod cyhoeddus neithiwr ynghylch cynlluniau i gau ysbyty yn fy rhanbarth i, yng Ngelli-nudd. Un peth a'm trawodd oedd bod pobl bellach yn cymryd yn ganiataol y bydd amseroedd aros hir a rhesi o ambiwlansys yn adran damweiniau ac achosion brys Treforys. Mae'r papur lleol yn cyhoeddi straeon am hyn ac mae pobl yn anfon lluniau o'r ambiwlansys hynny ataf. Dywedodd prif weithredwr PABM hyd yn oed neithiwr, 'Peidiwch â diystyru maint yr argyfwng hwn ar draws Cymru. Mae'n broblem fawr iawn.'

Do you agree that the message about using A&E as a last resort is failing to reach people, as we see these problems escalating? Who in their right mind would want to choose to go to an A&E if they knew that there are viable alternatives that they can turn to? Minister, do you agree that we need better education still in order for people to understand where they should go? Perhaps we could look at ideas of extending the role of GPs so that they could go to visit elderly people to show them that they would not need to ring for an ambulance, because, at the moment, according to the people to whom I have spoken, that is a way of them making a cry for help.

A ydych yn cytuno bod y neges mai dim ond fel dewis olaf y dylid defnyddio adrannau damweiniau ac achosion brys yn methu â chyrraedd pobl, wrth inni weld y problemau hyn yn gwaethygu? Pwy yn ei iawn bwyll fyddai eisiau dewis mynd i adran damweiniau ac achosion brys pe byddent yn gwybod bod dewisiadau eraill posibl y gallent droi atynt? Weinidog, a ydych yn cytuno bod angen addysgu pobl yn well eto er mwyn iddynt ddeall i ble y dylent fynd? Efallai y gallem edrych ar syniadau ynghylch ehangu rôl meddygon teulu lle byddent yn mynd i ymweld â phobl oedrannus i ddangos iddynt nad oes angen iddynt ffonio am ambiwlans, oherwydd, ar hyn o bryd, yn ôl y bobl yr wyf wedi siarad â hwy, mae hynny'n ffordd o alw am help.

I am glad that you do not think that blaming older people is the answer, because, again from the meeting that I went to last night, we see the huge differences in the cost of helping those under the age of 65 compared to the cost of helping the most frail in our society, with older people living longer and longer. It is important that we reiterate that point.

Rwyf yn falch nad ydych yn credu mai beio pobl hŷn yw'r ateb, oherwydd, unwaith eto o'r cyfarfod yr euthum iddo neithiwr, rydym yn gweld gwahaniaethau mawr yng nghost helpu'r rhai dan 65 oed o gymharu â chost helpu'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, gyda phobl hŷn yn byw'n hwy ac yn hwy. Mae'n bwysig ein bod yn ailadrodd y pwynt hwnnw.

Your statement talks of appropriate interim accommodation. I would like more details as to what that means, because if convalescent hospitals, such as Gellinudd, and Hill House Hospital previously, close, we must know where these people will go. At the moment, those beds are covering the fact that they cannot be anywhere else. They cannot be at home, because they are too frail or do not have hoists in their houses, but they cannot be in hospital either, because there simply is not the space. Therefore, I take the spirit of your statement on board, but we must have practical answers for the communities in which we live and work.

Mae eich datganiad yn sôn am lety dros dro priodol. Hoffwn gael rhagor o fanylion ynghylch beth mae hynny'n ei olygu, oherwydd os yw ysbytai ymadfer, megis Gelli-nudd, ac Ysbyty Hill House gynt, yn cau, rhaid inni gael gwybod i ble y bydd y bobl hyn yn mynd. Ar hyn o bryd, mae'r gwelyau hynny'n cuddio'r ffaith na allant fod yn unman arall. Ni allant fod gartref, oherwydd eu bod yn rhy fregus neu nad oes ganddynt declynnau codi yn eu tai, ond ni allant fod yn yr ysbyty ychwaith, oherwydd nad oes lle yno. Felly, rwyf yn derbyn ysbryd eich datganiad, ond rhaid inni gael atebion ymarferol ar gyfer y cymunedau lle rydym yn byw ac yn gweithio.

Your proposal to take a strategic lead in resolving issues between LHBs and social services is to be welcomed, but again we return to the issue of available accommodation and what processes will be put in place between local authorities and the health service. I heard a Labour councillor last night undermine the ABMU at the public meeting, saying that it had not made any efforts to connect with the council with regard to social services in the area. If we are hearing Labour councillors saying that now, what does that say about what the future holds? You must be telling local councils to work together, and you must be telling the local health services, therefore, that they must have co-ordinated plans to deal with this particular issue.

Mae eich bwriad i gymryd arweiniad strategol wrth ddatrys materion rhwng y byrddau iechyd lleol a'r gwasanaethau cymdeithasol i'w groesawu, ond unwaith eto dychwelwn at fater y llety sydd ar gael a pha brosesau fydd yn cael eu rhoi ar waith rhwng awdurdodau lleol a'r gwasanaeth iechyd. Clywais gynghorydd Llafur neithiwr yn tanseilio PABM yn y cyfarfod cyhoeddus, gan ddweud nad oedd wedi gwneud dim ymdrech i gysylltu â'r cyngor o ran gwasanaethau cymdeithasol yn yr ardal. Os ydym yn clywed cynghorwyr Llafur yn dweud hyn yn awr, beth mae hynny'n ei ddweud am yr hyn a fydd yn digwydd yn y dyfodol? Rhaid ichi ddweud wrth gynghorau lleol am weithio gyda'i gilydd, a rhaid ichi ddweud wrth y gwasanaethau iechyd lleol, felly, bod yn rhaid iddynt wrth gynlluniau cydlynol i ymdrin â'r mater penodol hwn.

Finally, I want to ask about the details on where the patients come from. Can you tell us whether they come from their own homes or from residential settings? It is important for us to understand the data mix and whether there are any trends as to whether some care homes are ringing accident and emergency departments as a matter of policy whereas others would not. Therefore, that might then be making the spike in the data that you are seeing. Clearly, I thank you for the statement because we need more progress. Much like everyone in the Chamber, I think, I do not want to see another group of people advising the Minister and nothing coming of that. We must have answers to these more serious questions because this is something that people are very animated about in our communities.

Yn olaf, rwyf am ofyn ichi am fanylion ynghylch o ble y daw'r cleifion. A allwch chi ddweud wrthym a ydynt yn dod o'u cartrefi eu hunain neu o leoliadau preswyl? Mae'n bwysig inni ddeall cymysgedd y data ac a oes unrhyw dueddiadau ynghylch a yw rhai cartrefi gofal yn ffonio adrannau damweiniau ac achosion brys fel mater o bolisi, lle na fyddai eraill yn gwneud hynny. Felly, gallai hynny wedyn fod yn achosi'r cynnydd sydyn yn y data yr ydych yn ei weld. Yn amlwg, rwyf yn diolch ichi am y datganiad oherwydd mae angen i bethau symud yn eu blaenau. Fel pawb yn y Siambr, rwyf yn credu, nid wyf innau am weld grŵp arall o bobl yn rhoi cyngor i'r Gweinidog a dim byd yn dod o hynny. Rhaid inni gael atebion i'r cwestiynau mwy difrifol hyn oherwydd mae hyn yn rhywbeth y mae pobl wedi cynhyrfu'n fawr amdano yn ein cymunedau.

16:45 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Bethan Jenkins for those three important questions. First, I agree that we have not yet succeeded in communicating simple, clear messages to people so that they know the best place for them to get the help that they need outside normal planned working hours. Too often the default position is that people go to an accident and emergency department because they think that at least someone will be there. We have to do better. We need to have a set of simple and clear messages that allow people to make better decisions for them so that they get the help that they need more quickly, more easily and do not put pressures into parts of the system when they turn up to the wrong place and therefore create difficulties for others.

Diolch i Bethan Jenkins am y tri chwestiwn pwysig hynny. Yn gyntaf, cytunaf nad ydym wedi llwyddo eto i gyfleu negeseuon syml, clir i bobl er mwyn iddynt wybod ble yw'r lle gorau iddynt gael y cymorth sydd ei angen arnynt y tu allan i oriau gwaith arferol wedi'u cynllunio. Yn rhy aml, y sefyllfa ddiofyn yw bod pobl yn mynd i adran damweiniau ac achosion brys am eu bod yn credu o leiaf y bydd rhywun yno. Mae'n rhaid inni wneud yn well. Mae angen inni sicrhau cyfres o negeseuon syml a chlir sy'n galluogi pobl i wneud penderfyniadau gwell ar eu cyfer er mwyn iddynt gael y cymorth sydd ei angen arnynt yn gynt ac yn haws ac fel nad ydynt yn rhoi pwysau ar rannau o'r system pan fyddant yn mynd i'r lle anghywir ac felly'n creu anawsterau i bobl eraill.

You raised a series of important issues in the middle of what you said about simple steps that could be taken to help older people to remain in their own homes or to go elsewhere. We must try to get the message across that there is no one thing that we are able to do in this area that will make the major difference. The trouble is that, sometimes, because people think that they cannot solve everything, they end up doing nothing. That is not an acceptable way for things to continue. Everyone can do a little bit—in parts of social services and in parts of the health service—which will incrementally make a big difference overall. A simple thing, as you mentioned, like making sure that a hoist or some other minor adaptations are carried out in someone's home could mean that they are able to return there quickly when they are fit enough to do so. When every part of the system is making its own small albeit significant contribution, and when you add up all of those things together, the system begins to flow again and unscheduled care is able to do the job that it is there to do.

Codasoch nifer o faterion pwysig yng nghanol yr hyn a ddywedasoch am y camau syml y gellid eu cymryd i helpu pobl hŷn i aros yn eu cartrefi eu hunain neu i fynd i rywle arall. Mae'n rhaid inni geisio cyfleu'r neges nad oes un peth penodol y gallwn ei wneud yn y maes hwn a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mawr. Y drafferth yw, weithiau, oherwydd bod pobl yn credu na allant ddatrys popeth, nad ydynt yn y pen draw yn gwneud dim byd. Nid yw hynny'n ffordd dderbyniol i bethau barhau. Gall pawb wneud ychydig—mewn rhannau o'r gwasanaethau cymdeithasol ac mewn rhannau o'r gwasanaeth iechyd—a fydd, fesul dipyn, yn gwneud gwahaniaeth mawr yn gyffredinol. Gallai rhywbeth syml, fel y soniasoch, megis sicrhau bod teclyn codi yng nghartref rhywun, neu wneud mân addasiadau, olygu eu bod yn gallu dychwelyd yno'n gyflym pan fyddant yn ddigon iach i wneud hynny. Pan fydd pob rhan o'r system yn gwneud ei chyfraniad bach ond arwyddocaol ei hun, a phan fyddwch yn rhoi'r holl bethau hynny at ei gilydd, mae'r system yn dechrau llifo eto a gall gofal heb ei drefnu wneud y gwaith y bwriedir iddo'i wneud.

Finally, you raised an interesting point about where people who are old and frail come from when they turn up at accident and emergency departments. I do not pretend that we know all of the answers to that question yet. In response to the point that Kirsty Williams raised about people having been there all along, they have actually been there all along, but there are far greater numbers than there used to be living at home and in the community. We know that the number of people in residential care homes has decreased in Wales each year for the last 10 years, which means that some very frail people are living at home on their own with major packages of care around them, and when things start to go wrong there is no-one immediately around them to respond. They end up being taken to accident and emergency departments. Half of those people who come to an accident and emergency department in an ambulance are returned home within 24 hours. So, you wonder how many of them actually needed to be there. We also know—although not in sufficient detail yet—that there is a large variation between nursing homes, for example, with the same sort of population and the same sort of fee levels. Some of them send people into A&E departments in very large numbers and others continue to look after people for longer in the place where they live and where they are known, and so on. Part of what we need to do is to make sure that we have a more consistent pattern there so that, again, it is a matter of older people getting the care that is right for them.

Yn olaf, codwyd pwynt diddorol gennych ynghylch o ble y mae pobl sy'n hen ac yn fregus yn dod pan fyddant yn cyrraedd adrannau damweiniau ac achosion brys. Nid wyf yn honni ein bod yn gwybod yr holl atebion i'r cwestiwn hwnnw eto. Mewn ymateb i'r pwynt a godwyd gan Kirsty Williams fod pobl wedi bod yno drwy gydol yr amser, mae'n wir eu bod wedi bod yno drwy gydol yr amser, ond mae llawer iawn mwy o'r bobl hyn nag o'r blaen yn byw gartref ac yn y gymuned. Gwyddom fod nifer y bobl mewn cartrefi gofal preswyl wedi gostwng yng Nghymru bob blwyddyn dros y 10 mlynedd diwethaf, sy'n golygu bod rhai pobl fregus iawn yn byw gartref ar eu pen eu hunain gyda phecynnau mawr o ofal o'u cwmpas, a phan fydd rhywbeth yn dechrau mynd o'i le nid oes neb o'u cwmpas i ymateb. Maent yn y pen draw yn cael eu cymryd i adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae hanner y bobl hynny sy'n dod i adran damweiniau ac achosion brys mewn ambiwlans yn cael eu dychwelyd adref o fewn 24 awr. Felly, rydych yn meddwl tybed sawl un ohonynt oedd angen bod yno mewn gwirionedd. Rydym hefyd yn gwybod—er nad yn ddigon manwl eto—fod cartrefi nyrsio a chanddynt, er enghraifft, yr un math o boblogaeth a'r un math o lefelau ffioedd, yn amrywio'n fawr. Mae rhai ohonynt yn anfon llawer iawn o bobl i adrannau damweiniau ac achosion brys ac eraill yn parhau i ofalu am bobl yn hwy yn y man lle maent yn byw a lle mae pobl yn eu hadnabod, ac yn y blaen. Rhan o'r hyn y mae angen inni ei wneud yw gwneud yn siŵr bod gennym batrwm mwy cyson yno er mwyn ei gwneud yn fater, unwaith eto, o sicrhau bod pobl hŷn yn cael y gofal sy'n iawn iddynt.

16:49

## Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Many of my constituents would consider the A&E department at Morriston to be their first port of call if they have an accident or they are unwell. What can be done to ensure that they best make the best choice, which may not necessarily be the Morriston A&E department? Historically, excepting an accident, GPs were the first point of contact for most people when they had a medical problem. How can we return to that? Also, I warmly welcome the speeding up of the discharge process. However, how do you achieve this if someone does not want to be discharged, without having to go to court in order to get them to leave?

I lawer o'm hetholwyr, i'r adran damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Treforys y byddent yn mynd yn y lle cyntaf pe byddent yn cael damwain neu pe byddent yn sâl. Beth y gellir ei wneud i sicrhau eu bod yn gwneud y dewis gorau —nid adran damweiniau ac achosion brys Treforys o reidrwydd? Yn hanesyddol, ac eithrio pan fu damwain, at eu meddyg teulu y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn troi gyntaf pan fyddai ganddynt broblem feddygol. Sut allwn ni fynd yn ôl at hynny? Hefyd, rwyf yn croesawu'n gynnes gyflymu'r broses ryddhau. Fodd bynnag, sut ydych chi'n gwneud hynny os nad yw rhywun am gael ei ryddhau, heb orfod mynd i'r llys er mwyn eu gorfodi i adael?

16:50 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Morriston A&E department is indeed a long-standing default position for many people, including relatives of mine, in the Swansea area. There are a number of things already in place, where we have better information for people, explaining to them what their choices are, how long they will have to wait if they go to particular places and what services are available elsewhere. This clearly is not working to the extent that we need it to work. The 111 service, when we are able to bring it online, has the potential to play a major role in making sure that people receive the advice that they need about the best place for them to receive the care that they need when they need care in these circumstances. Some of the experiments across our border look like they are successful in doing that; other models are less successful. We want to learn from that and do it the right way. Can we reinstate the former role of GPs? Probably not. The world has moved on from those sorts of days. We have to find new ways in which we can help people to make the right decisions in these circumstances.

Mae adran damweiniau ac achosion brys Treforys yn wir yn rhywle y mae pobl ardal Abertawe, gan gynnwys perthnasau i mi, yn mynd yn ddiofyn. Mae nifer o bethau eisoes ar waith, lle mae gennym well gwybodaeth i bobl, yn egluro iddynt beth yw eu dewisiadau, pa mor hir y bydd yn rhaid iddynt aros os byddant yn mynd i fannau penodol a pha wasanaethau sydd ar gael mewn mannau eraill. Mae'n amlwg nad yw hyn yn gweithio i'r graddau y mae angen iddo weithio. Gallai'r gwasanaeth 111, pan fyddwn yn gallu dod ag ef ar-lein, wneud cyfraniad pwysig o ran sicrhau bod pobl yn derbyn y cyngor sydd ei angen arnynt am y lle gorau iddynt dderbyn y gofal y mae ei angen arnynt pan fydd angen gofal arnynt yn yr amgylchiadau hyn. Mae rhai o'r arbrofion dros y ffin yn edrych fel petaent yn llwyddo i wneud hynny; mae modelau eraill yn llai llwyddiannus. Rydym yn awyddus i ddysgu o hynny a gwneud hyn yn y ffordd iawn. A allwn adfer rôl y meddygon teulu gynt? Mae'n debyg na allwn. Mae'r byd wedi symud ymlaen o'r dyddiau hynny. Mae'n rhaid inni ddod o hyd i ffyrdd newydd o helpu pobl i wneud y penderfyniadau iawn yn yr amgylchiadau hyn.

16:51 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, building on your answers to Mike Hedges and Bethan Jenkins, it has been reported that one in 10 households attend A&E departments once a month in some parts of Wales. Analysis suggests that this is because it is more convenient for them than visiting their GPs. Therefore, in some cases, people are obviously presenting at A&E departments inappropriately. Have you considered undertaking a review of the Choose Well campaign, and will you explore what more can be done to engage people with it, so that people do make the right choice for their particular health needs? Minister, you will recall the Health and Social Care Committee's inquiry into the role of community pharmacies in Wales. I still believe that community pharmacies are an under-used resource that could play a greater role in the delivery of unscheduled care. Will you outline your vision of how community pharmacies can help to meet unscheduled health needs? Finally, it is a key principle that unscheduled care services should be supported by integrated IT systems that facilitate information sharing and act as an aid to diagnosis. To what extent are you satisfied that this is currently being delivered?

Weinidog, yn sgil eich atebion i Mike Hedges a Bethan Jenkins, adroddir bod un o bob 10 o aelwydydd yn mynychu adran damweiniau ac achosion brys unwaith y mis mewn rhai rhannau o Gymru. Mae dadansoddiadau'n awgrymu bod hyn oherwydd ei bod yn fwy cyfleus iddynt nag ymweld â'u meddygon teulu. Felly, mewn rhai achosion, mae pobl yn amlwg yn mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys pan nad yw hynny'n briodol. A ydych wedi ystyried cynnal adolygiad o'r ymgyrch Dewis Doeth, ac a wnewch chi edrych ar yr hyn y gellir ei wneud i ddwyn sylw pobl at yr ymgyrch, fel bod pobl yn gwneud y dewis iawn ar gyfer eu hanghenion iechyd penodol? Weinidog, byddwch yn cofio ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i rôl fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru. Rwyf yn dal i gredu nad yw fferyllfeydd cymunedol yn cael eu defnyddio'n ddigonol, ac y gallent chwarae mwy o ran wrth ddarparu gofal heb ei drefnu. A wnewch chi amlinellu eich gweledigaeth o ran sut y gall fferyllfeydd cymunedol helpu i ddiwallu anghenion iechyd heb ei drefnu? Yn olaf, mae'n egwyddor allweddol y dylai systemau TG integredig ategu gwasanaethau gofal heb ei drefnu, ac y dylai'r systemau hynny hwyluso rhannu gwybodaeth a helpu i wneud diagnosis. I ba raddau ydych chi'n fodlon bod hyn yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd?

16:52 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Rebecca, for those questions. Over three-quarters of a million people go to A&E departments in Wales during a year, or at least there are three-quarters of a million visits to A&E departments. Some of those will involve people who will go more than once, I guess. Therefore, you are right: we have to persuade those people who do not need to make those journeys not to make them. The Choose Well campaign is part of that. I want to ensure that it is understood in the wider context of those other things that I have mentioned already this afternoon. IT systems are fundamental to getting all of this right. We know that, in Gwent, where out-of-hours GPs have access to proper records, they are able to make decisions about the right way of dealing with people, and in a way that a GP who is not able to access such records cannot do.

Diolch ichi, Rebecca, am y cwestiynau hynny. Mae dros dri chwarter miliwn o bobl yn mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru mewn blwyddyn, neu o leiaf mae tri chwarter miliwn o ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae'n siŵr gennyf fod rhai o'r rhain yn cynnwys pobl a fydd yn mynd fwy nag unwaith. Felly, rydych yn iawn: rhaid inni ddwyn perswâd ar y bobl hynny nad oes angen iddynt wneud y teithiau hynny i beidio â'u gwneud. Mae'r ymgyrch Dewis Doeth yn rhan o hynny. Rwyf am sicrhau ei bod yn cael ei deall yng nghyd-destun ehangach y pethau eraill yr wyf wedi'u crybwyll eisoes y prynhawn yma. Mae systemau TG yn hanfodol er mwyn gwneud hyn i gyd yn iawn. Yng Ngwent, lle gall meddygon teulu y tu allan i oriau arferol gael gafael ar gofnodion priodol, gwyddom y gallant wneud penderfyniadau am y ffordd iawn o ymdrin â phobl, a hynny mewn ffordd na all meddyg teulu nad yw'n gallu cael gafael ar gofnodion o'r fath ei wneud.

The contribution of community pharmacies could be crucial. We are about to have two experiments on a common ailments scheme in Wales, where GPs will be able to divert people who come for very common conditions, for which you do not need to see a GP at all, to their local pharmacy to have that service instead. I am very keen on these experiments. However, I will just issue a small warning: there is a long tradition in public services of providing things that are meant to be 'instead of' something else, and if you do not do it properly, they simply become 'as well as' that other thing. We have seen that in the health service too. I want the new community pharmacy experiments to clearly be 'instead of' visits to a GP, in order to free up GPs to do the things that only GPs can do. That will include looking after some frail individuals in the community, so that they do not need to go to hospital in the way that happens now.

Gallai cyfraniad fferyllfeydd cymunedol fod yn hollbwysig. Rydym ar fin cynnal dau arbrawf ar gynllun anhwylderau cyffredin yng Nghymru, lle bydd meddygon teulu yn gallu ailgyfeirio pobl sy'n dod ar gyfer cyflyrau cyffredin iawn, nad oes angen ichi weld meddyg teulu o gwbl amdanynt, i'w fferyllfa leol i gael y gwasanaeth yn lle hynny. Rwyf yn frwd iawn ynghylch yr arbrofion hyn. Fodd bynnag, rwyf am roi rhybudd bach: mae traddodiad hir yn y gwasanaethau cyhoeddus o ddarparu pethau y bwriedir iddynt fod 'yn lle' rhywbeth arall, ac os nad ydych yn ei wneud yn iawn, maent yn dod yn rhywbeth 'yn ogystal' â'r peth arall hwnnw. Rydym wedi gweld hynny yn y gwasanaeth iechyd hefyd. Rwyf am i arbrofion y fferyllfeydd cymunedol newydd fod yn amlwg 'yn lle' ymweld â meddyg teulu, er mwyn rhyddhau meddygon teulu i wneud y pethau na all neb ond meddygon teulu eu gwneud. Bydd hynny'n cynnwys gofalu am rai unigolion bregus yn y gymuned, fel nad oes angen iddynt fynd i'r ysbyty fel sy'n digwydd yn awr.

16:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

16:55

## Datganiad: Ymgysylltu a Datblygiad Ieuenctid

## Statement: Youth Engagement and Progression

Senedd.tv
Fideo Video

### Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

We identified increasing youth engagement and employment as a priority in our programme for government. Our aim is to help all young people to overcome the challenges they face, so that they all have the opportunity to achieve their full potential and make progress. We are making a difference to young people's lives in a range of areas that will impact on this issue. In primary schools, our reforms have seen an attainment increase of 8.4 percentage points at key stage 2 since the academic year 2006-07, and these gains carry on into secondary schools with a 6.7 percentage point increase at GCSE since 2006-07. The literacy and numeracy framework, introduced this year, will drive further improvements by raising expectations of the standards of literacy and numeracy that young people should achieve by specific ages. Across the country, behaviour and attendance are also improving, driven by Welsh Government action and the introduction of school banding.

Nodwyd yn ein rhaglen lywodraethu fod cynyddu ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc yn flaenoriaeth. Ein nod yw helpu pob person ifanc i oresgyn yr heriau y maent yn eu hwynebu, er mwyn i bob un ohonynt gael cyfle i gyflawni eu llawn botensial a symud yn eu blaen. Rydym yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc mewn ystod o feysydd a fydd yn effeithio ar y mater hwn. Mewn ysgolion cynradd, mae ein diwygiadau wedi esgor ar gynnydd mewn cyrhaeddiad o 8.4 pwynt canran yng nghyfnod allweddol 2 ers blwyddyn academaidd 2006–07, ac mae'r twf hwn yn parhau yn yr ysgolion uwchradd gyda chynnydd o 6.7 y cant ar lefel TGAU ers 2006–07. Bydd y fframwaith llythrennedd a rhifedd, a gyflwynwyd eleni, yn ysgogi gwelliannau pellach drwy godi disgwyliadau o ran y safonau llythrennedd a rhifedd y dylai pobl ifanc eu cyrraedd erbyn oedrannau penodol. Ledled y wlad, mae ymddygiad a phresenoldeb hefyd yn gwella, wedi'u hysgogi gan yr hyn y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud a chyflwyno bandio ysgolion.

There are still too many young people who disengage from mainstream education and training at the age of 16, 17 or 18, however. Pre-school, primary and secondary experiences, and the family and home environment, of course, have a significant impact on the behaviour and attainment of young people. Increased investment in early years, and support through Flying Start and Families First, is targeted to address these key issues through early intervention. In terms of re-engaging young people in mainstream education and training, however, I believe that we must also identify the needs of young people at a personal level. We need to broker and tailor support to meet their individual needs, and to ensure that the vast array of provision that exists for that very purpose is co-ordinated, and that it leads ultimately to developing the employability skills that will help them to secure a successful future.

Mae gormod o bobl ifanc sy'n ymddieithrio o addysg a hyfforddiant prif ffrwd pan fyddant yn 16, yn 17 neu'n 18 oed, fodd bynnag. Mae profiadau cyn-ysgol, cynradd ac uwchradd, a'r teulu a'r cartref, wrth gwrs, yn effeithio gryn dipyn ar ymddygiad a chyrhaeddiad pobl ifanc. Mae mwy o fuddsoddi yn y blynyddoedd cynnar, a chefnogaeth trwy Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, yn cael ei dargedu i fynd i'r afael â'r materion allweddol hyn drwy ymyrraeth gynnar. O ran dod â phobl ifanc yn ôl i mewn i addysg a hyfforddiant prif ffrwd, fodd bynnag, credaf fod yn rhaid inni hefyd gael gwybod beth yw anghenion pobl ifanc ar lefel bersonol. Mae'n rhaid inni frocera a theilwra cymorth i ddiwallu anghenion pob un ohonynt, a sicrhau bod yr amrywiaeth eang o ddarpariaeth sy'n bodoli at yr union ddiben hwnnw wedi'i gydlynu, a'i fod yn arwain yn y pen draw at ddatblygu'r sgiliau cyflogadwyedd a fydd yn eu helpu i sicrhau dyfodol llwyddiannus.

The organisations with responsibility for the engagement and progression of young people in Wales must be accountable for delivering education and training provision and any additional support that meets the individual needs of the young person. We have set out clearly what our requirements are for schools in an implementation plan published last year. Building on this approach, I will publish in September this year an implementation plan for youth engagement and progression, setting out clearly our requirements of the delivery chain in Wales at a local, regional and national level. This will require all stakeholders, including local authorities, to develop an effective plan for delivery, co-ordinated at a local level. These plans will be based around the six elements of a new national framework for engagement and progression: identifying young people most at risk of disengagement; better brokerage and co-ordination of the support they need; stronger tracking and effective transition of young people through the stages of education, training and employment; ensuring that provision meets the needs of young people; strengthening employability skills and opportunities for employment; and greater accountability for local authorities and other stakeholders.

Mae'n rhaid i'r sefydliadau sy'n gyfrifol am ymgysylltiad a datblygiad pobl ifanc yng Nghymru fod yn atebol am gyflwyno darpariaeth addysg a hyfforddiant ac unrhyw gymorth ychwanegol sy'n diwallu anghenion unigol y bobl ifanc hynny. Rydym wedi nodi'n glir beth yw ein gofynion ar gyfer ysgolion mewn cynllun cyflawni a gyhoeddwyd y llynedd. Ar sail yr ymagwedd hon, byddaf yn cyhoeddi ym mis Medi eleni gynllun cyflawni ar gyfer ymgysylltiad a datblygiad ieuenctid, yn nodi'n glir ein gofynion o ran y gadwyn gyflenwi yng Nghymru ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, ddatblygu cynllun effeithiol ar gyfer darparu, wedi'i gydlynu ar lefel leol. Bydd y cynlluniau hyn yn seiliedig ar chwe elfen y fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer ymgysylltu a datblygiad: nodi'r bobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o ymddieithrio; gwell brocera a chydlynu'r cymorth sydd ei angen; olrhain cryfach a phontio effeithiol i bobl ifanc trwy gyfnodau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth; sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc; cryfhau sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd ar gyfer cyflogaeth; a mwy o atebolrwydd i awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.

My ambition is for there to be a lead worker in every local authority with responsibility for providing a personal and immediate response to those young people identified as being at risk of disengagement, acting as a broker for them to ensure the delivery of the right level of support to help them make progress. I am not talking about creating a new organisation, or recruiting a new, large army of people to take on this role. It is about a better, more co-ordinated way of organisations working together to improve the support that already exists through local careers advisers, youth workers, learning coaches and third sector organisations. We will define the role, standards and outcomes required, and support local authorities to co-ordinate the delivery of this provision within their own areas.

Fy uchelgais yw gweld gweithiwr arweiniol ym mhob awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddarparu ymateb personol ac uniongyrchol i'r bobl ifanc hynny y nodwyd eu bod mewn perygl o ymddieithrio, yn gweithredu fel brocer iddynt i sicrhau y cânt y lefel iawn o gymorth i'w helpu i ddatblygu. Nid wyf yn sôn am greu sefydliad newydd, nac am recriwtio byddin newydd, fawr o bobl i ymgymryd â'r rôl hon. Mae'n ymwneud â ffordd well, fwy cydlynol o sicrhau bod sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd i wella'r cymorth sydd eisoes yn bodoli drwy gynghorwyr gyrfaoedd lleol, gweithwyr ieuenctid, hyfforddwyr dysgu a sefydliadau'r trydydd sector. Byddwn yn diffinio'r rôl, y safonau a'r canlyniadau sydd eu hangen, ac yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gydlynu cyflwyno'r ddarpariaeth hon o fewn eu hardaloedd eu hunain.

It is likely that many of the young people identified by local authorities as being at risk of disengagement will also be the ones to have attracted funding through the pupil deprivation grant. This grant is a key opportunity for schools to secure direct funding for key initiatives to address socioeconomic disadvantage. I am determined that poverty and inequality can, and will, be confronted head-on by our schools, working within a system-wide infrastructure of local authorities and other partners. The allocation of a broker role by local authorities will be an important part of the package of support put in place to help these young people.

Mae'n debygol y bydd llawer o'r bobl ifanc y nodwyd gan awdurdodau lleol eu bod mewn perygl o ymddieithrio hefyd wedi denu cyllid drwy'r grant amddifadedd disgyblion. Mae'r grant hwn yn gyfle allweddol i ysgolion i sicrhau cyllid uniongyrchol ar gyfer mentrau allweddol i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Rwyf yn benderfynol y gellir mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb yn ein hysgolion, ac y bydd hynny'n digwydd, drwy weithio o fewn seilwaith ledled y system o awdurdodau lleol a phartneriaid eraill. Bydd neilltuo rôl brocer gan awdurdodau lleol yn rhan bwysig o'r pecyn o gymorth i helpu'r bobl ifanc hyn.

I also want to deliver across Wales the guarantee of an education or training opportunity to all young people aged 16 to 18. I will look to local authorities to ensure that this opportunity is available to all young people when they complete year 11, and Careers Wales, through the common application process that it is currently piloting, will support the process. A number of local authorities are already delivering one or more elements of the engagement and progression framework, but very few have all six elements in place, and it is clear that adopting just one or two alone, or operating such a system in a small number of areas, will not work. It is through the implementation of the whole framework across all 22 local authorities that we will start to make a difference to young people's lives, opening up the opportunities that they deserve.

Rwyf hefyd am gyflwyno ledled Cymru sicrwydd o addysg neu gyfle hyfforddi i bob person ifanc 16 i 18 oed. Byddaf yn disgwyl i awdurdodau lleol sicrhau bod y cyfle hwn ar gael i bob person ifanc pan fyddant yn cwblhau blwyddyn 11, a bydd Gyrfa Cymru, drwy'r broses ymgeisio gyffredin y mae'n ei threialu ar hyn o bryd, yn cefnogi'r broses. Mae nifer o awdurdodau lleol eisoes yn darparu un neu fwy o elfennau'r fframwaith ymgysylltu a datblygu, ond ychydig iawn sydd wedi sefydlu pob un o'r chwe elfen, ac mae'n amlwg na fydd mabwysiadu un neu ddwy yn unig, neu weithredu system o'r fath mewn nifer fach o feysydd, yn gweithio. Drwy weithredu'r fframwaith cyfan ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol y byddwn yn dechrau gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc, a rhoi iddynt y cyfleoedd y maent yn eu haeddu.

17:00

## Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, thank you for your statement today. I welcome the update. I agree with you wholeheartedly that we need to fight for some of these young people who are disengaging from mainstream education. I have a couple of points on your statement. You rightly talk about the fact that the family and home environment is one of the causes of people disengaging. You talked about Flying Start and Families First. These are some of the issues, but I want to make the point that these are issues that affect not just the usual suspects. The fracturing of our social fabric is having a strong effect on a great many young people these days, and I think that we need to ensure that we reach out to a wide variety of pupils who, in the olden days, would have been said to be middle of the road and probably quite safe, because they seem to be less and less safe according to research.

Weinidog, diolch ichi am eich datganiad heddiw. Rwyf yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf hon. Cytunaf yn llwyr â chi fod angen inni ymladd dros rai o'r bobl ifanc hyn sy'n ymddieithrio o addysg brif ffrwd. Mae gennyf un neu ddau o bwyntiau ar eich datganiad. Rydych yn iawn drwy ddweud bod y teulu a'r cartref yn un o'r rhesymau pam mae pobl yn ymddieithrio. Soniasoch am Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf. Dyma rai o'r materion dan sylw, ond rwyf am ddweud bod y rhain yn faterion sy'n effeithio ar fwy na dim ond y bobl arferol. Mae hollti ein gwead cymdeithasol yn cael effaith fawr ar nifer o bobl ifanc y dyddiau hyn, a chredaf fod angen inni sicrhau ein bod yn estyn allan at amrywiaeth eang o ddisgyblion y byddid, yn yr hen ddyddiau, wedi dweud eu bod ar ganol y ffordd ac yn ôl pob tebyg yn eithaf diogel, oherwydd ymddengys yn ôl gwaith ymchwil eu bod yn llai ac yn llai diogel.

I am pleased to see the elements of the framework that you talk about here. The better brokerage and co-ordination of the support that they need is vital. My research shows that, for example, in Wrexham, Careers Wales acts as the co-ordinator; in Bridgend, the role is played by a 14-19 learning coach; and, in Cardiff, there is no individual agency for this role. Minister, I would like your view on how we can pull this all together so that there is consistent and coherent delivery.

Rwyf yn falch o weld elfennau'r fframwaith yr ydych yn sôn amdano yma. Mae gwell brocera a chydlynu'r cymorth sydd ei angen arnynt yn hollbwysig. Mae fy ymchwil i'n dangos, er enghraifft, yn Wrecsam, fod Gyrfa Cymru'n gweithredu fel cydgysylltydd; ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'r rôl yn cael ei chyflawni gan hyfforddwr dysgu 14–19; ac, yng Nghaerdydd, nid oes asiantaeth unigol ar gyfer y rôl hon. Weinidog, hoffwn glywed eich barn ar sut y gallwn dynnu hyn i gyd at ei gilydd fel bod y ddarpariaeth yn gyson ac yn gydlynol.

Ensuring that the provision meets the needs of young people is another element of the framework. I wanted to touch on that because I know that, in previous committees that have been held, one of the things that has come to the fore is that there are a great many plans and initiatives from Government, local authorities, the third sector and non-governmental organisations. Are you going to be reviewing the number and range so that there is a lot less clutter, so that delivery is far more effective and so that we can see exactly what is targeted at whom and, more importantly, what works so that we can put more effort into that? I am assuming that you will be covering this through that particular element.

Mae sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion pobl ifanc yn elfen arall o'r fframwaith. Roeddwn am sôn am hynny oherwydd gwn, mewn pwyllgorau blaenorol sydd wedi cael eu cynnal, mai un o'r pethau sydd wedi dod i'r amlwg yw bod nifer fawr o gynlluniau a mentrau gan y Llywodraeth, awdurdodau lleol, y trydydd sector a sefydliadau anllywodraethol. A fyddwch yn adolygu'r nifer a'r amrywiaeth fel bod llai o lawer o annibendod, fel bod y ddarpariaeth yn fwy effeithiol o lawer ac fel y gallwn weld yn union beth sy'n cael ei dargedu at bwy ac, yn bwysicach, beth sy'n gweithio er mwyn inni roi mwy o ymdrech i wneud hynny? Tybiaf y byddwch yn cwmpasu hyn oll drwy'r elfen benodol honno.

You talk further on in your statement about having a more co-ordinated way of organisations working together, and I would have no quarrel with that. I would like to point out that I think that it would be useful to add special educational needs co-ordinators in schools and people like that to that list of agencies. Especially with younger children, reasons for disengagement are to do with mental health issues and behavioural problems. Sometimes, they are not identified until quite late on in the primary school cycle or early in the secondary school cycle. I believe that special educational needs co-ordinators have a vital part to play in pointing out children who may, in the future, have problems with being able to make that transition through school and, therefore, stay in education.

Rydych yn sôn yn nes ymlaen yn eich datganiad am gael ffordd fwy cydlynol o sicrhau bod sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd, ac ni fyddwn yn dadlau â hynny. Hoffwn nodi y credaf y byddai'n ddefnyddiol ychwanegu cydgysylltwyr anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion a phobl felly at y rhestr o asiantaethau. Yn enwedig gyda phlant iau, mae rhesymau dros ymddieithrio yn ymwneud â materion iechyd meddwl a phroblemau ymddygiad. Weithiau, nid ydynt yn cael eu nodi tan yn weddol hwyr yng nghylch yr ysgol gynradd neu yn gynnar yng nghylch ysgol uwchradd. Credaf fod gan gydgysylltwyr anghenion addysgol arbennig ran hanfodol i'w chwarae wrth dynnu sylw at blant a allai, yn y dyfodol, gael problemau wrth symud drwy'r ysgol ac, felly, wrth aros mewn addysg.

I have a couple of other points. In point 6 of your youth engagement and employment action plan update, it states that the Real Conversation encouraged business leaders in the private sector to discuss barriers to employment. What have you learnt from this and how will the information be used by the Welsh Government for the benefits of NEETs? I apologise for using that term, as I absolutely hate it—I should have said 'not in education, employment or training'. The Children and Young People's Committee attributed the reduction in the number of people classified as not being in education, employment or training as a result of the Learning and Skills (Wales) Measure 2009. Given the amount of money that is being spent through the Government, and the European social fund funding, to what do you attribute this change? Can you point to it within the FYEP? I have two more points. Point 12 of the youth engagement and employment action plan talks about a one-stop-shop website that has been provided with a range of teaching strategies. Are you able to evidence this given that the levels of people not in education, employment or training are stubbornly high? How can you prove that teachers are using the website, let alone using it successfully in their lessons?

Mae gen i un neu ddau o bwyntiau eraill. Ym mhwynt 6 eich adroddiad diweddaru ar y cynllun gweithredu ar ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc, nodir bod y Sgwrs Go Iawn wedi annog arweinwyr busnes yn y sector preifat i drafod rhwystrau i gyflogaeth. Beth ydych chi wedi'i ddysgu o hyn a sut y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r wybodaeth hon er budd NEETs? Ymddiheuraf am ddefnyddio'r term hwnnw, gan fy mod yn ei gasáu—dylwn fod wedi dweud 'nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant'. Mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi priodoli'r gostyngiad yn nifer y bobl a ddosberthir fel rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant i Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. O ystyried faint o arian sy'n cael ei wario drwy arian y Llywodraeth a chronfa gymdeithasol Ewrop, i beth ydych chi'n priodoli'r newid hwn? A allwch bwyntio ato o fewn yr FYEP? Mae gennyf ddau bwynt arall. Mae pwynt 12 y cynllun gweithredu ar ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc yn sôn am wefan siop un stop sydd wedi ei darparu ag amryw o strategaethau addysgu. A ydych yn gallu rhoi tystiolaeth o hyn o ystyried bod lefelau'r bobl hynny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn ystyfnig o uchel? Sut allwch chi brofi bod athrawon yn defnyddio'r wefan, heb sôn am ei defnyddio'n llwyddiannus yn eu gwersi?

My final point is a little bit more on the strategic level. In a document supporting the January 2013 Cabinet paper, it was stated that the category of not in education, employment or training has been a stubborn problem for well over 10 years, despite the increase in those completing year 11. Obviously, those people do not remain in the 16-23 category forever. I know this statement is about youth employment, but I wondered whether you might be able to give us a view as to whether we ought to increase that age category, because those people are obviously moving on and continue to not be in education, employment or training. We need to tackle that at some point.

Mae fy mhwynt olaf ychydig yn fwy ar lefel strategol. Mewn dogfen yn cefnogi papur y Cabinet ym mis Ionawr 2013, nodwyd bod y categori nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi bod yn broblem ystyfnig ers ymhell dros 10 mlynedd, er gwaethaf y cynnydd yn nifer y rhai sy'n cwblhau blwyddyn 11. Yn amlwg, nid yw'r bobl hynny'n aros yn y categori 16–23 am byth. Gwn mai datganiad am gyflogaeth ieuenctid yw hwn, ond roeddwn yn meddwl tybed a allech roi barn ynghylch a ddylem gynyddu'r categori oedran hwnnw, oherwydd mae'r bobl hynny'n amlwg yn symud ymlaen ac yn parhau i beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae angen inni fynd i'r afael â hynny rywbryd.

17:05

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the opposition spokesperson for her welcome for what has been outlined. I certainly agree with her on a number of the issues that she has raised. In respect of the need for targeted support, she talked about these issues applying to people whom she said were not the usual suspects. From our point of view, one of the issues that is important is early identification of those likely to find themselves in the category of not being in education, employment or training. We know that some local authorities do this well, but broadly, across the piece, this is not done by all. That is why we are saying that there are half a dozen key elements that need to be followed through by all authorities. In respect of the brokerage element, we have to move to a situation where we are building services around the young person rather than expecting young people to bend their lives around the different services that are available. Unless we manage to do that, we will continue to have this as a significant challenge in the future.

Diolch i lefarydd yr wrthblaid am ei chroeso i'r hyn sydd wedi ei amlinellu. Rwyf yn sicr yn cytuno â hi ar nifer o'r materion a godwyd ganddi. O ran yr angen am gymorth wedi'i dargedu, soniodd fod y materion hyn yn berthnasol i bobl y mae hi'n dweud nad ydynt yn y categori arferol. O'n safbwynt ni, un o'r materion pwysig yw adnabod yn gynnar y rhai sy'n debygol o'u cael eu hunain yn y categori o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Gwyddom fod rhai awdurdodau lleol yn gwneud hyn yn dda, ond yn gyffredinol, drwyddi draw, nid pawb sy'n gwneud hynny. Dyna pam yr ydym yn dweud bod hanner dwsin o elfennau allweddol y mae angen i'r holl awdurdodau lleol eu dilyn i'r pen. O ran yr elfen froceriaeth, rhaid inni symud i sefyllfa lle rydym yn adeiladu gwasanaethau o amgylch pobl ifanc yn hytrach na disgwyl i bobl ifanc blygu eu bywydau o gwmpas y gwahanol wasanaethau sydd ar gael. Oni lwyddwn i wneud hynny, bydd hyn yn dal i fod yn her sylweddol yn y dyfodol.

She was right to say that there has been significant money set aside for addressing these issues over time, and, indeed, the evidence that was given to the Enterprise and Business Committee in the past, in the previous Assembly—the evidence from third sector organisations—suggested that there was not a shortage of money. They were often all competing for the same young people, which suggested that those services were not effectively co-ordinated at a local level. We have seen good progress in certain authorities, such as Swansea, in the co-ordination of local services, and we need to build on that.

Roedd yn iawn i ddweud y cafodd arian sylweddol ei neilltuo i fynd i'r afael â'r materion hyn dros gyfnod o amser, ac, yn wir, roedd y dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor Menter a Busnes yn y gorffennol, yn y Cynulliad blaenorol—tystiolaeth gan sefydliadau'r trydydd sector—yn awgrymu nad oedd prinder arian. Roeddent yn aml yn cystadlu am yr un bobl ifanc, a oedd yn awgrymu nad oedd y gwasanaethau hynny'n cael eu cydlynu'n effeithiol ar lefel leol. Rydym wedi gweld cynnydd da mewn rhai awdurdodau, megis Abertawe, o ran cydlynu gwasanaethau lleol, ac mae angen inni adeiladu ar hynny.

In respect of the points she made about additional learning needs and the role of special educational needs co-ordinators, I certainly accept what she has to say. We would obviously expect them to be included within the work that is being undertaken. There is also a role for the counselling staff who are in place in that regard. In respect of business organisations, we were discussing some of these issues with the Federation of Small Businesses just yesterday, and we expect to be discussing them with the CBI. There is an important role for employers in this.

O ran y pwyntiau a wnaeth am anghenion dysgu ychwanegol a rôl cyd-gysylltwyr anghenion addysgol arbennig, rwyf yn sicr yn derbyn yr hyn sydd ganddi i'w ddweud. Byddem wrth reswm yn disgwyl iddynt gael eu cynnwys o fewn y gwaith sy'n cael ei wneud. Mae rôl hefyd i'r staff cynghori yn hynny o beth. O ran sefydliadau busnes, buom yn trafod rhai o'r materion hyn â Ffederasiwn y Busnesau Bach ddoe, a disgwyliwn eu trafod â'r CBI. Mae rôl bwysig i gyflogwyr yn hyn o beth.

In respect of the overall levels of young people not in education, employment or training, those figures, as I have said in the past in this Chamber, and in committee, have remained stubbornly high. It seems to me that, very often, if you look at what has really made a difference, it has been the state of the overall economy and the size of the cohort, and what we have to do is ensure that the money that we are putting into the system is better co-ordinated, that services are better delivered on the ground, and that there is effective support for individuals. That, I am afraid, has not been the case across the piece across the whole of Wales.

O ran lefelau cyffredinol y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, mae'r ffigurau hynny, fel yr wyf wedi'i ddweud yn y gorffennol yn y Siambr hon, ac yn y pwyllgor, wedi aros yn ystyfnig o uchel. Mae'n ymddangos i mi mai'r hyn sydd wedi gwneud gwahaniaeth go iawn yn aml iawn yw cyflwr yr economi'n gyffredinol a maint y garfan, a'r hyn y mae'n rhaid inni ei wneud yw sicrhau bod yr arian yr ydym yn ei roi i mewn i'r system wedi'i gydlynu'n well, bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n well ar lawr gwlad, a bod cefnogaeth effeithiol i unigolion. Nid yw hynny, mae arnaf ofn, wedi bod yn wir drwyddi draw ledled Cymru.

17:08

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Hoffwn groesawu datganiad y Gweinidog heddiw. Rwy'n meddwl fy mod i a Phlaid Cymru yn cytuno â bron bopeth sydd yma. Rwyf eisiau gofyn ychydig o gwestiynau am le y gallwn fynd o hyn ymlaen.

I would like to welcome the Minister's statement today. I and Plaid Cymru agree with virtually everything contained therein. I would like to ask a few questions as to where we can go from here.

Rwy'n cytuno â'r dynesiad yn y datganiad ynglŷn â llunio'r fframwaith. Serch hynny, nid oes manylion am beth fydd y fframwaith. Felly, byddwn yn aros i weld, pan fydd y fframwaith yn cael ei gyhoeddi—rwy'n meddwl taw mis Medi y mae'r Llywodraeth yn sôn amdano—sut fydd hyn yn gweithio.

I agree with the approach set out in the statement in terms of creating the framework. However, there are no details as to what the framework will contain. So, we will wait to see, when the announcement comes—I believe that the Government is talking about September—how that will work.

Rwy'n cytuno'n llwyr â chyfeiriad y Gweinidog am yr angen i ddatrys y cyswllt rhwng tlodi, amddifadedd a chyrhaeddiad addysgiadol. Mae hyn yn destun siom cenedlaethol, ac mae'n destun pryder i ni ym Mhlaid Cymru. Er fy mod yn cytuno â'r Llywodraeth ar hyn o bryd, rwyf hefyd yn gorfod dweud nad oes unrhyw arwydd eto o lwyddiant ar ran y Llywodraeth yn y mater hwn—nid dim ond yn y maes y mae'r Gweinidog yn sôn amdano, ond y maes ehangach y mae'r Llywodraeth wedi ymwneud ag ef. Serch hynny, rwy'n falch o weld ei fod yno a'i fod yn flaenoriaeth.

I agree entirely with the Minister's reference to the need to resolve the link between poverty, deprivation and educational achievement. This is a cause for real concern at a national level, and it is a cause for real concern for Plaid Cymru. While I agree with the Government at present, I also have to say that there is no sign as of yet of any success for the Government in this area—not just in the area that the Minister highlights, but in the broader field that the Government has been involved in. However, I am pleased to see that this is in place and that it is a priority.

Rwy'n croesawu yn arbennig y datganiad heddiw bod y Llywodraeth am ddarparu gwarant llwyr i roi cyfle i gael hyfforddiant, neu addysg, i bob person ifanc rhwng 16 a 18 oed. Dyma syniad y mae Plaid Cymru wedi ei arddel a'i drafod ers rhai blynyddoedd bellach. Roedd y syniad ym mhapur Leanne Wood, 'A Greenprint for the Valleys'. Roedd y syniad hefyd mewn erthygl gennyf yn y 'Daily Post' tua mis yn ôl. Yn wir, cyflwynais Fil mainc cefn wythnos diwethaf yn trio delio â'r union bwynt hwn. Felly, Ddirprwy Lywydd, os byddaf yn llwyddiannus yn y balot, bydd gen i Fil y bydd y Llywodraeth yn fodlon iawn cydweithio â mi arno wrth fynd ymlaen.

I particularly want to welcome the statement made today that the Government wishes to provide a guarantee of training or education opportunity for each and every young person between the ages of 16 and 18. This is an idea that Plaid Cymru has been espousing and discussing for a number of years now. It was an idea set out in Leanne Wood's paper 'A Greenprint for the Valleys'. It was also referred to by me in an article in the 'Daily Post' about a month ago. Indeed, I proposed a backbench Bill last week to try to deal with this particular issue. So, Deputy Presiding Officer, if I am successful in the ballot, I will have a Bill on which the Government will be more than happy to collaborate with me as it progresses.

Mae Plaid Cymru yn credu ei bod yn bwysig ein bod yn rhoi gwarant o'r fath gyfleoedd a bod hynny wedi ei gynnwys mewn statud. Dylid cael gwarant statudol i bobl ifanc yr oedran yma. Nid ydym yn gweld bellach, yn yr economi modern ac yn y Gymru fodern, fod angen i unrhyw berson ifanc o'r oedran yma fod yn tindroi heb gyfle i fod mewn hyfforddiant neu addysg, neu'n dilyn ryw drydedd ffordd, fel petai—ac mae gen i gwestiwn i'r Gweinidog am hynny—oherwydd, gan fod llawer o bobl mor 'disengaged' erbyn yr oedran yma, efallai nad ydynt yn barod i gymryd rhan mewn addysg nac hyfforddiant. Yn wir, efallai y byddai eu presenoldeb mewn addysg neu hyfforddiant yn her i weddill y bobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant. Felly, a oes gan y Gweinidog gynlluniau i weithio yn y trydydd sector ar ffordd amgen o geisio gwneud yn siŵr bod cyfleoedd i bobl yr oedran yma ddatblygu eu sgiliau mewn cyd-destun nad yw, efallai, yn draddodiadol o safbwynt addysg?

Plaid Cymru feels that it is important that we not only provide guarantees of such opportunities, but that it is set down in statute. There should be a statutory guarantee for young people in that age group. We do not now see in the modern economy and in a modern Wales that any young person should be left to dawdle without an opportunity to enter training or education, or to take any kind of third route, as it were—and I have a question for the Minister on that—because it is true that many people are so disengaged by the time that they get to this age that they are perhaps not ready to enter education or training. Indeed, perhaps their attendance in that education and training would be a challenge for others undertaking that training. So, does the Minister have any plans to work in the third sector on an alternative approach to ensure that opportunities are available to people in this age group to develop skills in a context that is, perhaps, not traditional in terms of education?

Mae fy mhwynt olaf am brentisiaid. Mae Plaid Cymru, wrth gwrs, yn falch o fod â chytundeb â'r Llywodraeth ynglŷn ag ehangu nifer y prentisiaid. Er nad oedd sôn yn benodol yn y datganiad heddiw am brentisiaethau, roedd tipyn o sôn am y ffordd y mae'r gwasanaeth gyrfaoedd a'r gwasanaeth ieuenctid yn gyffredinol yn gorfod gweithio gyda'r bobl ifanc yma er mwyn ei gwneud yn glir iddynt fod ganddynt opsiynau. Rhaid i'r gwaith o roi a chreu opsiwn o brentisiaeth fynd yn ôl i'r cyfnod cyn 16, a chyn 15 a 14 oed hyd yn oed. Rydych chi'n sôn am ddelio gyda phobl yn y flwyddyn neu ddwy gyntaf yn yr ysgol gyfun pan maent yn dechrau teimlo nad ydynt eisiau mynd lawr y llwybr academaidd. Mae angen dechrau trafod gyda nhw y cyfleodd sydd ar gael fwyfwy yng Nghymru, diolch i'r drefn, o ran prentisiaethau. Mae angen i'r gwaith ar draws y Llywodraeth, ac i ni i gyd, fod llawer yn fwy positif ynghylch yr opsiynau nad ydynt yn academaidd i bobl o'r oedran yma. Gyda hynny, rwy'n croesawu'r datganiad. Rwy'n edrych ymlaen at glywed mwy gan y Llywodraeth am sut y bydd yn gweithredu'r amcanion clodwiw sydd yn y datganiad. Diolch i'r Llywodraeth am weithredu mor drylwyr ar syniadau Plaid Cymru.

My final point is on apprentices. Plaid Cymru, of course, is pleased to have reached an agreement with the Government on expanding the number of apprentices. While there is no specific reference in today's statement to apprenticeships, there was quite a lot of reference to the way that the careers service and the youth service generally have to work with these young people to make it clear to them that they do have options. The work involved in creating that apprenticeship option has to be introduced earlier than at the age of 16, and even earlier than at the ages of 15 and 14. You are talking about dealing with these people in the first year or two of secondary school when they are already starting to realise that they do not want to go down the academic route. You should be discussing with them the opportunities that are available more and more in Wales, thankfully, in terms of apprenticeships. There is a need for Government departments and for us all to be far more positive about the opportunities that are not of an academic nature for people in this age group. I welcome the statement and look forward to hearing more from the Government on how it will be implementing the laudable objectives set out in the statement. I thank the Government for taking such thorough action on Plaid Cymru ideas.

17:13

## Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for his support for Labour's programme for government. [Laughter.] We are taking forward an agenda that he clearly agrees with. I am pleased to have his support.

Diolch i'r Aelod am ei gefnogaeth i raglen lywodraethu Llafur. [Chwerthin.] Rydym yn bwrw ymlaen ag agenda y mae'n amlwg yn cytuno â hi. Rwyf yn falch o gael ei gefnogaeth.

He referred to the detail of the framework. We gave the detail of the framework in this statement. There are six elements to the framework. We will be publishing the implementation plan in September, which will outline in more detail what will be delivered at a local level.

Cyfeiriodd at fanylion y fframwaith. Rydym yn rhoi manylion y fframwaith yn y datganiad hwn. Mae chwe elfen i'r fframwaith. Byddwn yn cyhoeddi'r cynllun gweithredu ym mis Medi, a fydd yn amlinellu'n fanylach yr hyn a fydd yn cael ei ddarparu ar lefel leol.

He asked about the third sector. I referred to the work of third sector organisations in my statement, and I referred in answer to the opposition spokesperson to evidence that we have previously had in the Assembly from third sector organisations about the schemes that are available. There are a wide variety of schemes that are supported, and from which third sector organisations derive funding. There are many opportunities for young people in respect of education other than at school that have been developed in partnership with third sector bodies. Obviously, we want to continue to develop those initiatives.

Gofynnodd am y trydydd sector. Cyfeiriais at waith sefydliadau'r trydydd sector yn fy natganiad, a chyfeiriais wrth ateb llefarydd yr wrthblaid at dystiolaeth a gawsom o'r blaen yn y Cynulliad gan sefydliadau'r trydydd sector am y cynlluniau sydd ar gael. Mae amrywiaeth eang o gynlluniau sy'n cael eu cefnogi, ac y mae sefydliadau'r trydydd sector yn cael cyllid ganddynt. Mae llawer o gyfleoedd addysgol i bobl ifanc heblaw'r rhai a geir yn yr ysgol, wedi eu datblygu mewn partneriaeth â chyrff y trydydd sector. Wrth gwrs, rydym am barhau i ddatblygu'r mentrau hynny.

In respect of apprenticeships, my colleague, the Deputy Minister for Skills and Technology, has made a full statement on where we are going with apprenticeships in recent weeks, and I do not really want to add to that. He set out considerable detail regarding precisely where we are going with that.

O ran prentisiaethau, mae fy nghyd-weithiwr, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, wedi gwneud datganiad llawn ar ble yr ydym yn mynd gyda phrentisiaethau yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac nid wyf am ychwanegu at hynny. Nododd yn dra manwl yn union i ble rydym yn mynd â hynny.

The Member also referred to the important role of the careers service. Again, the Deputy Minister for Skills and Technology made a full statement on that in the last week. I am sure that he will agree, now that the careers service has been returned to public ownership by this Government, it offers us the opportunity better to deliver services directly to individuals across Wales. He is right to say that, throughout the lifetime of this Assembly and that of different Ministers for education and skills, we have ensured that we have mutual respect, if you like, for both vocational and academic study throughout school and in further education institutions. We did that in the Learning and Skills (Wales) Measure 2009 in particular. Therefore, the frameworks are there, but there is a need, as I said in the statement, for the better co-ordination of resources.

Cyfeiriodd yr Aelod hefyd at rôl bwysig y gwasanaeth gyrfaoedd. Unwaith eto, gwnaeth y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ddatganiad llawn ar hynny yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Rwyf yn siŵr y bydd yn cytuno, gan fod y gwasanaeth gyrfaoedd wedi cael ei ddychwelyd i berchnogaeth gyhoeddus gan y Llywodraeth hon, y bydd yn cynnig cyfle inni ddarparu gwasanaethau'n well yn uniongyrchol i unigolion ar draws Cymru. Mae'n iawn i ddweud, drwy gydol oes y Cynulliad hwn, a gwahanol Weinidogion addysg a sgiliau, ein bod wedi sicrhau parch y naill at y llall, os mynnwch chi, tuag at astudiaethau galwedigaethol ac academaidd drwy'r ysgol ac mewn sefydliadau addysg bellach. Gwnaethom hynny ym Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn benodol. Felly, mae'r fframweithiau yno, ond mae angen cydlynu adnoddau'n well, fel y dywedais yn y datganiad.

17:15

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome the very interesting statement today, Minister. You will be aware that, in my constituency, ACT Training is a training provider and engages with young people who have not been engaged and who are not making progress in traditional forms of education. It currently has over 50 people who have been excluded from normal schools and it has over 300 young people on its engagement programme. I am interested especially in how you expect and will measure how local authorities and other partners work together. There is a provider here in the private sector—or third sector, depending on your definition—that is already providing a successful programme. How will this success be measured, together with that of other partners, in terms of value for money and the learning or work outcomes for the individual? How would you expect to replicate and make good use of that best practice or successful practice?

Rwyf yn croesawu'r datganiad diddorol iawn heddiw, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol fod Hyfforddiant ACT, yn fy etholaeth i, yn ddarparwr hyfforddiant ac yn ymgysylltu â phobl ifanc nad ymgysylltwyd â hwy ac nad ydynt yn dod yn eu blaenau mewn ffurfiau traddodiadol ar addysg. Ar hyn o bryd mae ganddo dros 50 o bobl sydd wedi eu gwahardd o ysgolion arferol ac mae dros 300 o bobl ifanc ar ei raglen ymgysylltu. Mae gennyf ddiddordeb arbennig yn sut yr ydych yn disgwyl y bydd awdurdodau lleol a phartneriaid eraill yn gweithio gyda'i gilydd, a sut y byddwch yn mesur hynny. Mae darparwr yma yn y sector preifat—neu'r trydydd sector, yn dibynnu ar eich diffiniad—sydd eisoes yn darparu rhaglen lwyddiannus. Sut y caiff y llwyddiant hwn ei fesur, ynghyd â llwyddiant partneriaid eraill, o ran gwerth am arian a'r canlyniadau dysgu neu waith ar gyfer yr unigolyn? Sut fyddech chi'n disgwyl dyblygu a gwneud defnydd da o'r arfer gorau neu arfer llwyddiannus?

Part of the issue is that some providers and some organisations may not want to share what works and may see competitive advantage in keeping it for themselves. Equally, people in the statutory sector, in my view, should be encouraged to share practice, where it works, as there are many similar communities facing similar challenges. Therefore, I would be interested in hearing how the programme that you have announced today will help to achieve that in practice.

Rhan o'r broblem yw efallai na fydd rhai darparwyr a rhai sefydliadau am rannu'r hyn sy'n gweithio ac efallai y byddant yn gweld mantais gystadleuol mewn cadw hyn iddynt hwy eu hunain. Yn yr un modd, dylid annog pobl yn y sector statudol, yn fy marn i, i rannu arfer, lle mae'n gweithio, gan fod llawer o gymunedau tebyg yn wynebu heriau tebyg. Felly, byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed sut y bydd y rhaglen yr ydych wedi'i chyhoeddi heddiw yn helpu i gyflawni hynny yn ymarferol.

17:16 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank my colleague the Member for Cardiff South and Penarth for reminding the Assembly of the work that is being done in his constituency by ACT Training, which provides a useful model for others to look at. In terms of what he asked about the issues of measuring value for money, clearly, as we develop the implementation plan and publish that, there will be very clear targets. I hope that there is an expectation, particularly when it comes to statutory services, that we expect organisations to adopt best practice or justify why not. Adopt or justify has been our approach to that for some time. There is still, unfortunately, quite a way to go in some areas.

Diolch i'm cyd-weithiwr, yr Aelod dros Dde Caerdydd a Phenarth, am atgoffa'r Cynulliad o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn ei etholaeth gan Hyfforddiant ACT, sy'n darparu model defnyddiol i bobl eraill edrych arno. O ran yr hyn a ofynnodd am fesur gwerth am arian, yn amlwg, wrth inni ddatblygu'r cynllun cyflawni a chyhoeddi hynny, bydd targedau clir iawn. Rwyf yn gobeithio bod disgwyliad y bydd sefydliadau, yn enwedig o ran gwasanaethau statudol, yn mabwysiadu arfer gorau neu gyfiawnhau pam nad yw hynny'n digwydd. Mabwysiadu neu gyfiawnhau fu ein dull yn hynny o beth ers peth amser. Yn anffodus, mae tipyn o ffordd i fynd o hyd mewn rhai ardaloedd.

However, there is good practice. I mentioned the effective co-ordination schemes within the Swansea area and the early identification that we know is being undertaken in Wrexham. Those are good schemes from which we can learn. The issue of ensuring that there is a specific individual—I use the word 'broker', but it does not necessarily need to be called that; it can be someone in an existing role, which is obviously what we would expect—who has the responsibility of ensuring that services are delivered to a specific young person who has those needs will be the test of the success of this service in future. It needs to be a personalised service.

Fodd bynnag, mae yna arfer da. Soniais am y cynlluniau cydlynu effeithiol yn ardal Abertawe a'r adnabod cynnar y gwyddwn sy'n digwydd yn Wrecsam. Mae'r rhain yn gynlluniau da y gallwn ddysgu ohonynt. Prawf llwyddiant y gwasanaeth hwn yn y dyfodol fydd sicrhau bod unigolyn penodol—defnyddiaf y gair 'brocer', ond nid oes raid ei alw'n hynny o reidrwydd; gall fod yn rhywun mewn rôl ar hyn o bryd, sef yn amlwg yr hyn y byddem yn ei ddisgwyl—sydd â chyfrifoldeb dros sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu i berson ifanc penodol sydd â'r anghenion hynny. Mae angen iddo fod yn wasanaeth personol.

17:18 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I, too, would like to thank the Minister, particularly for his recognition of the value of the pupil deprivation grant in his statement today. I also welcome very much what I hope will be a much more strategic and focused approach to youth engagement. Over a period of time, Welsh youth disengagement has been consistently around two percentage points, or 20%, higher than the average in England. That is a tragedy not only for those individuals involved, but for our society because of the problems that it causes for our economy as a result of the lack of opportunities that those young people have.

Hoffwn innau, hefyd, ddiolch i'r Gweinidog, yn enwedig am ei gydnabyddiaeth o werth y grant amddifadedd disgyblion yn ei ddatganiad heddiw. Rwyf hefyd yn croesawu'n fawr iawn yr hyn yr wyf yn gobeithio fydd yn ddull llawer mwy strategol a phenodol o ymgysylltu â phobl ifanc. Dros gyfnod o amser, mae ymddieithrio ymhlith ieuenctid Cymru wedi bod yn gyson oddeutu dau bwynt canran, neu 20%, yn uwch na'r cyfartaledd yn Lloegr. Mae hynny'n drasiedi nid yn unig i'r unigolion hynny dan sylw, ond i'n cymdeithas oherwydd y problemau y mae'n eu hachosi i'n heconomi yn sgil y diffyg cyfleoedd sydd gan y bobl ifanc hynny.

One thing that leapt out at me from your statement, Minister, was what you said about the need to identify the needs of young people at a personal level. It is that individualised and tailored approach to support that is very beneficial to those young people, particularly if they have had a long period of disengagement from the educational system.

Un peth a'm trawodd yn eich datganiad, Weinidog, oedd yr hyn a ddywedasoch am yr angen i adnabod anghenion pobl ifanc ar lefel bersonol. Mae'r ymagwedd hon at gymorth wedi'i theilwra at anghenion yr unigolyn yn fuddiol iawn i'r bobl ifanc hynny, yn enwedig os ydynt wedi cael cyfnod hir o ymddieithrio oddi wrth y system addysg.

I very much agree with the sentiment there, Minister, and I wonder whether you could explain how you think you will best be able to support that when we are moving, with things like Careers Wales's website, to a more reactive system of careers support, with young people encouraged to draw down the information that they want rather than having information handed to them on a plate. I would be interested to know what steps you hope to take to encourage proactive engagement to work alongside those support services for young people.

Cytunaf yn llwyr â'r ymdeimlad hwnnw, Weinidog, a tybed a allech chi egluro sut yr ydych yn meddwl y byddwch yn gallu cefnogi hynny orau pan ydym ni'n symud, gyda phethau fel gwefan Gyrfa Cymru, tuag at system fwy adweithiol o gymorth gyrfaoedd, a phobl ifanc yn cael eu hannog i chwilio am y wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn hytrach na bod gwybodaeth yn cael ei rhoi iddynt ar blât. Byddai gennyf ddiddordeb gwybod pa gamau yr ydych yn gobeithio eu cymryd i annog ymgysylltiad rhagweithiol i weithio ochr yn ochr â'r gwasanaethau cymorth hynny i bobl ifanc.

In a previous statement, the Deputy Minister said that he would be protecting one-to-one guidance for young people at risk of disengagement. Can you give us an idea of how you will identify those young people at an early stage? Will those identification methods allow you the flexibility to step in if young people whom you had not anticipated would become disengaged find themselves in that position?

Mewn datganiad blaenorol, dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'n diogelu canllawiau un-i-un ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio. A allwch chi roi syniad inni o sut y byddwch yn adnabod y bobl ifanc hynny'n gynnar? A fydd y dulliau adnabod hynny'n caniatáu hyblygrwydd i chi i gamu i mewn os bydd pobl ifanc nad oeddech yn rhagweld y byddent yn ymddieithrio yn eu cael eu hunain yn y sefyllfa honno?

I look forward with great interest to seeing the implementation plan. However, as an annex to his statement in January, I note that the Deputy Minister for Skills supplied a youth engagement and employment action plan. I am a little confused about the difference between an action plan and an implementation plan. Can you explain how the two will differ? Is this designed to replace your existing plans, or is it something that will complement them?

Edrychaf ymlaen gyda diddordeb mawr at weld y cynllun gweithredu. Fodd bynnag, fel atodiad i'w ddatganiad ym mis Ionawr, sylwaf fod y Dirprwy Weinidog Sgiliau wedi darparu cynllun gweithredu ar ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc. Rwyf wedi drysu braidd ynghylch y gwahaniaeth rhwng cynllun gweithredu a chynllun cyflawni. A wnewch chi egluro sut y bydd y ddau yn wahanol? A fwriedir i hyn ddisodli'ch cynlluniau presennol, neu a yw'n rhywbeth a fydd yn eu hategu?

In terms of working with local authorities, the allocation of a lead worker system is important in helping to ensure that there is a champion within the local authority and within the team of support services, to ensure that this issue is firmly on the agenda. What issues have you identified in terms of that person's capacity? Will one person be able to be that champion and also provide a brokering service for many young people who may come to them with complex needs?

O ran gweithio gydag awdurdodau lleol, mae neilltuo system gweithiwr arweiniol yn bwysig o ran helpu i sicrhau bod eiriolwr o fewn yr awdurdod lleol ac o fewn y tîm gwasanaethau cymorth, er mwyn sicrhau bod y mater hwn yn gadarn ar yr agenda. Pa faterion ydych chi wedi'u nodi o ran gallu'r person hwnnw? A fydd un person yn gallu bod yn eiriolwr yn ogystal â darparu gwasanaeth brocera i lawer o bobl ifanc a allai ddod atynt gydag anghenion cymhleth?

Finally, with regard to the resources allocated to this, it is immensely important that this succeeds. However, my experience of trying to deliver culture change in education is that, even when you bring together those services that already exist, the co-ordination across agencies has a resource implication. What resources have you been able to allocate to ensure that this has the support that it needs?

Yn olaf, o ran yr adnoddau a neilltuwyd i hyn, mae'n hynod bwysig bod hyn yn llwyddo. Fodd bynnag, yn fy mhrofiad i o geisio sicrhau newid diwylliant mewn addysg, hyd yn oed pan fyddwch yn dod â'r gwasanaethau hynny sydd eisoes yn bodoli ynghyd, mae goblygiadau o ran adnoddau yn deillio o gydlynu ar draws asiantaethau. Pa adnoddau ydych chi wedi gallu eu neilltuo i sicrhau bod hyn yn cael y gefnogaeth y mae ei angen?

17:22

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am not allocating any further resources to this. As Members will be aware, our budgets have been significantly cut by the UK Government. We have to ensure that our budgets are appropriately applied, and, indeed, third sector organisations giving evidence to the Enterprise and Business Committee in the last Assembly made it clear that there was no need for additional resources. They specifically said that the resources were there and that they were all chasing the same young people in terms of the services that they sought to provide. So, I do not think that this is a question of resources—this is a question on the whole of the organisation and on the appropriate tailoring of services to individuals in need.

Nid wyf yn neilltuo unrhyw adnoddau pellach i hyn. Fel y bydd yr Aelodau'n gwybod, mae Llywodraeth y DU wedi torri ein cyllidebau'n sylweddol. Mae'n rhaid inni sicrhau bod ein cyllidebau'n cael eu defnyddio'n briodol, ac, yn wir, roedd sefydliadau'r trydydd sector a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Busnes yn y Cynulliad diwethaf yn ei gwneud yn glir nad oedd angen adnoddau ychwanegol. Dywedasant yn benodol fod yr adnoddau yno a'u bod i gyd yn mynd ar ôl yr un bobl ifanc o ran y gwasanaethau yr oeddent yn ceisio'u darparu. Felly, nid wyf yn credu bod hyn yn fater o adnoddau—mae'n fater at ei gilydd o'r sefydliad cyfan ac o deilwra'r gwasanaethau'n briodol i unigolion mewn angen.

The reorganisation of the careers service that we have undertaken will mean a greater focus on those in danger of finding themselves not in education, employment or training. That is very much the personalised service that we seek to obtain from Careers Wales in respect of those individuals. On the whole, the bulk of young people will want to pursue their careers options directly themselves. They will want to seek information themselves. I do not see that as a problem within the new service that is being developed. However, individuals with multiple needs or particular additional needs will require direct support from an individual. It is the identification of the appropriate individual that really matters to those young people if we are going to break through this issue of disengagement. Therefore, the Liberal Democrat spokesperson is right to say that there is an issue here about early identification, but there is also a potential issue of identification of people, subsequently, who were not earlier identified, as she put it. That relies on the effective work of professionals in the field, sharing that information with each other. However, achieving that is not necessarily rocket science; it is a question of learning from best practice.

Bydd yr ad-drefnu a wnaed gennym ar y gwasanaeth gyrfaoedd yn golygu mwy o ffocws ar y rhai sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Dyna yn wir yw'r gwasanaeth personol yr ydym yn ceisio'i gael gan Gyrfa Cymru mewn perthynas â'r unigolion hynny. Ar y cyfan, bydd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn awyddus i ddilyn eu dewisiadau gyrfa'n uniongyrchol eu hunain. Byddant yn awyddus i ddod o hyd i wybodaeth eu hunain. Nid wyf yn gweld y bydd hynny'n broblem yn y gwasanaeth newydd sy'n cael ei ddatblygu. Fodd bynnag, bydd angen cymorth uniongyrchol gan unigolyn ar y rhai hynny a chanddynt anghenion lluosog neu anghenion ychwanegol penodol. Adnabod yr unigolyn priodol sy'n wirioneddol bwysig i'r bobl ifanc hynny os ydym am dorri drwy'r ymddieithrio hwn. Felly, mae llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn iawn i ddweud bod problem yma ynghylch adnabod yn gynnar, ond mae hefyd problem bosibl o ran adnabod pobl, yn nes ymlaen, na chawsant eu hadnabod yn gynharach, fel y dywedodd. Mae hynny'n dibynnu ar waith effeithiol gweithwyr proffesiynol yn y maes, yn rhannu'r wybodaeth gyda'i gilydd. Fodd bynnag, nid yw cyflawni hynny o reidrwydd yn beth cymhleth; mae'n fater o ddysgu o arfer gorau.

The action plan that we published in respect of youth engagement set out the broad approach that we expect to be taken to these issues. Today, we are publishing a framework in respect of the progression of the six key elements that we think have to be adopted, particularly by the statutory bodies and local authorities. The implementation plan will put in place what needs to be done on the ground by those authorities to implement that progression framework. At the end of the day, this is very much an emphasis on personalised and tailored support to those who need it.

Mae'r cynllun gweithredu a gyhoeddwyd gennym ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc yn nodi'r ymagwedd gyffredinol y disgwyliwn y bydd yn cael ei chymryd at y materion hyn. Heddiw, rydym yn cyhoeddi fframwaith mewn perthynas â datblygiad y chwe elfen allweddol y credwn y bydd yn rhaid eu mabwysiadu, yn enwedig gan y cyrff statudol ac awdurdodau lleol. Bydd y cynllun cyflawni'n rhoi ar waith yr hyn y mae angen i'r awdurdodau hynny ei wneud ar lawr gwlad i weithredu'r fframwaith datblygu. Yn y bôn, mae'r pwyslais yma ar gymorth personol, wedi'i deilwra i'r rhai y mae ei angen arnynt.

17:24 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. The statement on the abolition of the Agricultural Wages Board associated bodies has been postponed until 30 April.

Diolch, Weinidog. Mae'r datganiad ar ddileu'r cyrff cysylltiedig â'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol wedi ei ohirio tan 30 Ebrill.

## Gofal Diwedd Oes

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2, 3 a 5 yn enw William Graham, a gwelliant 4 yn enw Aled Roberts.*

Cynnig NDM5209 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn i wella gwasanaeth gofal diwedd oes; a

2. Yn nodi Law yn Llaw at Iechyd: Darparu Gofal Diwedd Oes.

## End-of-Life Care

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2, 3 and 5 in the name of William Graham, and amendment 4 in the name of Aled Roberts.*

Motion NDM5209 Lesley Griffiths

To propose the National Assembly for Wales:

1. Notes the progress made to-date to improve end of life care service; and

2. Notes Together For Health: Delivering End of Life Care.

17:25 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

Diolch am y cyfle i gyflwyno'r ddadl hon. Ysgrifennodd yr Athro Farwnes Ilora Finlay yr wythnos diwethaf yn y 'Western Mail'

Thank you for the opportunity to introduce this debate. Professor Baroness Ilora Finlay wrote in the 'Western Mail' last week that

wrth i fywyd dynnu at ei derfyn, mae eiliadau prin i'w trysori.

'there is so much living that can be done in a few meaningful moments.'

Rwyf am gadw hyn mewn cof wrth inni gynnal y ddadl hon heddiw.

I will bear this in mind during today's debate.

That sentiment reminds us that how well we care for our dying reflects how well we care as a society. We must remember that at the heart of our services is a person; not a patient, not a service user, but a person. A person with a family and friends, all of whom may have views that need to be heard and all of whom can contribute to supporting that person at the end of life. By planning, talking and listening to a person and their family, we can, in that last period, help to support a great amount of living.

Mae hynny'n ein hatgoffa bod pa mor dda yr ydym yn gofalu am y rhai sy'n marw yn adlewyrchu pa mor dda yr ydym yn gofalu fel cymdeithas. Rhaid inni gofio bod person wrth wraidd ein gwasanaethau; nid claf, nid defnyddiwr gwasanaeth, ond person. Person a chanddo deulu a ffrindiau, pob un ohonynt efallai â safbwyntiau y mae angen eu clywed a phob un yn gallu cyfrannu at gefnogi'r unigolyn hwnnw ar ddiwedd ei oes. Drwy gynllunio, siarad a gwrando ar yr unigolyn a'i deulu, gallwn, yn y cyfnod olaf hwnnw, helpu i gefnogi llawer iawn o fyw.

Last Thursday, I launched 'Together for Health—Delivering End of Life Care'. The plan builds on a record of considerable improvement in end-of-life care over the last five years. In June 2008, Viv Sugar presented the finding of the Welsh palliative care planning group to the then Minister for Health and Social Services, Edwina Hart. Indeed, much of the credit for progress in this area lies with her and the team of people that she drew together around this agenda during the last Assembly term. Viv Sugar's report sets out an ambitious programme of work in end-of-life care. The recommendations of the report were accepted and the palliative care implementation board was established to deliver the short and medium-term actions set out in the plan.

Ddydd Iau diwethaf, lansiais 'Law yn Llaw at Iechyd—Darparu Gofal Diwedd Oes'. Mae'r cynllun yn adeiladu ar record o welliant sylweddol mewn gofal diwedd oes yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Ym mis Mehefin 2008, cyflwynodd Viv Sugar ganfyddiad grŵp cynllunio gofal lliniarol Cymru i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Edwina Hart. Yn wir, mae llawer o'r clod am gynnydd yn y maes hwn i'w briodoli iddi hi a'r tîm o bobl a dynnwyd ynghyd ganddi ynghylch yr agenda hon yn ystod tymor diwethaf y Cynulliad. Mae adroddiad Viv Sugar yn amlinellu rhaglen uchelgeisiol o waith mewn gofal diwedd oes. Cafodd argymhellion yr adroddiad eu derbyn a sefydlwyd y bwrdd gweithredu gofal lliniarol i gyflawni'r camau gweithredu tymor byr a thymor canol a nodir yn y cynllun.

Since that time, a great deal has been achieved. Access to specialist palliative care is now available 24 hours a day, seven days a week in Wales. With a greater quantity of care, we have new arrangements that focus on quality and help organisations to learn from best practice and share experience to deliver continuous improvement. Those improvements in quality are not limited to the NHS. We all know the crucial role that hospices provide in delivering effective care. In that context, I am happy to support amendment 2 in the name of William Graham. Hospices have embraced the higher standards of quality and we have many excellent examples of partnership working between local health boards and hospices. Funding provided as a result of the Sugar report ensures that hospices too have access to specialist palliative care at all times, as well as supporting specialist nurses and the development of hospice-at-home services.

Ers hynny, mae llawer iawn wedi'i gyflawni. Mae gofal lliniarol arbenigol bellach ar gael 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos yng Nghymru. Gyda mwy o ofal, mae gennym drefniadau newydd sy'n canolbwyntio ar ansawdd ac yn helpu sefydliadau i ddysgu o arfer gorau a rhannu profiad i sicrhau gwelliant parhaus. Nid dim ond yn y GIG y mae'r ansawdd hwnnw wedi gwella. Rydym i gyd yn gwybod am rôl hollbwysig yr hosbisau o ran darparu gofal effeithiol. Yn y cyd-destun hwnnw, rwyf yn hapus i gefnogi gwelliant 2 yn enw William Graham. Mae'r hosbisau wedi cofleidio'r safonau ansawdd uwch ac mae gennym lawer o enghreifftiau ardderchog o weithio mewn partneriaeth rhwng byrddau iechyd lleol a hosbisau. Mae cyllid a ddarparwyd yn sgil adroddiad Sugar yn sicrhau bod hosbisau hefyd yn gallu cael gafael ar ofal lliniarol arbenigol ar bob adeg, yn ogystal â chefnogi nyrsys arbenigol a datblygu gwasanaethau hosbis yn y cartref.

In the last financial year, and even in increasingly hard times, the Welsh Government provided £6.5 million to support end-of-life services, with £2.5 million of that going directly to hospices. In addition, we have seen the creation of an effective database to ensure useable information about those services. Training is now being provided to GPs and nurses to support awareness of palliative care services. Work in this area, perhaps more than others, really does demonstrate the value of co-production, the way in which what happens depends on a genuine partnership between people who provide services and the views of patients and families, which also make a vital contribution to the way that services can be improved. iWantGreatCare is a simple survey mechanism to capture the experience of the family, and Dying Well Matters is a programme developed to support families in telling the story of their experience of the death of a loved one.

Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, a hyd yn oed mewn cyfnod cynyddol anodd, rhoddodd Llywodraeth Cymru £6.5 miliwn i gefnogi gwasanaethau diwedd oes, gyda £2.5 o hynny yn mynd yn uniongyrchol i'r hosbisau. Yn ogystal, rydym wedi gweld creu cronfa ddata effeithiol i sicrhau bod gwybodaeth y gellir ei defnyddio ar gael am y gwasanaethau hynny. Mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu i feddygon teulu a nyrsys i gefnogi ymwybyddiaeth o wasanaethau gofal lliniarol. Mae gwaith yn y maes hwn, efallai yn fwy nag eraill, yn dangos mewn gwirionedd beth yw gwerth cyd-gynhyrchu, y ffordd y mae'r hyn sy'n digwydd yn dibynnu ar bartneriaeth wirioneddol rhwng pobl sy'n darparu gwasanaethau a barn cleifion a theuluoedd, sydd hefyd yn gwneud cyfraniad hanfodol i'r ffordd y gellir gwella gwasanaethau. Mae iWantGreatCare yn fecanwaith arolygu syml i gofnodi profiad y teulu, ac mae Marw gydag Urddas yn rhaglen a ddatblygwyd i gefnogi teuluoedd wrth adrodd hanes eu profiad o farwolaeth rhywun annwyl.

Building on the firm foundations that are now in place, the new plan allows us to renew our focus in three key areas: planning, communication and integration. Where planning is concerned, death should not be a taboo subject. We all need to be prepared to have open and honest conversations with our families and with those who provide care for us. Every one of us must be prepared to plan for the end of life. We should have a realistic approach to death, where it can be predicted, and be prepared to put in place arrangements for the end of our lives. Making plans that establish our wishes and deal with practical matters is very important for families and those who live on into the future. Knowing where someone wants to die, for example, can make an enormous difference at the end of life—a sentiment echoed in amendment 3 tabled in the name of William Graham, which I am pleased to support.

Gan adeiladu ar y seiliau cadarn sydd bellach wedi'u sefydlu, mae'r cynllun newydd yn ein galluogi i ganolbwyntio unwaith eto ar dri maes allweddol: cynllunio, cyfathrebu ac integreiddio. O ran cynllunio, ni ddylai marwolaeth fod yn bwnc tabŵ. Mae angen inni i gyd fod yn barod i gael sgyrsiau agored a gonest gyda'n teuluoedd a'r rhai sy'n darparu gofal inni. Rhaid i bob un ohonom fod yn barod i gynllunio ar gyfer diwedd oes. Dylai ein hymagwedd at farwolaeth fod yn un realistig, lle gellir ei rhagweld, a dylem fod yn barod i roi trefniadau ar waith ar gyfer diwedd ein hoes. Mae gwneud cynlluniau sy'n nodi ein dymuniadau ac yn ymdrin â materion ymarferol yn bwysig iawn ar gyfer teuluoedd a'r rhai sy'n byw ymlaen i'r dyfodol. Gall gwybod lle y mae rhywun eisiau marw, er enghraifft, wneud gwahaniaeth enfawr ar ddiwedd oes—ymdeimlad a adleisir yng ngwelliant 3 a gyflwynir yn enw William Graham, yr wyf yn falch o'i gefnogi.

We will monitor the progress of the plan by looking at the number of people dying where they are cared for, and at those who are on registers and have advance plans in place. In order to plan effectively, we must improve communication, assisting our professionals to have open and honest conversations about death. The plan focuses on giving professionals the skills they need to discuss death with patients in a way that is realistic and puts the emphasis on getting the right arrangements in place; not avoiding difficult subjects.

Byddwn yn monitro cynnydd y cynllun drwy edrych ar nifer y bobl sy'n marw yn y man lle maent yn cael gofal, ac ar y rhai sydd ar gofrestrau ac y mae ganddynt gynlluniau ymlaen llaw. Er mwyn cynllunio'n effeithiol, mae'n rhaid inni wella cyfathrebu, a chynorthwyo ein gweithwyr proffesiynol i gael sgyrsiau agored a gonest am farwolaeth. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar roi'r sgiliau i weithwyr iechyd proffesiynol sydd eu hangen arnynt i drafod marwolaeth gyda chleifion mewn ffordd sy'n realistig ac sy'n rhoi'r pwyslais ar sicrhau bod y trefniadau iawn ar waith; nid osgoi pynciau anodd.

We all have a role to play in discussing how we wish to die with our families and close relatives. Ensuring that we have made our own wishes known by putting a will in place, for example, can reduce the stress on those left behind. Alongside planning and communication, better integration of services is also essential. We must work towards services being available wherever an individual wishes to die: in social care, in their home, or in a hospice. We must avoid unnecessary admissions to hospital for those in their last days of life, where they do not wish that to happen. To achieve this, the plan recognises the need to improve the skills of those working in the community, in care and social care homes, as well as those delivering services to individuals at home.

Mae gennym i gyd ran i'w chwarae wrth drafod sut yr ydym yn dymuno marw gyda'n teuluoedd a pherthnasau agos. Gall sicrhau ein bod wedi dweud beth yw ein dymuniadau drwy baratoi ewyllys, er enghraifft, leihau'r straen ar y rhai sydd ar ôl. Ochr yn ochr â chynllunio a chyfathrebu, mae hefyd yn hollbwysig integreiddio gwasanaethau'n well. Rhaid inni weithio tuag at sicrhau bod gwasanaethau ar gael ym mhle bynnag y mae unigolyn yn dymuno marw: mewn gofal cymdeithasol, yn eu cartref, neu mewn hosbis. Mae'n rhaid inni osgoi derbyn yn ddiangen i'r ysbyty y rhai hynny yn nyddiau olaf eu hoes, lle nad ydynt yn dymuno i hynny ddigwydd. Er mwyn gwneud hyn, mae'r cynllun yn cydnabod yr angen i wella sgiliau'r rhai sy'n gweithio yn y gymuned, mewn cartrefi gofal a gofal cymdeithasol, yn ogystal â'r rhai sy'n darparu gwasanaethau i unigolion yn eu cartrefi.

We will look at the number of emergency admissions for those receiving end-of-life care, and monitor the numbers of people who die in their place of care, to measure our success. Getting this balance right will take time, but it is important that we work towards it.

Byddwn yn edrych ar nifer y derbyniadau brys ar gyfer y rhai sy'n derbyn gofal diwedd oes, ac yn monitro nifer y bobl sy'n marw yn eu man gofal, i fesur ein llwyddiant. Bydd angen amser i gael y cydbwysedd hwn yn iawn, ond mae'n bwysig ein bod yn gweithio tuag ato.

Ddirprwy Lywydd, hoffwn orffen lle y dechreuais, sef, mai'r unigolyn a'i deulu sydd wrth galon ein gwasanaethau. Mae'r cynllun hwn yn rhoi pwyslais ar wrando ar farn unigolion a'u perthnasau, gwneud penderfyniadau ar y cyd, a defnyddio'u profiadau nhw i helpu i wella pethau. Wrth i fywyd dynnu at ei derfyn, mae eiliadau prin i'w trysori. Rwy'n edrych ymlaen at glywed y cyfraniadau i'r ddadl y prynhawn yma.

Deputy Presiding Officer, I would like to end as I began, by saying that the individual and his or her family are at the heart of our services. This plan puts an emphasis on listening to the views of individuals and their relatives, making joint decisions, and using their experiences to improve things. As life draws to an end, precious seconds are to be treasured. I look forward to hearing the contributions to this afternoon's debate.

17:32

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the five amendments to the motion and I call on Darren Millar to move amendments 1, 2, 3 and 5, tabled in the name of William Graham.

Yr wyf wedi dewis y pum gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliannau 1, 2, 3 a 5, a gyflwynwyd yn enw William Graham.

*Gwelliant 1—William Graham*

*Amendment 1—William Graham*

*Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 1 and replace with:*

*Yn nodi pwysigrwydd darparu gwasanaethau gofal diwedd oes o safon uchel yng Nghymru.*

*Notes the importance of the provision of high quality end of life care services in Wales.*

*Gwelliant 2—William Graham*

*Amendment 2—William Graham*

*Ychwanegu fel pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Add as new point 2 and renumber accordingly:*

*Yn cydnabod cyfraniad y mudiad hosbis, a darparwyr gofal eraill, tuag at ofal diwedd oes o safon uchel.*

*Recognises the contribution of the hospice movement, and other providers of care, towards high quality end of life care.*

*Gwelliant 3—William Graham*

*Amendment 3—William Graham*

*Ychwanegu fel pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Add as new point 2 and renumber accordingly:*

*Yn cydnabod pwysigrwydd parchu dymuniadau cleifion wrth ddarparu gofal diwedd oes.*

*Recognises the importance of respecting the wishes of patients in the provision of end of life care.*

*Gwelliant 5—William Graham*

*Amendment 5—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu y bydd toriadau termau real i'r gyllideb iechyd yn llesteirio'r cynnydd o ran gwella gofal diwedd oes yng Nghymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailflaenoriaethu'i chyllidebau i sicrhau bod adnoddau priodol ar gael.*

*Regrets that real term cuts to the health budget will hinder progress in improving end-of-life care in Wales and calls on the Welsh Government to reprioritise its budgets to ensure that appropriate resources are available.*

17:32

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 1, 2, 3 and 5 in the name of William Graham.

Cynigiaf welliannau 1, 2, 3 a 5 yn enw William Graham.

I am pleased to hear that the Minister is accepting amendments 2 and 3 that we have tabled. It comes as no surprise to us that he will be rejecting amendments 1 and 5, but we tabled those for the record and I will speak to all of them in a few moments. I also want to indicate that we will be supporting amendment 4, which has been tabled by Aled Roberts on behalf of the Welsh Liberal Democrats. We do recognise the role that direct payments have to play in supporting people at the end of their lives.

Rwyf yn falch o glywed bod y Gweinidog yn derbyn gwelliannau 2 a 3 a gyflwynwyd gennym. Nid yw'n syndod inni y bydd yn gwrthod gwelliannau 1 a 5, ond rydym wedi cyflwyno'r rheiny i'w rhoi ar gofnod, a byddaf yn siarad am bob un ohonynt ymhen ychydig funudau. Rwyf hefyd am nodi y byddwn yn cefnogi gwelliant 4, a gyflwynwyd gan Aled Roberts ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Rydym yn cydnabod y rhan sydd gan daliadau uniongyrchol i'w chwarae o ran cefnogi pobl ar ddiwedd eu hoes.

I was pleased to hear the Minister make reference in his opening remarks to the need to have person-centred care and not to forget that we are talking about people here, when we are talking about end-of-life care. I think that everybody in the Chamber would agree that we have to ensure that, at all stages in somebody's life, people deserve to have access to the highest quality care, and that includes at the end of their lives. I was pleased to see this plan being tied to some clear delivery outcomes and clear measures in terms of the ability of Assembly Members to hold the Government to account for its delivery. I am pleased, Minister, and I know that you will not step aside from your responsibility to ensure that this is delivered in the future.

Rwyf yn falch o glywed y Gweinidog yn cyfeirio yn ei sylwadau agoriadol at yr angen i gael gofal sy'n canolbwyntio ar y person ac i beidio ag anghofio ein bod yn sôn am bobl yma, pan fyddwn yn sôn am ofal diwedd oes. Credaf y byddai pawb yn y Siambr yn cytuno bod yn rhaid inni sicrhau bod pobl, ar bob adeg yn eu bywydau, yn haeddu cael gofal o'r ansawdd uchaf, ac mae hynny'n cynnwys ar ddiwedd eu hoes. Rwyf yn falch o weld y cynllun hwn yn cael ei glymu i rai canlyniadau cyflawni clir a mesurau clir o ran gallu Aelodau'r Cynulliad i ddal y Llywodraeth i gyfrif am ei gyflwyno. Rwyf yn falch, Weinidog, a gwn na fyddwch yn osgoi eich cyfrifoldeb i sicrhau bod hyn yn cael ei ddarparu yn y dyfodol.

When we talk about end-of-life care, particularly palliative care, we often link it inextricably to cancer care. This is not just about cancer care; there are people who suffer from Alzheimer's disease, pulmonary diseases, cardiac diseases and many other conditions who are in a position where we ought to be able to plan their end-of-life care more effectively. It is really important that, while we have made significant leaps in improving end-of-life care for those people who have had a cancer diagnosis, that is not always the case for people with non-malignant conditions. If you think about people who have Alzheimer's disease—a very specific condition—or other people with dementia, it is important to plan these things well in advance, in the early stages of dementia, before it becomes more difficult for a patient—an individual person—to be involved in the planning of the care that they will have.

Pan fyddwn yn sôn am ofal diwedd oes, yn enwedig gofal lliniarol, rydym yn aml yn ei gysylltu'n annatod â gofal canser. Mae hyn yn ymwneud â mwy na dim ond gofal canser; mae pobl sy'n dioddef o glefyd Alzheimer, clefyd yr ysgyfaint, clefydau cardiaidd a nifer o gyflyrau eraill sydd mewn sefyllfa lle dylem fod yn gallu cynllunio eu gofal diwedd oes yn fwy effeithiol. Mae'n bwysig iawn, er ein bod wedi cymryd camau sylweddol o ran gwella gofal diwedd oes i'r bobl hynny sydd wedi cael diagnosis o ganser, nad yw hyn yn wir bob amser ar gyfer pobl â chyflyrau anfalaen. Os meddyliwch am bobl sydd â chlefyd Alzheimer —cyflwr penodol iawn—neu bobl eraill sydd â dementia, mae'n bwysig cynllunio'r pethau hyn ymhell ymlaen llaw, yng nghamau cynnar dementia, cyn iddi fynd yn fwy anodd i glaf—sy'n unigolyn—fod yn rhan o gynllunio'r gofal y bydd yn ei gael.

It was also pleasing to hear the Minister take on board our reference to hospices and the hospice movement. My colleague Mark Isherwood, who chairs the cross-party group on palliative care, will speak a little more about the hospice movement in his contribution. However, it is disappointing that the hospice movement in Wales does not receive the same sort of financial support that is available to the hospice movement elsewhere in the UK. The Welsh Government ought to reflect on that and on the ability of the hospice movement to meet the demands that are being placed upon it.

Braf hefyd oedd clywed y Gweinidog yn derbyn ein cyfeiriad at hosbisau a'r mudiad hosbis. Bydd fy nghyd-weithiwr Mark Isherwood, sy'n cadeirio'r grŵp trawsbleidiol ar ofal lliniarol, yn siarad ychydig yn fwy am y mudiad hosbis yn ei gyfraniad yntau. Fodd bynnag, mae'n destun siom nad yw'r mudiad hosbis yng Nghymru yn derbyn yr un math o gymorth ariannol â'r mudiad hosbis mewn mannau eraill yn y DU. Dylai Llywodraeth Cymru feddwl am hynny ac am allu'r mudiad hosbis i ateb y gofynion sy'n cael eu gosod arno.

On the choice of location as to where people want to end their lives, it is important that we make more support available for people to be able to exercise their choice to die in a place of their choosing. We know that the statistics bear out that around 67% of people would like to die at home, but only 26% of people are currently doing so. Macmillan, in particular, has been a huge champion of patient choice at the end of life. In addition to the monitoring, what specific actions might the Government be able to take in order to improve the ability of people to make that choice and have that choice enacted in the future?

O ran dewis lle mae pobl eisiau diweddu eu hoes, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod mwy o gefnogaeth ar gael i bobl allu arfer eu dewis i farw yn y man y maent yn ei ddewis. Rydym yn gwybod bod yr ystadegau'n cadarnhau y byddai tua 67% o bobl yn hoffi marw gartref, ond ar hyn o bryd dim ond 26% o bobl sy'n gwneud hynny. Mae Macmillan, yn arbennig, wedi bod yn frwd dros hyrwyddo dewis i gleifion ar ddiwedd eu hoes. Yn ogystal â'r monitro, pa gamau penodol y gallai'r Llywodraeth eu cymryd er mwyn gwella gallu pobl i wneud y dewis hwnnw a sicrhau y caiff y dewis hwnnw ei roi ar waith yn y dyfodol?

I was pleased to see a couple of references in the delivery plan to the role of carers. I do not think that their role has been emphasised enough in the delivery plan; that is one area where it is deficient. I know that the Government values the role of carers, and their contribution is vital in terms of support for their loved ones, particularly in exercising that choice in terms of where people might want to die. Will you reflect on that, Minister, and on whether there is an opportunity to see more reference in the individual local health board delivery plans to the role of carers and the support that they can bring?

Rwyf yn falch o weld un neu ddau o gyfeiriadau yn y cynllun cyflenwi at rôl gofalwyr. Nid wyf yn credu bod digon o bwyslais ar eu rôl yn y cynllun cyflenwi; dyna un maes lle mae'n ddiffygiol. Gwn fod y Llywodraeth yn gwerthfawrogi rôl gofalwyr, ac mae eu cyfraniad yn hollbwysig o ran cefnogi eu hanwyliaid, yn enwedig wrth arfer dewis o ran ble y gallai pobl fod eisiau marw. A wnewch chi ystyried hynny, Weinidog, ac ystyried a oes cyfle i gynnwys mwy o gyfeirio yng nghynlluniau cyflenwi byrddau iechyd lleol unigol at rôl gofalwyr a'r gefnogaeth y gallant ei chynnig?

I have one final note and that is that there are specialist areas of palliative care that also need to be further referenced, in particular children's palliative care. Will you make some reference to that, Minister, in your summing up of today's debate?

Ar un nodyn olaf, mae meysydd arbenigol o ofal lliniarol y mae angen cyfeirio atynt ymhellach hefyd, a gofal lliniarol plant yn benodol. A wnewch chi gyfeirio rhywfaint at hynny, Weinidog, wrth ichi grynhoi'r ddadl heddiw?

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r manteision y gall taliadau uniongyrchol eu cynnig i wella profiad y claf ar gyfer pobl sy'n cael gofal diwedd oes.*

*Calls on the Welsh Government to review the benefits that direct payments can offer to improve the patient experience for people in receipt of end-of-life care.*

17:38

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendment 4 in the name of Aled Roberts.

Cynigiaf welliant 4 yn enw Aled Roberts.

The Welsh Liberal Democrat group sincerely believes that, in the right cases, direct payments have a role to play in assisting people to have the end-of-life care that suits them best. Deputy Presiding Officer, like tax, death is one of life's few certainties, yet, despite that, as a society, we find it very difficult indeed to talk about these issues ahead of time and to be open and frank within families and within society about these realities. The Welsh Liberal Democrats welcome the publication of this document. Like Darren Millar said, it is a document that, for once from the Welsh Government, is full of measurable outcomes. It clearly states what success looks like and indicates what it hopes to achieve by the end of the life of this particular document. I welcome that very much.

Mae grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ddiffuant yn credu, yn yr achosion iawn, fod gan daliadau uniongyrchol ran i'w chwarae wrth helpu pobl i gael y gofal diwedd oes sy'n gweddu orau iddynt. Ddirprwy Lywydd, fel trethi, marwolaeth yw un o'r ychydig bethau sy'n sicr mewn bywyd, ac eto, er gwaethaf hynny, fel cymdeithas, rydym yn ei chael yn anodd iawn siarad am y materion hyn ymlaen llaw a bod yn agored ac yn onest o fewn teuluoedd ac o fewn cymdeithas am y gwirioneddau hyn. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n croesawu cyhoeddi'r ddogfen hon. Fel y dywedodd Darren Millar, mae'n ddogfen sydd, am unwaith gan Lywodraeth Cymru, yn llawn canlyniadau mesuradwy. Mae'n datgan yn glir sut y mae llwyddiant yn edrych ac yn dangos yr hyn y mae'n gobeithio ei gyflawni erbyn diwedd oes y ddogfen benodol hon. Rwyf yn croesawu hynny'n fawr iawn.

However, end-of-life care should not just be about a policy document. It should not be policy based or a systematic approach. It has to capture the individual wishes of that person and of their family. Professionals have a responsibility to ensure that patients and their families understand their rights and the choices available to them for their end-of-life care, because, as Darren Millar said, there is a huge discrepancy at present between the wishes of people—the vast majority of whom want to die at home surrounded by their family—and the ability of people to do that.

Fodd bynnag, ni ddylai gofal diwedd oes ymwneud â dogfen bolisi yn unig. Ni ddylai fod yn seiliedig ar bolisi nac yn ddull systematig. Mae'n rhaid iddo gofleidio dymuniadau unigol y person hwnnw a'i deulu. Mae gan weithwyr proffesiynol gyfrifoldeb i sicrhau bod cleifion a'u teuluoedd yn deall eu hawliau a'r dewisiadau sydd ar gael iddynt o ran gofal diwedd oes, oherwydd, fel y dywedodd Darren Millar, mae anghysondeb mawr ar hyn o bryd rhwng dymuniadau pobl—mae'r mwyafrif helaeth ohonynt yn awyddus i farw gartref gyda'u teulu o'u hamgylch—a gallu pobl i wneud hynny.

There are some significant barriers to making that happen. First are the skills of professionals working within the community to manage that process, and the support for carers and individuals to manage that process at home. I find this particularly difficult to talk about, given my own family's experience last year. I literally still have nightmares about the last night of my father's life. The voluntary organisation that is well-known in Wales for providing overnight support to families was not able to provide support for a further four days. That was the earliest that my family could have an overnight sitter. My father had long passed away before that resource became available. I watched as well-meaning and qualified professionals struggled during daytime hours to manage his symptoms. Believe me, at 3 a.m. as you watch your family member suffer, you really do begin to question why people sometimes take drastic action. It was the loneliest three hours of my life as I waited for the rapid response team to come to try to control my father's symptoms. However, we managed to achieve the death that he wanted—at home, surrounded by his family. Despite the awfulness of it I, for one, am really glad that we managed to achieve that for him. The issue is that other families may have resorted to ringing 999 and their loved one may have ended up in a hospital. So, we need to ensure that practitioners have skills and that there is 24-hour support available to families. Support during the daytime hours was very good and it was there. However, after 5 p.m. that support became very difficult to get hold of.

Mae rhai rhwystrau sylweddol o ran gwneud i hynny ddigwydd. Y cyntaf yw sgiliau gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y gymuned i reoli'r broses honno, a'r gefnogaeth i ofalwyr ac unigolion reoli'r broses honno yn y cartref. Rwyf yn ei chael yn hynod anodd siarad am hyn, o ystyried profiad fy nheulu fy hun y llynedd. Rwyf yn llythrennol yn dal i gael hunllefau am noson olaf bywyd fy nhad. Nid oedd y sefydliad gwirfoddol sy'n adnabyddus yng Nghymru am ddarparu cefnogaeth dros nos i deuluoedd yn gallu darparu cefnogaeth am bedwar diwrnod arall. Dyna oedd y cynharaf y gallai fy nheulu gael eisteddwr dros nos. Roedd fy nhad wedi hen farw cyn i'r adnodd hwnnw fod ar gael. Gwyliais wrth i weithwyr proffesiynol cymwysedig a chanddynt fwriadau da ymdrechu yn ystod y dydd i reoli ei symptomau. Credwch fi, am 3 o'r gloch y bore wrth ichi wylio aelod o'r teulu'n dioddef, rydych yn dechrau gofyn pam mae pobl weithiau'n cymryd camau eithafol. Dyna deirawr mwyaf unig fy mywyd wrth imi aros i'r tîm ymateb cyflym ddod er mwyn ceisio rheoli symptomau fy nhad. Fodd bynnag, llwyddwyd i gyflawni'r farwolaeth yr oedd arno ef ei heisiau—gartref, gyda'i deulu o'i amgylch. Er mor ofnadwy oedd y sefyllfa roeddwn i, yn un, yn falch iawn ein bod wedi llwyddo i gyflawni hynny iddo. Y broblem yw y gallai teuluoedd eraill fod wedi troi at ffonio 999 a gallai eu hanwylyd fod wedi mynd i'r ysbyty. Felly, mae angen inni sicrhau bod gan ymarferwyr sgiliau a bod cefnogaeth 24 awr ar gael i deuluoedd. Roedd cymorth yn ystod y dydd yn dda iawn ac roedd ar gael. Fodd bynnag, ar ôl 5 y prynhawn roedd yn anodd iawn cael y gefnogaeth honno.

In conclusion, Minister, what engagement is the Welsh Government having with the Westminster Government's review into the Liverpool care pathway? This has filled our media airways recently and there have been lots of high-profile cases about the views that the Liverpool care pathway is, in some way, deficient. The review has been started, under the chairmanship of the cross bencher Baroness Neuberger. I would be grateful to hear from the Minister what engagement the Welsh Government is having with that review of the Liverpool care pathway. At present, there is a great deal of public disquiet about that. We need to have some clarity for the public and for the medics who are working in this particular field, and I would be grateful to hear from the Minister how he is engaging with that process.

I gloi, Weinidog, sut mae Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu ag adolygiad Llywodraeth San Steffan o lwybr gofal Lerpwl? Mae hyn wedi llenwi'r cyfryngau yn ddiweddar a chafwyd llawer o achosion proffil uchel am y safbwyntiau bod llwybr gofal Lerpwl, mewn rhyw ffordd, yn ddiffygiol. Mae'r adolygiad wedi dechrau, o dan gadeiryddiaeth y croes feinciwr y Farwnes Neuberger. Byddwn yn ddiolchgar cael clywed gan y Gweinidog pa ymgysylltu sydd rhwng Llywodraeth Cymru a'r adolygiad hwnnw o lwybr gofal Lerpwl. Ar hyn o bryd, mae llawer iawn o anniddigrwydd ymhlith y cyhoedd am hyn. Mae angen rhywfaint o eglurder ar gyfer y cyhoedd ac ar gyfer y meddygon sy'n gweithio yn y maes arbennig hwn, a byddwn yn ddiolchgar cael clywed gan y Gweinidog sut y mae'n ymgysylltu â'r broses honno.

17:42 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

Plaid Cymru will be supporting amendments 1, 2 and 3. We are not against reviewing the benefits, as in amendment 4, but we would be against direct payments, and we will be voting against amendment 5.

Bydd Plaid Cymru yn cefnogi gwelliannau 1, 2 a 3. Nid ydym yn erbyn adolygu'r budd-daliadau, fel y nodir yng ngwelliant 4, ond byddem yn erbyn taliadau uniongyrchol, a byddwn yn pleidleisio yn erbyn gwelliant 5.

A lot of the tone of 'Together For Health: Delivering End of Life Care' is very much what we are hearing from the Welsh NHS at the moment. Indeed, it is not dissimilar to what I heard at the public meeting, which I mentioned earlier. We are being told that the care model is outdated and needs to take into account an ageing population and that care should be moved back into the home. There are all sorts of ideas that may support that. However, the proof, of course, is still to lie in the pudding. Plaid Cymru supports the intention of the Government to provide more choice for people about where they die, but it is the outcome and how this care is delivered that remains the issue.

Mae tinc cryf o 'Law yn Llaw at Iechyd: Darparu Gofal Diwedd Oes' yn yr hyn yr ydym yn ei glywed gan y GIG yng Nghymru ar hyn o bryd. Yn wir, nid yw'n annhebyg i'r hyn a glywais yn y cyfarfod cyhoeddus, a grybwyllais yn gynharach. Dywedir wrthym fod y model gofal yn hen ffasiwn a bod angen iddo ystyried poblogaeth sy'n heneiddio ac y dylid symud gofal yn ôl i'r cartref. Mae pob math o syniadau a allai gefnogi hynny. Fodd bynnag, wrth ei flas, wrth gwrs, y mae profi pwdin o hyd. Mae Plaid Cymru yn cefnogi bwriad y Llywodraeth i ddarparu mwy o ddewis i bobl ynghylch ble maent yn marw, ond y mater dan sylw o hyd yw'r canlyniad a sut y mae'r gofal hwn yn cael ei ddarparu.

Our manifesto commitment states that we will work with the voluntary sector towards a consistent approach to funding for hospices and palliative care in the community, and we will ensure that the necessary medical skills exist in every community so that people can die in their own homes if that is what they wish. It is crucial for us as scrutineers to pay close attention to the performance indicators set out and to ask the Welsh Government to outline in more detail how it will achieve its aims. My main concern is that if we implement a system that is not fully robust, we may end up with people dropping off the radar. It makes all the difference between going home to die and being sent home to die. There are many incidences in my area where processes are failing people, so that those who are waiting to go into hospital or a nursing home sadly end up dying in their home because they did not get the treatment that they needed. So, while it is important that we support people's right to die at home, many people whom I have spoken to locally feel that it is not the appropriate location for them or their loved ones.

Mae ein maniffesto yn nodi ymrwymiad i weithio gyda'r sector gwirfoddol tuag at ddull cyson o gyllido hosbisau a gofal lliniarol yn y gymuned, a byddwn yn sicrhau bod y sgiliau meddygol angenrheidiol ar gael ym mhob cymuned fel y gall pobl farw yn eu cartrefi eu hunain os dyna yw eu dymuniad. Mae'n hollbwysig ein bod ni fel craffwyr yn rhoi sylw manwl i'r dangosyddion perfformiad a nodwyd ac yn gofyn i Lywodraeth Cymru amlinellu'n fanylach sut y bydd yn cyflawni ei nodau. Fy mhrif bryder yw, os byddwn yn gweithredu system nad yw'n gwbl gadarn, efallai y bydd pobl yn y pen draw yn disgyn oddi ar y radar. Mae byd o wahaniaeth rhwng mynd adref i farw a chael eich anfon adref i farw. Mae llawer o enghreifftiau yn fy ardal i lle mae'r prosesau'n siomi pobl, ac mae'r rhai hynny sy'n aros i fynd i ysbyty neu gartref nyrsio yn anffodus yn y pen draw yn marw yn eu cartrefi oherwydd na chawsant y driniaeth yr oedd ei hangen arnynt. Felly, er ei bod yn bwysig ein bod yn cefnogi hawl pobl i farw yn eu cartrefi, mae llawer o bobl yr wyf wedi siarad â hwy'n lleol yn teimlo nad dyna'r lle priodol iddynt hwy neu eu hanwyliaid.

I am more than happy to back greater integration between health and social care. Again, as we mentioned in the previous statement from the Minister, in fact, as we should acknowledge, it is essential. It should therefore reduce costs but provide a comprehensive and seamless service for users. However, again, I worry that we have yet to see the full details as to how this will be done.

Yr wyf yn fwy na hapus cefnogi mwy o integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Unwaith eto, fel y nodwyd yn y datganiad blaenorol gan y Gweinidog, mewn gwirionedd, fel y dylem gydnabod, mae'n hanfodol. Felly, dylai leihau costau ond darparu gwasanaeth cynhwysfawr a di-dor i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, unwaith eto, rwyf yn poeni nad ydym eto wedi gweld manylion llawn ynghylch sut y bydd hyn yn cael ei wneud.

Funding for hospices needs to be reformed, so that hospices can plan care on a long-term basis. The specific needs of services in rural areas need to be addressed through any funding changes. The lack of funding for community-based healthcare services is indicative of how health boards have struggled to provide these services properly. I have real concerns here, because the promises that we hear are frequently not borne out in evidence on the ground.

Mae angen diwygio cyllid ar gyfer hosbisau, fel y gall hosbisau gynllunio gofal ar sail tymor hir. Mae angen mynd i'r afael ag anghenion penodol gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig drwy unrhyw newidiadau mewn cyllid. Mae diffyg arian i wasanaethau gofal iechyd yn y gymuned yn arwydd o'r ffordd y mae byrddau iechyd wedi ei chael yn anodd darparu'r gwasanaethau hyn yn briodol. Mae gennyf bryderon go iawn yma, gan nad yw'r addewidion yr ydym yn eu clywed yn aml yn cael eu cadarnhau mewn tystiolaeth ar lawr gwlad.

Finally, as others have mentioned, the role of Marie Curie nurses in our communities is important. You will all know that I am doing a swimathon on Friday for Marie Curie. In all seriousness, I met the Marie Curie nurses who work in Neath Port Talbot. The sterling work that they do in going into people's homes to ensure that they can die with dignity is vital. If we can secure more provision or support for those services, that may take up the slack for the health boards, which, as we know, are struggling at the moment in that particular area. End of life is something that we find difficult to discuss as human beings. However, at the end of the day, we have to discuss these issues instead of perhaps sometimes trying to talk around them. Perhaps the Minister could be open to new ideas with regard to how charities and third sector organisations could become more involved—I am not saying the private sector, before anybody raises that, but it is important that we acknowledge the hard work that is done by organisations other than the health service as you would naturally see it.

Yn olaf, fel y mae eraill wedi sôn, mae rôl nyrsys Marie Curie yn ein cymunedau yn bwysig. Bydd pob un ohonoch yn gwybod fy mod yn gwneud Swimathon ddydd Gwener ar gyfer Marie Curie. A siarad o ddifrif, cwrddais â'r nyrsys Marie Curie sy'n gweithio yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae'r gwaith rhagorol y maent yn ei wneud wrth fynd i gartrefi pobl er mwyn sicrhau eu bod yn gallu marw gydag urddas yn hanfodol. Os gallwn sicrhau mwy o ddarpariaeth neu gefnogaeth ar gyfer y gwasanaethau hyn, gallai hynny ddal y slac yn dynn ar gyfer y byrddau iechyd, sydd, fel y gwyddom, yn ei chael yn anodd ar hyn o bryd yn y maes penodol hwnnw. Mae diwedd oes yn rhywbeth yr ydym yn ei chael yn anodd ei drafod fel bodau dynol. Fodd bynnag, yn y pen draw, mae'n rhaid inni drafod y materion hyn yn hytrach, efallai, na cheisio eu hosgoi weithiau. Efallai y gallai'r Gweinidog fod yn agored i syniadau newydd o ran sut y gallai elusennau a mudiadau'r trydydd sector chwarae mwy o ran—nid wyf yn dweud y sector preifat, cyn i unrhyw un godi hynny, ond mae'n bwysig ein bod yn cydnabod y gwaith caled sy'n cael ei wneud gan sefydliadau heblaw'r gwasanaeth iechyd fel y byddech yn gweld hynny'n naturiol.

17:47 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The subject of this debate has been recognised—as has already been mentioned—as one that could be uncomfortable for many people to discuss, especially when talking about loved ones. However, I would like to commend the Welsh Government on the publication of 'Together for Health—Delivering End of Life Care, A Delivery Plan up to 2016 for NHS Wales and its Partners', so that we can open up the debate in the public arena. End-of-life care is a vital area, particularly given our rapidly ageing population. It is becoming ever more important to raise awareness of what constitutes one of the most difficult periods faced by individuals and their families. In particular, I wish to congratulate the Government on its holistic approach to this issue—an approach that aims to provide a package of care that is both fitting and dignified, and that embraces a more rounded vision of end-of-life care. There are several key aspects of end-of-life care highlighted in the publication that represent fundamental principles that must be followed if we are to achieve the kind of service provision that patients want delivered.

Cydnabuwyd y gallai pwnc y ddadl hon—fel sydd eisoes wedi ei grybwyll—fod yn anghyfforddus i lawer o bobl ei drafod, yn enwedig wrth siarad am anwyliaid. Fodd bynnag, hoffwn ganmol Llywodraeth Cymru ar gyhoeddi 'Law yn Llaw at Iechyd—Darparu Gofal Diwedd Oes, Cynllun Cyflenwi hyd at 2016 ar gyfer GIG Cymru ynghyd â'i Bartneriaid', fel y gallwn agor y ddadl hon yn llygad y cyhoedd. Mae gofal diwedd oes yn faes hollbwysig, yn enwedig o ystyried ein poblogaeth sy'n heneiddio'n gyflym. Mae'n dod yn fwyfwy pwysig codi ymwybyddiaeth o un o'r cyfnodau mwyaf anodd a wynebir gan unigolion a'u teuluoedd. Yn benodol, hoffwn longyfarch y Llywodraeth ar ei hymagwedd gyfannol at y mater hwn—ymagwedd sy'n ceisio darparu pecyn gofal sy'n addas ac yn urddasol, ac sy'n cynnwys gweledigaeth fwy cyflawn o ofal diwedd oes. Mae'r cyhoeddiad yn amlygu nifer o agweddau allweddol ar ofal diwedd oes sy'n cynnig egwyddorion sylfaenol y mae'n rhaid eu dilyn os ydym am ddarparu gwasanaethau yn y ffordd y mae cleifion am ei weld.

As the Minister has said, these individuals must be viewed as people, not just as patients or service users. A focus on developing a person-centred, tailored-to-fit care provision is critical to respecting each person's wishes and hopes. People have a right to be treated with dignity and respect, and to expect a high-quality level of care wherever they choose to receive it, be that in a specialist facility or in their own home. This emphasis on the individual is crucial, so that they maintain control over their own circumstances and have a say in their care arrangements.

Fel y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud, rhaid i'r unigolion hyn gael eu gweld fel pobl, nid dim ond fel cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth gofal wedi'i theilwra sy'n canolbwyntio ar unigolion yn hanfodol er mwyn parchu dymuniadau a gobeithion pob unigolyn. Mae gan bobl hawl i gael eu trin gydag urddas a pharch, ac i ddisgwyl gofal o ansawdd uchel ble bynnag y byddant yn dewis ei gael, boed hynny mewn cyfleuster arbenigol neu yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r pwyslais ar yr unigolyn yn hanfodol, er mwyn iddynt gadw rheolaeth dros eu hamgylchiadau eu hunain a sicrhau bod ganddynt lais yn eu trefniadau gofal.

To achieve this, it is important to identify patients who will have changing care needs towards the end of their life at an early stage through the use of palliative care registers and regular multi-disciplinary team meetings, involving primary and social care. Such an approach will help patients and their families to make realistic choices for care while having confidence that those choices will be fulfilled. Such services may include medication, 24/7 care, care teams providing support with personal hygiene, respite care, and many other issues. This emphasises that end-of-life care is not simply a health issue. It involves other sector partners and third sector groups, as well as patients and their families. There is a need for effective and productive collaboration between the NHS, local government, the third sector and the Welsh Government in order to provide well-coordinated and integrated whole-service provision. Social care provides people with the support needed to remain in their own homes, and support for those caring for their loved ones as well. We cannot forget that.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n bwysig adnabod yn gynnar gleifion y bydd eu hanghenion gofal yn newid tuag at ddiwedd eu hoes drwy ddefnyddio cofrestrau gofal lliniarol a chyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol rheolaidd, sy'n cynnwys gofal sylfaenol a chymdeithasol. Bydd dull o'r fath yn helpu cleifion a'u teuluoedd i wneud dewisiadau realistig ar gyfer gofal ac yn rhoi hyder iddynt y bydd y dewisiadau hynny'n cael eu parchu. Gall gwasanaethau o'r fath gynnwys meddyginiaeth, gofal 24/7, timau gofal sy'n cynorthwyo â hylendid personol, gofal seibiant, a llawer o faterion eraill. Mae hyn yn pwysleisio bod gofal diwedd oes yn ymwneud â mwy na dim ond iechyd. Mae'n cynnwys partneriaid eraill yn y sector a grwpiau'r trydydd sector, yn ogystal â chleifion a'u teuluoedd. Mae angen cydweithio effeithiol a chynhyrchiol rhwng y GIG, llywodraeth leol, y trydydd sector a Llywodraeth Cymru er mwyn cynnig darpariaeth gwasanaeth cyfan wedi'i chydlynu a'i hintegreiddio'n dda. Mae gofal cymdeithasol yn rhoi i bobl y cymorth sydd ei angen arnynt i aros yn eu cartrefi eu hunain, a chefnogaeth i'r rhai sy'n gofalu am eu hanwyliaid hefyd. Rhaid inni beidio ag anghofio hynny.

At this point, I want to highlight the publication's recognition of the excellent work of third sector organisations such as Marie Curie. I know that there are many others: Macmillan Cancer Support and the Alzheimer's Society have already been mentioned. I want to focus on Marie Curie. Bethan has already highlighted the fact that, in my constituency, there is a team that works alongside Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board staff. This has a tremendous impact on delivering high-quality end-of-life care for people in the local area. I have also met this team and its partners, and it is a scheme that I would encourage others to follow.

Hoffwn yn awr dynnu sylw at gydnabyddiaeth y cyhoeddiad o waith ardderchog sefydliadau yn y trydydd sector, megis Marie Curie. Gwn fod llawer o rai eraill: mae Cymorth Canser Macmillan a Chymdeithas Alzheimer eisoes wedi eu crybwyll. Rwyf am ganolbwyntio ar Marie Curie. Mae Bethan eisoes wedi tynnu sylw at y ffaith fod tîm, yn fy etholaeth i, sy'n gweithio ochr yn ochr â staff Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae hyn yn cael effaith aruthrol ar ddarparu gofal diwedd oes o ansawdd uchel i bobl yn yr ardal leol. Rwyf hefyd wedi cyfarfod y tîm hwn a'i bartneriaid, ac mae'n gynllun y byddwn yn annog eraill i'w ddilyn.

I know from personal experience of the impact that this has on patients in their last days and on their families. Similar to the experiences related by Kirsty Williams, in the final days of my father's life, in December, the close working relationship between Marie Curie staff and the district nursing staff provided him, and us, with the nursing and care support he needed at that time, day and night, ensuring that he died in his own home, in the company of his family, as he would have wanted. It allowed me to sit with him and ensure that he did not die alone—which is something that can haunt family members if it happens.

Gwn o brofiad personol am yr effaith a gaiff hyn ar gleifion yn eu dyddiau olaf ac ar eu teuluoedd. Yn debyg i'r profiadau a adroddwyd gan Kirsty Williams, yn nyddiau olaf bywyd fy nhad, ym mis Rhagfyr, rhoddodd y berthynas waith agos rhwng staff Marie Curie a'r staff nyrsio ardal iddo ef, ac i ninnau, y gefnogaeth nyrsio a'r gofal yr oedd eu hangen ar y pryd, ddydd a nos, a chafodd farw yn ei gartref ei hun, yng nghwmni ei deulu, fel y byddai wedi ei ddymuno. Golygai y gallwn eistedd gydag ef a sicrhau na fu farw ar ei ben ei hun—sydd yn rhywbeth a all aros gydag aelodau o'r teulu pan fydd yn digwydd.

I also know that we should encourage and provide the support at an early stage, as appropriate to the patient's needs. However, this requires good communication from and between clinicians, together with the family being involved in and accepting the difficult decisions and discussions that have to follow. Again, my personal experience reflects a mixed bag of practices. On the clinician side, I had some discussions with them that did not always work wonderfully, but I also have to admit putting off until as late as possible discussing the need for end-of-life care. It is important for families not only to be more aware of the diagnosis, but also of the support is out there, and for them to feel encouraged and confident to embrace the support and make good use of it.

Rwyf hefyd yn gwybod y dylem annog a rhoi'r cymorth hwn yn gynnar, fel sy'n briodol i anghenion y claf. Fodd bynnag, mae hyn yn gofyn am gyfathrebu da gan glinigwyr a rhwng clinigwyr, ynghyd â sicrhau bod y teulu'n cymryd rhan ac yn derbyn y penderfyniadau a'r trafodaethau anodd a ddaw wedyn. Unwaith eto, mae fy mhrofiad personol yn adlewyrchu amrywiaeth o arferion. O safbwynt y clinigwyr, cefais rywfaint o drafodaethau â hwy nad oedd bob amser yn gweithio'n wych, ond mae'n rhaid imi hefyd gyfaddef imi ohirio trafod yr angen am ofal diwedd oes cyhyd ag yr oedd yn bosibl. Mae'n bwysig i deuluoedd nid yn unig fod yn fwy ymwybodol o'r diagnosis, ond hefyd o'r gefnogaeth sydd ar gael, a'u bod yn teimlo'u bod yn cael eu hannog i gofleidio'r gefnogaeth a gwneud defnydd da ohoni, a theimlo'n hyderus wrth wneud hynny.

Mae'r misoedd, wythnosau a dyddiau sy'n weddill i berson yn werthfawr iawn. Dylai cymdeithas fod yn gyfrifol am ddarparu ffordd o helpu rhywun yn ystod ei ddyddiau olaf mewn modd urddasol, a helpu'r teulu i ymdopi â'i brofedigaeth.

The months, weeks and days remaining in a person's life are very valuable. Society should be responsible for providing a means of helping people during their last days in a dignified way, and of helping the family to deal with their bereavement.

17:51

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As chair of the cross-party group on hospices and palliative care, I have consulted Hospices Cymru to inform my contribution to this debate. Last week, it responded to the Welsh Government's 'Together for Health—Delivering End of Life Care, A Delivery Plan up to 2016 for NHS Wales and its Partners'. Hospices are key to the delivery of that plan. They are confident that, by working together to achieve its aims, NHS Wales and local hospices can make a lasting difference to patients and their families.

Fel cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar hosbisau a gofal lliniarol, rwyf wedi ymgynghori â Hosbisau Cymru i lywio fy nghyfraniad i'r ddadl hon. Yr wythnos diwethaf, ymatebodd i, 'Law yn Llaw at Iechyd—Darparu Gofal Diwedd Oes, Cynllun Cyflenwi hyd at 2016 ar gyfer GIG Cymru ynghyd â'i Bartneriaid' Llywodraeth Cymru. Mae hosbisau yn allweddol i ddarparu'r cynllun hwnnw. Maent yn hyderus, drwy weithio gyda'i gilydd i gyflawni ei nodau, y gall GIG Cymru a hosbisau lleol wneud gwahaniaeth parhaol i gleifion a'u teuluoedd.

The majority of end-of-life care in Wales is provided by hospices in a range of settings, including in-patient units and hospice-at-home services. It is vital that, at a local level, health boards make full use of hospices' expertise to ensure that they best meet the needs of their communities. Across Wales, each year local charitable hospices care for more than 5,500 people who are affected by terminal illness, and hospices are, of course, owned by their communities, commanding widespread public support. Our ageing population means that hospices are increasingly seeing people with complex health needs, often involving care for more than one condition. Access to cost-effective, high-quality palliative and end-of-life care will become ever more important. The number of new patients seeking support from local independent hospices has increased by more than 15% during the past four years alone. There are lessons that the NHS can learn from our hospices, especially with regard to the integration of care services in the home, community, hospital and hospice.

Mae'r rhan fwyaf o ofal diwedd oes yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan hosbisau mewn amryw o leoliadau, gan gynnwys unedau i gleifion mewnol a gwasanaethau hosbis yn y cartref. Mae'n hanfodol bod byrddau iechyd, ar lefel leol, yn gwneud defnydd llawn o arbenigedd yr hosbisau i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion eu cymunedau yn y ffordd orau. Ar draws Cymru, bob blwyddyn mae hosbisau elusennol lleol yn gofalu am fwy na 5,500 o bobl y mae salwch terfynol yn effeithio arnynt, a chaiff hosbisau, sydd, wrth gwrs, yn eiddo i'w cymunedau, gefnogaeth gyhoeddus eang. Mae ein poblogaeth yn heneiddio ac mae hynny'n golygu bod hosbisau fwyfwy'n gweld pobl ag anghenion iechyd cymhleth, yn aml yn ymwneud â gofalu am fwy nag un cyflwr. Bydd mynediad at ofal lliniarol a diwedd oes cost-effeithiol, o ansawdd uchel yn dod yn fwyfwy pwysig. Mae nifer y cleifion newydd sy'n ceisio cymorth gan hosbisau annibynnol lleol wedi cynyddu fwy na 15% yn ystod y pedair blynedd diwethaf yn unig. Mae gwersi y gall y GIG eu dysgu oddi wrth ein hosbisau, yn enwedig o ran integreiddio gwasanaethau gofal yn y cartref, yn y gymuned, yn yr ysbyty ac yn yr hosbis.

Despite pressures on public spending, NHS investment in palliative care must be sustained. However, average statutory funding varies greatly across the UK. According to the latest available hospice accounts in Wales, average Welsh Government funding for hospices in Wales was 23% of expenditure, down from 24% in the previous year and varying between 17% and 44%. Overall, hospices in Wales receive less Government funding as a proportion of expenditure than those in England, at 34%, and Scotland, at 46%. While welcoming the delivery plan, Hospices Cymru emphasised the importance of hospices being at the forefront of this. Hospices provide the majority of end-of-life care in the community and have a vast amount of experience in delivering these expert services. They therefore need to be fully engaged, not only in assisting the Welsh NHS in delivering the plan, but in training staff at care homes and in the NHS.

Er gwaethaf y pwysau ar wariant cyhoeddus, rhaid i'r GIG barhau i fuddsoddi mewn gofal lliniarol. Fodd bynnag, mae cyllid statudol ar gyfartaledd yn amrywio'n fawr ar draws y DU. Yn ôl cyfrifon diweddaraf yr hosbisau sydd ar gael yng Nghymru, roedd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfartaledd ar gyfer hosbisau yng Nghymru yn 23% o'r gwariant, i lawr o 24% y flwyddyn gynt ac yn amrywio rhwng 17% a 44%. At ei gilydd, mae hosbisau yng Nghymru yn derbyn llai o arian y Llywodraeth fel cyfran o wariant na'r rhai yn Lloegr, lle mae'n 34%, a'r Alban, lle mae'n 46%. Er eu bod yn croesawu'r cynllun cyflenwi, pwysleisiodd Hosbisau Cymru bwysigrwydd sicrhau bod hosbisau ar flaen y gad yn hyn o beth. Hosbisau sy'n darparu'r rhan fwyaf o ofal diwedd oes yn y gymuned ac mae ganddynt lawer iawn o brofiad o ran darparu'r gwasanaethau arbenigol hyn. Felly, mae angen iddynt ymgysylltu'n llawn, nid yn unig wrth gynorthwyo'r GIG yng Nghymru i gyflawni'r cynllun, ond wrth hyfforddi staff mewn cartrefi gofal ac yn y GIG.

The delivery plan itself is a very general one, detailing how end-of-life care should be delivered, whatever the setting. There is, therefore, a huge workforce to be trained and educated. It is vital that hospices are given as a minimum a three-year service level agreement at current funding levels to enable them to continue to deliver their invaluable services.

Mae'r cynllun cyflenwi ei hun yn un cyffredinol iawn, yn manylu ar sut y dylid darparu gofal diwedd oes, beth bynnag fo'r lleoliad. Felly, mae gweithlu mawr i'w hyfforddi a'i addysgu. Mae'n hanfodol bod hosbisau'n cael cytundeb lefel gwasanaeth tair blynedd o leiaf ar y lefelau ariannu presennol i'w galluogi i barhau i ddarparu eu gwasanaethau amhrisiadwy.

However, I was told only this morning by the chair of Hospices Cymru that hospices in Wales are still struggling to get more than a single year's service level agreement from any health board, and in some areas they still have no service level agreements. Some health boards are potentially cutting service level agreements and funding for the voluntary sector, which would increase their costs and devastate end of life patient care. On average, hospices in Wales are already topping up the NHS by 70%. To even consider cutting these vital services is unbelievable. Charitable hospices need to be recognised as absolutely key to delivery. There is growing acknowledgement across the health and social care sectors of the benefits of hospice and palliative care for people with both cancer and non-cancer diagnoses. MS Cymru states

Fodd bynnag, dywedwyd wrthyf y bore yma gan gadeirydd Hosbisau Cymru fod hosbisau yng Nghymru yn dal i'w chael yn anodd cael cytundeb lefel gwasanaeth am fwy nag un flwyddyn gan unrhyw fwrdd iechyd, ac mewn rhai ardaloedd, maent yn dal heb unrhyw gytundebau lefel gwasanaeth. Mae posibilrwydd bod rhai byrddau iechyd yn torri cytundebau lefel gwasanaeth a chyllid ar gyfer y sector gwirfoddol, a fyddai'n cynyddu eu costau ac yn dinistrio gofal diwedd oes cleifion. Ar gyfartaledd, mae hosbisau yng Nghymru eisoes yn ychwanegu 70% at y GIG. Mae hyd yn oed ystyried torri'r gwasanaethau hanfodol hyn yn anghredadwy. Mae angen cydnabod bod hosbisau elusennol yn gwbl allweddol i ddarpariaeth. Rhoddir cydnabyddiaeth gynyddol ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i fanteision gofal hosbis a gofal lliniarol i bobl â diagnosis canser a diagnosis nad yw'n ganser. Mae MS Cymru yn datgan

'that the way in which we approach palliative care must respond to the fact that people with MS have a highly unpredictable condition...and that for some people, the kind of care that would be classed as end of life may be necessary over many years'.

bod yn rhaid i'r ffordd yr ydym yn ymdrin â gofal lliniarol ymateb i'r ffaith fod gan bobl ag MS gyflwr hynod anrhagweladwy ... ac efallai y bydd angen y math o ofal a fyddai'n cael ei ystyried yn ofal diwedd oes ar rai pobl dros nifer o flynyddoedd .

The charity Together for Short Lives notes that children with life-limiting and life-threatening conditions have very different palliative care needs to those of older people and calls for children's palliative care to be fully represented on the Wales palliative care implementation board. Both the Alzheimer's Society and Macmillan Cancer Support have called for a person-centred and equitable approach to care across Wales, which would improve the dignity of care that people with dementia and others receive at the end of their lives. We must increase care that supports people to die where they choose, recognising—

Mae'r elusen Together for Short Lives yn nodi bod gan blant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd ac sy'n bygwth bywyd anghenion gofal lliniarol gwahanol iawn i rai pobl hŷn ac mae'n galw am weld gofal lliniarol plant yn cael ei gynrychioli'n llawn ar fwrdd gweithredu gofal lliniarol Cymru. Mae Cymdeithas Alzheimer a Chymorth Canser Macmillan ill dau wedi galw am ddull teg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ofalu ar draws Cymru, a fyddai'n gwella urddas y gofal y mae pobl â dementia ac eraill yn ei dderbyn ar ddiwedd eu hoes. Mae'n rhaid inni gynyddu gofal sy'n cynorthwyo pobl i farw lle maent yn dewis, gan gydnabod—

17:56

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Thank you, Mark.

Trefn. Diolch ichi, Mark.

17:56

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I also welcome 'Together for Health: Delivering End of Life Care' and the Minister's introductory remarks. It is very important that we try to give people a good end of life in the same way that we want to give life a good beginning. Birth and death should have equal attention in terms of the way that they happen. The one thing that we can be sure of is that it will happen to us all, so what we are talking about today is very personal. We all know—and will have come across this—that, when someone dies suddenly, out of the blue at a good age, people tend to say, 'That's just the way I'd like to go: no pain, no suffering, no time to be afraid, no time to think'. It may be a good way to go for them, but it makes it more difficult for those who are left behind and there is no time to plan. For the people that we are talking about here—those who have a terminal diagnosis and know that they have a certain amount of time in which to live—there is the opportunity to plan to minimise distress, and to look at the needs of the carers and the families. As has been mentioned a lot this afternoon, there is an opportunity to choose where you want to die, which, in the majority of cases, as has been said, is at home. We need health services, social services and all the different agencies and local authorities to work together in whichever setting somebody chooses to die or ends up dying.

Rwyf innau hefyd yn croesawu 'Law yn Llaw at Iechyd: Darparu Gofal Diwedd Oes' a sylwadau agoriadol y Gweinidog. Mae'n bwysig iawn ein bod yn ceisio rhoi diwedd da i bobl yn yr un modd ag yr ydym am roi dechrau da iddynt mewn bywyd. Dylai geni a marw gael sylw cyfartal o ran y ffordd y maent yn digwydd. Yr un peth y gallwn fod yn sicr ohono yw y bydd yn digwydd i bob un ohonom, felly mae'r hyn yr ydym yn sôn amdano heddiw yn bersonol iawn. Rydym i gyd yn gwybod—a byddwn wedi dod ar draws hyn—pan fydd rhywun yn marw'n sydyn, yn ddirybudd, mewn oedran da, fod pobl yn tueddu i ddweud, 'Dyna'n union y ffordd y byddwn i'n hoffi mynd: dim poen, dim dioddefaint, dim amser i fod yn ofnus, dim amser i feddwl'. Efallai y byddai hynny'n ffordd dda iddynt hwy, ond mae'n ei gwneud yn fwy anodd i'r rhai sy'n cael eu gadael ar ôl heb amser i gynllunio. Ar gyfer y bobl yr ydym yn sôn amdanynt yma—y rhai sydd â diagnosis terfynol ac sy'n gwybod mai dim ond hyn a hyn o amser sydd ganddynt i fyw—mae cyfle iddynt gynllunio i leihau gofid, ac i edrych ar anghenion y gofalwyr a'r teuluoedd. Fel y soniwyd droeon y prynhawn yma, mae cyfle i ddewis lle rydych am farw, a bydd hynny, gan amlaf, fel y dywedwyd, yn y cartref. Mae arnom angen i'r gwasanaethau iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol a'r holl wahanol asiantaethau ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd ym mha bynnag leoliad y mae rhywun yn dewis marw neu ym mha le bynnag y maent yn marw yn y pen draw.

I also want to make a few points in this debate about the role of the voluntary sector and the hospice movement. I am the vice-president of George Thomas Hospice Care, which is based in the grounds of Whitchurch Hospital. I am also a member of the cross-party group that Mark Isherwood chairs. George Thomas Hospice Care delivers care at home for people with terminal illnesses. It is a consultant-led service, with specialist nurses assigned to each patient working in a multidisciplinary way with social workers and, very importantly, welfare rights workers. One point that is often ignored is that, if you have a terminal illness and are reaching the last stages of your life, it is quite an expensive, difficult time. Macmillan held a meeting in the Assembly last year about the cost of living with a terminal illness. What was highlighted there was the amount of benefits that people who are terminally ill had not claimed—in many cases not having disability living allowance and many other benefits that they could have had. It is an important part of end-of-life care to ensure that people have all the financial resources that it is possible for them to claim.

Rwyf hefyd am wneud rhai pwyntiau yn y ddadl hon ynglŷn â rôl y sector gwirfoddol a'r mudiad hosbis. Fi yw is-lywydd Gofal Hosbis George Thomas, sydd ar dir Ysbyty'r Eglwys Newydd. Rwyf hefyd yn aelod o'r grŵp trawsbleidiol y mae Mark Isherwood yn ei gadeirio. Mae Gofal Hosbis George Thomas yn darparu gofal yn y cartref i bobl sydd â salwch terfynol. Mae'n wasanaeth dan arweiniad ymgynghorydd, gyda nyrsys arbenigol wedi eu neilltuo i bob claf yn gweithio mewn ffordd amlddisgyblaethol gyda gweithwyr cymdeithasol ac, yn bwysig iawn, gweithwyr hawliau lles. Un pwynt sy'n cael ei anwybyddu yn aml yw, os oes gennych salwch terfynol a'ch bod yn dod at ddiwedd eich bywyd, ei fod yn amser eithaf drud ac anodd. Cynhaliodd Macmillan gyfarfod yn y Cynulliad y llynedd am gost byw gyda salwch terfynol. Yr hyn a amlygwyd yno oedd nifer y budd-daliadau nad oedd pobl sy'n derfynol wael wedi'u hawlio—yn aml iawn nid ydynt yn cael lwfans byw i'r anabl a llawer o fanteision eraill y gallent fod wedi eu cael. Mae sicrhau bod pobl yn cael yr holl adnoddau ariannol y mae'n bosibl iddynt eu hawlio yn rhan bwysig o ofal diwedd oes.

Mark Isherwood talked about the difficulties of funding for hospices. Traditionally, hospices have been run and have been set up by the voluntary sector, and there is a well-versed tradition in that. I think that is very acceptable. It is good that it is the voluntary sector that is delivering a lot of the hospice care. George Thomas Hospice Care, in fact, has the same sort of figures that Mark referred to: 72% of its funding comes from voluntary income, and 28% from the statutory sector.

Soniodd Mark Isherwood am anawsterau ariannu hosbisau. Yn draddodiadol, mae hosbisau wedi cael eu rhedeg a'u sefydlu gan y sector gwirfoddol, ac mae traddodiad cryf yn hynny o beth. Credaf fod hynny'n dderbyniol iawn. Mae'n dda o beth mai'r sector gwirfoddol sy'n darparu llawer o ofal hosbis. Mae gan Ofal Hosbis George Thomas, mewn gwirionedd, yr un math o ffigurau ag y cyfeiriodd Mark atynt: mae 72% o'i gyllid yn dod o incwm gwirfoddol, a 28% gan y sector statudol.

You see across the whole of the country, for all these marvellous voluntary organisations, endless rounds of fundraising events, including summer fairs, the famous Macmillan coffee mornings, and the development of charity shops. Indeed, we debated earlier the issue about rates for charity shops, which is so important for them. When you think about it, a lot of the care that people receive at the end of life is based on the generosity of the public and of volunteers in ensuring that this high-quality, person-centred, specialist care is delivered. It is a good thing that a lot of that care is in the hands of the voluntary sector, but it is important that we have good standards and access to all services in whichever sector somebody dies.

Fe welwch ledled y wlad, ar gyfer yr holl sefydliadau gwirfoddol gwych hyn, rowndiau diddiwedd o ddigwyddiadau codi arian, gan gynnwys ffeiriau haf, yr enwog foreau coffi Macmillan, a datblygu siopau elusen. Yn wir, buom yn trafod yn gynharach ardrethi ar gyfer siopau elusen, sydd mor bwysig iddynt. Pan feddyliwch am y peth, mae llawer o'r gofal y mae pobl yn ei dderbyn ar ddiwedd eu hoes yn seiliedig ar haelioni'r cyhoedd a gwirfoddolwyr er mwyn sicrhau bod y gofal arbenigol hwn o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn cael ei ddarparu. Mae'n dda o beth bod llawer o'r gofal hwnnw yn nwylo'r sector gwirfoddol, ond mae'n bwysig bod gennym safonau da a mynediad i'r holl wasanaethau ym mha bynnag sector y mae rhywun yn marw.

I just want to end by quoting what Macmillan said in its briefing. It said that

Rwyf am orffen drwy ddyfynnu'r hyn a ddywedodd Macmillan yn eu briff, sef bod

'83% of people say that they are scared of dying in pain, while 67% say they are scared of dying alone, and 52% are scared of being told they are dying.'

83% o bobl yn dweud bod arnynt ofn marw mewn poen, tra bo 67% yn dweud bod arnynt ofn marw ar eu pen eu hunain, a 52% yn ofni cael gwybod eu bod yn marw.

Those are issues that we can tackle. The plan, and the Minister's commitment, will enable us to help with some of those frightening statistics.

Mae'r rheiny'n faterion y gallwn fynd i'r afael â hwy. Bydd y cynllun, ac ymrwymiad y Gweinidog, yn golygu y gallwn helpu gyda rhai o'r ystadegau brawychus hynny.

18:01 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

One of the ways in which we can dispel this anxiety and fear of death is to talk about it, so I am delighted that we are having this discussion today. We spend an awful lot of our time in this Chamber discussing the effectiveness and quality of healthcare in hospitals, but obviously the quality of the services that the NHS can provide to enable people to have a good death has little to do with new medicines and surgical skills.

Un o'r ffyrdd y gallwn chwalu'r pryder a'r ofn hwn o farw yw drwy siarad am y peth, felly rwyf wrth fy modd ein bod yn cael y drafodaeth hon heddiw. Rydym yn treulio llawer iawn o'n hamser yn y Siambr hon yn trafod effeithiolrwydd ac ansawdd gofal iechyd mewn ysbytai, ond yn amlwg nid oes a wnelo ansawdd y gwasanaethau y gall y GIG eu darparu i alluogi pobl i gael marwolaeth dda fawr ddim â meddyginiaethau newydd a sgiliau llawfeddygol.

There are many things that the NHS can share with the voluntary sector in ensuring that people get the death that they want. I do not think that hospices should be set up on a pedestal that they do not always deserve. Certainly a constituent of mine recently had a very difficult death that has left the family wondering why this person was allowed to suffer. However, in looking at the way in which the health service can offer pathways, and the way in which we, the public, can feel more comfortable in discussing death, we could look at one of the other aspects of the health service, which is the way in which prospective parents are encouraged to have a birth plan—this is now commonplace—to get them to go through their wishes about this extraordinary event, including planning for unforeseen complications. These skills that health workers have can be transferrable, and applicable to the way that we encourage people to plan for having a good death. Most people want to die at home surrounded by family, friends and familiar possessions, so why is it that they end up in hospital, even against their express wishes? Most commonly it is because families or carers do not feel able or confident to care for them in their final hours. Services that are easily available in hospital, like pain management, are not readily available in the community. In some cases, families or carers are not willing to take on the responsibility. For example, if the dying person's place of residence is a residential or nursing home, as Mark Drakeford has already referred to, there may well be financial drivers that come into play in some cases in pushing that person into hospital. So, if people are to get their wish to die at their normal place of residence, the services need to follow them to support the individual and their families to ensure that they have the backup they require if things get difficult.

Mae llawer o bethau y gall y GIG eu rhannu â'r sector gwirfoddol i sicrhau bod pobl yn cael y farwolaeth y maent ei heisiau. Nid wyf yn credu y dylid rhoi hosbisau ar bedestal nad ydynt bob amser yn ei haeddu. Yn sicr cafodd etholwr i mi yn ddiweddar farwolaeth anodd iawn sydd wedi gadael y teulu'n meddwl pam y caniatawyd i'r person hwnnw ddioddef. Fodd bynnag, wrth edrych ar y ffordd y gall y gwasanaeth iechyd gynnig llwybrau, a'r ffordd y gallwn ni, y cyhoedd, deimlo'n fwy cyfforddus yn trafod marwolaeth, gallem edrych ar agwedd arall ar y gwasanaeth iechyd, sef y ffordd y mae darpar rieni yn cael eu hannog i baratoi cynllun geni—mae hyn yn beth cyffredin bellach—er mwyn trafod eu dymuniadau ar gyfer y digwyddiad hynod hwn, gan gynnwys cynllunio ar gyfer cymhlethdodau annisgwyl. Gall y sgiliau hyn sydd gan weithwyr iechyd fod yn drosglwyddadwy, ac yn berthnasol i'r ffordd yr ydym yn annog pobl i gynllunio ar gyfer marwolaeth dda. Mae ar y rhan fwyaf o bobl eisiau marw gartref â'r teulu, ffrindiau ac eiddo cyfarwydd o'u hamgylch, felly pam maent yn mynd i'r ysbyty yn y pen draw, hyd yn oed yn erbyn eu dymuniadau datganedig? Gan amlaf, mae'n digwydd am nad yw teuluoedd neu ofalwyr yn teimlo eu bod yn gallu gofalu amdanynt yn eu horiau olaf, ac nad ydynt yn hyderus yn gwneud hynny. Mae gwasanaethau sydd ar gael yn rhwydd yn yr ysbyty, fel rheoli poen, nad ydynt ar gael yn rhwydd yn y gymuned. Weithiau, nid yw teuluoedd neu ofalwyr yn barod i gymryd y cyfrifoldeb. Er enghraifft, os cartref preswyl neu gartref nyrsio yw man preswylio'r sawl sy'n marw, fel y mae Mark Drakeford eisoes wedi'i ddweud, mae'n bosib y bydd cymhellion ariannol yn ffactor mewn rhai achosion wrth wthio'r person hwnnw i'r ysbyty. Felly, os yw pobl am gael eu dymuniad i farw yn eu preswylfa arferol, mae angen i'r gwasanaethau eu dilyn i gynorthwyo'r unigolion a'u teuluoedd i sicrhau bod ganddynt y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt os yw pethau'n mynd yn anodd.

The most difficult aspect of the Minister's delivery plan is the one relating to the early detection and identification of patients in the last year of life. As Julie Morgan said, people are afraid of being told that they are likely to die in the forthcoming year, so very sensitive communications will be required with that person, as well as, where appropriate, with their relatives. The Commissioner for Older People in Wales says that there should be a zero tolerance policy of people being put onto palliative care pathways without their knowledge or their family's knowledge. I absolutely agree with that. However, in some cases, the individual does not want to share the information that they are about to die with their family, because they do not feel able to cope with the emotions that go with that. So, the NHS is often left with the consequences of that in the form of complaints from the grieving relatives of the person who has died who did not understand what was about to happen. The solution for the NHS has to be very clear recording of the patient's wishes. I entirely agree with Macmillan that everyone approaching end of life should be encouraged to have a written care plan.

Yr agwedd fwyaf anodd ar gynllun cyflenwi'r Gweinidog yw'r un sy'n ymwneud â chanfod ac adnabod cleifion yn gynnar ym mlwyddyn olaf eu bywydau. Fel y dywedodd Julie Morgan, mae ar bobl ofn cael gwybod eu bod yn debygol o farw yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, felly bydd angen cyfathrebu'n sensitif iawn â'r bobl hynny, a chyda'r perthnasau, lle bo hynny'n briodol. Dywed Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru y dylid cael polisi dim goddefgarwch tuag at roi pobl ar lwybrau gofal lliniarol yn ddiarwybod iddynt neu'n ddiarwybod i'r teulu. Rwyf yn cytuno'n llwyr â hynny. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw'r unigolyn am rannu'r wybodaeth ei fod ar fin marw â'r teulu, am nad yw'n teimlo y gall ymdopi â'r emosiynau sy'n gysylltiedig â hynny. Felly, mae'r GIG yn gorfod wynebu canlyniadau hynny ar ffurf cwynion gan y perthnasau sy'n galaru am y sawl sydd wedi marw, a hwythau ddim yn deall beth oedd ar fin digwydd. Mae'n rhaid mai'r ateb i'r GIG yw cofnodi dymuniadau'r claf yn glir iawn. Cytunaf yn llwyr â Macmillan y dylai pawb sy'n nesáu at ddiwedd eu hoes gael eu hannog i baratoi cynllun gofal ysgrifenedig.

The rising instance of dementia also means that it is vital that we have end of life plans in place early on so that the patient is still able to make their views known while they can. I am delighted that as a way of fostering this rational discussion, Cardiff University is having a festival next month called Before I Die, which is described as a festival for the living about dying, with lectures on re-thinking the organisation of death and the death industry, which is one of the most venal, dissecting how death is portrayed in film and discussing 'Paula', a book by Isabel Allende about her experience of dealing with her daughter's coma and eventual death. Therefore, I am delighted that we are having this debate, and I look forward to the Minister's response.

Mae'r cynnydd mewn achosion o ddementia hefyd yn golygu ei bod yn hanfodol paratoi cynlluniau diwedd oes yn gynnar fel bod cyfle i'r claf fynegi barn tra gall wneud hynny. Rwyf yn falch iawn bod Prifysgol Caerdydd, fel ffordd o feithrin y drafodaeth resymegol hon, yn cynnal gŵyl y mis nesaf o'r enw Cyn i mi Farw, a ddisgrifir fel gŵyl i'r byw am farw, gyda darlithoedd ar ailystyried sut i drefnu marwolaeth a'r diwydiant marwolaethau, sy'n un o'r rhai mwyaf llwgr, dadansoddi sut mae marwolaeth yn cael ei bortreadu mewn ffilm a thrafod 'Paula', llyfr gan Isabel Allende am ei phrofiad o ddelio â choma ei merch a'i marwolaeth yn y pen draw. Felly, mae'n dda gennyf ein bod yn cael y ddadl hon, ac edrychaf ymlaen at ymateb y Gweinidog.

18:06 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I hope to make this a brief contribution in the debate this afternoon. I thank the Minister for bringing forward the debate. When I was health spokesman, I visited many hospices around Wales, and two of the points that came out quite clearly to me, from the hospice movement in particular, was the ability to get service level agreements from health boards so that their work could be recognised, and, above all, that there was no desire to use the voluntary donations that they achieved within their local communities to make up some of the statutory provisions in many health boards at the time. The second was the important transition in the hospice movement between children's hospices, such as Tŷ Hafan, and adult hospices, such as Holme Tower Nursing Home in Penarth, and the difficult position that people find themselves in when they turn 18, and a place such as Tŷ Hafan is unable to continue the care, for however long that might be. This is a perennial issue that has been wrestled with by various Ministers. I can remember raising it with your predecessor but one, Edwina Hart, given that she was looking at it at the time. The Government needs to spend some time working with the hospice organisations to overcome this situation.

Rwyf yn gobeithio mai cyfraniad byr fydd hwn i'r ddadl y prynhawn yma. Diolch i'r Gweinidog am gyflwyno'r ddadl. Pan oeddwn yn llefarydd iechyd, ymwelais â llawer o hosbisau ledled Cymru, a dau o'r pwyntiau a ddaeth i'r amlwg yn eithaf clir i mi, gan y mudiad hosbis yn arbennig, oedd gallu cael cytundebau lefel gwasanaeth gan fyrddau iechyd fel y gellid cydnabod eu gwaith, ac, yn anad dim, nad oedd unrhyw awydd i ddefnyddio'r rhoddion gwirfoddol y maent yn eu cael o fewn eu cymunedau lleol i ychwanegu at rai o'r darpariaethau statudol mewn llawer o fyrddau iechyd ar y pryd. Yr ail oedd y cyfnod pontio pwysig yn y mudiad hosbis rhwng hosbisau plant, fel Tŷ Hafan, a hosbisau oedolion, megis Cartref Nyrsio Holme Tower ym Mhenarth, a'r sefyllfa anodd y mae pobl yn eu cael eu hunain ynddi pan fyddant yn 18 oed, ac nad yw lle fel Tŷ Hafan yn gallu parhau i roi gofal iddynt, am ba hyd bynnag y mae hynny. Mae hwn yn fater bytholwyrdd y mae gwahanol Weinidogion wedi ymgodymu ag o. Gallaf gofio ei godi gyda'ch rhagflaenydd, ond un, Edwina Hart, oherwydd roedd hi'n edrych arno ar y pryd. Mae angen i'r Llywodraeth dreulio rhywfaint o amser yn gweithio gyda'r sefydliadau hosbis i ddatrys y sefyllfa hon.

However, it is incumbent on us all to face the reality that we will all die some time. I heard the Minister touch on the point about wills and facing the real prospect of putting our affairs in order. Sadly, not enough of us take personal responsibility for sorting out our affairs and for making sure that our loved ones are protected. The state has a role in assisting, via the provisions that the state provides, such as the health service, social care et cetera. However, ultimately, we all as individuals have a huge responsibility in facing the ultimate prognosis that we will pass away at some time, hopefully far later in life than some people have to face.

Fodd bynnag, mae'n ddyletswydd ar bob un ohonom i wynebu'r realiti y byddwn i gyd yn marw ryw bryd. Clywais y Gweinidog yn crybwyll ewyllysiau a wynebu'r posibilrwydd gwirioneddol o roi trefn ar ein pethau. Yn anffodus, nid oes digon ohonom yn cymryd cyfrifoldeb personol am roi trefn ar ein pethau ac am sicrhau bod ein hanwyliaid yn cael eu diogelu. Mae gan y wladwriaeth ran i'w chwarae o safbwynt helpu yn hyn o beth, drwy gyfrwng y darpariaethau y mae'r wladwriaeth yn eu darparu, megis y gwasanaeth iechyd, gofal cymdeithasol ac ati. Fodd bynnag, yn y pen draw, mae gennym i gyd fel unigolion gyfrifoldeb enfawr i wynebu'r prognosis olaf y byddwn yn marw rywbryd, yn llawer hwyrach mewn bywyd, gobeithio, nag y mae rhai pobl yn gorfod ei wynebu.

We also have to face the reality that when you are providing provision, death is not just old people passing away; it occurs across the age spectrum. The service needs a vision, and the experts that you need in the community, helping and assisting families, need to have a different type of training if they are dealing with a young person's terminal diagnosis rather than an elderly person's diagnosis. Equally, there are complexities in the conditions that we deal with today. Motor neurone disease is discussed time and again. I well remember Dr Dai Lloyd raising the position of the Motor Neurone Disease Association in Wales, tackling the condition with very little support in the community, because its numbers were so few. However, for the families and the individual, in particular, the diagnosis and the long-term implications are devastating. The level of support needed, especially the further into the condition you go, is complicated and a huge package of care is required.

Rhaid inni hefyd wynebu'r realiti, wrth gyflwyno darpariaeth, nad yw marwolaeth yn ymwneud â hen bobl yn marw yn unig; mae'n digwydd ar draws y sbectrwm oedran. Mae angen gweledigaeth ar y gwasanaeth, ac mae angen i'r arbenigwyr sydd eu hangen arnoch yn y gymuned, yn helpu ac yn cynorthwyo teuluoedd, gael math gwahanol o hyfforddiant os ydynt yn ymdrin â diagnosis terfynol person ifanc yn hytrach na diagnosis person oedrannus. Yn yr un modd, mae cymhlethdodau yn y cyflyrau yr ydym yn delio â hwy heddiw. Mae clefyd niwronau motor yn cael ei drafod dro ar ôl tro. Cofiaf yn dda i'r Dr Dai Lloyd godi sefyllfa'r Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor yng Nghymru, yn ymdrin â'r cyflwr heb fawr o gefnogaeth yn y gymuned, oherwydd bod cyn lleied o achosion. Fodd bynnag, ar gyfer y teuluoedd a'r unigolyn, yn arbennig, mae'r diagnosis a'r goblygiadau tymor hir yn ddinistriol iawn. Mae lefel y gefnogaeth sydd ei hangen, yn enwedig y pellaf yr ydych yn mynd i'r cyflwr, yn gymhleth ac mae angen pecyn enfawr o ofal.

However, I welcome the document that has been brought forward by the Government. As I said in my opening remarks, we, as individuals, have a huge responsibility to face up to. Hospitals are not a place where we should go to die; they are a place where we should go to get better and return to our normal lives. The impact on health professionals on the wards, whether nurses or other clinicians, of losing a patient can be equally devastating. It is a fact that a certain percentage of people will pass away in hospital, but ultimately we should not be referring people to hospitals to die. Our hospitals are there to make people better. Any provision in the community to make sure that the community support is there in order to assist people in an end of life situation has to be endorsed and embraced. However, I am sure that this will be a long journey that we will have to undertake because of the complexity of the situations that people find themselves in. The message that I would like to convey is that, above all, it is the individual who has to take responsibility about putting their affairs in order when they face an end of life situation.

Er hynny, croesawaf y ddogfen sydd wedi ei chyflwyno gan y Llywodraeth. Fel y dywedais yn fy sylwadau agoriadol, mae gennym ni, fel unigolion, gyfrifoldeb mawr i'w wynebu. Nid i ysbytai y dylem fynd i farw; dyna ble dylem fynd i wella a dychwelyd i'n bywydau normal. Gall effaith colli claf ar weithwyr iechyd proffesiynol ar y wardiau, boed yn nyrsys neu'n glinigwyr eraill, fod yr un mor ddinistriol. Mae'n ffaith y bydd rhyw ganran o bobl yn marw yn yr ysbyty, ond yn y pen draw ni ddylem fod yn atgyfeirio pobl i ysbytai i farw. Mae ein hysbytai yno i wneud pobl yn well. Rhaid cefnogi a chroesawu unrhyw ddarpariaeth yn y gymuned i wneud yn siŵr bod y cymorth cymunedol yno er mwyn cynorthwyo pobl ar ddiwedd oes. Fodd bynnag, rwyf yn siŵr y bydd hon yn daith hir y bydd yn rhaid inni ei gwneud oherwydd cymhlethdod y sefyllfaoedd y mae pobl yn eu cael eu hunain ynddynt. Y neges yr hoffwn ei chyfleu, yn anad dim, yw bod yn rhaid i'r unigolyn gymryd cyfrifoldeb dros roi trefn ar ei bethau pan fydd yn wynebu diwedd ei oes.

18:11 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

There are around 370,000 unpaid carers in Wales, many of whom are looking after loved ones who are nearing the end of their lives. In the 'Committed to carers: Supporting carers of people at the end of life' report from Marie Curie Cancer Care and Carers Wales, we are reminded that, with appropriate support, caring can be life-affirming, deeply satisfying and can provide a real opportunity for carers and loved ones to say goodbye to each other. However, without proper support, caring can negatively impact on the carer's health, employment and relationships.

Mae tua 370,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru, llawer ohonynt yn gofalu am anwyliaid sydd yn nesáu at ddiwedd eu hoes. Yn yr adroddiad 'Committed to carers: Supporting carers of people at the end of life' gan Ofal Canser Marie Curie a Chynhalwyr Cymru, cawn ein hatgoffa y gall gofalu, gyda chymorth priodol, fod yn werth chweil, a rhoi boddhad dwfn ac y gall roi cyfle go iawn i ofalwyr ac anwyliaid ffarwelio â'i gilydd. Fodd bynnag, heb gefnogaeth briodol, gall gofalu gael effaith negyddol ar iechyd, cyflogaeth a pherthnasoedd y gofalwr.

Central to the Welsh Government's approach to end-of-life care is the aim of helping people to die in the place of their own choosing, and success will be measured against this. As we have heard several times, most people would prefer to die at home if they were terminally ill, although, at the moment, only about a quarter of people are able to do so. The majority die in hospital—the place where people say they would least like to be. If the Government is to achieve its aim of helping more people to die at home, carers will be key partners in delivering care.

Yn ganolog i ymagwedd Llywodraeth Cymru at ofal diwedd oes mae'r nod o helpu pobl i farw mewn man y maent yn ei ddewis, a bydd llwyddiant yn cael ei fesur yn erbyn hyn. Fel yr ydym wedi clywed sawl gwaith, byddai'n well gan y rhan fwyaf o bobl farw gartref os ydynt yn derfynol sâl, er, ar hyn o bryd, dim ond tua chwarter y bobl sy'n gallu gwneud hynny. Mae'r rhan fwyaf yn marw yn yr ysbyty—yr union le y mae pobl yn dweud na fyddent yn hoffi bod. Os yw'r Llywodraeth am gyflawni ei nod o helpu mwy o bobl i farw gartref, bydd gofalwyr yn bartneriaid allweddol wrth gyflwyno gofal.

The Welsh Government has already acknowledged that carers are essential partners in the care of the people they look after. The Carers Strategies (Wales) Measure 2010 reinforces this, as does the duty on the NHS to consult and engage with carers when deciding on care plans. Helping carers to support their loved ones to die at home takes that partnership to the next level, and I am pleased to see a specific section in the Government's plan that is dedicated to the family.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cydnabod bod gofalwyr yn bartneriaid hanfodol yng ngofal y bobl y maent yn gofalu amdanynt. Mae'r Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 yn atgyfnerthu hyn, fel y mae'r ddyletswydd ar y GIG i ymgynghori ac ymgysylltu â gofalwyr wrth benderfynu ar gynlluniau gofal. Mae helpu gofalwyr i gefnogi eu hanwyliaid i farw yn y cartref yn mynd â'r bartneriaeth i'r lefel nesaf, ac rwyf yn falch o weld adran benodol yng nghynllun y Llywodraeth yn neilltuol i'r teulu.

The Marie Curie Cancer Care and Carers Wales research paints a very varied picture of the care and support that carers currently receive. Some people receive exceptionally good support that enables them to go on caring, but that is not always the case. The report shows how relatively small things make a big difference to carers, such as feeling that GPs are being honest and straightforward with them, nurses and social care staff arriving for appointments on time, and recognition that carers have distinct information needs that are very separate from the information needed, perhaps, by the person they are looking after. Therefore, caring for someone—particularly at home—can be intense and physically and emotionally demanding. Carers may need support for the good of their own health, and local authorities must have robust emergency plans in place in order to prevent carer breakdown when things become too much.

Mae ymchwil Gofal Canser Marie Curie a Chynhalwyr Cymru yn rhoi darlun amrywiol iawn o'r gofal a'r gefnogaeth y mae gofalwyr yn eu cael ar hyn o bryd. Mae rhai pobl yn cael cefnogaeth eithriadol o dda sy'n eu galluogi i barhau i ofalu, ond nid yw hynny'n wir bob amser. Mae'r adroddiad yn dangos y gall pethau cymharol fach wneud gwahaniaeth mawr i ofalwyr, fel teimlo bod meddygon teulu yn bod yn onest ac yn agored gyda hwy, nyrsys a staff gofal cymdeithasol yn cyrraedd ar gyfer apwyntiadau'n brydlon, a chydnabod bod gan ofalwyr anghenion penodol iawn o ran gwybodaeth sy'n wahanol iawn i'r wybodaeth sydd ei hangen ar y sawl y maent yn gofalu amdano, efallai. Felly, gall gofalu am rywun—yn enwedig yn y cartref—fod yn brofiad dwys a chorfforol a gall y pwysau emosiynol fod yn fawr. Efallai y bydd angen cefnogaeth ar ofalwyr er lles eu hiechyd eu hunain, ac mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod cynlluniau argyfwng cadarn ar waith er mwyn sicrhau na fydd gofalwyr yn torri i lawr pan fydd pethau'n mynd yn ormod.

Turning to bereavement, I am pleased to see a renewed focus in the Welsh Government's plan on services and support for people who have suffered bereavement. Carers will not always experience grief in the same way. Some will grieve even before their loved one has passed away and others will grieve some time after the person has died—perhaps many months after. As the Government takes forward its work on bereavement, I echo Marie Curie's call that it does so on the basis that services should be flexible and that carers looking after people who are at the end of their lives should be able to access these services when they need them, whether it is before their loved one has passed away or many months later.

A throi at brofedigaeth, rwyf yn falch o weld ffocws newydd yng nghynllun Llywodraeth Cymru ar wasanaethau a chymorth i bobl sydd wedi dioddef profedigaeth. Ni fydd gofalwyr bob amser yn teimlo galar yn yr un ffordd. Bydd rhai'n galaru hyd yn oed cyn i'w hanwylyd farw ac eraill yn galaru beth amser ar ôl i'r person farw—fisoedd lawer wedyn efallai. Wrth i'r Llywodraeth fwrw ymlaen â'i gwaith ar brofedigaeth, ategaf alwad Marie Curie y dylai wneud hynny ar y sail bod angen i wasanaethau fod yn hyblyg ac y dylai gofalwyr sy'n gofalu am bobl ar ddiwedd eu hoes allu cael gafael ar y gwasanaethau hyn pan fydd eu hangen arnynt, boed hynny cyn i'w hanwylyd farw neu sawl mis yn ddiweddarach.

I was also pleased to see in the Welsh Government's plan a commitment to developing a rapid response to all causes of distress in the patient and support for their family and close carers, including spiritual support. The work of chaplaincies is invaluable in supporting people at the end of their lives and in giving strength and support to carers and family members while they care for their loved one and comfort when they grieve. We often forget that doctors, nurses and other NHS staff are people, too, and that working to provide care at the end of somebody's life can be difficult and draining. Therefore, chaplaincies are also there to support NHS staff and to bring something very valuable to the workplace. I would like to close by inviting the Minister to take this opportunity to reaffirm the Welsh Government's commitment to supporting chaplaincies and to recognise the important role that they play in the NHS family, particularly in the context of end-of-life care.

Roeddwn hefyd yn falch o weld yng nghynllun Llywodraeth Cymru ymrwymiad i ddatblygu ymateb cyflym i bob achos o drallod yn y claf a chymorth i'w teuluoedd a'u gofalwyr agos, gan gynnwys cefnogaeth ysbrydol. Mae gwaith caplaniaethau yn amhrisiadwy wrth gefnogi pobl ar ddiwedd eu hoes ac wrth roi nerth a chefnogaeth i ofalwyr ac aelodau o'r teulu tra byddant yn gofalu am eu hanwylyd a chysur pan fyddant yn galaru. Rydym yn anghofio'n aml mai pobl yw meddygon, nyrsys a staff eraill y GIG, hefyd, ac y gall gweithio i ddarparu gofal ar ddiwedd oes rhywun fod yn anodd a llethol. Felly, mae caplaniaethau hefyd yno i gefnogi staff y GIG ac i ddod â rhywbeth gwerthfawr iawn i'r gweithle. Hoffwn gloi drwy wahodd y Gweinidog i gymryd y cyfle hwn i ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi caplaniaethau ac i gydnabod y rôl bwysig y maent yn ei chwarae yn nheulu'r GIG, yn enwedig yng nghyd-destun gofal diwedd oes.

18:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

18:14

## Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Thank you to all Members who have taken part in what I think has been a constructive and insightful debate and, at times—and quite properly, given the nature of the discussion—a deeply personal one as well.

Diolch i'r holl Aelodau sydd wedi cymryd rhan yn yr hyn sydd, yn fy marn i, wedi bod yn ddadl adeiladol a chraff ac, ar adegau—ac yn eithaf priodol, o ystyried natur y drafodaeth—yn un bersonol iawn hefyd.

To dispose of the amendments first, I have already indicated the two amendments that the Government will support. As Darren Millar anticipated, amendments 1 and 5 will be opposed by us. Slightly more reluctantly, we will also not be able to support amendment 4 in the name of Aled Roberts, not so much because of the sentiments that it contains, but because of an anxiety that it might imply that we would introduce direct payments to NHS care, for which we have no plans. However, if the amendment is more in relation to the social care elements of continuing healthcare packages, for example, I will undertake to discuss those with the Deputy Minister for Social Services in the context of the Social Services and Well-being (Wales) Bill.

A thrafod y gwelliannau yn gyntaf, rwyf eisoes wedi nodi'r ddau welliant y bydd y Llywodraeth yn eu cefnogi. Fel yr oedd Darren Millar yn ei ddarogan, byddwn yn gwrthwynebu gwelliannau 1 a 5. Ychydig yn fwy anfoddog, ni fyddwn ychwaith yn gallu cefnogi gwelliant 4 yn enw Aled Roberts, nid yn gymaint oherwydd yr ymdeimlad sydd ynddo, ond oherwydd pryder y gallai awgrymu y byddem yn cyflwyno taliadau uniongyrchol i ofal y GIG, ac nid oes gennym unrhyw gynlluniau i wneud hynny. Fodd bynnag, os yw'r gwelliant yn ymwneud yn fwy ag elfennau gofal cymdeithasol pecynnau gofal iechyd parhaus, er enghraifft, ymrwymaf i drafod hynny â'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yng nghyd-destun y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Turning to a number of the specific contributions, thank you to all those Members who commented favourably on the outcome-focused nature of the plan. We are trying to focus more not on what we put into services, but on where services lead us to. Those types of measures are highlighted in the plan.

A throi at nifer o'r cyfraniadau penodol, diolch i'r holl Aelodau hynny a wnaeth sylwadau ffafriol am natur y cynllun sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Rydym yn ceisio canolbwyntio'n fwy nid ar yr hyn yr ydym yn ei roi i mewn i wasanaethau, ond i ble y mae'r gwasanaethau yn ein harwain. Caiff y mathau hynny o fesurau eu hamlygu yn y cynllun.

As Darren Millar rightly pointed out at the beginning, the plan goes far beyond cancer, as other Members also said. He mentioned the needs of carers, as did Rebecca Evans in her contribution. I will reflect on whether the plan adequately reflects carers' needs, and whether there are things in it that we could strengthen.

Fel y dywedodd Darren Millar yn briodol iawn ar y dechrau, mae'r cynllun yn mynd ymhell y tu hwnt i ganser, fel y mae Aelodau eraill hefyd wedi dweud. Soniodd am anghenion gofalwyr, fel y gwnaeth Rebecca Evans yn ei chyfraniad hithau. Byddaf yn ystyried p'un a yw'r cynllun yn adlewyrchu anghenion gofalwyr yn ddigonol, ac a oes pethau ynddo y gallem eu cryfhau.

Darren also mentioned children's issues. I know that there has been some discussion as to whether the plan adequately represents the needs of children. I will briefly mention three things that the plan does. First, we are to reconstitute the palliative care implementation board. Children's needs will be directly represented on that board. Secondly, we will extend the 24-hour seven-day a week telephone advice rota currently in place for adult services, so that there will also be specialist advice on palliative care services. Thirdly, to take the point that Andrew R.T. Davies mentioned about transition services, these services are really important in relation to the care of children who are dying. We have a new national clinical adviser on transition. Some services are already being developed between the Marie Curie service in Penarth and children's services locally. We want to see those being developed, and the plan makes provision for that.

Soniodd Darren am faterion plant hefyd. Gwn y bu rhywfaint o drafod ynghylch a yw'r cynllun yn cynrychioli anghenion plant yn ddigonol. Soniaf yn fyr am dri pheth y mae'r cynllun yn eu gwneud. Yn gyntaf, rydym am ailgyfansoddi'r bwrdd gweithredu gofal lliniarol. Bydd anghenion plant yn cael eu cynrychioli'n uniongyrchol ar y bwrdd hwnnw. Yn ail, byddwn yn ymestyn y rota cyngor dros y ffôn 24-awr saith diwrnod yr wythnos sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau oedolion, fel y bydd cyngor arbenigol hefyd ar wasanaethau gofal lliniarol. Yn drydydd, a chymryd y pwynt y soniodd Andrew R.T. Davies amdano ynghylch gwasanaethau pontio, mae'r gwasanaethau hyn yn bwysig iawn mewn perthynas â gofal plant sy'n marw. Mae gennym gynghorydd clinigol cenedlaethol newydd ar bontio. Mae rhai gwasanaethau yn cael eu datblygu eisoes rhwng y gwasanaeth Marie Curie ym Mhenarth a gwasanaethau plant yn lleol. Rydym am weld y rhain yn cael eu datblygu, ac mae'r cynllun yn darparu ar gyfer hynny.

Rebecca referred directly to bereavement services. In Wales, 21,000 children live on having lost a sibling or a parent. Well over 30,000 children live on having lost a close friend or family member. Providing bereavement services for children and others is also at the heart of our plan.

Cyfeiriodd Rebecca'n uniongyrchol at wasanaethau profedigaeth. Yng Nghymru, mae 21,000 o blant yn byw ar ôl colli brawd neu chwaer neu riant. Mae ymhell dros 30,000 o blant yn byw ar ôl colli ffrind agos neu aelod o'r teulu. Mae darparu gwasanaethau profedigaeth i blant ac eraill hefyd wrth wraidd ein cynllun.

Kirsty asked what we were doing about learning from the review of the Liverpool care pathway. We do not have the Liverpool care pathway in Wales; we operate the integrated care priority approach. Very crudely, the distinction is this: the Liverpool care pathway begins with a conversation between clinicians, and the clinicians make a set of decisions that they go on to relay the family. The Welsh approach begins with a conversation with the family.

Gofynnodd Kirsty beth yr ydym yn ei wneud o ran dysgu o'r adolygiad o lwybr gofal Lerpwl. Nid yw llwybr gofal Lerpwl ar waith yng Nghymru; rydym yn gweithredu'r dull blaenoriaeth gofal integredig. Yn fras iawn, y gwahaniaeth yw hyn: mae llwybr gofal Lerpwl yn dechrau gyda sgwrs rhwng clinigwyr, ac mae'r clinigwyr yn gwneud cyfres o benderfyniadau y maent yn mynd ymlaen i'w trosglwyddo i'r teulu. Mae dull Cymru yn dechrau drwy gael sgwrs â'r teulu.

18:18

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You will be aware, though, Minister, that many Welsh people living on the border may receive their hospital care in an English district general hospital. Therefore, the Liverpool care pathway has significance for Welsh people.

Byddwch yn ymwybodol, fodd bynnag, Weinidog, y gall llawer o bobl Cymru sy'n byw ar y ffin gael gofal mewn ysbyty cyffredinol dosbarth yn Lloegr. Felly, mae gan lwybr gofal Lerpwl arwyddocâd i bobl Cymru.

18:18

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am not denying its significance at all; I am just describing the difference in approach between the two. We have been asked by the people running the review in England for the details of what we do in Wales, and we will look to learn from their experience too.

Nid wyf yn gwadu ei arwyddocâd o gwbl; y cwbl yr wyf yn ei wneud yw disgrifio'r gwahaniaeth rhwng y ddau ddull. Mae'r bobl sy'n cynnal yr adolygiad yn Lloegr wedi gofyn am fanylion yr hyn yr ydym yn ei wneud yng Nghymru, a byddwn yn gobeithio dysgu o'u profiad hefyd.

Diolch yn fawr iawn i Bethan Jenkins am yr hyn a ddywedodd am y profiad gyda Marie Curie. Rydym yn agored i syniadau newydd, ac rydym eisiau dysgu o'r profiadau a gafodd pobl. Diolch hefyd i David Rees am yr hyn a ddywedodd am y profiad gyda Marie Curie.

I thank Bethan Jenkins for what she had to say about her experience of Marie Curie. We are open to new ideas, as we want to learn from people's experiences. I also thank David Rees for what he said about his experience of Marie Curie.

Mark Isherwood rightly drew out the contribution that the hospice movement makes. He knows from his work in chairing the cross-party group, which has been fully represented in the debate, that we aim to work very closely with hospices. The plan is closely supported by them.

Cyfeiriodd Mark Isherwood yn briodol iawn at gyfraniad y mudiad hosbis. Mae'n gwybod o'i waith yn cadeirio'r grŵp trawsbleidiol, sydd wedi ei gynrychioli'n llawn yn y ddadl hon, mai ein nod yw gweithio'n agos iawn â hosbisau. Maent yn cefnogi'r cynllun yn agos.

Finally, to pick up on some points made by a number of Members about the importance of the plan not simply for people who are in the process of dying, but for people who are left behind afterwards. Julie Morgan pointed to the intensely practical matters that are important in that context. The fact that you are bereaved does not stop the bills from coming through the letterbox. If you have no way of being able to pay those bills, because your name does not appear on them or because you have no access to a bank account, then the distress that you face in those difficult days is amplified for reasons that can be overcome. As Jenny Rathbone said, difficult deaths live on in difficult lives. The plan has three things at the heart of it. It has a message for workers about making sure that it is the needs and wishes of families and individuals that drive this process; it has a message for services about working more closely together; and it has a set of messages for each one of us, as citizens in our own right, about the responsibility that we have to plan ahead, to talk to those people to whom this will be an important part of their lives in the future, so that dying is made better and bereavement can be coped with better. I hope that this afternoon's debate will go some important way to helping us all to do better in this area in Wales in the future.

Yn olaf, a chyfeirio at rai pwyntiau a wnaed gan nifer o'r Aelodau am bwysigrwydd y cynllun nid yn unig i bobl sy'n marw, ond i bobl sy'n cael eu gadael ar ôl wedyn. Nododd Julie Morgan y materion ymarferol dwys sy'n bwysig yn y cyd-destun hwnnw. Nid yw'r ffaith eich bod wedi cael profedigaeth yn atal y biliau rhag dod drwy'r blwch llythyrau. Os nad oes gennych ffordd o allu talu'r biliau hynny, oherwydd nad yw eich enw arnynt neu oherwydd nad oes gennych fynediad at gyfrif banc, yna bydd y trallod yr ydych yn ei wynebu yn y dyddiau anodd hynny'n waeth oherwydd rhesymau y gellir eu goresgyn. Fel y dywedodd Jenny Rathbone, mae marwolaethau anodd yn byw o hyd mewn bywydau anodd. Mae tri pheth wrth wraidd y cynllun. Mae ynddo neges i weithwyr ynghylch gwneud yn siŵr mai anghenion a dymuniadau teuluoedd ac unigolion sy'n gyrru'r broses hon; mae ynddo neges i wasanaethau ynghylch cydweithio'n agosach; ac mae ynddo gyfres o negeseuon ar gyfer pob un ohonom, fel dinasyddion yn ein rhinwedd ein hunain, ynghylch y cyfrifoldeb sydd gennym i gynllunio ymlaen llaw, i siarad â'r bobl hynny y bydd hyn yn rhan bwysig o'u bywydau yn y dyfodol, fel bod marw yn broses well ac fel y gellir ymdopi'n well â phrofedigaeth. Gobeithiaf y bydd y ddadl y prynhawn yma yn mynd rywfaint o'r ffordd bwysig i'n helpu ni i gyd i wneud yn well yn y maes hwn yng Nghymru yn y dyfodol.

18:21

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there is objection. I therefore defer voting until voting time, which now follows.

Y cynnig yw y dylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio, sydd yn dilyn yn awr.

Before I proceed to the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? [Interruption.] That sound was not the bell. [Laughter.] The bell tolled for us all. I see that there are no Members who wish for the bell to be rung.

Cyn imi symud ymlaen at y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? [Torri ar draws.] Nid y gloch oedd y sŵn yna. [Chwerthin.] Canodd y gloch inni i gyd. Gwelaf nad oes yr un Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Cyfnod Pleidleisio

## Voting Time

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5209.

Result of the vote on amendment 1 to NDM5209.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 25, Against 26, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5209.

Result of the vote on amendment 2 to NDM5209.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 51, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 51, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5209.

Result of the vote on amendment 3 to NDM5209.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 51, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 51, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5209.

Result of the vote on amendment 4 to NDM5209.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 25, Against 26, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5209.

Result of the vote on amendment 5 to NDM5209.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 13, Yn erbyn 33, Ymatal 5.*

*Amendment not agreed: For 13, Against 33, Abstain 5.*

*Cynnig NDM5209 fel y'i diwygiwyd:*

*Motion NDM5209 as amended:*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn i wella gwasanaeth gofal diwedd oes;

1. Notes the progress made to-date to improve end of life care service;

2. Yn cydnabod pwysigrwydd parchu dymuniadau cleifion wrth ddarparu gofal diwedd oes;

2. Recognises the importance of respecting the wishes of patients in the provision of end of life care;

3. Yn cydnabod cyfraniad y mudiad hosbis, a darparwyr gofal eraill, tuag at ofal diwedd oes o safon uchel; a

3. Recognises the contribution of the hospice movement, and other providers of care, towards high quality end of life care;and

4. Yn nodi Law yn Llaw at Iechyd: Darparu Gofal Diwedd Oes.

4. Notes Together For Health: Delivering End of Life Care.

Canlyniad y bleidlais ar NDM5209 fel y'i diwygiwyd:

Result of the vote on NDM5209 as amended:

*Derbyniwyd cynnig NDM5209 fel y'i diwygiwyd: O blaid 51, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion NDM5209 as amended agreed: For 51, Against 0, Abstain 0.*

18:23

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I ask those Members who are leaving the Chamber to do so quickly and quietly.

Gofynnaf i'r Aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel.

18:24

## Dadl Fer: Y Tu Hwnt i Fae Caerdydd—Rôl Newidiol Cyfryngau Lleol a Rhanbarthol Ledled Cymru

## Short Debate: Beyond Cardiff Bay —The Changing Role of Local and Regional Media across Wales

Senedd.tv Fideo Video

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

This short debate was postponed from 20 March, and I call on Ken Skates to talk to the subject that he has chosen.

Cafodd y ddadl fer hon ei gohirio o 20 Mawrth, a galwaf ar Ken Skates i siarad am y pwnc y mae wedi'i ddewis.

18:24

### Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer, for allowing this important debate today. I have agreed to allow Mike Hedges, Suzy Davies and Peter Black a minute each to speak on my chosen topic today. The fortunes of our various media are vastly different, and while opportunities are opening up in terms of local television, community radio, the internet, TV and other forms of broadcasting, the print media is an industry struggling to undergo transition in the twenty-first century.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd, am ganiatáu'r ddadl bwysig hon heddiw. Rwyf wedi cytuno i ganiatáu munud yr un i Mike Hedges, Suzy Davies a Peter Black siarad ar fy newis bwnc heddiw. Mae hynt ein gwahanol gyfryngau yn wahanol iawn, ac er bod cyfleoedd yn agor o ran teledu lleol, radio cymunedol, y rhyngrwyd, teledu a mathau eraill o ddarlledu, mae'r cyfryngau print yn ddiwydiant sy'n ei chael yn anodd ymdopi â'r newid i'r unfed ganrif ar hugain.

Today, I would like to focus on the print media, specifically our newspapers, particularly those which serve people outside of our capital. I choose to draw attention to newspapers beyond Cardiff for one simple reason: most of the journalism that focuses on this institution and the actions of the Welsh Government is based in Cardiff. So, politicians, including myself, are all too often tempted to talk primarily in terms of the Cardiff media, at the expense of the media beyond this city.

Heddiw, hoffwn ganolbwyntio ar y cyfryngau print, yn benodol ein papurau newydd, ac yn enwedig y rhai sy'n gwasanaethu pobl y tu allan i'n prifddinas. Dewisaf dynnu sylw at bapurau newydd y tu hwnt i Gaerdydd am un rheswm syml: mae'r rhan fwyaf o'r newyddiaduraeth sy'n canolbwyntio ar y sefydliad hwn a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru yn digwydd yng Nghaerdydd. Felly, mae gwleidyddion, a minnau yn eu plith, yn rhy aml yn cael eu temtio i siarad yn bennaf yn nhermau cyfryngau Caerdydd, ar draul y cyfryngau y tu hwnt i'r ddinas.

Minister, to say that there is a problem in the long-term financial sustainability of local and regional newspapers is something of an understatement. Two hundred newspapers have shut down in the UK in the past decade. In 2013, a further 10% fall in regional advertising is predicted. It means that this year, spend on advertising in the UK's local and regional newspapers will dip below £1 billion for the first time. That is down by 60% on the £2.5 billion spent in 2005. All but two UK regional dailies saw a year-on-year drop in circulation in the second half of 2012, according to the latest ABC figures.

Weinidog, mae dweud bod problem yng nghynaliadwyedd ariannol tymor hir papurau newydd lleol a rhanbarthol yn ddweud rhy gynnil. Mae dau gant o bapurau newydd wedi cau yn y DU yn ystod y degawd diwethaf. Yn 2013, rhagwelir gostyngiad pellach o 10% mewn hysbysebu rhanbarthol. Mae'n golygu y bydd gwario ar hysbysebu ym mhapurau newydd lleol a rhanbarthol y DU eleni o dan £1 biliwn am y tro cyntaf. Mae hynny 60% yn llai na'r £2.5 biliwn a wariwyd yn 2005. Gwelodd pob un ond dau bapur dyddiol rhanbarthol yn y DU ostyngiad o flwyddyn i flwyddyn mewn cylchrediad yn ail hanner 2012, yn ôl ffigurau diweddaraf ABC.

In Wales, the figures showed circulation at the 'South Wales Evening Post' down 9.8%; the 'South Wales Argus' was down 7.7%; the 'South Wales Echo' was down 6.8%; 'The Leader' was down 6.1%; and the 'Daily Post' was down 3.4%.

Yng Nghymru, dangosodd y ffigurau fod cylchrediad y 'South Wales Evening Post' i lawr 9.8%; y 'South Wales Argus' i lawr 7.7%; y 'South Wales Echo' i lawr 6.8%; 'The Leader' i lawr 6.1%; a'r 'Daily Post' i lawr 3.4%.

The stable door has been left unlocked, the horse has long bolted and we have been left scratching our heads, staring at the empty space in front of us. In short, the two ways in which local newspapers have traditionally been funded—through the cover price and through advertising revenue—are now bust, and alternatives, especially online advertising revenue, need to supplement them.

Roedd drws y stabl heb ei gloi, mae'r ceffyl wedi hen ddianc ac fe'n gadawyd yn crafu ein pennau, yn syllu ar y gofod gwag o'n blaen. Yn fyr, mae'r ddwy ffordd yr oedd papurau newydd lleol yn draddodiadol yn cael eu hariannu—drwy'r pris gwerthu a thrwy refeniw hysbysebu—bellach wedi mynd i'r gwellt, ac mae angen dewisiadau eraill, ac yn arbennig felly refeniw hysbysebu ar-lein, i'w hategu.

The recent plans announced by Media Wales to cut 16 editorial jobs at its in-house titles is an example of the twenty-first century problem that we face. Local papers in its stable include the 'South Wales Echo', the 'Merthyr Express', the 'Gwent Gazette' and the 'Cynon Valley Leader', which for the last century have been a key part of the DNA of the communities that they have served. They simply cannot survive by dint of the advertising and sales that they generate.

Mae'r cynlluniau diweddar a gyhoeddwyd gan Media Wales i dorri 16 o swyddi golygyddol yn ei deitlau mewnol yn enghraifft o'r broblem unfed ganrif ar hugain sy'n ein hwynebu. Mae'r papurau lleol yn ei stabl yn cynnwys y 'South Wales Echo', y 'Merthyr Express', y 'Gwent Gazette' a'r 'Cynon Valley Leader', sydd, dros y ganrif ddiwethaf, wedi bod yn rhan allweddol o DNA y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Ni allant oroesi drwy gyfrwng yr hysbysebion a'r gwerthiannau y maent yn eu cynhyrchu.

They have reported on, commented and debated all the big events that impacted on south Wales and the valleys over the last five or six generations, yet, like every other local paper in Wales, they are now locked in a fight for their very survival and are left having to continually cut resources and their workforce in order to survive. Surely, no matter what the parent company says, these cuts will have a hugely damaging impact on both the quality and output of local and regional journalism in the areas that they serve, represent and reflect.

Maent wedi rhoi adroddiadau, wedi gwneud sylwadau ac wedi trafod yr holl ddigwyddiadau mawr sydd wedi effeithio ar dde Cymru a'r Cymoedd dros y pump neu chwe chenhedlaeth diwethaf, ac eto, fel pob papur lleol arall yng Nghymru, maent yn awr yng nghanol brwydr i oroesi ac maent yn gorfod cwtogi adnoddau a'u gweithlu o hyd er mwyn goroesi. Waeth beth y mae'r rhiant-gwmni'n ei ddweud, does bosib na fydd y toriadau hyn yn cael effaith hynod niweidiol ar ansawdd ac allbwn newyddiaduraeth leol a rhanbarthol yn yr ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu, yn eu cynrychioli ac yn eu hadlewyrchu.

One of the Media Wales proposals is to close down its features department and create a unit based in Liverpool to produce generic content for an audience spanning multiple counties and countries. As many in this Chamber have said previously, this will only serve to damage the unique community and regional identities of the local papers it will serve with content. The slow drip of editorial cuts is not confined to Media Wales titles and has continued to have a degenerative impact on established local newspapers in every part of Wales and the world over the last 10 years. That is why we should worry about the future of good journalism and newspapers in the cities, towns and villages of Wales.

Un o gynigion Media Wales yw cau ei adran nodweddion a chreu uned wedi'i lleoli yn Lerpwl i gynhyrchu cynnwys generig ar gyfer cynulleidfa sy'n ymestyn dros sawl sir a gwlad. Fel y mae sawl un yn y Siambr hon wedi'i ddweud o'r blaen, ni fydd hyn ond yn niweidio cymuned unigryw a hunaniaethau rhanbarthol y papurau lleol y bydd yn eu gwasanaethu â chynnwys. Nid yw'r toriadau golygyddol graddol wedi'u cyfyngu i deitlau Media Wales ac maent yn dal i gael effaith ddirywiol ar bapurau newydd lleol a sefydlwyd ym mhob rhan o Gymru a'r byd dros y 10 mlynedd diwethaf. Dyna pam y dylem boeni am ddyfodol newyddiaduraeth dda a phapurau newydd da yn ninasoedd, trefi a phentrefi Cymru.

The local press plays an important role. The social values of local papers have helped bind communities together, especially in outlying areas in north and mid Wales, where they are of immense value in creating both a shared identity and a shared purpose. One needs only to look at the important role local newspapers have had in influencing both the success and failure of public health campaigns in Swansea to see the power of local papers. For good and ill, the impact and influence that local newspapers have had on the uptake of the MMR vaccine in communities in south Wales shows the immense reach of local titles rooted in their community and the trust that people still hold in them, despite their relative decline in circulation.

Mae'r wasg leol yn chwarae rhan bwysig. Mae gwerthoedd cymdeithasol papurau lleol wedi helpu i glymu cymunedau at ei gilydd, yn enwedig mewn ardaloedd anghysbell yng ngogledd a chanolbarth Cymru, lle maent o werth mawr wrth greu hunaniaeth gyffredin a diben cyffredin. Nid oes ond raid edrych ar y rhan bwysig y mae papurau newydd lleol wedi'i chwarae wrth ddylanwadu ar lwyddiant a methiant ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus yn Abertawe i weld grym y papurau lleol. Er gwell neu er gwaeth, mae effaith a dylanwad papurau newydd lleol ar nifer y rhai sy'n cael y brechlyn MMR mewn cymunedau yn ne Cymru yn dangos cyrhaeddiad enfawr teitlau lleol sydd wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau a'r ymddiriedaeth sydd gan bobl ynddynt o hyd, er gwaethaf y dirywiad cymharol yn eu cylchrediad.

Minister, despite much gloom, there is innovation going on. This lunchtime, I hosted a presentation by Paul Taylor, the digital director of NWN Media, which over the next few months is launching a new online platform for its stable of newspapers and has promised to invest in the coming years in a pan-north Wales online portal.

Weinidog, er gwaetha'r holl ddigalondid, mae rhywfaint o arloesi'n digwydd. Amser cinio heddiw, cynhaliais gyflwyniad gan Paul Taylor, cyfarwyddwr digidol NWN Media, a fydd, dros yr ychydig fisoedd nesaf, yn lansio llwyfan ar-lein newydd ar gyfer ei stabl o bapurau newydd ac mae wedi addo buddsoddi yn y blynyddoedd i ddod mewn porth ar-lein ar gyfer gogledd Cymru gyfan.

Good local online platforms, such as Magnet in Port Talbot, North Wales Extra and Wrexham.com, as well as a host of other community journalism initiatives across Wales, are to be warmly applauded. Indeed, some local papers are looking at an even more radical model of news. Kevin Ward, editor of the 'South Wales Argus', recently urged readers to voice their views on setting up an online paywall for its publication, after he said that the current online news free-for-all was 'unsustainable'. In his view, there was 'no doubt' that the existing model of charging for print editions, but not for those online, was financially unsustainable in the longer term for both the 'South Wales Argus' and other papers across Wales. The 'South Wales Argus' is owned by Newsquest, and its US parent firm, Gannett, has increased the number of newspaper sites with paywalls from six to 78 in the last year. This may well be the future for news in the Newport area.

Mae llwyfannau ar-lein lleol da, fel Magnet ym Mhort Talbot, North Wales Extra a Wrexham.com, yn ogystal â llu o fentrau newyddiaduraeth gymunedol eraill ledled Cymru, i'w canmol yn fawr. Yn wir, mae rhai papurau lleol yn edrych ar fodel hyd yn oed yn fwy radical o newyddion. Anogodd Kevin Ward, golygydd y 'South Wales Argus', ddarllenwyr yn ddiweddar i leisio barn ar sefydlu 'wal dalu' ar-lein ar gyfer ei gyhoeddiad, ar ôl iddo ddweud bod y newyddion ar-lein rhad ac am ddim i bawb ar hyn o bryd yn 'anghynaliadwy'. Yn ei farn ef, doedd 'dim amheuaeth' fod y model presennol o godi tâl am argraffiadau print, ond nid ar gyfer y rhai ar-lein, yn anghynaliadwy yn ariannol yn y tymor hwy ar gyfer y 'South Wales Argus' a phapurau eraill ar draws Cymru. Y 'South Wales Argus' sy'n berchen ar Newsquest, ac mae ei riant gwmni yn yr Unol Daleithiau, Gannett, wedi cynyddu nifer y safleoedd papur newydd a chanddynt 'waliau talu' o chwech i 78 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Efallai'n wir mai dyna fydd y dyfodol i newyddion yn ardal Casnewydd.

Across Wales, we have a particular problem. As a unified political system up until 1999, we never developed the infrastructure of a vibrant Welsh media, because our politics was, for so long, intertwined with England through direct rule at Westminster. We are now presented with a distinct democratic deficit. No doubt some may see the problems in Welsh newspapers as no great shame or as a chance to dance on the grave of an industry that has been too slow to innovate. However,I do not share that view.

Ledled Cymru, mae gennym broblem benodol. A ninnau'n system wleidyddol unedig hyd at 1999, ni wnaethom erioed ddatblygu seilwaith cyfryngau Cymreig bywiog, gan fod ein gwleidyddiaeth, am gyhyd, wedi ei phlethu â Lloegr drwy reoli uniongyrchol yn San Steffan. Mae gennym bellach ddiffyg democrataidd pendant. Efallai na fydd rhai'n meddwl bod y problemau ym mhapurau newydd Cymru'n drueni mawr neu efallai y byddant yn gweld cyfle i ddawnsio ar fedd diwydiant sydd wedi bod yn rhy araf i arloesi. Fodd bynnag, nid wyf yn rhannu'r farn honno.

During evidence to the National Assembly's culture committee in 2006, it emerged that 90% of people in Wales read a paper that does not contain any Welsh news. This is a particular problem because we need not only a strong scrutinising capacity inside the Senedd, but also a robust local, regional and distinctly Welsh journalism that can challenge our radically changing political system from the outside, too. I have said before that, in Wales, we have spent much too long worrying about the legal, political and administrative infrastructure of newly devolved Wales without spending nearly enough time examining the cultural and civic tools that are needed to keep a vibrant democracy on its toes. A dynamic fourth estate is not an added extra; it is absolutely vital to creating the civic thickness that we need to make it work both efficiently and effectively.

Yn ystod tystiolaeth i bwyllgor diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol yn 2006, daeth yn amlwg fod 90% o bobl Cymru yn darllen papur nad yw'n cynnwys unrhyw newyddion Cymreig. Mae hon yn broblem neilltuol oherwydd mae arnom angen nid yn unig allu craffu cryf y tu mewn i'r Senedd, ond hefyd newyddiaduraeth leol, rhanbarthol a chadarn sy'n neilltuol i Gymru ac sy'n gallu herio ein system wleidyddol sy'n newid o hyd o'r tu allan, hefyd. Rwyf wedi dweud o'r blaen ein bod, yng Nghymru, wedi treulio llawer gormod o amser yn poeni am seilwaith cyfreithiol, gwleidyddol a gweinyddol Cymru ddatganoledig newydd heb dreulio digon o amser yn archwilio'r offer diwylliannol a dinesig sydd eu hangen i gadw democratiaeth fywiog ar flaenau ei thraed. Nid yw gwasg ddeinamig yn rhyw fath ar ychwanegiad; mae'n gwbl hanfodol i greu'r trwch dinesig sydd ei angen arnom i wneud iddi weithio'n effeithlon ac yn effeithiol.

While many of the factors impacting on print journalism are global in nature, there is something constructive that we could be doing. From road traffic orders to job adverts, through to public notices and recycling information, millions of pounds every year are spent by the Welsh Government, the NHS, local councils and other public sector bodies in advertising and communicating with the public. The public sector is not there to subsidise local newspapers, but having a coherent fund that structured advertising spend could help both parties to get a coherent message across and help to stabilise print revenues in the most important transition period—from print to online. If local papers, both online and in print, could once again became the place where important local information about healthcare reforms, traffic information, job adverts or changes to important services, such as refuse collection, was housed, then the public would be much better informed. We have had a lot of focus recently on the way in which public procurement can be used to support local businesses. I do not see why we cannot do the same with local newspapers.

Er bod llawer o'r ffactorau sy'n effeithio ar newyddiaduraeth brint yn fyd-eang o ran eu natur, mae rhywbeth adeiladol y gallem fod yn ei wneud. O orchmynion traffig ar y ffyrdd i hysbysebion swyddi, i hysbysiadau cyhoeddus a gwybodaeth am ailgylchu, mae miliynau o bunnau'n cael eu gwario bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru, y GIG, cynghorau lleol a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus yn hysbysebu a chyfathrebu â'r cyhoedd. Nid yw'r sector cyhoeddus yno i roi cymhorthdal i bapurau newydd lleol, ond byddai cronfa gydlynol sy'n strwythuro'r gwariant ar hysbysebu yn helpu'r ddwy ochr i drosglwyddo neges gydlynol ac yn helpu i sefydlogi refeniw print yn y cyfnod pontio pwysicaf—o argraffu i ar-lein. Pe gallai papurau lleol, ar-lein ac mewn print, unwaith eto ddod yn fan lle mae gwybodaeth leol bwysig am ddiwygiadau gofal iechyd, gwybodaeth am draffig, hysbysebion swyddi neu newidiadau i wasanaethau pwysig, megis casglu sbwriel, yn cael ei chadw, yna byddai'r cyhoedd yn llawer mwy gwybodus. Rydym wedi gweld llawer o ganolbwyntio'n ddiweddar ar y ffordd y gall caffael cyhoeddus gael ei ddefnyddio i gefnogi busnesau lleol. Ni welaf pam na allwn wneud yr un peth gyda phapurau newydd lleol.

In addition, local newspaper groups need to adapt to the reality of the new Welsh democracy evolving around them, by focusing more on what happens in the Assembly. If they did, I am sure that more politicians would come to talk about media issues on a Wales-wide basis rather than in a Cardiff-centric manner. To that end, I urge newsgroups that currently lack an Assembly-based correspondent to form consortia and employ Senedd correspondents.

Yn ogystal, mae angen i grwpiau papurau newydd lleol addasu i realiti'r ddemocratiaeth Gymreig newydd sy'n datblygu o'u cwmpas, drwy ganolbwyntio mwy ar yr hyn sy'n digwydd yn y Cynulliad. Pe byddent yn gwneud hynny, mae'n siŵr gennyf y byddai mwy o wleidyddion yn dechrau siarad am faterion y cyfryngau ar sail Cymru gyfan yn hytrach nag mewn modd sy'n canolbwyntio ar Gaerdydd. I'r perwyl hwnnw, anogaf grwpiau newyddion sydd heb ohebydd yn y Cynulliad i ffurfio consortia a chyflogi gohebwyr yn y Senedd.

I understand the point that is often made about the importance of saving good journalism on the one hand, which is an important public service, and saving local newspapers, which is simply a way of carrying good copy, on the other. However, my big worry with this is that we might dilute the quality of the former if the platform for good, strong local journalism disappears without anything to take its place. Imagine a community where the only news and pictures are carried online and provided for free by users—a 'Facebook-max' future, if you will. In such a world, news stories would lack impartiality, comment would be value loaded, editorial control would be constrained by the lack of primary-sourced information and high-quality pictures would be lost amid a plethora of poor amateur shots. Political activists would be free to push their agendas under the sneaky guise of campaign groups and our news agenda would, doubtless, be dominated by those who shouted the loudest. Such a community would be divided, poorly informed and badly served.

Rwyf yn deall y pwynt a wneir yn aml am bwysigrwydd achub newyddiaduraeth dda ar y naill law, sy'n wasanaeth cyhoeddus pwysig, ac achub papurau newydd lleol, sydd, yn syml, yn ffordd o gario copi da, ar y llaw arall. Fodd bynnag, fy mhryder mawr o ran hynny yw y gallem lastwreiddio ansawdd y cyntaf os bydd y llwyfan ar gyfer newyddiaduraeth leol dda, gref yn diflannu heb ddim i gymryd ei le. Dychmygwch gymuned ble mae'r unig newyddion a lluniau yn cael eu rhoi ar-lein ac yn cael eu darparu am ddim gan ddefnyddwyr—dyfodol 'Facebook-max', os mynnwch. Mewn byd o'r fath, ni fyddai straeon newyddion yn ddiduedd, byddai'r sylwadau wedi'u llwytho â gwerthoedd, byddai rheolaeth olygyddol yn cael ei chyfyngu gan ddiffyg gwybodaeth o ffynonellau sylfaenol a lluniau o ansawdd da yn cael eu colli yng nghanol llu o luniau amatur gwael. Byddai ymgyrchwyr gwleidyddol yn rhydd i wthio eu hagendâu dan gochl cyfrwys grwpiau ymgyrchu a byddai'r rhai sy'n gweiddi fwyaf croch yn llenwi'n hagenda newyddion, yn ddiau. Byddai cymuned o'r fath yn rhanedig, yn cael gwybodaeth wael ac yn cael ei gwasanaethu'n wael.

There are no easy answers. Some suggest that the inevitable future for daily papers is that they will become weekly journals, as a way of cutting costs, but there are dangers there too. Figures show that, in many cases, when papers go from being daily to weekly, after initial uplift they then lose sales figures.

Nid oes atebion hawdd. Mae rhai'n awgrymu mai'r dyfodol i bapurau dyddiol yw y byddant yn dod yn anochel yn gylchgronau wythnosol, fel ffordd o dorri costau, ond mae peryglon yn hynny hefyd. Dengys y ffigurau fod ffigurau gwerthiant papurau, ar ôl cynnydd ar y cychwyn, yn gostwng, yn aml iawn, pan fyddant yn mynd o fod yn rhai dyddiol i fod yn rhai wythnosol.

We have spent a lot of time of late discussing the future infrastructure of Wales, with great thought going into ultra-fast broadband, high-speed rail or the Severn barrage. We now need to give the same investment of time, creativity and thought to an equally important part of our national infrastructure—national, regional and local journalism.

Rydym wedi treulio llawer o amser yn ddiweddar yn trafod seilwaith Cymru yn y dyfodol, ac mae llawer o feddwl am fand eang tra chyflym, rheilffordd cyflymder uchel neu forglawdd Hafren. Mae angen inni bellach fuddsoddi'r un faint o amser, creadigrwydd a meddwl mewn elfen yr un mor bwysig o'n seilwaith cenedlaethol—newyddiaduraeth genedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Local newspapers are in decline but, just like good books, great writing and good journalism will not die, even if the delivery method changes. We cannot wait for innovative solutions to the woes of the local and regional press to be engineered far away and imported back into Wales. We have the ability—and we certainly have the need to do it ourselves—to develop a unique model that others could copy. If we stand by and let the regional and local press wither on the civic vine, we will all pay a heavy price.

Mae papurau newydd lleol yn dirywio ond, yn union fel llyfrau da, ni fydd ysgrifennu gwych a newyddiaduraeth dda yn marw, hyd yn oed os bydd y dull o gyflenwi'n newid. Ni allwn aros i atebion arloesol i drallodion y wasg leol a rhanbarthol gael eu dyfeisio yn bell i ffwrdd a'u mewnforio yn ôl i Gymru. Mae gennym y gallu i ddatblygu model unigryw y gallai eraill ei gopïo, ac yn sicr mae angen inni wneud hynny ein hunain. Os byddwn yn sefyll o'r neilltu ac yn gadael i'r wasg ranbarthol a lleol wywo ar y winwydden ddinesig, byddwn i gyd yn talu pris trwm.

18:36

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Ken Skates for giving me the opportunity to speak for a minute. I live in the 'South Wales Evening Post' area; that name will, possibly, change soon. It is a local institution. It has the highest readership of any local paper in Wales, helped—I would say—by a Premiership soccer club. Swansea and south-west Wales would be a different place without it. It would be a worse place without the paper. Community discussion would be different and less informed than it is now. Quite simply, we need our local papers. To quote rugby referees, use it or lose it.

Diolch i Ken Skates am roi cyfle imi siarad am funud. Rwyf yn byw yn ardal y 'South Wales Evening Post'; bydd yr enw hwnnw, o bosibl, yn newid yn fuan. Mae'n sefydliad lleol. Mae ganddo fwy o ddarllenwyr nag unrhyw bapur lleol yng Nghymru, ac, yn fy marn i, mae'r ffaith fod yno glwb pêl-droed Uwch Gynghrair yn helpu. Byddai Abertawe a de-orllewin Cymru yn lle gwahanol hebddo. Byddai'n waeth lle heb y papur. Byddai'r drafodaeth yn y gymuned yn wahanol ac yn llai deallus nag y mae yn awr. Yn y bôn, mae angen ein papurau lleol arnom. A dyfynnu dyfarnwyr rygbi, defnyddiwch ef neu collwch ef.

In the late 1980s, as a councillor elected to the West Glamorgan County Council, I could speak at 11.45 a.m. and read what I had said in the late Post at 5 p.m. Now, in this high-speed, digital age, it takes until at least the next day—and possibly a couple of days—for that same information to make its way from the council debate to be reported in the local papers. There are many blogs on the internet, but it is not the same as news. It is important to have unbiased news coming out from a newspaper to inform the public. That is what democracy needs. One of our great weaknesses in Wales, as Ken Skates said, is that we have very little reporting of Wales. If we lose our local papers, it will be even less.

Ar ddiwedd yr 1980au, fel cynghorydd etholedig ar Gyngor Sir Gorllewin Morgannwg, gallwn siarad am 11.45 y bore a darllen yr hyn yr oeddwn wedi'i ddweud yn y Post hwyr am 5.00 y prynhawn. Yn awr, yn yr oes dra chyflym, ddigidol hon mae'n cymryd tan y diwrnod wedyn o leiaf—a diwrnod neu ddau efallai—i'r un wybodaeth fynd o ddadl y cyngor i gael ei hadrodd yn y papurau lleol. Mae llawer o flogiau ar y rhyngrwyd, ond nid yw hynny'r un fath â newyddion. Mae'n bwysig bod papurau newydd yn rhoi newyddion diduedd i roi gwybodaeth i'r cyhoedd. Dyna beth sydd ei angen ar ddemocratiaeth. Un o'n gwendidau mawr yng Nghymru, fel y dywedodd Ken Skates, yw mai ychydig iawn o adrodd am Gymru sydd yma. Os byddwn yn colli ein papurau lleol, bydd hyd yn oed yn llai o hynny.

18:37

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I also thank Ken for bringing this debate to the Chamber and for giving me some time to comment on it. The emphasis on community leadership in his speech is absolutely right and, of course, the regional and national press has an important role in that regard. One of the disadvantages of a free press is that the state cannot interfere in its economics. Its future is very much at the mercy of the market. That is why we need to find those new models that are more sustainable.

Rwyf innau hefyd yn diolch i Ken am ddod â'r ddadl hon i'r Siambr, ac am roi peth amser imi roi sylwadau arni. Mae'r pwyslais ar arweiniad cymunedol yn ei araith yn gwbl gywir ac, wrth gwrs, mae gan y wasg ranbarthol a chenedlaethol rôl bwysig yn hynny o beth. Un o anfanteision gwasg rydd yw na all y wladwriaeth ymyrryd yn ei heconomeg. Mae ei dyfodol i raddau helaeth iawn ar drugaredd y farchnad. Dyna pam y mae angen inni ddod o hyd i'r modelau newydd hynny sy'n fwy cynaliadwy.

I also agree on the power of scrutiny offered by a strong Welsh media. However, we have never had that in the Senedd, even back in 1999. Finding those models is important, but we must also think outside of the traditional models that we now have and find a way of doing that by using the new means of communication, particularly the internet. I think that those models will very much be focused on that part in the future. I do not have any solutions either, but I certainly know that, unless we find those solutions quickly, we will all be very much the poorer for it.

Rwyf hefyd yn cytuno ynghylch y grym craffu a gynigir gan gyfryngau Cymreig cryf. Fodd bynnag, nid fu hynny gennym erioed yn y Senedd, hyd yn oed yn ôl yn 1999. Mae dod o hyd i'r modelau hynny'n bwysig, ond mae'n rhaid inni hefyd feddwl y tu allan i'r modelau traddodiadol sydd gennym yn awr a dod o hyd i ffordd o wneud hynny drwy ddefnyddio dulliau newydd o gyfathrebu, yn enwedig y rhyngrwyd. Credaf y bydd y modelau hynny'n canolbwyntio'n fawr iawn ar yr elfen honno yn y dyfodol. Nid oes gennyf atebion ychwaith, ond rwyf yn sicr yn gwybod, os na ddown o hyd i'r atebion hynny'n gyflym, y byddwn i gyd yn dlotach o lawer o'r herwydd.

18:38

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister for Culture and Sport, John Griffiths, to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, John Griffiths, i ymateb i'r ddadl.

18:38

## John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

I begin by thanking Ken Skates for tabling this debate. I also thank other Members for their contributions. Obviously, there is—rightly—cross-party concern about developments in relation to the media industry in Wales. As Ken has made clear, there is something of a crisis at a local and national level. It is, for the reasons that Ken has outlined, something that all of us here need to be concerned about.

Dechreuaf drwy ddiolch i Ken Skates am gyflwyno'r ddadl hon. Hoffwn ddiolch hefyd i'r Aelodau eraill am eu cyfraniadau. Yn amlwg, mae yna—yn briodol— bryder trawsbleidiol am ddatblygiadau mewn perthynas â'r diwydiant cyfryngau yng Nghymru. Fel y mae Ken wedi ei gwneud yn glir, mae rhywfaint o argyfwng ar lefel leol a chenedlaethol. Y mae'n rhywbeth, am y rhesymau y mae Ken wedi'u hamlinellu, y mae angen i bob un ohonom yma fod yn bryderus amdano.

We know, of course, that Wales is in a challenging situation. A low percentage of the population here read newspapers specifically about Wales, which is in contrast to the situation in Scotland, for example. Unfortunately, the UK print media does not give a good service to Welsh citizens. You would, in fact, have to look very carefully in the UK's leading papers to find any news about Welsh politics. When articles do appear, they are often negative and misleading. Ken Skates rightly talks about a democratic deficit and the negative impact on civic society in Wales and devolution. Unfortunately, the media is not stepping up to the mark, in terms of being up to pace with the modern Wales that we have and ensuring that it plays a full and positive role. The statistic that Ken cites—90% of newspapers that are read in Wales do not have any news at all about Wales in them—starkly illustrates that lack of engagement and the knock-on effects in terms of scrutiny, as he rightly said. Therefore, there is a lot of work to be done and a lot of improvements to be made.

Rydym yn gwybod, wrth gwrs, fod Cymru mewn sefyllfa heriol. Canran isel o'r boblogaeth yma sy'n darllen papurau newydd yn benodol am Gymru, sy'n wahanol i'r sefyllfa yn yr Alban, er enghraifft. Yn anffodus, nid yw cyfryngau print y Deyrnas Unedig yn rhoi gwasanaeth da i ddinasyddion Cymru. Byddai'n rhaid ichi, mewn gwirionedd, edrych yn ofalus iawn ym mhapurau mwyaf blaenllaw'r DU i ddod o hyd i newyddion am wleidyddiaeth Cymru. Pan fydd erthyglau'n ymddangos, maent yn aml yn negyddol ac yn gamarweiniol. Mae Ken Skates yn sôn yn briodol am ddiffyg democrataidd a'r effaith negyddol ar y gymdeithas ddinesig yng Nghymru ac ar ddatganoli. Yn anffodus, nid yw'r cyfryngau'n ateb yr her, o ran mynd bob yn gam â'r Gymru fodern sydd gennym a sicrhau eu bod yn chwarae rhan lawn a chadarnhaol. Mae'r ystadegyn y mae Ken yn ei ddyfynnu—nad yw 90% o bapurau newydd sy'n cael eu darllen yng Nghymru yn cynnwys unrhyw newyddion o gwbl am Gymru—yn dangos yn glir y diffyg ymgysylltu ac effeithiau hynny o ran craffu, fel y dywedodd yn briodol iawn. Felly, mae llawer o waith i'w wneud ac mae llawer o welliannau i'w gwneud.

Ken has outlined some possible ways forward around advertising, notices and procurement policy. He mentioned an interesting idea in terms of those papers that do not have a correspondent based here coming together in a consortium to make sure that they have, collectively, a Senedd-based correspondent. There are ideas around, and it is very good to see them being put on the table in today's debate. We know, clearly, that local newspapers have an essential contribution to make in order to provide news that specifically reflects what happens in local communities, in a way that national British newspapers do not provide. Mike Hedges stated his appreciation of the role that the 'South Wales Evening Post' fulfils. That is one example, among a number in Wales, of the importance of local and regional newspapers. It is clear that that role is strong and could be strengthened. We need to make sure that we are recognising these issues.

Mae Ken wedi amlinellu rhai ffyrdd posibl ymlaen o ran hysbysebu, hysbysiadau a pholisi caffael. Soniodd am syniad diddorol o ran y papurau hynny nad oes ganddynt ohebydd yma yn dod at ei gilydd mewn consortiwm i wneud yn siŵr bod ganddynt, gyda'i gilydd, ohebydd yn y Senedd. Mae syniadau i'w cael, ac mae'n dda iawn eu gweld yn cael eu rhoi ar y bwrdd yn y ddadl heddiw. Gwyddom, wrth gwrs, fod gan bapurau newydd lleol gyfraniad hanfodol i'w wneud er mwyn darparu newyddion sy'n adlewyrchu'n benodol yr hyn sy'n digwydd mewn cymunedau lleol, mewn ffordd nad yw papurau newydd cenedlaethol Prydeinig yn ei wneud. Nododd Mike Hedges ei werthfawrogiad o'r rôl y mae'r 'South Wales Evening Post' yn ei chyflawni. Dyna un enghraifft, ymhlith nifer yng Nghymru, o bwysigrwydd papurau newydd lleol a rhanbarthol. Mae'n amlwg bod y rôl yn gryf ac y gellid ei chryfhau. Mae angen inni wneud yn siŵr ein bod yn cydnabod y materion hyn.

It has been disappointing to hear, in recent years, of the many job losses in local newspapers and the closure of offices. The Welsh Government was very concerned to hear earlier this year of further job losses at Media Wales. As a Government, we wrote to Trinity Mirror and Media Wales to express our concern and disappointment. I will be meeting with Media Wales in a few weeks' time, and that will be a further opportunity to underline the importance of maintaining the distinct content that its Welsh readership currently enjoys.

Mae wedi bod yn destun siom clywed, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, am golli llawer o swyddi mewn papurau newydd lleol a chau swyddfeydd. Roedd Llywodraeth Cymru yn bryderus iawn o glywed yn gynharach eleni am golli rhagor o swyddi yn Media Wales. Fel Llywodraeth, ysgrifenasom at Trinity Mirror a Media Wales i fynegi ein pryder a'n siom. Byddaf yn cyfarfod â Media Wales ymhen ychydig wythnosau, a bydd hynny'n gyfle pellach i danlinellu pwysigrwydd cadw'r cynnwys penodol y mae ei ddarllenwyr yng Nghymru yn ei fwynhau ar hyn o bryd.

We know, of course, that there is a background to these matters. The Welsh Government does not have any direct responsibility in relation to the newspaper industry in Wales. However, we have grave concerns, particularly at the local level. Many local newspapers remain under threat, mainly because of reductions in sales and advertising revenue, and the increasing emphasis on the internet and mobile devices. Of course, Wales is no different to the majority of the world in that respect—these trends are worldwide. The newspaper industry has to adapt, particularly in respect of technological changes. Although a number of developments have had a negative impact, technology provides important opportunities as well for community journalism to make its mark online, thereby ensuring that communities are engaged. The beauty of interactive technology is that it is easier today for more people to report their own local news, which is very empowering, than it was in the days of the printing press. That also offers important advantages, in terms of rolling coverage, not just once a day or once a week.

Rydym yn gwybod, wrth gwrs, fod cefndir i'r materion hyn. Nid oes gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb uniongyrchol mewn perthynas â'r diwydiant papurau newydd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gennym bryderon difrifol, yn enwedig ar lefel leol. Mae llawer o bapurau newydd lleol yn dal dan fygythiad, yn bennaf oherwydd gostyngiad yn eu gwerthiant a'u refeniw hysbysebu, a'r pwyslais cynyddol ar y rhyngrwyd a dyfeisiau symudol. Wrth gwrs, nid yw Cymru'n wahanol i'r rhan fwyaf o'r byd yn hynny o beth—mae'r tueddiadau hyn i'w gweld ledled y byd. Rhaid i'r diwydiant papurau newydd addasu, yn enwedig mewn perthynas â newidiadau technolegol. Er bod nifer o ddatblygiadau wedi cael effaith negyddol, mae technoleg yn cynnig cyfleoedd pwysig yn ogystal i newyddiaduraeth gymunedol wneud ei marc ar-lein, a thrwy hynny sicrhau bod cymunedau'n cael eu cynnwys. Yr hyn sy'n wych am dechnoleg ryngweithiol yw ei bod yn haws heddiw i fwy o bobl adrodd eu newyddion lleol eu hunain nag yr oedd yn nyddiau'r wasg argraffu, ac mae hynny'n grymuso pobl yn fawr. Mae hefyd yn cynnig manteision pwysig, o ran sylw treigl, nid dim ond unwaith y dydd neu unwaith yr wythnos.

Therefore, this is about balance. Traditional print newspapers continue to have a role, but they and others need to adapt to the online world that we live in today, and there needs to be mutual complementarity.

Felly, mae hyn yn ymwneud â chydbwysedd. Mae papurau newydd print traddodiadol yn parhau i chwarae rhan, ond mae angen iddynt hwy ac eraill addasu i'r byd ar-lein yr ydym yn byw ynddo heddiw, ac mae angen cyfatebolrwydd rhwng y naill i'r llall.

We have not really discussed issues related to broadcasting—radio and television—and that is, obviously, a very important part of the overall picture. The Welsh Government remains very much engaged in developments around S4C, channel 3 and ITV Wales. We work with our broadcasting advisory panel, and there is much work taking place in terms of television and radio. However, Ken Skates has concentrated on print and some of the new online developments, and I will do likewise.

Nid ydym wedi trafod materion sy'n ymwneud â darlledu—radio a theledu—ac mae hynny, yn amlwg, yn rhan bwysig iawn o'r darlun cyffredinol. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymwneud i raddau helaeth â datblygiadau o amgylch S4C, sianel 3 ac ITV Cymru. Rydym yn gweithio gyda'n panel darlledu ymgynghorol, ac mae llawer o waith yn digwydd o ran teledu a radio. Fodd bynnag, mae Ken Skates wedi canolbwyntio ar brint a rhai o'r datblygiadau ar-lein newydd, a byddaf innau'n canolbwyntio ar hynny hefyd.

The Welsh Government supports a number of initiatives that aim to increase opportunities for citizens in Wales to receive information about their local communities. These include Golwg360, the online Welsh-language news service. It is continuing to develop and an increasing number of Welsh speakers are visiting the site to obtain breaking news stories. It also plays a vital part in the Welsh Government's aspiration of seeing plurality of news services in Wales. It is interesting to note that one of Golwg's main priorities for the future is to provide hyper-local content.

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi nifer o fentrau i geisio cynyddu cyfleoedd i ddinasyddion yng Nghymru dderbyn gwybodaeth am eu cymunedau lleol. Mae'r rhain yn cynnwys Golwg360, y gwasanaeth newyddion Cymraeg ar-lein. Mae'r gwasanaeth yn dal i ddatblygu ac mae nifer cynyddol o siaradwyr Cymraeg yn ymweld â'r safle i gael straeon newyddion sy'n torri. Mae hefyd yn chwarae rhan hanfodol yn nyhead Llywodraeth Cymru i weld llawer o wahanol wasanaethau newyddion yng Nghymru. Mae'n ddiddorol nodi mai un o brif flaenoriaethau Golwg ar gyfer y dyfodol yw darparu cynnwys hyper-leol.

I was very interested to hear Ken Skates mention the 'South Wales Argus' and the editor Kevin Ward, whom I know very well, and the initiative around pay walls for online news. It is really important, is it not, that if people are to access and value access to news in that way, that we address issues around sustainability in terms of charging? That is a really interesting initiative that the editor of the 'South Wales Argus' has taken.

Roedd gennyf ddiddordeb mawr clywed Ken Skates yn sôn am y 'South Wales Argus' a'r golygydd Kevin Ward, yr wyf yn ei adnabod yn dda iawn, a'r fenter ynghylch 'waliau talu' ar gyfer newyddion ar-lein. Mae'n wirioneddol bwysig, onid yw, os yw pobl am gael mynediad i newyddion yn y modd hwnnw a gwerthfawrogi hynny, ein bod yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chynaliadwyedd o ran codi tâl? Dyma fenter wirioneddol ddiddorol y mae golygydd y 'South Wales Argus' wedi ei chymryd.

As I said, I will concentrate on print, news service around print media and some of the related online developments, but, in passing, I will just say that, with our £100,000 grants for community radio, we have addressed an important part of the overall picture in terms of that locality.

Fel y dywedais, rwyf am ganolbwyntio ar brint, gwasanaeth newyddion o amgylch y cyfryngau print a rhai o'r datblygiadau ar-lein cysylltiedig, ond, wrth fynd heibio, rwyf am ddweud, gyda'n grantiau o £100,000 i radio cymunedol, ein bod wedi mynd i'r afael â rhan bwysig o'r darlun cyffredinol yn y maes hwnnw.

I will go on to mention 'papurau bro' in terms of Welsh-language provision, because that provision is envied internationally. It is a printed Welsh-language community newspaper delivery. There are 50 or so titles across Wales and these receive funding from the Welsh Government. The first of these, 'Y Dinesydd', which covers the Cardiff area, was first published in 1973 and is still going strong today. There is not a patch of Wales that is not served by these initiatives. It is all-encompassing, grass-roots, journalistic activity and something that we can be proud of. We know that sustainability is an issue there as well, because the volunteer editors and writers are growing old and we could be in danger of losing a few titles each year unless a way can be found to enthuse young people in local journalism and modernise production and distribution. With more people turning to new technology for their news, it is vital that we help and make sure that new methods of communication such as these are sustained. Technology has a vital part to play in the future of the Welsh language and that is why it is such a central element of the Government's five-year Welsh language strategy.

Byddaf yn mynd ymlaen i sôn am 'bapurau bro' o ran darpariaeth Gymraeg, oherwydd bod y ddarpariaeth honno'n destun eiddigedd yn rhyngwladol. Darpariaeth drwy bapurau newydd cymunedol Cymraeg printiedig yw hon. Mae oddeutu 50 o deitlau ledled Cymru ac mae'r rhain yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y cyntaf o'r rhain, 'Y Dinesydd', yn ardal Caerdydd, ei gyhoeddi gyntaf yn 1973 ac mae'n dal i fynd o nerth i nerth. Nid oes yr un rhan o Gymru nad yw'n cael ei gwasanaethu gan y mentrau hyn. Mae'n weithgaredd newyddiadurol hollgynhwysol, ar lawr gwlad, ac yn rhywbeth y gallwn fod yn falch ohono. Rydym yn gwybod bod cynaliadwyedd yn broblem yno hefyd, gan fod y golygyddion a'r awduron gwirfoddol yn heneiddio a gallem fod mewn perygl o golli ychydig o deitlau bob blwyddyn oni ellir dod o hyd i ffordd o ennyn diddordeb pobl ifanc mewn newyddiaduraeth leol a moderneiddio dulliau cynhyrchu a dosbarthu. Gyda mwy o bobl yn troi at dechnoleg newydd ar gyfer eu newyddion, mae'n hanfodol ein bod yn helpu ac yn gwneud yn siŵr bod dulliau newydd o gyfathrebu fel y rhain yn cael eu cynnal. Mae gan dechnoleg ran hanfodol i'w chwarae yn nyfodol y Gymraeg, a dyna pam y mae'n elfen mor ganolog o strategaeth iaith Gymraeg pum mlynedd y Llywodraeth.

In conclusion, the Welsh Government is therefore very concerned at the current state of the media industry in Wales and very much shares the concerns of Ken Skates and other Members. A vibrant media sector is an essential component of a modern democratic society. As a nation with its own language, culture and political institutions, a strong media industry is essential to provide a comprehensive service that engages, informs, educates, and indeed inspires, the people of Wales. The Welsh Government will continue to stand up for maintaining full services in the Welsh and English languages at a national and local level.

I gloi, felly, mae Llywodraeth Cymru yn bryderus iawn am gyflwr diwydiant y cyfryngau yng Nghymru ar hyn o bryd ac yn rhannu pryderon Ken Skates ac Aelodau eraill yn fawr iawn. Mae sector cyfryngau bywiog yn elfen hanfodol o gymdeithas ddemocrataidd fodern. Fel cenedl gyda'i hiaith, ei diwylliant a'i sefydliadau gwleidyddol ei hun, mae diwydiant cyfryngau cryf yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaeth cynhwysfawr sy'n ymgysylltu â phobl Cymru, ac yn eu hysbysu, yn eu haddysgu, ac yn wir yn eu hysbrydoli. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i sefyll dros gynnal gwasanaethau llawn yn y Gymraeg a'r Saesneg ar lefel genedlaethol a lleol.

18:49

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

That brings today's business to a close.

Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.49 p.m.*

*The meeting ended at 6.49 p.m.*

This page is intentionally left blank